

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH	THE EXECUTIVE	
DYDD IAU 2 MAWRTH 2023 10:00 o'r gloch	THURSDAY 2 MARCH 2023 10:00 am	
CYFARFOD HYBRID – YN SIAMBR Y CYNGOR AC YN RHITHWIR	HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN THE COUNCIL CHAMBER	
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/The Party of Wales

Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group

Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **MATERION BRYN ARDYSTIWIYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2023.

4 **MONITRO CYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3, 2022/23** (Tudalennau 5 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

5 **MONITRO CYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 3, 2022/23** (Tudalennau 29 - 46)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

6 **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 3, 2022/23** (Tudalennau 47 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2022/23** (Tudalennau 57 - 74)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 **DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2023/24** (Tudalennau 75 - 116)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

9 **POLISI DARPARIAETH REFENIW ISAF** (Tudalennau 117 - 160)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

- 10 **GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DI-BRESWYL YN Y GYMUNED - FFI OEDD A THALIADAU 2023/24** (Tudalennau 161 - 166)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.
- 11 **CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL AR GYFER POBL HYN - PENNU FFI SAFONOL 2023/24** (Tudalennau 167 - 170)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.
- 12 **FFI OEDD A THALIADAU 2023/24** (Tudalennau 171 - 214)
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.
- 13 **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2023/24** (Tudalennau 215 - 230)
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.
- 14 **STRATEGAETH GYFALAF** (Tudalennau 231 - 260)
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.
- 15 **CYLLIDEB GYFALAF 2023/24** (Tudalennau 261 - 272)
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.
- 16 **CYNLLUN Y CYNGOR 2023-2028** (Tudalennau 273 - 304)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.
- 17 **RHANNU SWYDD AR Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 305 - 322)
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2023

PRESENNOL:	Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd) Cynghorwyr Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc Pennaeth Democratiaeth Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Swyddog Pwyllgorau (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr Carwyn Jones, Mrs Carys Edwards (Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid)
HEFYD YN BRESENNOL:	Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Derek Owen, Pip O'Neill, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Alwen Watkin, Arfon Wyn.

1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2. MATERION BRYD A ARDYSTIUYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y sefyllfa yn sgil y bwriad i gau ffatri ddofednod 2 *Sisters* yn Llangefni a chadarnhaodd bod ymgynghoriad yn mynd rhagddo gyda staff y ffatri ar hyn o bryd ac nad yw'r gwaith yn debygol o gael ei gwblhau tan ddechrau mis Mawrth. Yn y cyfamser mae'r Cyngor mewn cysylltiad â'r perchnogion yn ogystal â grŵp bwyd 2 *Sisters* ac mae'n gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghyd â'r Undebau Llafur. Gellid sefydlu Canolfan Waith yng Nghanolfan Fusnes y Cyngor fel bod modd i staff gael mynediad hwylus at gyngor a chymorth a bwriedir hefyd darparu llawlyfr i staff sy'n cynnwys gwybodaeth angenrheidiol a manylion cyswllt mewn perthynas â chyflogaeth a chymorth cymdeithasol a lles. Hefyd, cynhaliodd y Cyngor sesiwn galw heibio yn y dderbynfa'r wythnos ddiwethaf yn ei rôl fel cyflogwr mawr yn lleol. Er ei bod hi'n anodd gwneud unrhyw gynlluniau pendant hyd nes y bydd y cwmni'n cadarnhau'r hyn y mae'n bwriadu'i wneud gyda'r ffatri, mae'n galonogol adrodd bod rhai o'r gweithwyr wedi llwyddo i gael gwaith gyda chwmnïau eraill o fewn yr isranbarth sy'n dyst i werth y sgiliau y maent wedi eu datblygu ar y safle yn Llangefni. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y sefyllfa'n dod yn gliriach unwaith y bydd yr ymgynghoriad gyda'r staff wedi dod i ben.

3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2023 i'w cadarnhau.

Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2023 yn gywir.

4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth, a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Mawrth i Ebrill, 2023, i gael ei ystyried.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r eitemau newydd ar y Rhaglen Waith sef eitem 6 (Newidiadau i'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw) ac eitem 13 (Cynllun y Cyngor 2023-28) a fydd yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth, 2023 ac eitem 18 (Moderneiddio Ysgolion - Symud dyddiad gweithredu'r rhybudd statudol ar gyfer Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn) a fydd yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 21 Mawrth, 2023.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddarau am y cyfnod Mawrth 2023 i Hydref 2023 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, a oedd yn cynnwys Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ystâd Elusennol David Hughes ac Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2021/22, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o gefndir Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ynghyd â chrynodeb o berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth yn 2021/22. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad ar y cynnydd o ran dosbarthu mwy o gyllid yr Ymddiriedolaeth i gyflawni dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer a dywedodd bod Gwaddol David Hughes yn dyddio'n ôl i 1608 a'i fod yn cynnwys nifer o blotiau o dir mân-ddaliadau a bythynnod a buddsoddiadau eraill. Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'r eiddo y mae'n buddsoddi ynddynt a difidendau a llog ar fuddsoddiadau'r Gronfa Fuddsoddi. Caiff costau rheoli, ariannol a gweinyddol y stad eu tynnu o'r rhenti a geir er mwyn penderfynu ar yr incwm net y gellir ei rannu yn ystod y flwyddyn fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Yn 2019, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith raglen waith a fyddai'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i ddsbarthu cyllid yr Ymddiriedolaeth yn fwy effeithiol i i fwy o fuddiolwyr mewn ysgolion uwchradd neu addysg bellach/uwch ar Ynys Môn. Aeth y Cynghorydd Robin Williams ymlaen i ddweud bod angen cwblhau gwaith pellach i hyrwyddo cyllid yr Ymddiriedolaeth ymysg ysgolion Ynys Môn a bydd y mater hwn yn cael ei godi mewn cyfarfod rhwng yr ysgolion, y Swyddog Adran 151 a'r Aelodau Portffolio Cyllid ac Addysg. Hefyd, roedd o'r farn bod angen adolygu'r Ymddiriedolaeth gyda'r nod o'i diweddarau a'i gwneud yn fwy perthnasol i'r amodau a gofynion addysgol presennol. Mae cynllun gweithredu a dogfennau'r Ymddiriedolaeth wedi'u geirio'n hen ffasiwn ac mae angen eu diwygio a'u diweddarau. Ni allai warantu y byddai newidiadau yn cael eu gwneud achos fod hynny yn dibynnu ar y cyngor cyfreithiol a dderbynnir ond roedd o'r farn bod angen cynnal adolygiad a'i fod yn amserol gwneud hynny. Cynigodd felly bod y bwriad hwnnw'n cael ei ffurfioli drwy benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith.

Roedd y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Plant (Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid yn croesawu'r adolygiad yn enwedig petai hynny'n golygu y gallai mwy o bobl ifanc sydd mewn addysg ar Ynys Môn elwa ohono a hynny mewn cyfnod anodd sydd yn debygol o bara am beth amser eto.

Penderfynwyd –

- **Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2021/22.**
- **Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yr awdurdod i lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Terfynol a'u ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennau ar ôl cwblhau'r archwiliad yn foddhaol.**
- **Awdurdodi cynnal adolygiad o Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn gyda'r nod o ddiweddarau a moderneiddio'r Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau'r buddion addysgol gorau posibl ohono ar gyfer pobl ifanc Ynys Môn.**

6. FFIGOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL AR GYFER 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar bennu ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol ar gyfer 2023/24 yn unol â'r â'r polisi cenedlaethol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau oedolion y bydd yr Awdurdod yn parhau i ddefnyddio'r Fethodoleg Ffioedd Rhanbarthol ar gyfer ffioedd Preswyl a Nyrsio Sylfaenol ond bwriedir defnyddio cyfraddau ffioedd uwch ar gyfer darpariaeth EMI Preswyl a Nyrsio. Efallai y bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried ceisiadau unigol gan ddarparwyr ynghylch y ffioedd hyn ac os gellir dangos nad yw'r ffi a osodwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd angen i'r Awdurdod ystyried eithriadau i'r cyfraddau ffioedd n unol â'r prosesau a gynigir yn yr adroddiad.

Cynghorodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, oherwydd natur y galw am welyau EMI ar yr ynys ac er mwyn annog darpariaeth bellach, bod y gwasanaeth yn argymhell y dylai ffioedd yr EMI aros yn uwch na chyfradd Methodoleg Gogledd Cymru. Cynhaliodd yr Awdurdod adolygiad canol blwyddyn o ffioedd ym mis Gorffennaf 2022 ac yn ystod yr adolygiad hwn cynyddwyd y ffioedd diwygiedig ar gyfer EMI Preswyl a Nyrsio ar gyfer 2022/23 ymhellach a chynigir bod y newidiadau hynny'n cael eu cadw.

Penderfynwyd –

- **Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru fel y'i gweithredwyd hyd yn hyn gan Awdurdodau Gogledd Cymru fel sail i osod ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2023/24 (Tabl 1 yn yr adroddiad);**
- **Cymeradwyo'r argymhelliad i godi lefel y ffioedd fel a ganlyn:-**
- **Gofal Preswyl (Oedolion) – £711.83**
- **Preswyl (EMI) - £795.46**
- **Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £774.54 + elfen FNC yr Awdurdod Lleol (l'w gadarnhau)**
- **Nyrsio (EMI) (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £915.37 + elfen FNC yr Awdurdod Lleol (l'w gadarnhau)**
- **Awdurdodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Cyllid i ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i archwilio eu cyfrifon penodol a**

defnyddio'r ymarfer fel sail i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Unrhyw eithriadau i'w cytuno gyda'r Aelod Portffolio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Oedolion o'r cyllidebau presennol.

7. SEFYDLU PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO NEWYDD AR GYFER CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, a oedd yn nodi'r trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer gwaith polisi cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Nicola Roberts, Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd a ddywedodd bod y penderfyniad gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i ddod â'r cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio i ben ar 31 Mawrth 2023 yn golygu y bydd rhaid diddymu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Bydd rhaid i'r awdurdodau unigol roi trefniadau newydd ar waith er mwyn cyfrannu at y gwaith o greu Cynllun Datblygu Lleol newydd a gwaith polisi cynllunio cysylltiedig. Mae'r adroddiad felly'n cynnig creu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'n nodi swyddogaethau'r pwyllgor a'r trefniadau ar gyfer ei lywodraethu.

Amlygodd y Cadeirydd bod y penderfyniad i ddod â'r cytundeb cydweithio rhwng y ddau gyngor i ben wedi'i wneud ym mis Gorffennaf 2022 a bod y sail resymegol dros y penderfyniad hwnnw wedi'i egluro ar yr adeg honno; mae'r adroddiad yn rhan o'r broses o ddatgysylltu a sefydlu polisi cynllunio ar wahân ar gyfer Ynys Môn. Fodd bynnag, bydd y berthynas waith sy'n bodoli rhwng y ddau gyngor o ran rhannu gwybodaeth a monitro'r Cynllun Datblygu ar y Cyd cyfredol yn parhau.

Penderfynwyd argymhell i'r Cyngor Llawn –

- **I sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.**
- **I ddiwygio'r Cyfansoddiad er mwyn diddymu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ac i ddirprwyo i'r Swyddog Monitro yr hawl i weithredu'r newidiadau hyn.**

**Cynghorydd Llinos Medi
Cadeirydd**

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	2 MAWRTH 2023
Pwnc:	MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 3 2022/23
Aelod Portffolio:	Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	CLAIRE KLIMASZEWSKI, RHEOLWR CYLLID
Ffôn:	
E-bost:	ClaireKlimaszewski@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:	
<ol style="list-style-type: none"> 1. Ar 10 Mawrth 2022, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2022/23 gyda gwariant net y gwasanaethau o £158.365m, i gael ei gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £3.110m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau na chynlluniwyd ar eu cyfer. Gosodwyd cyllideb o £1.950m ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor, sef cynnydd o £0.436m. Gosodwyd cyllideb gytbwys gyda'r cynnydd o 2.00% y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor. 2. Fel y llynedd, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2022/23 yn cynnwys unrhyw ofynion i wasanaethau wneud arbedion. Roedd y cynnydd o 9.2% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru'n gynydd i'w groesawu, ond roedd rhaid i'r Cyngor ymrwymo i gynyddu cyllidebau mewn nifer o feysydd, yn cynnwys gofal cymdeithasol a digartrefedd. Yn ogystal, mae cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant yn gysylltiedig â Covid wedi dod i ben ac mae unrhyw gostau o'r fath yn cael eu cyllido o gyllidebau craidd y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 3, 31 Rhagfyr 2022, ynghyd â'r alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. 3. Mae cost y cytundebau cyflog terfynol ar gyfer staff NJC ac athrawon a'r cynnydd yng nghost contractau ynni'r Cyngor, a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Gan fod yr adroddiad hwn yn crynhoi'r sefyllfa ar ddiwedd y trydydd chwarter, mae rhan helaeth o'r costau yn gostau gwirioneddol, yn hytrach nac yn amcangyfrifon, ac mae llawer mwy o sicrwydd ynghylch y rhagolygon ar gyfer y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â'r chwarteri blaenorol. Yn ogystal, gall cyfnod y gaeaf achosi cynnydd annisgwyl mewn costau oherwydd bod salwch ymysg cleientiaid yn creu mwy o alw am wasanaethau, mae salwch staff yn cynyddu costau cyflogau ac mae digwyddiadau'n gysylltiedig â'r tywydd yn cynyddu costau i'r gwasanaeth Priffyrdd. Gan fod cyfran helaeth o'r gaeaf wedi mynd heibio, mae mwy o sicrwydd am y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn, ond nid yw hynny'n golygu na fydd digwyddiadau annisgwyl yn codi ac yn newid y sefyllfa derfynol. 4. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2022/23, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £1.970m. Mae hyn yn 1.24% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2022/23. Mae cyllidebau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant yn parhau i fod dan bwysau, ond mae tanwariant mewn gwasanaethau eraill yn cydbwysu hyn, ac yn benodol Casglu a Gwaredu Gwastraff. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr adroddiad manwl sydd ynghlwm. 5. Mae dri prif reswm am y tanwariant a ragwelir:- <ol style="list-style-type: none"> i. Mwy o elw ar fuddsoddiadau ariannol oherwydd cynnydd sylweddol mewn cyfraddau llog; ii. Ni fu'n rhaid defnyddio'r cyllidebau wrth gefn; iii. Mae lefelau incwm y Dreth Gyngor yn well na'r disgwyl, yn bennaf gan fod y premiwm ar ail gartrefi a thai gwag yn uwch na'r gyllideb; 	

6. Argymhellir:-

- (i) Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwylidig ar gyfer 2022/23;
- (ii) Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2022/23 y manylir arnynt yn Atodiad C;
- (iii) Nodi'r modd y caiff costau asiantaethau ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2022/23 yn Atodiadau CH, D a DD;
- (iv) Argymhell i Gyngor Sir Ynys Môn y dylai'r Cyngor llawn gymeradwyo symud £1.074m o falansau cyffredinol Cronfa'r Cyngor i gyllideb datganoledig ysgolion, i gwrdd â chostau cyflogau sy'n uwch nag a ganiatawyd yn wreiddiol yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23;
- (v) Cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariant net ar ddigartrefedd ac atal digartrefedd, sef amcangyfrif o £260k, i gronfa wrth gefn glustnodedig ar gyfer digartrefedd ac atal digartrefedd mewn blynyddoedd i ddod. Y rheswm am y tanwariant yw bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynnydd sylweddol o £273k yn y grant Neb Heb Help.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill i osod y strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol a'r gyllideb flynyddol. Bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?-	Amherthnasol
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy?	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:-	Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2022/23 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantaes economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Amherthnasol

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad ac ymgorfforwyd eu sylwadau yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Adolygodd y Panel Sgriwtini Cyllid y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 3 yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror 2023.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
F – Atodiadau:		
<ul style="list-style-type: none"> • Atodiad A – Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2022/23 • Atodiad B - Tabl o'r Alldro Dros Dro ar gyfer 2022/23 • Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau wrth Gefn ar gyfer 2022/23 • Atodiad CH – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2022/23 • Atodiad D – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2022/23 		
Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Cyllideb Refeniw 2022/23 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 3 Mawrth 2022 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 10 Mawrth 2022).		

MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3

1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig o £23.181m a chronfeydd wrth gefn ysgolion gwerth £7.827m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro drafft ar gyfer 2021/22 at falans cyffredinol o £12.050m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol. Cwblhawyd yr archwiliad o gyfrifon 2021/22 a nodwyd un addasiad a oedd yn effeithio ar yr alldro ac ar falans cyffredinol y Cyngor. Argymhellodd yr Archwiliwr y dylid dychwelyd swm o £228k o'r ddarpariaeth hirdymor ar gyfer safle tirlenwi Penhesgyn i refeniw fel bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r ffigwr a argymhellwyd yn adroddiad yr ymgynghorydd, a oedd yn amlinellu canlyniadau profion ar y safle ac yn cynghori ar lefel y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2022. O ganlyniad i hyn, roedd balans cyffredinol terfynol Cronfa'r Cyngor yn £12.278m.

Mae sefyllfa'r balansau cyffredinol ar ddiwedd y chwarter fel a ganlyn:-

Tabl 1

	Swm £'m	Pwrpas
Balans Agoriadol Terfynol	(12.278)	Cronfa wrth gefn gyffredinol derfynol wedi'i harchwilio ar 31 Mawrth 2022.
Cyllid Ychwanegol ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd	0.500	Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022.
Trosglwyddo cyllid i gronfeydd gwasanaeth penodol	0.261	Yn unol â'r Polisi Cronfeydd wrth gefn Gwasanaeth a gymeradwywyd yn 2019/20
Cyllido 50% o £69,732 i sefydlu a gweithredu tîm polisi cynllunio ar gyfer Ynys Môn	0.035	Yn unol â'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Medi 2022
Cyllid ychwanegol i gwrdd â'r dyfarniad tâl ychwanegol i Athrawon 2022/23	1.074	Gweler yr argymhelliad ym mharagraff 2 isod
Balans Cyffredinol Diwygiedig Cronfa'r Cyngor ar 31.12.2022	(10,408)	

Yr alldro presennol a ragwelir ar gyfer 2022/23 yw tanwariant o £1.970m, gan olygu y byddai balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn cynyddu i £12.378m erbyn diwedd y flwyddyn, oni bai y caiff eitemau ychwanegol eu cyllido o'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn ystod y chwarter olaf. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod isafswm o £7.9m ar gyfer y balansau cyffredinol ar gyfer 2022/23, sef 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23. Mae unrhyw falansau uwchlaw'r ffigwr hwn yn darparu lefel uwch o wydnwch ariannol pe byddai'r sefyllfa ariannol yn gwaethgu yn ystod y chwarter olaf, ac mae'n caniatáu i £1.78m o'r gronfa wrth gefn gael ei ddefnyddio i gynorthwyo gyda chyllideb 2023/24.

2. Pwysau ychwanegol ar y Gyllideb yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol

Gosodwyd cyllideb 2022/23 cyn i lefel chwyddiant gynyddu'n sylweddol a'r pwysau dilynol am godiadau cyflog uwch na'r swm a ganiatawyd yn y gyllideb. Crëwyd cronfa wrth gefn wrth gefn glustnodedig gwerth £2.25m i ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â'r costau uwch, ond nid yw'r gronfa wrth gefn hon yn ddigonol i gwrdd â'r pwysau cynyddol ar gostau.

Roedd y gyllideb wreiddiol yn cynnwys swm o thua £2.3m i gwrdd â'r dyfarniadau cyflog ar gyfer athrawon a staff arall. Mae'r dyfarniad cyflog terfynol ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon, sef £1,925 i bob gweithiwr (a gytunwyd ym mis Tachwedd 2022), yn golygu cynnydd cyfartalog o 7.5% a chynnydd o £3.8m yn y costau cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon. Cyllidwyd y dyfarniad cyflog i weithwyr llywodraeth leol nad ydynt yn staff ysgolion trwy ddefnyddio £1.144m o'r gronfa wrth gefn glustnodedig ar gyfer chwyddiant a £1m o gyllidebau wrth gefn.

Bydd y dyfarniad cyflog o 5% i athrawon o fis Medi 2022 yn ychwanegu £926k at y bil cyflogau athrawon, sef £473k yn fwy nag a ganiatawyd yn y gyllideb, er y dylid nodi fod undebau athrawon yn gweithredu'n ddiwydiannol wrth iddynt geisio dyfarniad cyflog uwch. Mae'r sefyllfa gyllido ar gyfer cyllidebau datganoledig ysgolion yn cael ei chrynhoi yn Nhabl 3 isod, ac mae angen swm ychwanegol o £1.074m i gyllido'r cynnydd yn y costau.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi eu bod am wrthdroi'r cynnydd yn y cyfraniadau yswiriant gwladol, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2022. Bydd hyn yn golygu gostyngiad o £260k mewn costau yswiriant gwladol ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y ffigyrau a ddangosir yn Nhabl 2 a 3 isod:-

Tabl 2 – Cyllido Dyfarniadau Cyflog 2022/23

	Staff nad ydynt yn Athrawon £	Athrawon £	Cyfanswm £
Cyfanswm Cost y Dyfarniad Cyflog	3,853,230	925,930	4,779,160
Chwyddiant y caniatwyd yn y Gyllideb ar gyfer 2022/23	(1,946,986)	(354,860)	(2,301,846)
Gostyngiad yng Nghyfraniadau YG Cyflogwr	(162,670)	(97,380)	(260,050)
Diffyg yn y Gyllideb	1,743,574	473,690	2,217,264

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23, roedd balansau ysgolion wedi codi i £7.83m ac, er i ysgolion ddefnyddio £1.65m i gydbwysu eu cyllidebau ac maent wedi defnyddio tua £2.88m o gronfeydd wrth gefn ychwanegol, neu maent yn bwriadu eu defnyddio yn ystod 2023/24, amcangyfrifir y bydd hyn yn gadael balans o £3.3m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Erbyn hyn, mae ysgolion yn cynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a bydd nifer sylweddol o ysgolion yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwysu eu cyllidebau, gan ostwng ymhellach lefel gyffredinol balansau ysgolion. O'r herwydd, ni fydd gan lleiafrif bychan o ysgolion unrhyw falansau o gwbl, neu bydd eu balansau'n isel iawn, tra bydd balansau gweddill yr ysgolion yn sylweddol is nag a welwyd yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Felly, byddai'n anodd i rai ysgolion gyllido'r costau cyflog ychwanegol o'u cronfeydd wrth gefn eu hunain oni bai eu bod yn derbyn dyraniad ychwanegol yn eu cyllideb.

Mae'r diffyg cyllido ar gyfer cyflogau yng nghyllidebau ysgolion i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3 – Diffyg Cyllideb ar gyfer Cyflogau yng Nghyllidebau Datganoledig Ysgolion 2022/23

	Staff nad ydynt yn Athrawon £	Athrawon £	Cyfanswm £
Cyfanswm Cost y Dyfarniad Cyflog i Ysgolion	707,575	921,690	1,629,265
Chwyddiant y caniatwyd ar ei gyfer yng Nghyllideb 2022/23	(86,700)	(354,860)	(441,560)
Gostyngiad yng Nghyfraniadau YG Cyflogwr	(16,690)	(97,380)	(114,070)
Diffyg yn y Gyllideb	604,185	469,450	1,073,635

Oherwydd maint y diffyg yn y gyllideb a'r ffaith fod balansau ysgolion yn gostwng, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymhell i'r Cyngor llawn ei fod yn cyllido £1.074m o gronfa gyffredinol y Cyngor.

Newidiodd prisiau ynni'r Cyngor ym mis Hydref 2022, gyda chynnydd o rhwng 238% a 271% yn y tariffau nwy a chynnydd o rhwng 75% a 108% yn y tariffau trydan. Roedd cynnydd o 110% yn y tâl sefydlog dyddiol ar gyfer nwy a 165% ar gyfer trydan hefyd. Er bod y cynnydd yn sylweddol, mae digon o danwariant mewn meysydd eraill yn y gyllideb i ganiatáu i Wasanaethau gwrdd â'r costau heb orfod rhyddhau cyllid ychwanegol o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor.

3. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

3.1 Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro a ragwelir ar eu cyfer wedi'u nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £0.087m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2023. Rhagwelir tanwariant o £1.668m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir y bydd incwm y Dreth Gyngor safonol £0.122m yn uwch na'r gyllideb, a phremiwm y Dreth Gyngor £0.266m yn uwch na'r gyllideb. Ar hyn o bryd, rhagwelir tanwariant o £1.970m, sef 1.24% o gyllideb referniw net y Cyngor.

3.2 Mae Tabl 4 isod yn crynhoi'r gwahaniaethau sylweddol (£100k neu fwy): -

Tabl 4

Gwasanaeth	Tan/Gorwariant £'000	Alldro fel % o'r gyllideb £'000
Oedolion	613	2.01%
Gwasanaethau Plant	996	8.09%
Priffyrdd	(239)	3.49%
Eiddo	(222)	12.70%
Gwastraff	(1,030)	11.30%
Trawsnewid	(247)	3.79%
Arall (cyfanswm yr amrywiadau gwerth llai na £100k)	(184)	<0.01%
Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rheoli – (darpariaeth ar gyfer dyledion drwg / lwfans colled oherwydd amhariad, costau cyfalaf pensiynau, yswiriant, premiwm ar ail-gyllido hanesyddol)	400	100%
Cyfanswm Cyllideb Gwasanaethau	87	0.06%
Cyllid Corfforaethol	(1,668)	14.07%
Cyllido	(389)	0.25%
Cyfanswm	(1,970)	1.24%

3.3 Y gorwariant a ragwelir ar gyfer Gwasanaethau yw £87k, ond mae'r sefyllfa sylfaenol yn cael ei guddio gan nifer o eitemau untro a chyllid ychwanegol sydd wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol. Mae'r eitemau hyn i'w gweld yn Nhabl 5 isod:-

Tabl 5

	£'000	£'000
Gorwariant a Ragwelir ar Gyllideb Gwasanaethau		87
Eitemau untro a Chyllid ychwanegol		
Swyddi Gwag	2,592	
Incwm Ychwanegol nad yw'n rheolaidd	700	
Cyllid grant ychwanegol nad yw'n rheolaidd	864	
Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn	1,010	5,166
Gorwario Sylfaenol ar Gyllidebau Gwasanaethau		5,253

- 3.4 Heb yr eitemau yma byddai gwir sefyllfa ariannol gwasanaethau'r Cyngor wedi gwaethygu'n sylweddol a byddai wedi gwanhau gwytnwch ariannol y Cyngor yn sylweddol. Mae'r ffigwr o £5.25m yn amlygu'r pwysau ariannol y mae gwasanaethau'n eu hwynebu ar hyn o bryd. Yng nghyngnig cyllideb 2023/24, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ceisio mynd i'r afael â'r pwysau ariannol sylfaenol hyn ac mae'r cynnydd arfaethedig o £14.2m yng nghyllideb referniw net 2023/24 yn rhannol oherwydd sefyllfa ariannol sylfaenol gwasanaethau'r Cyngor.

4. Esboniad o'r Amrywiadau Sylweddol

4.1 Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

4.1.1 Cyllideb Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod y gyllideb ar gyfer ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei datganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion unigol. Trafodir y sefyllfa o ran cyllideb ddatganoledig ysgolion ym mharagraff 2 uchod.

Addysg Ganolog

- 4.1.2 Roedd tanwariant o £87k (11.43%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 3, a rhagwelir tanwariant o £64k (1.15%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn ychydig yn well na'r tanwariant o £78k a ragwelwyd ar gyfer 2022/23 yn yr adroddiad chwarter 2.

- 4.1.3 Mae nifer o feysydd yn gor a thanwario ar draws y Gwasanaeth. Rhestrir y rhai mwyaf isod:-

- Cludiant Ysgol (Tacsis a Bysiau) – rhagwelir gorwariant o £536k. Mae hyn £36k yn uwch na'r gorwariant a nodwyd yn ystod chwarter 2. Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain gan y galw ac mae'r gorwariant yn parhau oherwydd y galw cynyddol am dacsis. Dyranwyd cyllideb ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, ond mae'r gorwariant yn parhau. Yn ogystal, rhoddwyd cymorth ychwanegol i gwmnïau tacsis a bysiau oherwydd y cynnydd mewn costau tanwydd, ac mae hynny wedi cyfrannu at y gorwariant hefyd. Yn dilyn proses dendro newydd ar gyfer bysiau ysgol a gynhaliwyd yn ystod yr haf, daeth y contractau bysiau newydd i rym ar 3 Hydref ac mae'r costau'n sylweddol uwch o gymharu â'r contractau blaenorol.
- Rhagwelir tanwariant o £195k ar leoliadau allsirol, o gymharu â'r tanwariant o £118k a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 2. Nid yw dau ddisgybl yn derbyn addysg allsirol bellach ac mae'r gwasanaeth yn talu cyfraniad is mewn perthynas â lleoliad disgybl arall. Mae posibilrwydd o hyd y gallai'r lleoliadau gynyddu cyn diwedd y flwyddyn, a byddai hynny'n effeithio ar y tanwariant a ragwelir. Fodd bynnag, mae cronfa wrth gefn glustnodedig gwerth £500k ar gael i gwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i gynnydd yn y galw.
- Rhagwelir y bydd incwm y Clwb Gofal Plant £63k yn is na'r targed. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw ac nid yw'r niferoedd sy'n defnyddio'r clybiau wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig.
- Yr alldro a ragwelir ar gyfer prydau ysgol yw gorwariant o £41k, ac mae hyn yn fwy na'r tanwariant o £3k a ragwelwyd ar ddiwedd yr ail chwarter. Mae'n ganlyniad i gynnydd ym mhrisiau'r contractwr arlwygo a ddaw i rym yn dilyn gwyliau hanner tymor mis Chwefror.
- Rhagwelir tanwariant o £510k yn y gyllideb Addysg Ganolog, ac mae hyn yn uwch na'r tanwariant o £486k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2. Y rheswm pennaf yw tanwariant yn y cynllun i benodi Rheolwyr Busnes Ysgolion (dyranwyd cyllideb o £300k), ac mae ansicrwydd a fydd hyn yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae tanwariant o £51k hefyd ar swydd a fu'n wag ers mis Ebrill, er bod y swydd wedi'i llenwi bellach, a rhagwelir tanwariant ar ymgynghorwyr (£14k).
- Mae nifer o fân danwariannau eraill o dan nifer o benawdau yn y gyllideb.

4.1.4 Diwylliant

- 4.1.4.1** Roedd tanwariant o £183k (16.82%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, fodd bynnag, rhagwelir tanwariant o £15k (1.12%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn £30k yn well na'r gorwariant o £15k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2.
- 4.1.4.2** Disgwylir i'r gorwariant a ragwelir ar gyfer Amgueddfeydd ac Oriolau godi o £65k yn chwarter 2 i £105k. Y rheswm am hyn yw diffyg o thua £67k mewn incwm ffioedd a thaliadau. Gallai costau cyfleustodau, trwsio a chynnal a chadw ychwanegu £65k arall at y gorwariant, a dyma'r rheswm pennaf am y gorwariant uwch. Mae tanwariant ar staffio yn lliniaru'r gorwariant yn y gwasanaeth Amgueddfeydd ac Oriolau.
- 4.1.4.3** Rhagwelir tanwariant o £95k ar Lyfrgelloedd, yn bennaf oherwydd nifer o swyddi gweigion, gan gynnwys staff ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell symudol. Mae hyn yn uwch na'r tanwariant o £55k a nodwyd yn chwarter 2.

4.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

- 4.2.1** Roedd gorwariant o £1,025k (4.83%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y trydydd chwarter, o gymharu â'r gyllideb broffiliedig, ond disgwylir iddo ostwng i orwariant o £613k (2.01%) ar gyfer y flwyddyn 2022/23. Mae hyn bron ddwbl y gorwariant o £313k a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 2. Costau uwch gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau corfforol, anableddau dysgu ac iechyd meddwl, a drafodir isod, yw'r rheswm am y cynnydd mewn costau.
- 4.2.2** Roedd yr elfennau yn yr amrywiad yn yr alldro fel a ganlyn:-
- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: Disgwylir tanwariant o £65k yn y gwasanaeth ar ôl dyrannu grant o £200k a £225k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Mae pwysau sylfaenol ar gostau sy'n cael eu cuddio gan y cyllid ychwanegol hwn ar gyfer y flwyddyn. Disgwylir tanwariant o £52k ar y tîm Rheoli Gofal ac Asesu oherwydd swyddi gweigion, er bod costau staff asiantaeth o £46k yn gostwng y tanwariant. Disgwylir tanwariant o £168k yn awr ar ofal preswyl ar gyfer pobl hŷn, ar ôl trosglwyddo £125k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Mae pwysau sylfaenol ar y gyllideb gofal nyrsio ar gyfer pobl hŷn ond mae'n gostwng i orwariant o £3k ar ôl dyrannu £100k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol a £200k o grant gofal cymdeithasol. Mae pwysau ar y gyllideb gofal cartref wedi cynyddu, gyda gorwariant o £148k. Cynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaeth hwn sy'n gyfrifol am hyn.
 - Anableddau Corfforol (AC): Rhagwelir gorwariant o £232k yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y flwyddyn, sef cynnydd o £97k o gymharu â'r gorwariant a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 2. Defnyddiwr gwasanaeth preswyl newydd sydd i gyfrif am hyn. Gwneir y rhagolwg hwn ar ôl dyrannu £332k o gyllid grant. Fodd bynnag, mae'r gorwariant sylfaenol yn llawer uwch, sef £564k. Costau gofal preswyl yw'r prif reswm am y gorwariant sylfaenol o ganlyniad i leoliadau costus i gwrdd ag anghenion gofal arbenigol. Disgwylir gorwariant o £176k ar Gymorth Cartref oherwydd cynnydd yn y galw.
 - Anableddau Dysgu (AD): Rhagwelir gorwariant o £526k ar gyfer y flwyddyn. Cynnydd o gymharu â'r gorwariant o £353k a ragwelwyd yn chwarter 2. Fodd bynnag, mae gorwariant sylfaenol sylweddol o £1,643k, sydd yn gostwng eleni trwy ddefnyddio cyllid grant cymwys a chyllid o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Rhagwelir gorwariant o £227k ar ofal preswyl, ar ôl dyrannu £75k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Rhagwelir gorwariant o £117k ar y gwasanaeth gofal dydd ar gyfer y flwyddyn oherwydd cynnydd yn y galw, ac mae'n uwch na'r gorwariant o £86k a nodwyd yn flaenorol. Disgwylir cyllideb gytbwys ar gyfer gofal cartref ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â gorwariant o £32k a ragwelwyd yn chwarter 2. Mae hyn yn dilyn dyrannu £300k o'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol. Strategaeth y gwasanaeth yw cynyddu nifer y cleientiaid sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn hytrach na gofal cartref wedi'i gomisiynu, er mwyn rhoi'r grym i ddefnyddwyr gwasanaeth a rhoi dewis a rheolaeth iddynt dros eu hanghenion gofal cartref. Rhagwelir gorwariant o £204k ar lety â chymorth a llety arall, ar ôl dyrannu £332k o gyllid grant a £410k o'r gronfa wrth gefn gofal cymdeithasol. Felly, y gorwariant sylfaenol ar lety â chymorth a llety arall yw £946k.

- Iechyd Meddwl (IM): Rhagwelir gorwariant o £597k ar y gwasanaeth hwn erbyn 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn gynydd sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £153k a nodwyd yn chwarter 2. Fodd bynnag, symudwyd £200k o gyllid grant o'r maes hwn i feysydd eraill yn y Gwasanaeth Oedolion. Mae'r pwysau sylweddol am wasanaethau Iechyd Meddwl ym maes gofal preswyl, a rhagwelir gorwariant o £568k. Mae dau ddefnyddiwr gwasanaeth newydd wedi cynyddu costau'r gwasanaethau yma. Mae'n wasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw ac mae'n ymwneud yn bennaf â nifer fechan o leoliadau drud. Rhagwelir tanwariant o £149k ar gefnogaeth gymunedol yn 2022/23, oherwydd swyddi gweigion. Mae byw â chymorth yn rhagweld gorwariant o £171k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae £114k ymwneud â chleient newydd sy'n derbyn gofal 24 awr y dydd mewn lleoliad byw â chymorth. Mae gweddill y gorwariant yn ymwneud yn bennaf â chost lleoliadau i oedolion ac mae'n ategu nod y gwasanaeth i gleientiaid dderbyn cymorth yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned.
- Uned Ddarparu a Rheolaeth a Chefnogaeth: Mae'r maes hwn yn rhagweld tanwariant o £491k ar ddiwedd y flwyddyn. I raddau helaeth, mae'r tanwariant a rhagwelir yn y maes hwn yn ganlyniad swyddi gweigion amrywiol, yn arbennig mewn unedau ardaloedd gofal cartref (£421k). Fodd bynnag, mae rhywfaint o bwysau ar gostau yn yr uned ddarparu fewnol, a rhagwelir gorwariant o £126k ar gartrefi preswyl erbyn diwedd y flwyddyn, oherwydd costau staff asiantaeth ac incwm is na'r disgwyl, a disgwylir gorwariant o £40k ar hosteli ar ddiwedd y flwyddyn.

4.3 Gwasanaethau Plant

- 4.3.1 Roedd gorwariant o £751k (6.71%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod a rhagwelir gorwariant o £996k, ond mae hyn yn llai na'r gorwariant o £1,048k a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 2. Y prif reswm am y gwelliant yw llai o wariant ar Blant ag Anabledau oherwydd swyddi gweigion. Mae'r meysydd lle ceir tan neu orwariant sylweddol yn cael eu nodi isod. Ymddengys fod gorwariant cynhenid yn y mwyafrif o benawdau yn y Gwasanaethau Plant a gallai hyn arwain at bwysau yn y cyllidebau tu hwnt i 2022/23.
- 4.3.2 Roedd gorwariant o £899k yn y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal hyd at chwarter 3 a'r rhagolwg ar hyn o bryd yw gorwariant o £1,235k ar ddiwedd y flwyddyn. Lleoliadau allsirol (£813k) sy'n bennaf gyfrifol am hynny. Mae'r holl feysydd eraill yn gorwario hefyd, heblaw am leoliadau ansafonol (£88k o danwariant). Rhagwelir gorwariant o £206k ar y Cartrefi Clyd, oherwydd costau staffio ac asiantaeth. Disgwylir gorwariant o £220k ar leoliadau gofal maeth hefyd.
- 4.3.3 Rhagwelir tanwariant o £182k ar gomisiynu a gwaith cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn oherwydd costau staffio is o ganlyniad i swyddi gweigion ac incwm grantiau. Disgwylir gorwariant o £142k ar Gymorth i Deuluoedd ar ddiwedd y flwyddyn. Y rheswm pennaf am hyn yw gorwariant yn y gwasanaeth 'Pan Fydda i'n Barod' ac mae'n debygol o gynyddu eto oherwydd cynnydd ym mhrisiau contractau tacsis ysgol. Fodd bynnag, mae disgwyl tanwariant o £177k ar gymorth integredig i deuluoedd ar gyfer y flwyddyn, yn bennaf oherwydd tanwariant ar gostau staff. Disgwylir gorwariant o £56k ar adolygu a chwynion oherwydd pwysau yn y tîm tu allan i oriau.

4.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

- 4.4.1 Roedd tanwariant o £37k (1.78%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 3, ond rhagwelir gorwariant o £10k (0.51%) ar alldro y flwyddyn. Mae hyn yn ostyngiad o £20k yn y gorwariant o £30k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2.
- 4.4.2 Digartrefedd yw'r maes sy'n achosi'r pryder mwyaf yn nhermau pwysau sylfaenol ar y gyllideb, ond, serch hynny, llwyddodd y gwasanaeth i adennill taliadau budd-dal tai ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a leolwyd mewn llety argyfwng. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r Grant Digartrefedd yn ddiweddar, gan olygu fod y tanwariant wedi cynyddu i £300k. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn rhagweld cyllideb gytbwys ar gyfer digartrefedd gan fod cais i drosglwyddo tua £260k o'r grant ychwanegol i gronfa wrth gefn glustnodedig i'w defnyddio mewn blynyddoedd i ddod pan ddisgwylir gostyngiad yn y grant.

4.4.3 Rhagwelir cyllideb gytbwys ar gyfer atal digartrefedd ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â'r gorwariant o £60k a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 2, a hynny oherwydd y cyllid ychwanegol. Er bod y gorwariant sylfaenol yn destun pryder, mae'r costau hyn wedi cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i osgoi cael eu gwneud yn ddigartref, ac mae hynny'n ganlyniad gwell iddynt ac mae'n lleihau gwariant ar lety argyfwng.

4.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

4.5.1 Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

4.5.1.1 Roedd gorwariant o £112k (6.51%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y trydydd chwarter, a rhagwelir gorwariant o £94k (3.91%) ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn gynydd bychan o gymharu'r â'r £8k a nodwyd yn chwarter 2.

4.5.1.2 Disgwylir gorwariant o £32k ym maes Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â £46k yn chwarter 2. Mae diffyg hanesyddol gan nad oes modd gwreiddu'r targedau incwm ar gyfer prosiectau megis Wylfa Newydd a'r Grid Cenedlaethol bellach. Mae pwysau arall ar y gyllideb yn cynnwys cyfleusterau'r ganolfan (£20k), diffyg mewn incwm dylunio graffeg (£10k) a thanysgrifiadau (£20k). Rhagwelir tanwariant o £85k ar ailstrwythuro rheolwyr a swyddi gweigion eraill.

4.5.1.3 Disgwylir tanwariant o £90k yn yr adain Cyrchfan erbyn diwedd y flwyddyn, o gymharu â swm o £48k a nodwyd yn chwarter 2. Ymddengys fod nifer ymwelwyr â'r Ynys wedi disgyn o gymharu â'r niferoedd eithriadol o uchel a welwyd y llynedd. Mae hyn wedi arwain at recriwtio llai o staff tymhorol na'r bwriad gwreiddiol, ac mae oedi wrth recriwtio i swyddi yn y gwasanaeth morwrol. Felly, disgwylir tanwariant o £60k ar gyllidebau staffio. Mae mân dan neu orwariant eraill.

4.5.1.4 Rhagwelir gorwariant o £152k yn y gwasanaeth Hamdden ar gyfer y flwyddyn, mae hyn yn gynydd o £54k o gymharu â chwarter 2. Cynnydd mewn costau staffio a chostau trydan sylweddol uwch sydd i gyfrif am hyn. Mae incwm debyd uniongyrchol y canolfannau Hamdden wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, ac mae'n debygol y caiff targedau incwm eu cyflawni, er y gallai'r argyfwng costau byw ddechrau effeithio ar aelodaeth canolfannau hamdden.

4.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

4.5.2.1 Roedd tanwariant o £249k (12.83%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod, ond rhagwelir tanwariant o £175k (6.93%) ar alldro. Mae hyn £90k yn uwch na'r tanwariant o £85k a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 2. Costau staffio is yn y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, a hynny am nifer o resymau, ynghyd â swyddi gweigion a mwy o incwm yn y gwasanaeth Cynllunio sydd i gyfrif am hyn.

4.5.2.2 Rhagwelir tanwariant o £100k yn y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â thanwariant o £40k a ragwelwyd ar gyfer chwarter 2 2022/23, yn bennaf oherwydd costau staffio is. Nid oes unrhyw feysydd yn destun pryder sylweddol yn y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, ac mae mân dan neu orwariant mewn gwahanol feysydd o'r Gwasanaeth.

4.5.2.3 Mae disgwyl tanwariant o £75k yn y gwasanaeth Cynllunio ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â thanwariant disgwylidig o £45k yn chwarter 2. Yn debyg i'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, mae tanwariant ar staffio yn cuddio gorwariant ar wariant heblaw am gyflogau, yn arbennig ar TG a meddalwedd ac ymgynghori.

4.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

4.6.1 Priffyrdd

4.6.1.1 Roedd tanwariant o £839k (12.17%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod. Fodd bynnag, y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant o £239k (3.49%). Mae'r tanwariant hwn yn debyg i'r tanwariant yn ystod chwarter 2. Mae'r gyllideb Fflyd yn parhau i fod dan bwysau, a rhagwelir gorwariant o £200k ar gyfer y flwyddyn oherwydd llai o ddefnydd a chynnydd mewn prisiau tanwydd, ac mae'r gyllideb gwaith dan bwysau gan fod cyflenwyr yn cynyddu eu prisiau. Mae tanwariant nodedig ar Reolaeth Adrannol, Meysydd Parcio, Rheoli Datblygu a Gwaith Stryd, gan fod yr incwm yn uwch na'r amcangyfrif yn chwarter 2. Mae disgwyl iddynt ragori ar eu targedau blynyddol, ond bydd y raddfa'n gostwng erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae tanwariant o £323k mewn gwariant ar y gyllideb waith yn chwarter 3, ond disgwylir i hyn gywiro'i hyn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a'r rhagolwg yw gorwariant o £260k. Mae tanwariant o £210k ar waith stryd, a disgwylir tanwariant o £240k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae mân dan neu orwariant mewn nifer o feysydd eraill ac ymddengys eu bod yn gwrthbwysu'i gilydd.

4.6.2 Gwastraff

4.6.2.1 Roedd tanwariant o £868k (13.37%) yn y gwasanaeth Gwastraff yn ystod y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £1,030k (11.3%) yn y gwasanaeth ar alldro. Mae hyn £65k yn uwch na'r tanwariant o £965k a nodwyd yn chwarter 2. Y prif reswm am y gwelliant yw bod costau gwaredu gwastraff wedi gostwng, gan arwain at danwariant o thua £125k, o gymharu â thanwariant disgwyliedig o £40k yn ystod chwarter 2.

4.6.2.2 Mae'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys gorwariant mewn gwahanol feysydd yn yr adran, ynghyd â meysydd eraill sy'n tanwario i wneud yn iawn am hynny. Mae'r amrywiadau mwyaf nodedig yn cynnwys tanwariant o £300k ar y gwasanaeth Casglu Gwastraff, gan fod incwm o danysgrifiadau i'r gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd, gwerthu biniau du a'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus i gyd yn uwch na'r gyllideb darged. Mae disgwyl tanwariant yn yr adain Ailgylchu hefyd ar ddiwedd y flwyddyn, a'r swm a ragwelir yw £400k. Y rheswm am hyn yw bod yr incwm yn uwch na'r targed gan fod y pris am wastraff ailgylchu'n parhau i fod yn uchel.

4.6.3 Eiddo

4.6.3.1 Sefyllfa'r gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod yw tanwariant o £395k (39.34%), a rhagwelir tanwariant o £222k (12.70%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn well na'r rhagolwg o orwariant o £8k ar ddiwedd chwarter 2, ac ad-drefnu'r gwasanaeth glanhau sydd i gyfrif am hyn, ac amcangyfrifir tanwariant o £100k ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir tanwariant o £120k hefyd ar weithwyr, gan gynnwys swyddi a fu'n wag am ran o'r flwyddyn yn ogystal â staff Clefyd y Coed Ynn ac ymgynghorwyr.

4.6.3.2 Mae sefyllfa nifer o benawdau yn y gyllideb yn amrywio, gyda rhai'n dangos gorwariant, tra bod eraill yn tanwario. Fodd bynnag, mae diffyg o £48k yn debygol mewn cyflogau wedi'u cyfalafu yn 2022/23 oherwydd bod staff yn gweithio ar brosiect yng Nghanolfan Addysg y Bont nad yw'n denu ffi.

4.7 Trawsnewid

4.7.1 Roedd tanwariant o £90k (1.8%) yn y swyddogaeth Trawsnewid ar ddiwedd y cyfnod, ond mae'n rhagweld tanwariant o £247k (3.79%) ar alldro. Mae hyn yn uwch na'r tanwariant to £232k a nodwyd yn chwarter 2.

4.7.1.1 Roedd tanwariant o £12k (0.89%) yn y swyddogaeth AD ar gyfer y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £75k (4.77%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r tanwariant a ragwelir yn deillio o'r cyllidebau hyfforddi canolog, lle rhagwelir tanwariant o £50k, sef yr un swm ag a nodwyd yn chwarter 2. Mae'r galw am hyfforddiant yn parhau i fod yn isel ac mae gwariant yn dal i fod yn is na'r un cyfnod y llynedd. Mae gweddill y tanwariant yn ymwneud â swyddi gweigion.

4.7.1.2 Roedd gorwariant o £32k (1.06%) yn yr adain TGCh ar gyfer y cyfnod, ond, y rhagolwg ar alldro yw tanwariant o £55k (1.46%), yn debyg i'r tanwariant a nodwyd yn ystod chwarter 2. Mae tanwariant sylweddol ar staffio, gyda rhagolwg y bydd tanwariant o £455k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae tanwariant hefyd o £17k ar incwm contractau ffôn. Mae gorwariant o £85k ar drwyddedau meddalwedd ac mae gorwariant sylweddol, sef £332k, ar feddalwedd canolog. Mae hyn yn gynydd o £103k ers chwarter 2. Costau untro sylweddol wrth symud i systemau newydd sydd i gyfrif am hyn.

4.7.1.3 Roedd tanwariant o £110k (13.52%) yn yr Adain Trawsnewid Corfforaethol ar gyfer y cyfnod a disgwylir tanwariant o £117k (9.86%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn ychydig yn uwch na'r tanwariant yn chwarter 2. Mae Trawsnewid Corfforaethol yn rhagweld tanwariant o £79k, sef tanwariant o £71k ar staffio a £8k ar gyflenwadau a gwasanaethau. Mae disgwyl tanwariant o £32k ar Cyswllt Môn, er bod hyn ychydig yn is na'r ffigwr a nodwyd yn chwarter 2. Tanwariant ar y gyllideb staffio sydd i gyfrif am hyn.

4.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a roddwyd)

4.8.1 Mae gorwariant o £20k (0.68%) yng nghyllideb swyddogaeth Adnoddau ar gyfer y cyfnod, ond y rhagolwg ar alldro yw tanwariant o £70k (1.94%). Mae hyn yn is na'r tanwariant a amcangyfrifwyd yn chwarter 2, sef £98k. Y rheswm am y gostyngiad yw costau uwch yn y tîm referniw a budd-daliadau.

4.8.2 Mae gwahanol feysydd yn y gwasanaeth yn tan a gorwario, yn bennaf oherwydd swyddi gweigion mewn rhai meysydd a defnydd ychwanegol o staff asiantaeth yn y gwasanaeth Referniw a Budd-daliadau, wrth i'r gwasanaeth barhau i brosesu grantiau'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw.

4.9 Busnes y Cyngor

4.9.1 Mae tanwariant o £33k (2.21%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, a'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yw tanwariant o £56k (2.75%). Mae hyn £12k yn fwy na'r tanwariant o £44k a ragweldwyd yn chwarter 2. Disgwylir tanwariant o £88k ar staffio, yn arbennig yn y Tîm Gwasanaethau Pwyllgor, oherwydd bod swyddi'n parhau i fod yn wag a chostau staff eraill, er bod mwy o wariant ar staff asiantaeth i lenwi'r swyddi hyn yn cydbwysu'r tanwariant yn rhannol.

4.9.2 Mae disgwyl gorwariant o £26k ar Wasanaethau Cyfreithiol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gorwariant wedi codi o'r £4k a ragweldwyd yn chwarter 2. Staff cyfreithiol asiantaeth a gyflogir i lenwi swyddi gweigion / absenoldebau yw'r rheswm am hyn, ac nid oes cyllideb ar gyfer y swydd undebau llafur.

4.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

4.10.1 Roedd gorwariant o £199k (11.97%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, er mai gorwariant o £92k (4.91%) yw'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn well na'r gorwariant o £200k a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 2. Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chostau corfforaethol eraill, er y rhagwelir y bydd gorwariant o £69k yn y maes hwn, o gymharu â gorwariant o £189k a ragweldwyd yn ystod chwarter 2. Croniad ar gyfer ffioedd archwilio 2017/18 a 2018/19 nad oes disgwyl iddynt gael eu talu bellach sy'n gyfrifol am hyn. Mae cynnydd o £50k yn y gorwariant ar y cyfraniad pensiwn eilaidd sy'n gysylltiedig â dyfarniad cyflog swyddogion Awdurdod Lleol ar gyfer 2022/23, gyda chyfanswm o £81k o orwariant ar y costau hyn. Mae Cymorth Aelodau a Threuliau a gwariant dinesig yn rhagweld cyllideb gytbwys.

4.10.2 Mae pwysau'n parhau ar y gyllideb yn y meysydd hyn, ac mae ffioedd Crwner yn creu gorwariant o £20k a disgwylir gorwariant o £16k ar yr ardoll prentisiaid.

4.11 Rheolaeth Gorfforaethol

4.11.1 Roedd tanwariant o £4k (0.62%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod a rhagwelir y bydd y gyllideb yn cydbwysu ar alldro.

5. Cyllid Corfforaethol (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

- 5.1 Mae disgwyl tanwariant o £3,733k ar Gyllid Corfforaethol, yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, ar ddiwedd y flwyddyn (9.05%), o gymharu â thanwariant o £750k a nodwyd yn chwarter 2. Cynnydd yn y llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau rheoli'r trysorlys (£627k) o ganlyniad i fuddsoddi mewn cyfrifon tymor penodedig ar gyfraddau llog uwch yw'r rheswm am hyn. Mae'r llogau hyn yn uwch na'r llogau ar gyfer cyfrifon sy'n caniatáu mynediad ar unwaith i'r arian, ac mae'r llog a delir ar rhain yn cynyddu bob tro mae cyfradd y banc yn codi. Pan ddaw'r buddsoddiadau tymor penodol i ben, bydd yr arian yn cael ei ail-fuddsoddi mewn cyfrifon sy'n talu llogau uwch.
- 5.2 Roedd y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, ac roedd y rhain yn £3,110k. Yn ystod y flwyddyn, mae'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i mewn ac allan o'r cyllidebau hyn i / o gyllidebau gwasanaeth. Yn ystod 2022/23, mae trosglwyddiad net o £347k i'r cyllidebau wrth gefn wedi digwydd, gan godi lefel y cyllidebau wrth gefn i £3.457m. Rhagwelir y bydd angen defnyddio £172k yn ystod y chwarter olaf a bydd £2.577m yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn clustnodedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyllido costau hysbys yn 2023/24. Ni fydd angen y £708k sy'n weddill ac mae'n cyfrannu at y tanwariant a ragwelir yn gyffredinol.
- 5.3 Rhagwelir tanwariant o £209k yn y gyllideb i gwrdd â chyfraniadau'r Cyngor tuag at daliadau Budd-daliadau ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r swm yn debyg i'r tanwariant a ragwelwyd yn chwarter 1 a chwarter 2.

6. Casglu'r Dreth Gyngor

- 6.1 Mae cyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2021. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion o flynyddoedd blaenorol a gasglwyd, addasiadau ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddiethriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Mae'r argyfwng costau byw yn dechrau cael effaith ar gasglu'r Dreth Gyngor, a chynyddwyd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg i adlewyrchu'r effaith hwn, a gallai arwain at golledion uwch wrth gasglu'r Dreth Gyngor mewn blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £122k yn uwch na'r gyllideb, ond mae hyn yn llai na'r rhagolwg o danwariant o £372k yn ystod chwarter 2.
- 6.2 Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn creu gwarged. Unwaith eto, mae'r premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi wedi gostwng oherwydd bod eiddo wedi trosglwyddo o'r gofrestr ddomestig i'r gofrestr Trethi Busnes ond, serch hynny, mae nifer yr ail gartrefi wedi aros yn gymharol gyson ac, o ganlyniad, rhagwelir gwarged o £266k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Felly, amcangyfrifir gwarged o £388k ar y Dreth Gyngor yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor ac mae hyn yn sylweddol is na'r tanwariant o £763k a nodwyd yn chwarter 2, ond mae'n dilyn patrwm a welwyd yn y gorffennol ac, felly, nid yw'n annisgwyl.

7. Arbedion Cyllidebol 2022/23

- 7.1 Nid oedd angen i'r gwasanaethau wneud unrhyw arbedion cyllidebol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

- 8.1 Gwariwyd £1,014k ar staff Asiantaeth yn ystod y chwarter. Roeddent yn cael eu cyllido'n rhannol yn bennaf o gyllidebau staff oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £579k yn ymwneud â gweithwyr llanw ar gyfer swyddi gweigion. Gwariodd y Gwasanaethau Plant £280k ar staff asiantaeth hyd at ddiwedd chwarter 3, a gwariodd y Gwasanaethau Oedolion £241k ar staff asiantaeth. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £254k ar weithwyr safle mewn canolfannau ailgyrchu. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad CH.

8.2 Gwariwyd cyfanswm o £711k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2022, a chyllidwyd £145k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Gwariodd Economaidd ac Adfywio £75k ar ymgynghorwyr yn ystod chwarter 3, er bod cyfran helaeth o'r gost yn cael ei gyllido gan ffynonellau incwm allanol. Gwariodd Priffyrdd £54k ar ymgynghorwyr ac roedd £38k o'r gwariant yn ymwneud â Hwb Hydrogen Caergybi, sy'n cael ei gyllido gan grant. Mae Atodiad D yn cynnwys crynodeb o'r gwariant fesul gwasanaeth, a gwelir manylion ychwanegol am y gwariant.

9. Cyllid Grant Covid-19 Llywodraeth Cymru hyd yma

9.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol Cymru ar gyfer costau ychwanegol yn gysylltiedig â Coronafeirws, ond mae'r cyllid hwn wedi dod i ben yn awr. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i wneud taliadau i unigolion ac mae'n adennill y costau gan Lywodraeth Cymru trwy drefniadau'r Gronfa Galedi. Dengys Tabl 5 isod fod y Cyngor wedi hawlio £1.352m ar gyfer costau ychwanegol yn deillio o'r pandemig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon:-

Tabl 5 Gwariant cysylltiedig â Covid rhwng Ebrill a Rhagfyr 2022 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru

	Prydau Ysgol am Ddim £	Hunan- Ynysu £	Tanwydd Gaeaf £	Ychwanegiad at y Tâl Salwch Statudol £	Cyfanswm £
CRYNODEB					
Hawliwyd	598,831	181,210	486,092	121,589	1,387,722
Gwrthodwyd	35,478	-	-	-	35,478
Balans sy'n ddyledus	563,353	181,210	486,092	121,589	1,352,244
Talwyd	472,015	181,210	207	121,590	775,022
Balans sy'n weddi	91,338	-	485,885	- 1	577,222

10. Casgliad

10.1 Y rhagolwg ar ddiwedd y trydydd chwarter yw tanwariant o £1.970m yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023.

10.2 Mae'r prif feysydd sy'n destun pryder yn ymwneud â:-

- i. Gorwariant sylfaenol sylweddol sy'n bodoli ac sy'n destun pryder ac mae'n anodd ei reoli gan ei fod yn gysylltiedig â gwasanaethau statudol sy'n cael eu harwain gan y galw. Mae disgwyl gorwariant o £613k yn y Gwasanaethau Oedolion ond mae'n cuddio gorwariant sylfaenol sylweddol sy'n cael ei gyllido gan grantiau a'r gronfa pwysau gofal cymdeithasol yn 2022/23. Heb y ffynonellau cyllid hyn, byddai gorwariant o dros £3m yn y gwasanaeth hwn. Mae disgwyl gorwariant o £996k yn y Gwasanaethau Plant, yn bennaf oherwydd lleoliadau allsirol a gwasanaethau eraill ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol Oedolion a Phlant wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu cyllidebau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r galw'n parhau i gynyddu.
- ii. Yn y pendraw, bydd yr argyfwng costau byw yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyledion, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant) a gallai incwm mewn gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio a ffioedd parcio ostwng, wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

10.3 Er mai gorwariant bychan yw'r sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar gyfer y gwasanaethau, mae defnyddio cronfeydd wrth gefn a grantiau untro, yn ogystal â ffactorau dros dro megis swyddi gweigion a rhagori ar dargedau incwm, yn cuddio'r gwir sefyllfa ac efallai na fydd y ffactorau hyn yn ymddangos yn 2023/24. Oni bai am yr eitemau hyn, mae'n debygol y byddai gorwariant sylweddol yn y cyllidebau gwasanaeth yn 2022/23. Ystyriwyd y rhagolygon presennol wrth lunio cyllideb 2023/24 a, lle bo'n bosib, ychwanegwyd cyllid ychwanegol yn y gyllideb i gwrdd â'r galw cynyddol am wasanaethau. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adroddiad ar gyllideb referniw 2023/24, mae nifer o risgiau ariannol yn wynebu'r Cyngor yn 2023/24 fyddai'n golygu bod rhaid defnyddio rhagor o arian o falansau'r Cyngor i'w cyllido. Mae'r ffaith fod balansau cyffredinol y Cyngor yn iach yn cynorthwyo i liniaru'r risgiau hynny'n sylweddol.

Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function	2022/23 Cyllideb Blynnyddol Annual Budget	2022/23 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date	2022/23 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed spend	2022/23 Ch3 Amrywiad Q3 Variance	2022/23 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed Spend	Ch3 : Q3 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Estimated Expenditure to 31 March 2023	Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over/(under)	2022/23 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget	Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over/(under)	Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)	2021/22 Gor/(Tan) Wariant Draft Draft Over/(under spend)
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000
Datblygu Economaidd <i>Economic Development</i>	2,407	1,714	1,825	112	6.51%	2,501	94	3.91%	86	27	(157)
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd <i>Planning and Public Protection</i>	2,527	1,943	1,693	(249)	-12.83%	2,352	(175)	-6.93%	(85)	(77)	(545)
<u>Trawsnewid</u> <u>Transformation</u>											
Adnoddau Dynol <i>Human Resources</i>	1,572	1,303	1,292	(12)	-0.89%	1,497	(75)	-4.77%	(70)	(62)	(54)
GCh ICT	3,766	2,996	3,027	32	1.06%	3,711	(55)	-1.46%	(53)	(176)	(149)
Trawsnewid Corfforaethol <i>Corporate Transformation</i>	1,187	811	701	(110)	-13.52%	1,070	(117)	-9.86%	(109)	(59)	(185)
<u>Adnoddau</u> <u>Resources</u>											
	3,602	2,922	2,942	20	0.68%	3,532	(70)	-1.94%	(98)	(144)	(252)
<u>Busnes y Cyngor</u> <u>Council Business</u>											
	2,035	1,494	1,461	(33)	-2.21%	1,979	(56)	-2.75%	(44)	(33)	(64)
<u>Costau Corfforaethol a</u> <u>Democrataidd</u> <u>Corporate & Democratic</u> <u>costs</u>											
	1,873	1,667	1,867	199	11.97%	1,965	92	4.91%	200	215	(327)
<u>Rheolaeth Corfforaethol</u> <u>Corporate Management</u>											
	756	569	572	4	0.62%	756	0	0.00%	0	(1)	(10)
-											
Costau heb gyllideb, ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau <i>Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income</i>						400	400	0.00%	400	200	1,386

Cyfanswm Cyllideb Gwasanaethau Total Service Budgets	139,929	100,580	99,910	(670)	-0.67%	140,016	87	0.06%	385	750	(2,671)
Ardollau <i>Levies</i>	3,957	3,919	3,919	0	0.00%	3,957	0	0.00%	0	0	(2)
Rhyddhad Trethi Dewisol <i>Discretionary Rate Relief</i>	72	0	0	0	0.00%	72	0	0.00%	0	(1)	0
Cyllido Cyfalaf <i>Capital Financing</i>	5,338	3,112	2,732	(380)	0.00%	4,587	(751)	-38.04%	(501)	(45)	(390)
Arian wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill <i>General & Other Contingencies</i>	3,457	3,457	2,992	(464)	-13.43%	2,749	(708)	-50.85%	(48)	(50)	(567)
Arian wrth Gefn Cyffredinol Y Cyngor <i>Council's General Reserves</i>	0	0	0	0	0.00%	0	0	0.00%	0	0	300
Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol <i>Support Services contribution HRA</i>	(800)	0	0	0	0.00%	(800)	0	0.00%	0	0	(97)
Budd-daliadau a Roddwyd <i>Benefits Granted</i>	6,413	22	22	(0)	-0.01%	6,204	(209)	-3.27%	(201)	(211)	178
Na ellir ei reoli <i>Uncontrollable</i>											
Cyfanswm Cyllid Corfforaethol Total Corporate Finance	18,438	10,510	9,666	(844)	-8.03%	,16,770	(1,668)	-9.05%	(750)	(307)	(578)
Cyfanswm 2022/23 Total 2022/23	158,367	111,089	109,575	(1,514)	-1.36%	156,786	(1,581)	-1.00%	(365)	443	(3,249)
Cyllido Funding											
Trethi Annomestig <i>NDR</i>	(25,493)	(19,610)	(19,610)	(0)	0.00%	(25,493)	0	0.00%	0	0	0
Y Dreth Gyngor <i>Council Tax</i>	(41,866)	0	0	0	0.00%	(41,988)	(122)	0.29%	(372)	(573)	172
Premiwm y Dreth Gyngor <i>Council Tax Premium</i>	(1,950)	0	0	0	0.00%	(2,217)	(266)	13.66%	(391)	(414)	(332)
Grant Cynnal Refeniw <i>Revenue Support Grant</i>	(89,058)	(68,506)	(68,506)	0	0.00%	(89,058)	0	0.00%	0	0	(1,389)
Cyfanswm Cyllid 2022/23 Total Funding 2022/23	(158,367)	(88,116)	(88,116)	(0)	0	(158,756)	(388)	0.25%	(763)	(987)	(1,549)
Cyfanswm yr alldro yn cynnwys effaith y cyllido Total outturn including impact of funding	0	22,973	21,459	(1,514)	-6.59%	(1,970)	(1,970)	-2.55%	(1,128)	(544)	(4,798)

ATODIAD C

Crynodeb o'r Sefyllfa Alldro ar gyllidebau Arian Wrth Gefn 2022/23

Tudalen 23

	Cyllideb Wreiddiol	Trosglwyddo i / o Gyllidebau Gwasanaeth	Cyllideb wedi'i Diwygio blwyddyn hyd yma	Rhagolwg Diwedd Blwyddyn	Trosglwyddo i Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	Amrywiad Diwedd Blwyddyn a Ragwelir
	£	£	£	£	£	£
Arian Wrth Gefn Cyffredinol	405,734	27,690	433,424	43,048	0	(390,376)
Cyflog a Graddfa	100,000	(1,040)	98,960	114,336	0	15,376
Etholiadau Sirol	200,000	(152,265)	47,735	0	0	(47,735)
Gofynion Ychwanegol Gwasanaethau Plant	316,830	(316,830)	0	0	0	0
Caledwedd TG Ysgolion	300,000	0	300,000	0	300,000	0
Costau Covid	300,000	0	300,000	15,000	0	(285,000)
Chwyddiant Tâl	1,000,000	1,065,000)	2,065,000	0	2,065,000	0
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Bid Twf	97,000	(97,000)	0	0	0	0
Cynllun Hyfforddai	340,000	(178,420)	161,580	0	161,580	0
Newid Hinsawdd	50,000	0	50,000	0	50,000	0
Cyfanswm Arian Wrth Gefn Cyffredinol Arall	3,109,564	347,135	3,456,699	172,384	2,576,580	(707,735)

Costau Asiantaeth rhwng mis Hydref a Rhagfyr 2022

Tudalen 24

Gwasanaeth	Swm £	Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol)	Parhaol / Dros Dro	Pwrpas
Economaidd a Rheoleiddio	21,985	Grant	Dros Dro	Adlenwi swyddogion sy'n delio â Covid
	13,859	Grant	Dros Dro	Adlenwi swyddogion sy'n delio â thystysgrifau iechyd allforio
	35,845			
Ysgolion	31,451	Craidd	Dros Dro	Staff llanw mewn maes arbenigol
	31,451			
Gwastraff	253,539	Cyllideb Graidd Benodol	Dros Dro	Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr
	253,539			
Gwasanaethau Plant	280,417	Cyllideb Craidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth	Dros Dro	I lenwi swyddi gwag
	280,417			
Adnoddau	204,277	Craidd	Dros Dro	I lenwi swyddi gwag
	36,524	Grant	Dros Dro	Gwaith ychwanegol yn ymwneud â Covid a swyddi gwag
	240,801			
Adnoddau	40,906	Grant	Dros Dro	Gwaith Cymhorthdal Budd-daliadau Tai
	35,978	Grant	Dros Dro	Gwaith ychwanegol o weinyddu grantiau Cost Byw LIC
	94,625	Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd	Dros Dro	I lenwi swyddi gwag
	171,509			
Cyfanswm	1,013,562			

Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr Ch3 2022/23

Crynodeb o Wariant Ymgynghoriaeth fesul Gwasanaeth				
Gwasanaeth	Chwarter 1 £	Chwarter 2 £	Chwarter 3 £	Cyfanswm 2022/23 £
Addysg Canolog	834	12,469	0	13,302
Diwylliant	4,925	1,500	13,150	19,575
Economaidd ac Adfywio	39,147	204,352	74,577	318,076
Eiddo	0	4,832	0	4,832
Priffydd	11,376	72,418	54,344	138,138
Ysgolion	0	0	0	0
Gwastraff	4,431	13,347	7,856	25,634
CRT	0	0	0	0
Tai	0	0	0	0
Corfforaethol a Democrataidd	0	0	0	0
Gwasanaethau Oedolion	0	0	0	0
Gwasanaethau Plant	200	6,093	10,000	16,293
Corfforaethol	0	0	0	0
Trawsnewid	9,157	20,026	11,698	40,880
Busnes y Cyngor	7,279	37,968	23,827	69,074
Adnoddau	20,278	24,770	19,803	64,850
Cyfanswm	97,627	397,774	215,254	710,655
Cyllidwyd gan:				
Cyllideb Craidd	63,016	160,418	70,226	293,660
Grant	33,321	199,734	145,028	378,083
Cyfraniad Allanol	0	34,972	0	34,972
Cronfeydd Wrth Gefn	1,290	2,650	0	3,940
Cyfanswm	97,627	397,774	215,254	710,655

Dadansoddiad Manwl o Gostau Ymgynghorwyr Ch3 2022/23

	Swm £	Categori - Rheswm Penodi			Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol)	Disgrifiad o'r gwaith a wnaed
		I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol	Maint y gwaith	Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth		
Cyfanswm Ch1 Ebrill - Mehefin	97,627					
Cyfanswm Ch2 Gorffennaf - Medi	397,774					
Diwylliant Tudalen 26	6,050			✓	Cyllideb Graidd Benodol	Ymgynghori - cefnogaeth i dendro caffi Oriel Môn
	1,700			✓	Grant	Cyrsiau blasu ysgrifennu creadigol a chyhoeddi - hyrwyddo marchnata ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol
	300			✓	Grant	Cwrs 2 ddiwrnod codi waliau cerrig sych
	200			✓	Grant	Digwyddiad chwilota
	900			✓	Grant	Cwrs 2 ddiwrnod Ffensio
	4,000			✓	Grant	Sesiwn yn y maes celf a dylunio - bwriad cyflwyno gyrfaoedd posibl yn y maesydd creadigol
Cyf. Diwylliant	13,150					
Economaidd ac Adfywio	184	✓			Cyllideb Graidd Benodol	SharePoint Ar-lein (Cynllun 1) Adnewyddu Blynyddol CSP
	1,052	✓			Cyllideb Graidd Benodol	Cefnogaeth Amser Craidd Blynyddol a Chefnogaeth Premiwm Trwyddedau
	33,891			✓	Grant	Gwaith Cefnogi Gwerthuso Prosiect CRF y DU
	10,000			✓	Grant	Adfywio Môn UKCRF - Monitro a Gwerthuso
	22,436			✓	Grant	Prosiect Tirwedd Treftadaeth CSYM
	5,544			✓	Grant	Ymgysylltu â thri chyngor cymuned ar Ynys Cybi
	720			✓	Cyllideb Graidd Benodol	Arfarniad amaethyddol i Anedd Gweithwyr Gwledig
750	✓	✓	✓	Cyllideb Graidd Benodol	Ymgynghoriaeth Porth ar gyfer Pwynt Rheoli Ffin Caergybi	
Cyf. Economaidd ac Adfywio	74,577					

	Swm £	Categori - Rheswm Penodi			Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol)	Disgrifiad o'r gwaith a wnaed
		I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol	Maint y gwaith	Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth		
Priffyrdd	38,091			✓	Grant	Hyb Hydrogen Caergybi
	259			✓	Cyllideb Graidd Benodol	PCN Charge
	2,622			✓	Cyllideb Graidd Benodol	Cyfraniad ardoll er sylw Gwasanaethau Parcio
	296		☐	✓	Grant	Ffi monitro cydymffurfiaeth flynyddol ar gyfer cronfeydd dŵr risg uchel
	1,156			✓	Cyllideb Graidd	Ymchwil mewn Archifdy Cyhoeddus yn ymwneud â chroesfan rheilffordd Trewan Sands
	8,560			✓	Cyllideb Graidd	Llunio adroddiad dichonoldeb i asesu gwelliannau i gerddwyr
	3,360			✓	Grant	Modelu Hydrologig Llangefni
Cyf. Priffyrdd	54,344					
Gwastraff	2,141	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Tirlenwi Penhesgyn - cymorth technegol nwy
	850	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Ceuffos Penhesgyn - Cynnig ffioedd ar gyfer gwasanaethau ymgynghoriaeth peirianeg
	1,605	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Gors Penhesgyn – Arolwg Amgylcheddol Tirlenwi
	975	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Archwiliad o'r Safle ac Asesiad Risg
	2,285	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Cyfleuster Compostio Penhesgyn IVC
Cyf. Gwastraff	7,856					
Gwasanaethau Plant	10,000			✓	Grant	Gwerthusiad allanol o Môn Ymlaen ar gyfer CRF
Cyf. Gwasanaethau Plant	10,000					
Trawsnewid	4,878			✓	Cyllideb Graidd Benodol	Pridiannau rheoli prosiect - ResourceLink mudo i'r cwmwl hybrid
	4,750			✓	Cyllideb Graidd Benodol	iShare ymgynghoriaeth cefnogi
	2,070	✓			Grant	Aseswr - Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant
Cyf. Trawsnewid	11,698					

	Swm £	Categori - Rheswm Penodi			Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol)	Disgrifiad o'r gwaith a wnaed
		I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol	Maint y gwaith	Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth		
Busnes y Cyngor	23,827			✓	Cyllideb staffio nas defnyddiwyd	Locwm
Cyf. Busnes y Cyngor	23,827					
Adnoddau	7,563	✓			Cyllideb Graidd Benodol	Contractau cadw gwasanaethau'r Trysorlys
	12,240			✓	Grant	Asesiadau cymhwysedd ar gyfer grantiau costau byw LIC
Cyf. Adnoddau	19,803					
Cyfanswm Ch3 Hydref - Rhagfyr	215,254					
Cyfanswm Cronnus Ebrill - Rhagfyr	710,655					

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH	
Dyddiad:	02 MAWRTH 2023	
Pwnc:	ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 3 2022/23	
Aelod Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – AELOD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER	
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)	
Awdur yr Adroddiad:	JEMMA ROBINSON	
E-bost:	JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru	
Aelodau Lleol:	Amherthnasol	
A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau		
Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith yn:-		
<ul style="list-style-type: none"> nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2022/23 yn ystod chwarter 3. 		
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Amherthnasol		
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
<ul style="list-style-type: none"> Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol. Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddynodwyd i'r Pwyllgor Gwaith. 		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.		
DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r adroddiad ac ymgorfforwyd eu sylwadau yn yr adroddiad terfynol.
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth ac mae'r sylwadau a gyflwynwyd wedi cael eu hystyried.
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	

E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r gyllideb gyfalaf yn buddsoddi mewn asedau ac isadeiledd y mae eu hangen i ganiatáu i'r Cyngor gwrrd â'i amcanion tymor hir a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-	Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau'r Gronfa Gofal Canolradd, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:	Mae ariannu'r prosiectau wedi cael ei gytuno a'i gynllunio â sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru'n neilltuol.
4	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:	Bu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn destun ymgynghoriad cyhoeddus â dinasyddion Ynys Môn.
5	Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg.	Mae rhai o'r prosiectau a ariennir gan y rhaglen gyfalaf yn cael effaith ar yr agenda cydraddoldeb e.e. grant mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grant cyfleusterau i'r anabl. Dim effaith ar agenda'r iaith Gymraeg.
F - Atodiadau:		
<p>Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 3 2022/23</p> <p>Atodiad B – Crynodeb o Wariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn</p> <p>Atodiad C – Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol ers gosod y gyllideb</p>		
FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
<ul style="list-style-type: none"> • Cyllideb Gyfalaf 2022/23, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022; • Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022; • Adroddiad Alldro Cyfalaf 2021/22, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 28 Mehefin 2022. • Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2022/23, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Medi 2022 ac Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2 2022/23, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 29 Tachwedd 2022. 		

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Dyma adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.
- 1.2 Ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £17.177m ar gyfer 2022/23 a Rhaglen Gyfalaf o £18.784m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i Lithriad Cyfalaf o £11.242m gael ei ddwyn ymlaen o 2021/22, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £28.419m, a £18.784m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau ychwanegol at y rhaglen ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, sef cyfanswm o £10.837m, ynghyd â gostyngiad o £3.750m yng nghyllideb y CRT. Daw hyn â chyfanswm y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2022/23 i £54.290m. Gwelir hyn yn y tabl isod:-

Cyllidwyd gan:	Cyllideb gwreiddiol 2022/23 fel y cytunwyd gan y Cyngor llawn £'000	Llithriad fel y cytunwyd yn alldro Ch4 2021/22 £'000	Gostyngiad CRT £'000	Cynlluniau ychwanegol ers gosod y gyllideb £'000	CYFANSWM £'000
Grant	7,662	4,426		9,704	21,792
Benthyca â Chefnogaeth	3,325	3,816		73	7,068
Benthyca Digefnogaeth	11,399	200	(3,750)	(1,107)	6,742
Cyfraniad Refeniw	10,099	-		267	10,366
Derbyniadau Cyfalaf	600	251		287	1,138
Cronfeydd wrth Gefn	2,876	2,472		1,759	7,107
Benthyciad	-	77		-	77
CYFANSWM	35,961	11,242	(3,750)	10,837	54,290

Cyfeiriwch at Atodiad C i gael manylion am y newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol ers y broses gosod cyllideb.

2. CYNNYDD GWARIANT YN 2022/23

- 2.1 Isod mae tabl sy'n crynhoi'r gwariant Cyfalaf hyd at 31 Rhagfyr 2022, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 31 Rhagfyr 2022 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2022/23:-

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol £'000	Cyllideb a Broffiliwyd £'000	Gwariant Gwioneddol £'000	Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000	Cyfanswm Gwariant £'000	% y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario	% y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario
Cronfa Gyffredinol Tai	1,667	380	399	-	399	105	24
CRT Tai	15,034	11,283	5,926	849	6,775	60	45
Dysgu Gydol Oes	18,008	10,214	9,574	656	10,230	100	57
Economaidd ac Adfywio	7,620	5,466	4,395	878	5,273	96	69
Priffyrdd	7,197	3,662	3,011	464	3,475	95	48
Rheoli Gwastraff	451	76	55	26	81	107	18
Eiddo	1,717	370	369	-	369	100	21
Trawsnewid	711	468	438	28	466	100	66
Gwasanaethau Oedolion	1,885	146	148	6	154	105	8
Cyfanswm	54,290	32,065	24,315	2,907	27,222	85	50
Cyllidwyd gan:							
Grant Cyfalaf	21,792						
Derbyniadau Cyfalaf	1,138						
Benthyca â Chefnogaeth	7,068						
Benthyca Digefnogaeth	6,742						
Cyfraniad Refeniw	10,366						
Cronfeydd Wrth Gefn	7,107						
Benthyciad	77						
Cyfanswm Cyllido	54,290						

- 2.2** Hyd at ddiwedd y trydydd chwarter gwariwyd 98% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol. Fodd bynnag, dim ond 52% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn, gyda'r rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 3 wedi ei gwario, cynlluniau megis gwaith ar do Canolfan Addysg y Bont, gwaith cyfalaf ar adeiladau Addysg, cynlluniau hamdden, cynlluniau Penrhos Cam 2 a 3 a Phorth Llangefni. Nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, neu mae eu cyllidebau wedi eu proffilio i'w gwario yn ystod y chwarter nesaf neu tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, megis y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, cynllun Melin Llynonn, grantiau ar gyfer cynlluniau llifogydd ar raddfa fach a'r gronfa gofal cymdeithasol. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffil yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2022/23 ac mae diweddariad arnynt wedi'i gynnwys yn adran 3.1 yr adroddiad hwn.
- 2.3** Mae'r CRT wedi gwario 60% o'r gyllideb a broffiliwyd a 45% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd na fydd y gyllideb gyfan wedi ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Am ragor o wybodaeth ar wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant a ragwelir, gweler adroddiad monitro cyllideb chwarter 3 y CRT a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 02 Mawrth 2023.

3. CYLLIDO

3.1 Grantiau Cyfalaf

3.1.1 Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt, a rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau hynny isod:-

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** - mae'r gwaith ar adeilad newydd Ysgol Corn Hir wedi'i gwblhau. Mae'r gwaith ar y briffordd yn mynd rhagddo a bydd yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2023. Bydd y gwaith allanol yn mynd rhagddo tan y Pasg. Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig - mae gwaith wedi cychwyn ar y safle. Mae oedi ar y funud oherwydd bod y tir yn wlyb iawn. Mae'r Ffrâm Goed wrthi'n cael ei adeiladu oddi ar y safle.
- **Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg** - mae £0.784m wedi'i gynnig i gwblhau uned gofal plant Ysgol Llanfawr. Mae isgcontractwyr ar fin cael eu penodi a bydd yr uned yn cael ei chynhyrchu oddi ar y safle a'i chludo i'r safle ddiwedd mis Chwefror. Bydd y cyllid grant yn cael ei ddefnyddio'n llawn yn y flwyddyn ariannol hon yn unol ag amodau'r grant.
- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun)** - Cafodd y penderfyniadau hir ddisgwyliedig ar Ail Rownd y Gronfa Codi'r Gwastad eu gohirio tan y Flwyddyn Newydd gan Lywodraeth y DU. Mae'r gwaith ar doiledau cyhoeddus Sgwâr Swiff a'r llwyfan wylio ar dŵr gogledd ddwyrain Caer Rufeinig Caergybi yn mynd rhagddo. Mae opsiynau'n cael eu hystyried i gyflymu'r gwaith er mwyn sicrhau y gellir cwblhau'r prosiect erbyn diwedd mis Mawrth 2023, cyn penwythnos y Pasg.
- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi** – mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i gyflawni nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Cybi. Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei sicrhau drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro. Mae symiau bach o gyllid ychwanegol wedi cael eu sicrhau drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Mae gwaith a gyflawnwyd ar y brosiectau, sy'n cael eu hariannu ar y cyd drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), yn cynnwys:
 - Gwarchod ein Treftadaeth – mae contractwyr wedi cael eu penodi i gwblhau gwaith ar Ffynnon y Wrach, Tŵr Elin a Golygfan Ynys Lawd. Disgwyli'r y bydd yr holl waith wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror. Mae ymgynghorwyr hefyd wedi paratoi dogfennau amlinellol ar gyfer gweddill y strwythurau sydd yn rhan o'r prosiect.

- **Cynllun Hwb - Grant Seilwaith Mewn Ysgolion** - mae sgriniau wedi cael eu dyrannu i ysgolion yn dilyn gwerthusiad o ganlyniadau'r arolwg cyflwr ac maent wrthi'n cael eu gosod gan isgcontractwyr yr adwerthwr a benodwyd i gynllun prynu deinamig HWB.
- **Porth Twristiaeth** – canolfan ymwelwyr Parc Gwledig y Morglawdd: penodwyd y prif gcontractwr a dechreuodd gwaith ar y safle ddechrau mis Gorffennaf. Disgwylir i'r gwaith ar y ganolfan ymwelwyr newydd gael ei gwblhau ganol mis Chwefror 2023. Cwblhawyd gwaith ar y ciosg a'r toiledau. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn y terfyn amser a bydd y gwaith yn cael ei adolygu'n gyson gan hysbysu Croeso Cymru am unrhyw newidiadau.
- **Prosiect Cam 2 Penrhos** - nod y cynllun hwn yw adeiladu saith uned fusnes newydd ar Stad Ddiwydiannol Penrhos. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau ar wahân i'r gwaith o osod a chomisiynu'r is-orsaf. Mae hyn yn debygol o gael ei gwblhau yn chwarter 4. Disgwylir i'r unedau hyn gael eu marchnata yng ngwanwyn 2023.
- **Prosiect Cam 3 Penrhos** - sicrhawyd cyllid o £3.1m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Y bwriad yw adeiladu 6 uned fusnes ar y darn olaf o dir sydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Cychwynnodd y broses gaffael ym mis Hydref 2022 drwy Fframwaith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru Penodwyd contractwyr ym mis Rhagfyr 2022. Bydd y gwaith yn dechrau ar y safle yn ystod chwarter 4 a bwriedir iddo gael ei gwblhau ddiwedd chwarter 1 2023/24.
- **Prosiect Porth Llangefni** – mae safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd) yn ardal yn Llangefni ble bydd 7 plot yn cael ei ddatblygu yn y pendraw.
 - **Unedau Porth (Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop)** – Cafodd yr unedau eu marchnata yn ystod chwarter 3 gyda phob un yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr erbyn diwedd chwarter 3. Disgwylir i denantiaid symud i'r unedau yn ystod chwarter 4 yn amodol ar gytundebau cyfreithiol.
 - **Cyd-fenter Porth** – nod y Cyd-fenter Porth yw cwblhau gwaith galluogi ar y plotiau sy'n weddill ar Barc Busnes Tregarnedd (Safle Porth). Cwblhawyd gwaith archeolegol ac ecolegol ac fe amlygwyd problemau pellach. Nifer y plotiau fydd ar gael i'w gwerthu fydd 3 yn hytrach na 6 oherwydd cyfyngiadau archeolegol. Mae gwaith paratol terfynol yn mynd rhagddo i sicrhau fod y plotiau olaf yn barod i'w marchnata.
- **Cynlluniau Draenio Amlwch a Chaergybi** – mae'r astudiaethau hyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi, mae'r gwaith modelu hydrolog wedi'i gwblhau ac mae rhestr hir o opsiynau'n cael eu hystyried. Yn Amlwch, cwblhawyd yr arolygon afonydd ac mae rhestr hir o opsiynau'n cael eu hystyried. Roedd y ddwy astudiaeth yn dal i fynd rhagddynt yn chwarter 3 a byddant yn parhau drwy gydol y flwyddyn ariannol hon ac yn 2023/24.
- **Grantiau ar gyfer Gwaith ar Raddfa Fach** – erbyn hyn mae chwech o'r cynlluniau wedi cael eu cwblhau, ac mae disgwyl i'r gweddill gael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd y cyllid grant diwygiedig yn cael ei ddefnyddio'n llawn.
- **Achos Busnes Llawn Llanfairpwll, Porthaethwy a'r Fali a gwaith adeiladu yn y Fali** - Llanfairpwll – yn dilyn cyngor cyfreithiol bydd y comisiwn presennol yn dod i ben a bydd y Cyngor yn ail dendro'r comisiwn a phenodi ymgynghorydd newydd. Mae'r gwaith adeiladu yn y Fali wedi'i gwblhau. Porthaethwy – mae wedi dod i'r amlwg na fydd yr opsiwn a ffafriwyd yn mynd i'r afael â'r problemau llifogydd yn ddigonol. O ganlyniad, mae cynllun hybrid sy'n cynnwys ymyraethau eraill yn cael ei ystyried.

- **Mill Lane - Strwythur a Rheoli Llifogydd yn Naturiol** - Strwythur - mae'r synhwyrdd sy'n rheoli gweithrediad awtomatig y strwythur wedi methu ac mae ymgynghorwyr wrthi'n ceisio datrys y mater drwy i ddigwyddo. Rheoli Llifogydd yn Naturiol - mae'r trafodaethau'n parhau gyda'r perchennog tir mewn perthynas â'r elfen Rheoli Llifogydd yn Naturiol, er mai araf fu'r cynnydd. Dim ond yr elfen ddylunio fydd yn cael ei chwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a bydd yr elfen adeiladu'n cael ei hailgyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf pan ddisgwylir i Raglen Rheoli Llifogydd newydd fod ar gael.
- **Cwrs Dŵr Cyffredin Dwyran – Rheoli Llifogydd yn Naturiol** – mae'r mân broblemau wedi derbyn sylw, ac mae'r offer telemetreg ar gyfer monitro effeithiolrwydd y cynllun wedi cael ei osod. Mae data o'r offer telemetreg yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi ar hyn o bryd. Bydd hyn y parhau am rai blynyddoedd.
- **Teithio Llesol** - mae'r Cyngor wedi sicrhau grant o £0.538m gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a chynyddu teithiau llesol, gwella iechyd a llesiant, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae £0.486m wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith craidd sy'n ymgorffori nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau ac mae £0.052m wedi'i ddyrannu i Lanfairpwll a Phorthaethwy (gwelliannau i'r briffordd). Mae cynnydd yn ystod Chwarter 3 yn cynnwys:-
 - Ail-broffilio'r gyllideb ac allbynnau – dal i fod ar y trywydd cywir i wario'r gyllideb yn llawn erbyn diwedd mis Mawrth 2023.
 - Mae'r Gweithgareddau Datblygu ymlaen llaw ac Astudiaethau WelTAG y dal i fynd rhagddynt yn Lôn Graig-Lôn Refail, Llanfairpwll, Benllech, Pont Marcwis-Niwbwrch, Amlwch-Porth Amlwch, a Gorsaf Caergybi i Fae Trearddur.
 - Mewn perthynas â'r prif gynnig a ddyfarnwyd i Lanfairpwll a Phorthaethwy (gwelliannau i'r briffordd) mae hyn wedi cynnwys parhau â'r broses WelTAG ar Ffordd Pentraeth, Porthaethwy a'r A5025 i gysylltu â Maes Parcio a Theithio Llanfairpwll. Hefyd, mae'r dyluniadau cysyniad wedi cael eu cwblhau i ddarparu llwybrau teithio llesol mwy diogel i gysylltu'r gymuned ag Ysgol Gynradd Llanfairpwll yn ogystal â gwaith manwl i oresgyn methiant critigol ar y rhwydwaith ar yr A5/Ffordd Penmynydd.
 - Mae'r dyluniadau wedi cael eu cwblhau ac mae'r rhaglen wedi cael ei chytuno ar gyfer y mân waith (llwybrau methiant critigol yn Llangefni ac Amlwch).
 - Wedi cytuno ar gwmpas y gwaith ac arolygon i barhau i asesu'r groesfan ffurfiol arfaethedig yn y Fali.
 - Mae'r gweithgareddau monitro a gwerthuso yn parhau i wneud cynnydd yn cynnwys: trefnu ymgynghoriadau cyhoeddus, diweddarau gwefan y Cyngor a diweddarau Map Data Cymru, archebu dyfais cyfri defnyddwyr parhaol.
- **Cronfa Ffyrdd Cydnerth** – mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid o dan y grant hwn i gynnal astudiaeth Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Cam 3 i'r math o fesurau gwydnwch y gellir eu rhoi ar waith ar y B5109 i Fiwmares. Bu'n rhaid cau'r ffordd hon yn y gorffennol oherwydd tywydd drwg ac mae'r sefyllfa'n siŵr o waethygu yn sgil y stormydd a ragwelir o ganlyniad i newid hinsawdd. Cychwynnodd yr astudiaeth WelTAG cam 3 yn chwarter 3 a chynhaliwyd ymchwiliadau cychwynnol ac amgylcheddol ar y safle. Mae disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac mae'r rhagolygon diweddaraf yn darogan mymryn o danwariant (tua £20k).
- **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel lawn** – cafodd £0.114m ei ddyfarnu ym mis Rhagfyr 2022 i gwblhau gwaith galluogi a gweithgareddau datblygu prosiect i ddarparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn unol â Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi estyniad amser hyd at ddiwedd mis Mehefin 2023 (cyn belled bod yr holl archebion wedi cael eu codi erbyn diwedd mis Mawrth 2023).

- **Y Gronfa Trafnidiaeth Leol** – gwelliannau seilwaith – dyfarnwyd £0.750m yn 2021/22 i hwyluso gwelliannau seilwaith ar Ynys Môn er mwyn cefnogi gwaith cyflawni rhwydwaith bysiau (Metro Gogledd Cymru) ar ran Trafnidiaeth Cymru. Sicrhawyd estyniad amser ac mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y gellir hawlio'r grant llawn. Yn ystod chwarter 3, cadarnhawyd y feddalwedd unigryw ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer cynnwys yr arwyddion 'totem', cwblhawyd gwaith ar gyfer y safleoedd solar inc electronig (i'w gosod yn chwarter 4), cwblhawyd cam cyntaf y gwaith sifil yn gysylltiedig â'r strwythur 21.5". Mae disgwyl i'r gwaith sifil sy'n weddill a'r gwaith o osod yr holl systemau gwybodaeth amser real gael ei gwblhau yn ystod chwarter 4 (yn ddibynnol ar y tywydd ayb.)
- **Cronfa Trafnidiaeth Leol** – dyfarnwyd £0.630m yn 2022/23 er mwyn gwella seilwaith bysiau sy'n ymwneud ag ailddatblygu arhosfannau bysiau mewn safleoedd cyfnewid bysiau allweddol (h.y. cysgodfannau bysiau newydd / cyflwyno gwelliannau ar dir cyhoeddus ac ati). Mae llythyr o gynnig diwygiedig o £0.493m wedi cael ei dderbyn er mwyn cyflawni'r uchod ar x4 safle (yn hytrach na x6). Cytunwyd hefyd i roi estyniad amser hyd at ddiwedd mis Mehefin 2023 (cyn belled bod archebion yn cael eu codi erbyn diwedd mis Mawrth 2023). Yn ystod chwarter 3, cafodd yr holl ddyluniadau eu hadolygu a'u diwygio yn dilyn trafodaethau gyda'r prif gontractwr ac mae proses archebu gwaith wedi cychwyn i gadarnhau'r cyllidebau a rhaglenni ar gyfer cyflawni'r gwaith ym mhob safle (a chyflawni'r rhaglen gyffredinol). Mae'r holl Gynghorau Tref perthnasol wedi cadarnhau eu bod yn cefnogi dyluniad y cynllun.
- **Grantiau Gwres Carbon Isel** - dyfarnwyd cyllid i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â grantiau Sector Cyhoeddus Carbon Isel (ar gyfer Ysgol Gynradd Moelfre (£0.091m) a Swyddfeydd y Cyngor (£1.033m)) er mwyn cynorthwyo i ddarparu a gosod pypiau gwres. Gwariwyd 90% o'r ddau ddyfarniad grant a chytunodd Llywodraeth Cymru i drosglwyddo gweddill y dyfarniad grant i flwyddyn ariannol 2022/23 er mwyn cwblhau'r gwaith yn ystod chwarter 2 2022/23. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn Ysgol Gynradd Moelfre. Er bod yr amserlen wreiddiol yn tybio y byddai'r gwaith yn Swyddfeydd y Cyngor wedi cael ei gwblhau erbyn chwarter 2, cafwyd oedi sylweddol ar ôl derbyn caniatâd cynllunio oherwydd bod un o'r prif gontractwr peirianyddol wedi mynd i'r wal. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar y safle ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn ystod chwarter 4.
- **Cae 3G Amlwch** – sicrhawyd arian grant gwerth £0.075m tuag at ddarparu cae 3G yn Amlwch, ac mae gweddill y gyllideb yn cael ei hariannu o'r gronfa wrth gefn gyfalaf ar gyfer gwelliannau hamdden. Mae'r prosiect wedi'i gwblhau yn awr.
- **Porth Arfordirol Môn** – roedd y tendrau'n uwch na'r cyllid gwreiddiol ac o'r herwydd dyrannwyd £50k o gyllid cyfalaf y Cyngor Sir ar gyfer y gwelliannau i'r toiledau i ymorol am gostau ychwanegol. Disgwylir i'r cyllid gael ei wario'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, yn unol ag amodau'r grant. Cwblhawyd y gwaith canlynol yn chwarter 3:
 - Bae Trearddur – tynnu popeth o'r adeilad, codi parwydydd newydd a chwblhau'r gwaith plymio paratoadol yn barod ar gyfer y llawr newydd a fydd yn cael ei osod ddechrau mis Chwefror.
 - Porthdafarch – tynnu popeth o'r adeilad, codi parwydydd newydd a chwblhau'r gwaith plymio paratoadol yn barod ar gyfer y llawr newydd a fydd yn cael ei osod ddechrau mis Chwefror.
 - Porth Swtan; - tynnu popeth o'r adeilad, tynnu'r nenfydau asbestos, codi parwydydd newydd a chwblhau'r gwaith plymio paratoadol yn barod ar gyfer y llawr newydd a fydd yn cael ei osod ddechrau mis Chwefror. Ym mis Ionawr cafodd coed y gofod to eu trin rhag pryf ac ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau bydd y gwaith o osod nenfwd UPVC yn cychwyn.
 - Benllech; - tynnu popeth o'r adeilad, codi parwydydd newydd a chreu agorfeydd newydd yr wythnos diwethaf a chychwyn y gwaith plymio paratoadol yn barod ar gyfer y llawr newydd a fydd yn cael ei osod ddechrau mis Chwefror.

- **Grant Ysgolion Bro** - dyfarnwyd £0.476m o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion tu allan i oriau traddodiadol, yn benodol ar gyfer addasu ysgolion yn ddiogel a'u hagor tu allan i oriau traddodiadol er mwyn caniatáu i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau. Ni fu unrhyw wariant ar y cynllun hyd yma, fodd bynnag mae rhaglen bellach ar waith ar gyfer gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a bydd tendrau'n cael eu cynnig yn ystod chwarter 4. Rhagwelir na fydd yn bosib defnyddio'r grant yn llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac mae hyn wedi cael ei drafod yn helaeth gyda LIC sydd wedi cytuno i gario unrhyw gyllid dros ben i flwyddyn ariannol 2023/24 er mwyn cwblhau'r gweithgareddau arfaethedig.
- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** – mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu arian grant gwerth £0.476m i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY. Nod y grant yw gwneud y mwyaf o amgylcheddau dysgu o dan 16 oed ar gyfer disgyblion sydd ag ADY a gwella hygyrchedd er mwyn hyrwyddo arferion cynhwysol, cefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Bydd hyn yn cynorthwyo i roi Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg 2018 a'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Ni chafwyd unrhyw wariant ar y cynllun hyd yma, fodd bynnag mae amserlen bellach ar waith ar gyfer gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond oherwydd natur y gwaith (sy'n golygu bod rhaid ei gwblhau yn ystod gwyliau ysgol er mwyn achosi cyn lleied â phosib o aflonyddwch), rhagwelir nad fydd modd defnyddio'r grant yn llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac mae hyn wedi cael ei drafod y helaeth gyda LIC ac maent wedi cytuno i gario unrhyw gyllid dros ben i flwyddyn ariannol 2023/24 er mwyn cwblhau'r gweithgareddau arfaethedig.
- Dyrannwyd cyllid gofal cymdeithasol o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy'r ffrydiau cyllido canlynol:
 - **Y Gronfa Gofal Integredig** – cafodd £0.852m ei hawlio drwy'r Gronfa Gofal Integredig yn y flwyddyn flaenorol a thrwy symud cyllid, er mwyn caniatáu i brosiectau lithio i 2022/23 i'w cwblhau. Mae'r arian sy'n cael ei reoli fel rhan o'r rhaglen yn cynnwys y 4 prosiect canlynol:
 - Cartrefi grŵp bychan arbenigol - byddwn yn defnyddio'r cyllid i fuddsoddi yn ein cartrefi preswyl i blant ac i gynnig cymorth i ysgolion i gefnogi iechyd a thechnoleg.
 - Gofal Ychwanegol yn ne'r ynys – bydd y cyllid ychwanegol hwn yn ariannu'r gost gychwynnol o baratoi'r safle, costau pensaer a chostau cynllunio.
 - Buddsoddiad Cyfeillgar i'r Anabl – bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n llawn yn 2022/23 i gwblhau'r buddsoddiad cyfeillgar i'r anabl yng nghanolfannau hamdden Plas Arthur a Chaergybi.
 - Anableddau Dysgu: Galluogi Mynediad – Bydd y prosiect hwn yn ariannu buddsoddiad mewn cyfleoedd byw â chymorth a chyfleoedd cymunedol i bobl gydag anableddau dysgu.

Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y prosiectau'n parhau yn 2023/24 a chytunwyd â'r tîm rhanbarthol i gario'r cyllid i 2023/24 er mwyn eu cwblhau.

- **Prosiectau cyfalaf Dewisol** – mae £0.147m o gyllid cyfalaf wedi cael ei sicrhau drwy brosiectau cyfalaf dewisol a bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r ddau brosiect canlynol:
 - Cartrefi grŵp bychan - Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi costau adeiladu i adnewyddu canolfan seibiant dydd i blant.
 - Byw â Chymorth ar gyfer unigolion ag Anableddau Dysgu – Bydd y cyllid yn cael ei wario ar dechnolegau uwch i hyrwyddo cynhwysiant a datblygu sgiliau.

Rhagwelir y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n llawn yn y flwyddyn ariannol hon yn unol ag amodau'r grant.

- **Y Gronfa Gymunedol Integreiddio ac Ail-gydbwysu** - mae £0.244m o gyllid cyfalaf wedi cael ei sicrhau drwy'r Gronfa Gymunedol Integreiddio ac Ail-gydbwysu i ariannu'r canlynol:-
 - HWB llesiant Amlwch – Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi hygyrchedd ar gyfer unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau. Bydd rhywfaint o'r cyllid hefyd yn cael ei fuddsoddi mewn ardal lesiant a gweithfan i staff yr awdurdod lleol a'r trydydd sector er mwyn cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau gydag unigolion, teuluoedd a gofalywr.
 - Cartrefi Gofal Dementia Gyfeillgar – Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i greu trydedd uned ddiogel yng nghartref gofal Garreglwyd i gefnogi cynnydd mewn cymorth dementia arbenigol yn lleol.

Rhagwelir y bydd y cyllid yn cael ei wario'n llawn yn y flwyddyn ariannol hon yn unol ag amodau'r grant, fodd bynnag oherwydd bod y cyllid wedi cael ei ddyrannu'n hwyr gan Lywodraeth Cymru, cynhelir trafodaethau mewn perthynas â'r gallu i wario'r arian ar amser.

- **Y Gronfa Tai â Gofal (HCF)** - mae £1.1m o gyllid wedi cael ei sicrhau drwy'r gronfa Tai a Gofal ar gyfer 2022/23 a 2023/24 i gefnogi'r prosiect Cartrefi Grŵp Bychan ac ariannu'r gwaith o adnewyddu dau gartref a buddsoddi mewn uned seibiant dros nos ar un safle. Rhagwelir y bydd £0.5m o'r cyllid hwn yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon a gweddill y cyllid, £0.6m, yn 2023/24.

3.2 Derbyniadau Cyfalaf

3.2.1 Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hon hyd yma a'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidwyd ar eu cyfer:-

	Cyllideb 2021/22 £'000	Derbyniwyd hyd at 31-Rhagfyr-2022 £'000	Rhagolwg i 31-Mawrth-2023 £'000
Cronfa'r Cyngor:			
Mân-ddaliadau	0	0	0
Cyffredinol	0	182	182
Diwydiannol	0	0	0
Ysgolion	672	146	146
Cyfanswm	672	328	328

3.2.2 Y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2023 yw £0.328m, a derbyniwyd £0.328m erbyn 31 Rhagfyr 2023 (100%). Mae'r ffigur amcangyfrifedig hwn ychydig yn wahanol i'r hyn a adroddwyd yn chwarter 2. Mae hyn yn sgil gwybodaeth bellach bod disgwyl i rai o'r adeiladau a oedd i fod i gael eu gwerthu yn 2022/23 gael eu gwerthu yn 2023/24 erbyn hyn o ganlyniad i oedi.

3.2.3 Er bod y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir yn £0.328m, mae £2.709m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd bod £2.381m o Dderbyniadau Cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2021/22 yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf. Ni fydd y ffigur hwn i gyd ar gael i ariannu'r rhaglen gyfalaf gyffredinol gan y bydd cyllid wedi'i glustnodi i ariannu'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fel rhan o arian cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â'r gronfa wrth gefn Hamdden a glustnodwyd i ariannu gwelliannau hamdden.

4. GWARIANT CYFALAF GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2022/23

4.1 Mae'r tabl isod yn rhoi amcangyfrif o'r gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2023 a'r cyllid diwygiedig:-

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol £'000	Gwariant a Ragamcenir £'000	(Tan) / Gor Wariant a Ragamcenir £'000	Amrywiad %
Cronfa Tai Gyffredinol	1,667	780	(887)	(53)
CRT Tai	15,034	10,143	(4,891)	(33)
Dysgu Gydol Oes	18,008	13,216	(4,792)	(27)
Economaidd ac Adfywio	7,620	7,093	(527)	(7)
Priffyrdd	7,197	5,046	(2,151)	(30)
Rheoli Gwastraff	451	233	(218)	(48)
Eiddo	1,717	758	(959)	(56)
Trawsnewid	711	644	(67)	(9)
Gwasanaethau Oedolion	1,885	1,154	(731)	(39)
Cyfanswm	54,290	39,067	(15,223)	(28)
Cyllidwyd gan:	Cyllideb Flynyddol £'000	Cyllid a Ragamcenir £'000	Amrywiad £'000	Amrywiad %
Grant Cyfalaf	21,792	18,587	(3,205)	(15)
Derbyniadau Cyfalaf	1,138	587	(551)	(48)
Benthyca â Chefnogaeth	7,068	2,792	(4,276)	(60)
Benthyca Digefnogaeth	6,742	5,450	(1,292)	(19)
Cyfraniad Refeniw	10,366	6,435	(3,931)	(38)
Cronfeydd wrth Gefn	7,107	5,139	(1,968)	(28)
Benthyciad	77	77	0	0
Cyfanswm Cyllid	54,290	39,067	(15,223)	(28)

4.2 Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 yw £15.223m, gyda'r swm hwn yn llithro, o bosib, i Raglen Gyfalaf 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

Yr hyn sy'n cyfannu fwyaf at y tanwariant a ragwelir yw tanwariant o fewn y CRT a Dysgu Gydol Oes, lle rhagwelir tanwariant sylweddol. Mae manylion pellach am y CRT ar gael yn adroddiad monitro cyllideb chwarter 3 y CRT.

Mae'r tanwariant sylweddol a ragwelir yn y rhaglen gyfalaf gyffredinol wedi'i grynhoi isod:-

Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Erbyn hyn, rhagwelir tanwariant sylweddol yn erbyn y gyllideb hon. Mae'r gwaith a'r gyllideb grant cyfleusterau i'r anabl yn seiliedig ar alw ac nid yw'r gwasanaeth wedi gweld y lefel ddisgwyliedig o weithgarwch yn gysylltiedig â derbyn a chymeradwyo ceisiadau yn ystod 2022/23 hyd yma.

Economaidd ac Adfywio

Bydd y cynlluniau Isadeiledd Morwrol ac Isadeiledd Ymwelwyr yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf fel yr adroddwyd yn adroddiad monitro cyllideb chwarter 2. O ran y cynllun Isadeiledd Morwrol - rhoddir blaenoriaeth i'r gwaith yn Amlwch ac er bod gwaith cefndirol wedi dechrau ac ymgynghorwyr wedi'u penodi, mae angen y gyllideb lawn o hyd a bydd y mwyafrif o'r gwaith yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Does dim llawer o wariant wedi bod hyd yma ar y cynllun Isadeiledd Ymwelwyr, ond rhagwelir rhywfaint o wariant yn chwarter 4. Serch hynny, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda'r adran Briffyrdd ynglŷn â'r gwaith sydd angen ei wneud ac felly ni fydd y cynllun yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn hon a rhagwelir llithriad yn barod. Bydd y cynllun llorio yng nghanolfan Hamdden Amlwch yn cychwyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gydag ychydig bach o wariant o'r gyllideb. Rhagwelir y bydd y gyllideb sydd yn weddill yn cael ei chyflawni yn ystod chwarter un, blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau grant gwerth £90k gan Chwaraeon Cymru a fydd yn cyfrannu at y cynllun, a bydd gweddill y gyllideb yn cael ei hariannu drwy'r gronfa gyfalaf Hamdden.

Rheoli Gwastraff

Ni fydd y gyllideb ar gyfer Offer Ailgylchu'n cael ei gwario'n llawn a rhagwelir tanwariant o hyd. Y rheswm am hyn yw'r amseroedd aros ar gyfer peiriannau/cyfarpar penodol ac, ar ôl gwneud ymholiadau ynghylch eu caffael, ni fyddant yn cael eu cyflenwi cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r gyllideb wedi'i hymrwymo'n llawn a bydd angen iddi lithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Eiddo

Ni fydd cyllideb y cynllun Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus yn cael ei gwario'n llawn, a rhagwelir yn awr na fydd unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun gwella toiledau a fydd yn rhoi gwell syniad o'r gofynion cyfalaf yn ystod y blynyddoedd ariannol nesaf. Yn ogystal, rhagwelir y gallai arian grant ychwanegol ar gyfer gwaith cyfalaf ar doiledau cyhoeddus fod ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf a byddai modd defnyddio'r gyllideb hon eto fel arian cyfatebol os yw'r cyfle hwn yn codi. Erbyn hyn rhagwelir tanwariant yn ystod y flwyddyn yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer gwaith ar Adeiladau'r Cyngor. Mae'r gwasanaeth wedi cynghori bod rhywfaint o'r prosiectau ar ei hôl hi oherwydd diffyg capasiti i'w cyflawni. Yn benodol, mae £350k wedi cael ei ddyrannu ar gyfer y gwaith yng Nghanolfan Hamdden Amlwch, a rhagwelir y bydd cyfran o'r gwaith yn cael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac y bydd gweddill y cyllid yn cael ei ddwyn ymlaen i 2023/24. Yn yr un modd bydd y £250k a ddyrannwyd i Ganolfan Hamdden Caergybi yn cael ei gario i'r flwyddyn ariannol nesaf. Bydd ffactorau eraill yn effeithio ar gynnydd y cynlluniau hyn, megis y tywydd yn achos y gwaith to.

Dysgu Gydol Oes

Ar ddiwedd chwarter 2, rhagwelwyd y byddai'r gyllideb ar addasiadau i'r anabl mewn adeiladau addysg yn cael ei gwario'n llawn fel rhan o waith ehangach sy'n cael ei wneud gyda chyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Erbyn chwarter 3, mae'n debyg na fydd y gyllideb hon, ynghyd â'r grant Ysgolion Bro ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn cael ei gwario'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Fel yr eglurwyd yn 3.1.1, mae LIC wedi cytuno i gario unrhyw gyllid grant ychwanegol i flwyddyn 2023/24 er mwyn cyflawni'r gweithgareddau arfaethedig. Felly, mae'r cyllid wedi cael ei ymrwymo'n llawn, ond, oherwydd nifer o wahanol resymau sydd wedi cael eu rhannu â LIC, bwriedir gwario'r cyllid yn llawn erbyn chwarter 2 blwyddyn ariannol 2023/24.

Yn ogystal â'r cynlluniau uchod, rhagwelir tanwariant sylweddol yn y gyllideb ailwampio adeiladau addysg. Mae hyn o ganlyniad i ddyrannu cyllid grant gwerth £1.189m ar gyfer gwaith cynnal a chadw Cyfalaf mewn ysgolion. Bydd y cyllid grant yn cael ei ddefnyddio yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod. Yn unol ag amodau'r grant bydd cyllid craidd na fydd yn cael ei ddefnyddio yn y flwyddyn ariannol hon, o ganlyniad i dderbyn y grant ychwanegol, yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwaith cyfalaf mewn ysgolion yn 2023/24.

Roedd y gyllideb a osodwyd yn wreiddiol ar gyfer y gwaith ar do Canolfan Addysg y Bont yn cynnwys swm o arian wrth gefn i ymorol am unrhyw waith annisgwyl. Mae'r gwaith yn tynnu tua'r terfyn, ac nid oedd llawer o wariant ychwanegol yn chwarter 3, felly rhagwelir tanwariant o £826k o gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Bydd unrhyw danwariant yn cael ei ddychwelyd i gronfeydd cyffredinol y Cyngor ar ôl cyfrifo'r costau terfynol.

Fel yr eglurwyd yn 3.1.1 mae oedi ar y funud mewn perthynas â'r Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig oherwydd bod y tir yn wlyb iawn. Bydd hyn yn cael effaith ar wariant a bydd y gyllideb a gwariant sydd yn weddill yn cael ei ail-broffilio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Cynlluniau Priffyrdd

Mae'r tanwariant a ragwelir o fewn y cynlluniau Priffyrdd yn gysylltiedig â chynlluniau llifogydd amrywiol, yn bennaf oherwydd bod prosiectau'n pontio dwy flwyddyn ariannol ac oherwydd bod rhai wedi ymestyn i flwyddyn ariannol 2023/24. Mae grantiau Trafnidiaeth Leol eraill wedi cael eu cynnig yn hwyr yn y flwyddyn ariannol ac er eu bod yn ymwneud â 2022/23, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ymestyn y grantiau hyd at fis Mehefin 2023/24 er mwyn cyflawni'r cynlluniau hyn. Erbyn hyn rhagwelir tanwariant yn y gyllideb cerbydau. Mae'r cyllid wedi'i ymrwymo'n llawn, ond oherwydd yr amser aros ar gyfer cerbydau, ni fydd yr holl gerbydau yn ein cyrraedd yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd y cyllid yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf, fel y disgrifir uchod, ac ni fydd y cyllid yn cael ei golli.

Gwasanaethau Oedolion

Fel yr eglurwyd yn 3.1.1, rhagwelir tanwariant y Gronfa Gofal Integredig. Dyma gyllid a symudwyd o'r flwyddyn flaenorol ac mae'r tîm rhanbarthol sy'n ymwneud â'r Gronfa Gofal Integredig wedi cytuno y gellir cyflawni'r cynlluniau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y cyllid felly'n llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf, ac ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.

- 4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2023 yw £144.667m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn gallu ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd mae benthyca allanol yn £123.964m, sy'n golygu yn ei hanfod bod angen i'r Awdurdod fenthyca £20.703m i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os ymgymerir â'r benthyca hwn yn allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23 (Atodiad 11).

5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

- 5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chymorth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2023/24 yn dilyn yr un egwyddor, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chymorth yn cael eu defnyddio i ariannu adnewyddu cerbydau bob blwyddyn, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffordd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a bydd y rhain yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu hariannu, bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor fel y nodir nhw yng nghynllun corfforaethol drafft y Cyngor am y cyfnod 2022 – 2027, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

Mae'r Gyllideb Gyfalaf derfynol arfaethedig ar agenda'r Pwyllgor hwn, a bydd y gyllideb derfynol yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023. Bydd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24 hefyd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn ac i'r Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023.

6. CASGLIAD

- 6.1** Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 3, a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir, yn dangos fod y mwyafrif o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb, er y bydd ambell gynllun yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyngor wedi sicrhau nifer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn, neu disgwylir i hynny ddigwydd. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn £0.328m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2022/23 i gyfrannu tuag at ariannu'r Rhaglen Gyfalaf.

Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Cyllideb a Broffiliwyd (£)	Gwariant Gwirionedd ol (£)	Gwariant a Ymrwymwyd (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Amrywiad i'r Proffil (£)	Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%)	Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragamcenir (£)	(Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir	Amrywiad (%)
Cronfa Dai Gyffredinol											
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	845,226	200,000	214,396	0	214,396	14,396	107	25	450,000	(395,226)	(47)
Grant Galluogi	139,786	30,000	34,500	0	34,500	4,500	115	25	139,786	0	0
Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	490,841	0	0	0	0	0	0	0	0	(490,841)	(100)
Cynllun Prynu Gorfodol	160,000	150,000	150,505	0	150,505	505	100	94	160,000	0	0
Tai fforddiadwy	30,650	0	0	0	0	0	0	0	30,650	0	0
CYFANSWM	1,666,503	380,000	399,402	0	399,402	19,402	105	24	780,436	(886,067)	(53)
CRT Tai											
Contract Gwres Canolog	800,000	600,000	560,316	172	560,488	(39,512)	93	70	800,000	0	0
Cerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Tai	27,383	27,383	27,383	0	27,383	(0)	100	100	27,383	0	0
Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd	3,955,000	2,966,250	1,191,236	89,947	1,281,183	(1,685,067)	43	32	2,000,000	(1,955,000)	(49)
Gwella Perfformiad Ynni	1,000,000	750,000	52,178	25,267	77,445	(672,555)	10	8	77,445	(922,555)	(92)
Gwaith Amgylcheddol	870,667	653,000	82,433	31,320	113,753	(539,247)	17	13	200,000	(670,667)	(77)
Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd	5,479,000	4,109,250	3,017,870	467,404	3,485,274	(623,976)	85	64	4,936,888	(542,112)	(10)
Addasiadau Sector Cyhoeddus	400,000	300,000	152,205	96,780	248,985	(51,015)	83	62	400,000	0	0
Risg Tân	600,000	450,000	30,942	138,034	168,976	(281,025)	38	28	400,000	(200,000)	(33)
Tir Halogedig	1,950	975	975	0	975	0	100	50	1,950	0	0
SATC	1,900,000	1,426,463	810,207	0	810,207	(616,256)	57	43	1,299,025	(600,975)	(32)
CYFANSWM	15,034,000	11,283,321	5,925,744	848,924	6,774,668	(4,508,653)	60	45	10,142,691	(4,891,309)	(33)
Dysgu Gydol Oes											
Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol	144,512	7,500	7,242	2,937	10,179	2,679	136	7	37,242	(107,270)	(74)
Adnewyddu Adeiladau Addysg	4,036,042	2,400,000	2,340,610	9,424	2,350,034	(49,966)	98	58	2,600,000	(1,436,042)	(36)
Diogelwch Ysgolion	136,792	25,000	24,922	0	24,922	(78)	100	18	40,000	(96,792)	(71)
Canolfan Addysg y Bont - To	2,490,852	1,650,000	1,646,706	1,896	1,648,602	(1,398)	100	66	1,665,000	(825,852)	(33)
Canolfan Addysg y Bont - Dosbarth	90,000	90,000	90,000	0	90,000	0	100	100	90,000	0	0
Ailwynebu Ardal Chwarae	18,756	6,000	6,360	0	6,360	360	106	34	18,756	0	0
Grant Cyfalaf Dechra'n Deg	50,000	25,000	22,044	0	22,044	(2,956)	88	44	50,000	0	0
Grant Prydau Ysgol am Ddim	1,379,380	700,000	671,102	0	671,102	(28,898)	96	49	1,379,380	0	0
Canopiau Allanol	371,000	260,000	229,662	33,625	263,287	3,287	101	71	371,000	0	0
Grant Ysgolion Bro	475,530	0	0	0	0	(0)	0	0	135,650	(339,880)	(71)
Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol	475,530	0	0	0	0	(0)	0	0	108,000	(367,530)	(77)
Grant Gofal Plant (costau rheoli prosiect a chynllun grant)	362,907	100,000	77,843	17,615	95,458	(4,542)	95	26	362,907	0	0
Uned Llanfawr	784,350	500,000	3,735	492,843	496,578	(3,422)	99	63	784,350	0	0
Moderneiddio Band A	4,973,892	4,000,000	4,035,174	82,798	4,117,972	117,972	103	83	4,973,892	0	0
Moderneiddio Band B	2,218,342	450,000	418,182	14,715	432,896	(17,104)	96	20	600,000	(1,618,342)	(73)
CYFANSWM	18,007,885	10,213,500	9,573,581	655,853	10,229,434	15,933	100	57	13,216,177	(4,791,708)	(27)

Gwasanaeth	Cyllideb Flynnyddol (£)	Cyllideb a Broffiliwyd (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant a Ymrwymwyd (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Amrywiad i'r Profïl (£)	Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%)	Gyllideb Flynnyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragamceniir (£)	(Tan)/ Gorwariant a Ragamceniir (£)	Amrywiad (%)
Economaidd ac Adfywio											
Gwelliannau Hamdden	80,612	0	0	0	0	(0)	0	0	80,612	0	0
Ystafell Ffitrwydd Amlwch	13,845	11,000	10,818	0	10,818	(182)	98	78	13,845	0	0
Ystafell Ffitrwydd David Hughes	118,000	121,000	120,830	0	120,830	(170)	100	102	121,000	3,000	3
Cae Chwarare 3G Amlwch	138,110	138,110	138,784	0	138,784	674	100	100	138,784	674	0
Lloriau Amlwch	135,000	4,300	0	4,300	4,300	0	100	3	4,300	(130,700)	(97)
Porth Twristiaeth	50,000	15,000	4,987	880	5,867	(9,133)	39	12	50,000	0	0
Parc y Morglawdd	525,000	400,000	258,163	85,743	343,906	(56,094)	86	66	525,000	0	0
Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 2	2,556,838	2,556,838	2,012,092	544,746	2,556,838	0	100	100	2,556,838	0	0
Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 3	325,000	325,000	219,807	104,787	324,594	(406)	100	100	325,000	0	0
Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol	109,600	0	0	0	0	(0)	0	0	109,600	0	0
Lithfra Porth y Wrach - Camerâu Gorfodi	30,000	0	0	0	0	(0)	0	0	0	(30,000)	(100)
Canolfan Gymuned Newry	200,000	180,000	126,134	47,776	173,909	(6,091)	97	87	200,000	0	0
Unedau Porth	1,067,908	1,000,000	906,072	6,006	912,079	(87,921)	91	85	1,067,908	0	0
Cyd-fenter Safle Porth	261,069	180,000	135,535	42,379	177,915	(2,085)	99	68	261,069	0	0
Partneriaeth Tirwedd Caergybi	100,000	10,000	8,705	0	8,705	(1,295)	87	9	100,000	0	0
Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II)	950,000	400,000	369,583	0	369,583	(30,417)	92	39	850,000	(100,000)	(11)
Isadeiledd Morwrol	200,000	50,000	17,100	33,960	51,060	1,060	102	26	51,060	(148,940)	(74)
Isadeiledd Ymwelwyr	200,000	1,500	0	1,284	1,284	(216)	86	1	75,000	(125,000)	(63)
Melin Llynonn	185,000	50,000	44,697	6,175	50,872	872	0	27	185,000	0	0
Grant Covid Trawsnewid Trefi	10,064	0	0	0	0	(0)	0	0	10,064	0	0
Porth Arfordirol Môn	360,000	15,000	14,320	460	14,780	(221)	99	4	360,000	0	0
Grant Porth Amlwch	3,836	7,850	7,850	0	7,850	0	100	205	7,850	4,014	105
CYFANSWM	7,619,882	5,465,598	4,395,478	878,497	5,273,974	(191,624)	96	69	7,092,930	(526,952)	(7)
Prifffyrdd a Thrafnidiaeth											
Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio	4,533	5,500	0	5,469	5,469	(32)	99	121	5,500	967	21
Cerbydau	573,745	200,000	34,854	37,000	71,854	(128,146)	36	13	71,854	(501,891)	(87)
Ailwynebu Prifffyrdd	2,000,000	1,500,000	1,517,926	0	1,517,926	17,926	101	76	2,000,000	0	0
Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi	65,420	15,000	13,678	0	13,678	(1,322)	91	21	50,000	(15,420)	(24)
Cynllun Lliniaru Llifogydd Traeth Coch	23,933	6,000	5,997	0	5,997	(3)	100	25	10,000	(13,933)	(58)
Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanfair	397,649	2,000	266	1,750	2,016	16	101	1	15,000	(382,649)	(96)
Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Mônai	167,271	40,000	32,412	10,000	42,412	2,412	106	25	53,000	(114,271)	(68)
Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Y Fali	41,349	10,000	11,889	0	11,889	1,889	119	29	15,000	(26,349)	(64)
Cynllun Llifogydd Y Fali - adeiladu	472,841	400,000	388,619	13,476	402,095	2,095	101	85	472,841	0	0
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol)	135,800	0	0	0	0	(0)	0	0	0	(135,800)	(100)
Traeth Coch (Cyllid Cyfatebol)	235,000	0	0	0	0	(0)	0	0	0	(235,000)	(100)
Strwythur Mill Lane	42,258	60,000	61,584	5,000	66,584	6,584	111	158	66,584	24,326	58
Dwyran - cwrs dŵr cyffredinol - NFM	21,528	20,000	17,422	0	17,422	(2,578)	87	81	21,528	0	0
Mill Lane - NFM	241,640	0	0	0	0	(0)	0	0	70,000	(171,640)	(71)
Buddsoddi i Arbed - Cerbydau	5,068	0	0	0	0	(0)	0	0	5,068	0	0
Gwaith Grant Graddfa Fechan	539,288	220,000	167,157	49,950	217,107	(2,893)	99	40	539,288	0	0
Teithio Llesol	537,500	270,000	132,244	142,820	275,064	5,064	102	51	537,500	0	0
Cronfa Ffyrdd Gwydn	230,000	150,000	23,777	140,389	164,166	14,166	109	71	210,000	(20,000)	(9)
Isadeiledd Bysiau 2021/22	451,902	451,902	349,846	0	349,846	(102,056)	77	77	451,902	0	0
Isadeiledd Bysiau 2022/23	492,648	30,000	30,356	0	30,356	356	101	6	140,448	(352,200)	(71)
Pwyntiau gwefru cerbydau trydan	127,797	128,000	128,010	0	128,010	10	100	100	128,010	213	0
Cerbyd Allyriadau Isel lawn	114,108	4,000	0	3,604	3,604	(396)	90	3	32,971	(81,137)	(71)
Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan	275,527	150,000	94,700	54,349	149,049	(951)	99	54	150,000	(125,527)	(46)
CYFANSWM	7,196,805	3,662,402	3,010,738	463,807	3,474,545	(187,858)	95	48	5,046,494	(2,150,311)	(30)

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Cyllideb a Broffiliwyd (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant a Ymrwymwyd (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Amrywiad i'r Proffil (£)	Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%)	Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragamcendir (£)	(Tan)/Gorwariant a Ragamcendir (£)	Amrywiad (%)
Rheoli Gwastraff											
Paciwr Rholio	28,750	28,750	28,750	0	28,750	0	100	100	28,750	0	0
Cyllid Economi Cylchol (265)	5,836	2,400	3,000	0	3,000	600	125	51	5,836	0	0
Gwaith IVC	36,620	20,000	23,025	0	23,025	3,025	115	63	36,620	0	0
Offer Ailgylchu	380,000	25,000	0	25,749	25,749	749	103	7	161,319	(218,681)	(58)
CYFANSWM	451,206	76,150	54,775	25,749	80,524	4,374	106	18	232,525	(218,681)	(48)
Eiddo											
Adnewyddu Asedau Cyfredol	1,058,926	300,000	298,087	0	298,087	(1,913)	99	28	468,000	(590,926)	(56)
Eiddo - Buddsoddi i Arbed	77,068	0	0	0	0	(0)	0	0	77,068	0	0
Grant Gwresogi Carbon Isel - Swyddfeydd y Cyngor	120,563	0	0	0	0	(0)	0	0	120,563	0	0
Grant Gwresogi Carbon Isel - Ysgol Gynradd Moelfre	9,125	0	0	0	0	(0)	0	0	9,125	0	0
Adnewyddu Mân-ddaliadau	83,677	70,000	71,242	0	71,242	1,242	102	85	83,677	0	0
Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus	368,000	0	0	0	0	(0)	0	0	0	(368,000)	(100)
TOTAL	1,717,359	370,000	369,330	0	369,330	(671)	100	22	758,433	(958,926)	(56)
Trawsnewid											
TGCh - Isadeiledd Craidd	200,000	180,000	170,533	9,841	180,374	374	100	90	200,000	0	0
TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron	250,000	240,000	239,400	0	239,400	(600)	100	96	250,000	0	0
TGCh - Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA	72,708	15,000	0	15,682	15,682	682	105	22	25,000	(47,708)	(66)
TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod	50,000	3,000	2,643	0	2,643	(357)	0	5	30,000	(20,000)	(40)
Isadeiledd Hwb TGCh	138,514	30,000	25,741	2,100	27,841	(2,159)	0	20	138,514	0	0
CYFANSWM	711,222	468,000	438,317	27,623	465,940	(2,060)	100	66	643,514	(67,708)	(10)
Gwasanaethau Oedolion											
Y Gronfa Gofal Integredig	851,566	65,000	67,211	6,000	73,211	8,211	113	9	157,647	(693,919)	(81)
Prosiectau Cyfalaf Dewisol (DCP)	146,970	35,000	35,255	0	35,255	255	101	24	146,970	0	0
Cronfa Tai gyda Gofal (HCP)	244,125	0	0	0	0	0	0	0	244,125	0	0
Cronfa Gofal Integredig ac Aifalansio (IRCF)	500,000	0	0	0	0	0	0	0	500,000	0	0
Hwb Cymunedol Bryn Hwfa	13,155	0	0	0	0	(0)	0	0	13,155	0	0
Adnewyddu Plas Crigyll	45,535	45,535	45,535	0	45,535	(0)	0	100	45,535	0	0
Adnewyddu Plas Mona	83,371	0	120	0	120	120	0	0	46,524	(36,847)	(44)
CYFANSWM	1,884,722	145,535	148,121	6,000	154,121	8,586	106	8	1,153,956	(730,766)	(39)
CYFANSWM	54,289,584	32,064,508	24,315,485	2,906,453	27,221,938	(4,842,570)	85	50	39,067,156	(15,222,428)	(28)

Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol ers gosod y gyllideb

Cynllun	Cyllideb £	CYLLIDO					
		Grant £	Cyfraniad Refeniw £	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £	Cronfeydd wrth Gefn Cyfalaf £	Benthycia â Chefnogaeth £	Benthycia Digefnogaeth £
Dechra'n Deg	50,000	50,000					
Teithio Llesol	537,500	537,500					
Flyrdd Gwydn	230,000	230,000					
Gwaith Graddfa Fechan	399,287	353,959				45,328	
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol)	(49,500)					(49,500)	
Paciwr Rholio	28,750				28,750		
Gwaith Cyfalaf IVC	36,620			36,620			
Cae Chwarare 3G Amlwch	75,000	75,000					
Canolfan Addysg y Bont - To	1,500,000				1,500,000		
David Hughes - gorwariant ffitrwydd	18,000				18,000		
Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 3	600,000	600,000					
Cynllun Prynu Gorfodol	160,000			160,000			
Parc y Morglawdd	525,000	525,000					
Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 2	582,948	582,948					
Porth Arfordirol Môn	248,000	248,000					
Isadeiledd Hwb TG	138,514	138,514					
Canolfan Gymuned Newry	200,000				200,000		
Partneriaeth Tirwedd	(90,000)	(90,000)					
Strwythur Mill Lane	15,000	12,750			2,250		
Llifogydd Amlwch a Chaergybi	50,542	50,542					
Isadeledd Bysiau 2021/22	(220,976)	(220,976)					
Isadeledd Bysiau 2022/23	492,648	492,648					
Ysgolion Bro	475,530	475,530					
Anghenion Dysgu Ychwanegol	475,530	475,530					
Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Porthaethwy	45,376	45,376					
Prydau Ysgol am Ddim	832,177	832,177					
Canolfan Addysg y Bont - Dosbarth	90,000			90,000			
Melin Llynnon	82,000	82,000					
Cynllun Llifogydd Y Fali - adeiladu	98,885	84,052			14,833		
AHNE - Adferiad Gwyrdd	(237,774)	(237,774)					
Cynllun Cyfalaf Gofal Plant	(45,331)	(45,331)					
Menter Treftadaeth Treflun Cam II	525,000	525,000					
Porth Twristiaeth	(170,000)	(170,000)					
Unedau Porth ERDF	196,073	196,073					
Band B Graig	(2,611,658)	(1,214,578)				(654,080)	(743,000)
Band A Corn Hir	1,205,892	1,569,495					(363,603)
ICF/DCP/HCF/IRCF	1,742,661	891,095	266,001			585,565	
Grant cyfalaf Addysg	1,188,824	1,188,824					
Cerbyd Allyriadau Isel lawn	114,108	114,108					
Cynllun grantiau cyfalaf Gofal Plant	320,000	320,000					
Uned Llanfawr	784,350	784,350					
Grant Galluogi	139,786	139,786					
Lloriau Amlwch	90,000	90,000					
Lliniaru Llifogydd Llansadwrn	(32,291)	(27,447)			(4,844)		
CYFANSWM	10,836,471	9,704,151	266,001	286,620	1,758,989	(72,687)	(1,106,603)

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	3 MAWRTH 2023
Pwnc:	MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 3 2022/23
Aelod(au) Portffolio:	Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH ADNODDAU A SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	BETHAN HUGHES OWEN
Ffôn:	01248 752663
E-bost:	BETHANOWEN2@YNYSMON.GOV.UK
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau	
<p>1. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-</p> <p>(i) Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3 2022/23.</p> <p>(ii) Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2022/23.</p> <p>2. Cefndir</p> <p>(i) Mae'r adroddiad hwn yn dangos cyllideb refeniw sydd â gwarged a gynlluniwyd o £6,218k.</p> <p>(ii) Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23 yw £15,034k. Roedd hyn i'w gyllido'n rhannol gan grantiau (£2,688k).</p> <p>(iii) Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £6,128k yn y gyllideb, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.</p> <p>(iv) Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo cyllid o'r cronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.</p> <p>3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Rhagfyr 2022.</p> <p>4. Trosolwg</p> <p>4.1 Mae sefyllfa refeniw y CRT ar ddiwedd Chwarter 3 yn dangos gorwariant o £544k o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Adolygwyd y rhagolwg, ac mae'n dangos rhagolwg o orwariant o £951k ar gyfer y flwyddyn (o gymharu â £958k ar ddiwedd Chwarter 2). Mae £298k o'r gorwariant hwn yn ymwneud â dyfarniad cyflog 2022/23 y mae'n rhaid i'r CRT ei gyllido'n llawn. Mae Atodiad A yn cynnwys mwy o fanylion.</p> <p>4.2 Mae gwariant Cyfalaf £4,509k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gyllideb a broffiliwyd yn rhagdybio fod llawer o'r gwaith yn cael ei gyflawni yn ystod ail hanner y flwyddyn. Mae'r gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn £4,891k yn is na'r gyllideb (o gymharu â £2,949k yn is na'r gyllideb ar ddiwedd Chwarter 2) fel yr esbonnir isod. Mae Atodiad B yn cynnwys mwy o fanylion.</p>	

- 4.3** Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno referniw a chyfalaf) yn £2,187k (£4,137k yn Chwarter 2) ar hyn o bryd, £3,940k yn is na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd bod y gwariant cyfalaf yn is na'r gyllideb.

5. Incwm

- 5.1** Ar ddiwedd Chwarter 3, roedd yr incwm a dderbyniwyd £13k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd, fel y nodir isod.
- 5.2** Roedd incwm rhenti fymryn yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Chwarter 3. Adolygwyd y rhagolwg gan fod tenantiaid wedi symud i mewn i eiddo newydd (yn ddiweddar daeth 49 eiddo newydd ar gael i'w rhentu) a chodwyd y rhagolwg i £19,472k (£19,452k yn Chwarter 2), sef cynnydd o £20k.
- 5.3** Cynhaliwyd adolygiad tebyg a ddangosodd fod disgwyl i incwm garejys fod £7k yn uwch na'r gyllideb (£5k yn Chwarter 2), a disgwylir i incwm o ffioedd gwasanaeth fod £8k yn is na'r gyllideb (£7k yn uwch na'r gyllideb yn Chwarter 2) yn dilyn adolygiad llawn.
- 5.4** Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% o'r incwm rhent, ffigwr tebyg i'r llynedd. Cyfanswm y dyledion ar hyn o bryd yw £977k, o gymharu â £899k yn ystod yr un cyfnod y llynedd, sef cynnydd o £78k (8.68%). Oherwydd yr ansicrwydd am gyfradd chwyddiant a'i effaith ar yr argyfwng costau byw yn y tymor hir, ni newidiwyd y rhagolwg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd yn cael ei fonitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn a bydd yn cael ei adolygu os yw lefel y dyledion yn awgrymu bod y risg o beidio casglu lefel uwch o ôl-ddyledion yn cynyddu.
- 5.5** Y rhagolwg cyffredinol yw y bydd incwm £51k yn uwch na'r gyllideb flynyddol (£44k yn Chwarter 2).

6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

- 6.1** Ar ddiwedd Chwarter 3, roedd gwariant ar waith heblaw am waith trwsio a chynnal a chadw £122k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd.
- 6.2** Mae'r pennawd Cyfranogiad Tenantiaid yn dangos tanwariant o £52k ar ddiwedd Chwarter 3. Roedd y gyllideb yn cynnwys lwfans ar gyfer staff ychwanegol ond ni lenwyd y swyddi hyn, ac nid oes disgwyl iddynt gael eu llenwi yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Felly, mae'r rhagolwg wedi cael ei adolygu i ddangos tanwariant amcanol o £70k.
- 6.3** Nid yw'r gorwariant o £30k a £15k a ragwelir ar Weinyddu Rhenti a Rheoli Ystadau, yn y drefn honno, wedi newid ers Chwarter 2, ac mae oherwydd effaith dyfarniad cyflog.
- 6.4** Gwelwyd tanwariant o £100k mewn gwariant referniw arall hyd at Chwarter 3. Yn Chwarter 4 disgwylir costau meddalwedd TGCh gwerth £62k a chostau postio ac offer ysgrifennu gwerth £54k yn gysylltiedig â hysbysiadau cynyddu rhenti. Rhagwelir gorwariant o £15k mewn Gwariant Referniw Arall erbyn diwedd y flwyddyn oherwydd effaith y dyfarniad cyflog.

7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

- 7.1** Mae gorwariant o £749k yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) ar ddiwedd Chwarter 3. Mae lefel yr archebion gwaith yn dilyn codi cyfyngiadau Covid19 yn parhau i fod yn uchel, ac mae gwariant yn ystod Chwarter 3 yn adlewyrchu'r cynnydd yn y galw am waith cynnal a chadw ymatebol, sy'n cael ei arwain gan y galw, o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol ynghyd â chynnydd yn nifer a maint y gwaith yr oedd angen ei wneud pan oedd tenantiaethau'n newid dwylo, gyda gwaith yn mynd rhagddo fel arfer ar rhwng 40 a 50 eiddo ar unrhyw adeg. Mae'r cynnydd hwn yn y galw'n cael ei adlewyrchu yn y defnydd cynyddol o isgontractwyr, ac mae disgwyl iddynt gostio £700k yn fwy na'r gyllideb wreiddiol. Mae effaith chwyddiant ar gost deunyddiau yn destun pryder hefyd, a rhagwelir y bydd costau deunyddiau £100k yn uwch, a biliau cyfleustodau £100k yn uwch. Mae effaith dyfarniad cyflog 2022/23 yn ychwanegu £100k arall. Nid oes arwydd ar hyn o bryd y bydd lefel y gwaith yn gostwng, felly, nid yw'r rhagolwg wedi newid, a disgwylir y bydd y gwariant £1,000k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 7.2** Rhagwelir y bydd gwariant ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall £50k yn is na'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan nad oedd angen y costau ychwanegol ar gyfer trwsio gwaith trin carthion.

8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

- 8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sydd yn ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir gorwariant o £32k ar yr ad-daliad i'r Gwasanaethau Tai, a gorwariant o £30k ar yr ad-daliad i'r gwasanaethau Canolog, oherwydd effaith dyfarniad cyflog 2022/23.

9. Gwariant Cyfalaf

- 9.1** Cyfanswm y gyllideb gyfalaf yw £15,034k, a oedd yn cael ei gyllido o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr (£2,688k) a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT (£12,346k). Adolygwyd y rhagolwg ar gyfer gwariant blynyddol i £10,143k, £4,891k yn is na'r gyllideb, gostyngiad pellach o £1,943k ers Chwarter 2. Nodir yr amrywiadau mwyaf isod:-
- 9.2** Mae Atodiad C yn dangos y gyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer pob un o'r cynlluniau adeiladu o'r newydd neu gynlluniau prynu tai, gan gynnwys nifer yr unedau newydd fesul cynllun, y gwariant hyd yma, y gwariant a ragwelir, y tan neu gorwariant a ragwelir fesul cynllun a'r dyddiadau cwblhau disgwyliedig ar gyfer pob cynllun.

Mae gwaith ar Glwb Cymdeithasol Biwmares ychydig tu ôl i'r amserlen, oherwydd oedi yn sgil gwaith archeolegol. Rhagwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau yn gynnar yn ystod Blwyddyn Ariannol 2023/24. Rhagwelir tanwariant o £487k ar y cynllun hwn yn 2022/23.

Mae gorwariant o £58k ar brosiect Ysgol Llanfachraeth, a'r rheswm pennaf am hyn yw gwaith draenio annisgwyl y daethpwyd ar ei draws wrth i'r contract fynd rhagddo. Yn ogystal â hyn, mae taliad a gadwyd yn ôl gwerth £17k yn ddyledus yn gynnar yn 2023/24, a fydd yn cynyddu cyfanswm y gorwariant ar y prosiect i £75k.

Yn wreiddiol, rhagwelwyd y byddai pryniant 10 tŷ fforddiadwy gan Clwyd Alyn ar y safle ym Mhentraeth wedi'i gwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, gyda rhagamcan o £750k yn cael ei gynnwys yn ein rhagolwg ar gyfer y flwyddyn yn Chwarter 2. Yn wreiddiol, y bwriad oedd prynu tir a chyfrannu tuag at y costau adeiladu yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod rhaid prynu eiddo 'wedi eu cwblhau'. Felly, bydd y cynllun hwn yn llithro i 2023/24, ac mae disgwyl i'r eiddo gael eu cwblhau erbyn mis Medi 2023.

Mae'r prosiectau ym Mhlas Alltran a Chae Braenar wedi llithro i flwyddyn ariannol 2023/24, y cyntaf oherwydd oedi gyda'r broses gynllunio a'r ail oherwydd bod y tendrau a dderbyniwyd yn uwch na'r disgwyl. Barnwyd bod y prisiau a gyflwynwyd yn rhy uchel ac, felly, nid oeddent yn bodloni'r asesiad dichonolrwydd. Bydd rhaid ail-dendro yn ystod y misoedd nesaf. Rhagwelir tanwariant o £250k ar y prosiect ym Mhlas Alltran a thanwariant o £456k ar y prosiect yng Nghae Braenar yn 2022/23.

Mae'r gwaith ar y Cyfleuster Gofal Ychwanegol a safle Parc y Coed yn mynd rhagddo yn gynt na'r disgwyl, a rhagwelir gorwariant o £92k a £271k ar y cynlluniau unigol hyn.

Bwriedir prynu 3 eiddo arall yn ôl yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, gan ddod â chyfanswm yr eiddo a brynwyd yn ôl yn ystod y flwyddyn i 15, o gymharu â'r nifer arfaethedig o 12 eiddo. O ganlyniad, bydd gorwariant o £349k ar y cynllun hwn.

- 9.3** Mae'r prosiect Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) wedi cael ei ohirio tra bod y dyluniad ar gyfer y rhaglen ceginau newydd yn cael ei gwblhau. Roedd 135 eiddo yn rhan o'r rhaglen yn wreiddiol. Erbyn hyn, rhagwelir y bydd 80 eiddo yn cael eu cwblhau yn ystod 2022/23, gyda'r gweddill yn llithro i 2023/24. Mae'r dogfennau tendr wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer cam nesaf y gwaith, sy'n golygu y gellir ymgymryd â'r gwaith ychydig yn gynt na'r hyn a ragwelwyd yn Chwarter 2. Rhagwelir y bydd y Prosiect Cyfalaf hwn yn tanwario £601k yn 2022/23 (£900k yn Chwarter 2).
- 9.4** Mae'r gyllideb Perfformiad Ynni yn dibynnu ar ymgynghori â'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth (DNO) cyn gosod paneli Solar Ffotofoltaidd i gynhyrchu trydan adnewyddadwy. Yn anffodus, mae'n parhau i fod yn anodd derbyn cymeradwyaeth gan y DNO i wneud gwaith Solar Ffotofoltaidd mawr oherwydd y gofyniad i atgyfnerthu'r rhwydwaith cyn gosod y system Solar Ffotofoltaidd. Yn anffodus ni fu unrhyw gynnydd o ran derbyn cymeradwyaeth gan y DNO, felly, mae'n annhebygol y bydd unrhyw wariant sylweddol pellach eleni, ac, felly, mae'r rhagolwg wedi cael ei ostwng £173k ymhellach o gymharu â Chwarter 2 i adlewyrchu'r oedi o ran derbyn cymeradwyaeth.
- 9.5** Eleni, rhagwelir tanwariant o £1,955k ar waith cynnal a chadw traddodiadol a gynlluniwyd. Y prif reswm am hyn yw bod y gwaith ar eiddo ym Mae Cemaes, y bwriadwyd ei dendro a'i ddyfarnu yn Chwarter 1, i fod i ddigwydd o dan un cynllun pan osodwyd y gyllideb ar gyfer 2022/23. Ar ôl hynny, penderfynwyd y byddai'r gwaith yn digwydd mewn dau gam. Mae Cam 1 ar y safle ac yn mynd rhagddo yn dda ar hyn o bryd, a bydd Cam 2 yn cael ei dendro a'i ddyfarnu yn ystod Chwarter 4. Barnwyd y byddai'n bosib dyfarnu'r contract ar gyfer yr ail gam i'r contractwr sydd yn cwblhau cam 1 yn seiliedig ar y rhestr cyfraddau a gyflwynwyd ar gyfer cam 1. Fodd bynnag, mae'r Tîmau Caffael a Chyfreithiol wedi cynghori y byddai hyn yn groes i reoliadau caffael y Cyngor ac, felly, mae'n rhaid tendro ar gyfer y gwaith yn y modd arferol. Mae hyn wedi gohirio dechrau'r prosiect a chynyddu'r tanwariant a ragwelwyd gan £500k. Tendrwyd ar gyfer cynllun pellach yn ymwneud â 10 eiddo ym Mhorthaethwy, Llandegfan a Brynteg drwy Gwerthwchi Gymru yn ystod Chwarter 3. Bydd y tendrau'n cael eu gwerthuso a'u dyfarnu yn gynnar yn Chwarter 4.

Mae elfen wresogi'r prosiect yn mynd rhagddi yn dda a bydd wedi'i chwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

9.6 Mae'r gyllideb amgylcheddol yn caniatáu ar gyfer buddsoddiad sylweddol mewn perthynas ag uwchraddio systemau gwaredu â charthffosiaeth yng Ngharreglefn, er mwyn cydymffurfio â gofynion a bennwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r datrysiad arfaethedig yn cynnwys trafodaethau gyda pherchennog tir preifat a sicrhau trwydded ar gyfer y cynllun gan CNC. Er bod y drwydded wedi'i chymeradwyo, mae trafodaethau'n parhau gyda'r perchennog tir a'r contractwr. Yn realistig, nid oes disgwyl i waith ddechrau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. At hyn, mae dymchwel garejys yn rhan sylweddol o'r rhaglen gyfalaf hon yn 2022/23. Bwriadwyd i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn Chwarter 4 2022/23, fodd bynnag, oherwydd oedi wrth gyhoeddi hysbysiadau dymchwel, cymeradwyo cynlluniau ac argaeledd contractwr ar fframwaith yr Awdurdod, disgwylir £300k yn fwy o danwariant ar y cynllun yn 2022/23. Rydym felly'n rhagweld tanwariant o £671k ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth.

9.7 Mae'r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu gostyngiad tebyg yn y swm sydd i'w gyllido o'r cyfrif refeniw CRT. Mae'r balans ar gael wedyn i gyllido prosiectau sydd wedi eu gohirio tan y flwyddyn nesaf.

10. Balans y CRT

10.1 Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £12,333k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £6,128k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y rhagolygon diwygiedig a nodir uchod yn defnyddio £2,187k yn unig. Mae hyn yn rhoi balans o £10,146k yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly, nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

Ch – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Aseu'r effaith posib (os yw'n berthnasol)

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Wrth osod y gyllideb flynyddol bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Amherthnasol
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy?	Amherthnasol

4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwrch sut:-	Mae'r Gwasanaeth Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantaes economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Amherthnasol
E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar i'w gadarnhau ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151	Amherthnasol – Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Mae canlyniadau adroddiad monitro chwarterol y CRT yn cael eu hadrodd i'r Panel Sgiwtini Cyllid.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
F - Atodiadau		
<ul style="list-style-type: none"> • Atodiad A – Gwariant a rhagolygon referniw hyd at ddiwedd Chwarter 3 2022/23 • Atodiad B – Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd Chwarter 3 2022/23 • Atodiad C – Cynlluniau Cyfalaf Adeiladu o'r Newydd 		
Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2022/52 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2022). 		

CYFRIF CRT 2022/23						
	Cyllideb Flynyddol 2022/23	Cyllideb a Broffilwyd hyd at Fis 9	Gwirioneddol hyd at Fis 9	Amrywiol hyd at Fis 9	Rhagolwg Diwedd Blwyddyn	Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn
	£	£	£	£	£	£
CYLLIDEB REFENIW						
Incwm						
Anheddau	(19,420,000)	(14,471,784)	(14,471,536)	248	(19,472,000)	(52,000)
Modurdai	(223,000)	(166,181)	(170,821)	(4,640)	(230,000)	(7,000)
Taliadau Gwasanaeth	(201,000)	(149,786)	(146,491)	3,295	(193,000)	8,000
Arall	(207,860)	(93,977)	(106,150)	(12,173)	(207,860)	0
Darpariaeth Dyledion Drwg	296,000	0	0	0	296,000	0
CYFANSWM INCWM	(19,755,860)	(14,881,728)	(14,894,998)	(13,270)	(19,806,860)	(51,000)
Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw						
Cyfranogiad Tenantiaid	260,653	195,418	143,260	(52,158)	190,653	(70,000)
Gweinyddu Rhenti	500,013	374,491	387,231	12,740	530,013	30,000
Rheoli Stadau	180,788	135,345	152,406	17,061	195,788	15,000
Gwariant Refeniw Arall	1,770,934	1,115,409	1,015,622	(99,787)	1,785,934	15,000
Cyfanswm Gwariant heblaw ar Waith Trwsio a Chynnal a Chadw	2,712,388	1,820,663	1,698,519	(122,144)	2,702,388	(10,000)
Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw						
Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT)	3,795,464	2,846,127	3,595,069	748,942	4,795,464	1,000,000
Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UCChT)	958,583	717,490	718,205	715	958,583	0
Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall	793,655	664,839	595,032	(69,807)	743,655	(50,000)
Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw	5,547,702	4,228,456	4,908,306	679,850	6,497,702	950,000
Addasiadau Diwedd Blwyddyn						
Taliadau Cyllido Cyfalaf	3,674,000	0	0	0	3,674,000	0
Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Tai	790,630	0	0	0	822,630	32,000
Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Canolog	812,831	0	0	0	842,831	30,000
Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn	5,277,461	0	0	0	5,339,461	62,000
CYFANSWM GWARIANT REFENIW	13,537,551	6,049,119	6,606,825	557,706	14,539,551	1,002,000
CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG	(6,218,309)	(8,832,609)	(8,288,173)	544,436	(5,267,309)	951,000

	Cyllideb Flynyddol 2022/23	Cyllideb a Broffilwyd hyd at Fis 9	Gwirioneddol hyd at Fis 9	Amrywiol hyd at Fis 9	Rhagolwg Diwedd Blwyddyn	Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn
	£	£	£	£	£	£
CYFRIF GWARIANT CYFALAF						
Gwariant 2022/23	15,034,000	11,283,321	6,774,669	(4,508,652)	10,142,691	(4,891,309)
Lwfans Atgyweiriadau Mawr Grantiau / Benthyciadau Eraill	(2,688,000) 0	0 0	0 0	0 0	(2,688,000) 0	0 0
CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG	12,346,000	11,283,321	6,774,669	(4,508,652)	7,454,691	(4,891,309)
CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT	6,127,691	2,450,712	(1,513,504)	(3,964,216)	2,187,382	(3,940,309)
Balans Agoriadol y CRT	(12,333,000)			0	(12,333,000)	
Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT	6,127,691			0	2,187,382	
Balans Cau'r CRT	(6,205,309)			0	(10,145,618)	

ATODIAD B

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Cyllideb a Broffiliwyd (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Amrywiad yn erbyn y Proffil (£)	Gwariant a Ragwelir (£)	Tan / Gorwariant a Ragwelir (£)
CRT Tai						
Contract Gwres Canolog	800,000	600,000	560,488	(39,512)	800,000	0
Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd	3,955,000	2,966,250	1,281,183	(1,685,067)	2,000,000	(1,955,000)
SATC	1,901,950	1,427,438	811,182	(616,256)	1,300,975	(600,975)
Cerbydau	27,383	27,383	27,383	(0)	27,383	0
Gwaith Amgylcheddol	870,667	653,000	113,753	(539,247)	200,000	(670,667)
Risg Tân	600,000	450,000	168,976	(281,024)	400,000	(200,000)
Caffael Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd	5,479,000	4,109,250	3,485,274	(623,976)	4,936,888	(542,112)
Addasiadau Sector Cyhoeddus	400,000	300,000	248,985	(51,015)	400,000	0
Gwella Perfformiad Ynni	1,000,000	750,000	77,445	(672,555)	77,445	(922,555)
CYFANSWM	15,034,000	11,283,321	6,774,669	(4,508,652)	10,142,691	(4,891,309)

ATODIAD C

Cyllideb datblygiadau newydd 2022/23 - Amcan Chwarter 3

Cynllun	Nifer o unedau ychwanegol	Cyllideb 2022-23 £	Gwariant hyd at C9 £	Amcan Gwariant C10 hyd at C12 £	Cyfanswm y Gwariant a Ragwelir 2022-23 £	Gorwariant/ Tanwariant £
Pentraeth (Datblygiad Clwyd Alyn)	10	0	0	0	0	0
Armenia St, Caergybi	5	8,000	(6,610)	14,610	8,000	0
Cyfnodau cadw 2021-22	1	16,000	16,000	0	16,000	0
Marquis, Rhosybol	15	34,000	45,989	0	45,989	11,989
Ysgol Llanfachraeth	8	100,000	158,789	0	158,789	58,789
Cyfleuster Gofal Ychwanegol	55	100,000	191,812	0	191,812	91,812
Plas Alltran, Caergybi	4	250,000	(3,596)	3,596	0	(250,000)
Ysgol Llaingoch, Caergybi	26	300,000	288,681	0	288,681	(11,319)
Cae Braenar, Caergybi	23	460,000	3,828	0	3,828	(456,172)
Parc y Coed, Llangefni	12	500,000	197,970	573,000	770,970	270,970
Clwb Cymdeithasol Biwmares	6	1,000,000	387,232	126,268	513,500	(486,500)
Adnewyddu 15 uned	0	1,318,955	1,018,334	180,000	1,198,334	(120,621)
Prynu 15 Uned yn ôl	15	1,392,045	1,186,845	554,140	1,740,985	348,940
Cyfanswm Dyraniad 2022-23	180	5,479,000	3,485,274	1,451,614	4,936,888	(542,112)

Tudalen 56

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	2 MAWRTH 2023
PWNC:	ADRODDIAD AR YR ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2022/23 RHEOLI TRYSORLYS
AELODAU(AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS, AELOD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151
AWDUR YR ADRODDIAD: E-BOST:	JEMMA ROBINSON 01248 752675 JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru
AELODAU LLEOL:	Amherthnasol
A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau	
<ul style="list-style-type: none"> Argymell i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r newid yn y terfyn gwrthbarti i awdurdodau lleol eraill yn unol ac adain 5.3; I ystyried cynnwys yr adroddiad ac anfon unrhyw sylwadau ymlaen i'r Cyngor llawn. 	
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
Amherthnasol	
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad I'r Pwyllgor Gwaith?	
<ul style="list-style-type: none"> Cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022/23 (Atodiad 8 Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cafodd yr adroddiad hwn ei sgrwtineiddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 8 Rhagfyr 2022. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn unwaith y bydd wedi ei dderbyn gan y Pwyllgor hwn. 	
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisiau a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?	
Ydi	
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?	
Amherthnasol	
DD Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?	Beth oedd eu sylwadau
1 Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	
2 Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn
3 Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	
4 Adnoddau Dynol (AD)	
5 Eiddo	
6 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7 Caffael	
8 Sgrwtini	
9 Aelodau Lleol	
10 Arall	Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:- <ul style="list-style-type: none"> I dderbyn yr adroddiad ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2022/23, ac i'w argymell i'r Pwyllgor Gwaith heb sylw.

E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)	
1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-
3	A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-
5	Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
F - Atodiadau:	
Atodiad A – Adolygiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn ar Gyfer 2022/23	
FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):	
<ul style="list-style-type: none"> • Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23 • Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys 2022/23 • Adroddiad Alldro Cyfalaf 2021/22 	

1. Cefndir

1.1 Strategaeth Cyfalaf

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) godau diwygiedig ar gyfer Darbodusrwydd a Rheoli Trysorlys. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi Strategaeth Gyfalaf gyda'r bwriad o ddarparu'r canlynol:-

- trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgareddau rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau;
- trosolwg o sut y mae'r risg gysylltiedig yn cael ei rheoli; a
- goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn amlinellu ein Strategaeth Gyfalaf i'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022, a bydd Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn cyn 31 Mawrth 2023.

1.2 Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor yn gweithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n fras y bydd arian a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â'i wariant arian parod. Mae'n rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys i sicrhau bod y llif arian hwn wedi'i gynllunio'n ddigonol, gydag arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn gwrthbartion risg isel, gan ddarparu hylifedd digonol yn y lle cyntaf, cyn ystyried sicrhau'r elw uchaf posib o'r buddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o faint y bydd angen i'r Cyngor gael benthyg sef, yn y bôn, cynllunio llif arian parod yn y tymor hirach i sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gall y gwaith hwn o reoli arian parod yn y tymor hirach gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hirach ac, ar brydiau, gellir ailstrwythuro unrhyw ddyled i fodloni amcanion cost neu risg y Cyngor.

Yn unol â hynny, diffinnir rheoli trysorlys fel:-

“Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny.”

2. Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (diwygiwyd 2017). Mae prif ofynion y Côt fel a ganlyn:-

- (i) Creu a chynnal Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys, sy'n nodi polisiau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor.
- (ii) Creu a chynnal Arferion Rheoli Trysorlys, sy'n nodi'r modd y bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisiau a'r amcanion hynny.
- (iii) Bod y Cyngor llawn yn derbyn Datganiad Blynyddol ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ar gyfer y flwyddyn i ddod, Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn (yr adroddiad hwn) ac Adroddiad Blynyddol, yn ymdrin â gweithgareddau yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- (iv) Bod y Cyngor yn dirprwyo cyfrifoldebau dros weithredu a monitro polisiau ac arferion rheoli trysorlys ac ar gyfer gweithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli trysorlys.

- (v) Bod y Cyngor yn dirprwyo rôl craffu ar y strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys i gorff penodol a enwir. Ar gyfer y Cyngor hwn, y corff dirprwyedig hwnnw yw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Paratowyd yr adroddiad canol blwyddyn hwn yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, ac mae'n cynnwys y canlynol:-

- Diweddariad economaidd ar gyfer hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23;
- Adolygiad o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol;
- Gwariant cyfalaf y Cyngor, fel y'i nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, a dangosyddion darbodus;
- Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2022/23;
- Adolygiad o strategaeth fenthycar'r Cyngor ar gyfer 2022/23;
- Adolygiad o unrhyw aildrefnu dyledion a wnaed yn ystod 2022/23;
- Adolygiad o gydymffurfiaeth â'r Terfynau Trysorlys a Darbodus ar gyfer 2022/23.

3. Diweddariad Economaidd

- 3.1 Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor wedi darparu diweddariad economaidd ac mae i'w weld yn Atodiad 1. Yn ddiweddar, maent hefyd wedi darparu'r rhagolwg isod ar gyfer cyfraddau llog:-

	Rhag 2022	Maw 2023	Meh 2023	Medi 2023	Rhag 2023	Maw 2024	Meh 2024	Medi 2024	Rhag 2024	Maw 2025
Cyfradd Banc (%)	4.00%	5.00%	5.00%	5.00%	4.50%	4.00%	3.75%	3.25%	3.00%	2.75%
Cyfradd 5 mlynedd y PWLB* (%)	5.00%	4.90%	4.70%	4.50%	4.20%	3.90%	3.70%	3.50%	3.40%	3.30%
Cyfradd 10 mlynedd y PWLB (%)	4.90%	4.70%	4.60%	4.30%	4.10%	3.80%	3.60%	3.50%	3.40%	3.30%
Cyfradd 25 mlynedd y PWLB (%)	5.10%	4.90%	4.80%	4.50%	4.30%	4.10%	3.90%	3.70%	3.60%	3.60%
Cyfradd 50 mlynedd y PWLB (%)	4.80%	4.60%	4.50%	4.20%	4.00%	3.80%	3.60%	3.40%	3.30%	3.30%

*Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus

- 3.2 Yn ddiweddar, darparodd ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor sylwebaeth i gyd-fynd â'r rhagolygon cyfraddau llog uchod. Gellir gweld y sylwebaeth hon yn Atodiad 2.

4. Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a diweddariad ar y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

- 4.1 Cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (TMSS) ar gyfer 2022/23 ar 10 Mawrth 2022. Nid oes unrhyw newidiadau polisi yn y TMSS; mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn diweddarar'r sefyllfa yng ngoleuni'r sefyllfa economaidd sydd ohoni a'r newidiadau cyllidebol a gymeradwywyd eisoes.

5. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

- 5.1 Yn unol â'r Côd, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau diogelwch cyfalaf a hylifedd, a sicrhau lefel briodol o enillion sy'n gyson ag archwaeth risg y Cyngor. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ystyrir ei bod yn briodol cadw'r buddsoddiadau i rai tymor byr er mwyn cwrdd ag anghenion llif arian, ond hefyd i chwilio am y gwerth sydd ar gael mewn cyfnodau hyd at 12 mis gyda sefydliadau ariannol sydd â statws credyd uchel.
- 5.2 Roedd gan y Cyngor £55.224m o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2022 (£46.115m ar 31 Mawrth 2022), a'r elw o'r portffolio buddsoddi am chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 1.11%. Fodd bynnag, dylid nodi fod yr enillion wedi cynyddu yn ystod yr ail chwarter ac mae disgwyl iddynt barhau i gynyddu yn ystod ail hanner y flwyddyn. Mae Atodiad 3 yn cynnwys rhestr llawn o'r buddsoddiadau ar 30 Medi 2022. Mae Atodiad 4 yn cynnwys crynodeb o'r buddsoddiadau a'r cyfraddau.
- 5.3 Nid aethpwyd yn uwch na'r terfynau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod chwe mis cyntaf 2022/23. Serch hynny, gofynnir am godi'r terfyn ar gyfer benthycar i Awdurdodau Lleol eraill o £5m i £10m. Oherwydd bod ein balansau arian parod wedi cynyddu a'r galw gan awdurdodau eraill yn uwch, rydym eisïau manteisio ar y cyfleoedd buddsoddi gorau posib.


- 5.4** Yr enillion o fuddsoddiadau y mae'r Cyngor wedi cynllunio ar eu cyfer am 2022/23 yn ei chyfanrwydd yw £0.004m ac nid yw perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd yma yn cyd-fynd â'r gyllideb, oherwydd derbyniwyd £0.208m hyd at ddiwedd Chwarter 2. Rydym yn rhagweld y bydd yr enillion ar ddiwedd y flwyddyn yn uwch na'r gyllideb gan fod ein balansau arian parod wedi bod yn uwch na'r arfer ac mae cyfraddau llog yn uwch nag a ragwelwyd pan osodwyd y gyllideb.
- 5.5** Mae'r meini prawf presennol ar gyfer dewis gwrthbartion buddsoddi a gymeradwywyd yn y TMSS yn cwrdd â gofynion y swyddogaeth rheoli trysorlys.
- 5.6** Gellir gweld y gwledydd a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddiadau yn Atodiad 5.
- 5.7** Mae'r tabl isod yn rhestru buddsoddiadau a wnaed yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon. Gan mai diogelwch yr arian yw dangosydd allweddol y Cyngor, ac oherwydd diffyg yn y galw gan Awdurdodau Lleol eraill, ystyrir mai cyfrifon banc galw yw'r ffordd fwyaf diogel o fuddsoddi arian, ac mae hyn yn darparu enillion uwch yn dilyn y cynnydd mewn cyfraddau llog. Serch hynny, mae'r Cyngor yn ceisio ehangu nifer y gwrthbartion sydd ar gael er mwyn lleihau'r symiau sy'n cael eu cadw mewn cyfrifon galw.

Gwrthbarti	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Cyfradd Llog %	Swm £	Llog a dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod £
National Westminster Bank	11/04/2022	11/10/2022	1.30	10,000,000	65,178
Santander	10/05/2022	10/11/2022	1.47	7,500,000	55,578
Nationwide Building Society	17/05/2022	17/08/2022	0.97	7,500,000	18,337
Goldman Sachs	22/07/2022	22/12/2022	2.18	7,500,000	68,536
Nationwide Building Society	17/08/2022	17/11/2022	1.87	7,500,000	35,351

6. Benthycu

- 6.1** Y gofyniad cyllid cyfalaf (GCC) a ragwelir ar gyfer 2022/23 yw £146.9m. Mae'r GCC yn dynodi angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu at ddibenion cyfalaf. Os yw'r GCC yn bositif, gall y Cyngor fenthycu gan y PWLB neu'r farchnad (benthycu allanol) neu o falansau mewnol ar sail dros dro (benthycu mewnol). Yn gyffredinol, mae'r cydbwysedd rhwng benthycu allanol a mewnol yn cael ei yrru gan amodau'r farchnad. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd wedi cael benthycu £122.7m erbyn diwedd y flwyddyn a bydd wedi defnyddio £24.2m o gronfeydd llif arian yn lle benthycu. Mae hwn yn ddull darbodus a chost effeithiol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ond bydd angen ei fonitro'n barhaus os bydd y risg fod yr elw ar giltiau yn uwch na'r disgwyl yn parhau.
- 6.2** Ni fenthycwyd unrhyw arian yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, ac ni ragwelir y bydd angen unrhyw fenthycu allanol ychwanegol yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Bydd angen benthycu i gyllido rhan o raglen gyfalaf 2022/23, ond gwneir hynny trwy fenthycu mewnol (defnyddio balansau arian parod). Bydd hyn yn gohirio costau cyllido cyfalaf tra bod balansau arian parod y Cyngor yn gallu darparu ar gyfer y benthycu mewnol hwn. Yn y tymor canolig, efallai y bydd angen allanoli benthycu os bydd balansau arian y Cyngor yn gostwng i lefel isel. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei monitro'n rheolaidd oherwydd effeithiau pwysau chwyddiant, prinder deunyddiau a llafur. Felly, bydd ein strategaeth fenthycu hefyd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac yna'n cael ei haddasu, os bydd angen, er mwyn cyflawni'r gwerth gorau posib a'r lefel gorau o risg yn y tymor hir.

Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos y newid yng nghyfraddau sicrwydd y PWLB ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn hyd yma. Roedd enillion giltiau a chyfraddau'r PWLB yn dangos tuedd ar i fyny rhwng 1 Ebrill a 30 Medi. Ar ddechrau 2022/23, roedd cyfradd darged 50 mlynedd y PWLB ar gyfer benthycu hirdymor newydd yn 2.20%, cyn cynyddu i 4.80% ym mis Medi. (Nodwch, serch hynny, ein bod yn rhagweld y bydd cyfraddau'r PWLB yn gostwng yn ystod 2023 a 2024.)



	1 Year	5 Year	10 Year	25 Year	50 Year
Low	1.95%	2.18%	2.36%	2.52%	2.25%
Date	01/04/2022	13/05/2022	04/04/2022	04/04/2022	04/04/2022
High	5.11%	5.44%	5.35%	5.80%	5.51%
Date	28/09/2022	28/09/2022	28/09/2022	28/09/2022	28/09/2022
Average	2.81%	2.92%	3.13%	3.44%	3.17%
Spread	3.16%	3.26%	2.99%	3.28%	3.26%

6.3 Prin iawn fu'r cyfleoedd a gafwyd i aildrefnu dyledion yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ac yn dilyn codiadau amrywiol yn yr elw a ychwanegwyd i enillion giltiau, ac mae hyn wedi cael effaith ar gyfraddau benthyg newydd y PWLB ers mis Hydref 2010. Felly, nid oes unrhyw ddyledion wedi cael eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol hyd yma. Fodd bynnag, gan fod y gromlin enillion yn ei chyfanrwydd wedi symud i lefel uwch, efallai y bydd gwell cyfleoedd yn y dyfodol, er dim ond aildrefnu dyledion sy'n ddarbodus ac yn fforddiadwy fydd yn cael ei ystyried.

7. Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor (Dangosyddion Darbodus)

7.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad wedi ei strwythuro er mwyn rhoi diweddariad ar:-

- Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor;
- Sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyllido;
- Effaith y newidiadau yn y cynlluniau gwariant cyfalaf ar y dangosyddion darbodus a'r angen sylfaenol i fenthyca; a
- Cydymffurfio â'r cyfyngiadau sydd ar waith ar gyfer gweithgareddau benthyca.

7.2 Dangosydd Darbodus ar gyfer Gwariant Cyfalaf

Mae'r tabl hwn yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf:-

Gwariant Cyfalaf	Amcangyfrif Gwreiddiol 2022/23 £'000	Sefyllfa ar 30 Medi 2022 £'000	Amcangyfrif Cyfredol 2022/23 £'000
Cronfa'r Cyngor	36,691	13,450	34,068
CRT	15,034	4,015	12,085
Cyfanswm	51,725	17,465	46,153

7.2.1 Mae'r gwariant a ragwelir yn dangos bod y mwyafrif o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb, ond mae rhai prosiectau'n rhagweld tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r cynllun a'r cyllid yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn rhagweld tanwariant sylweddol hefyd. Adlewyrchir hyn yn y tabl uchod. Mae dadansoddiad llawn o'r gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer 2022/23 i'w weld yn Adroddiad Monitro'r Gyllideb Cyfalaf ar gyfer Ch2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd 2022.

7.3 Newidiadau o ran Cyllido'r Rhaglen Gyfalaf

7.3.1 Mae rhai newidiadau i sut y cyllidir y rhaglen gyfalaf, fel y gwelir yn y tabl isod. Mae'r prif reswm am y newid yn cael ei nodi ym mharagraff 7.2.1, gan y bydd tanwariant sylweddol mewn cynlluniau cyfalaf yn 2022/23. Serch hynny, bydd y cynlluniau hyn yn llithro i 2023/24, ynghyd â'r cyllid ar eu cyfer ac, ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd unrhyw gyllid yn cael ei golli oherwydd yr oedi.

7.3.2 Mae'r tabl isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategaeth y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan dynnu sylw at ddull cyllido gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwylidig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthycâ'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei ostwng yn rhannol gan daliadau refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled (Darpariaeth Refeniw Isaf). Efallai y bydd dyledion sy'n aeddfedu a gofynion trysorlys eraill yn ychwanegu at yr angen benthyca uniongyrchol hwn hefyd.

Cyllido Cyfalaf	Amcangyfrif Gwreiddiol 2022/23 £'000	Amcangyfrif Diwygiedig 2022/23 £'000
Grantiau Cyfalaf	19,253	18,331
Derbyniadau Cyfalaf	1,108	830
Cronfeydd Wrth Gefn	7,112	6,331
Cyfraniad Refeniw	10,365	7,602
Benthyca â Chefnogaeth	7,068	6,240
Benthyca Digefnogaeth	6,742	6,742
Benthyciad	77	77
Cyfanswm	51,725	46,153

7.4 Newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol

7.4.1 Mae tablau 7.4.2 a 7.4.3 isod yn dangos y GCC, sef yr angen allanol sylfaenol i fenthycâ at ddibenion cyfalaf. Mae hefyd yn dangos y sefyllfa o ran dyled yn ystod y cyfnod. Yr enw ar hyn yw'r Terfyn Gweithredol, ac mae'n cael ei osod yn flynyddol gan y Cyngor fel rhan o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys.

7.4.2 Dangosydd Darbodus – Y Terfyn Gweithredol ar gyfer dyledion allanol

	Terfyn Gweithredol 2022/23 yn unol â TMSS 2022/23 £'000	Sefyllfa Fenthyca Agoriadol 2022/23 £'000	Swm o fewn y Terfyn £'000	Amcangyfrif o Sefyllfa Fenthyca 2022/23 £'000	Swm o fewn y Terfyn £'000
Dangosydd Darbodus – Dyled Allanol / Y Terfyn Gweithredol					
Benthyca	175,000	125,349	49,651	122,677	52,323
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	5,000	0	5,000	0	5,000
Cyfanswm dyledion ar 31 Mawrth	180,000	125,349	54,651	122,677	57,323

7.4.3 Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

7.4.3.1 Ar hyn o bryd, rydym ychydig yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelwyd yn wreiddiol oherwydd y tanwariant a ragwelir mewn benthyca, a hynny'n bennaf oherwydd y tanwariant a ragwelir yn y CRT ac oherwydd bod y Cyngor wedi derbyn cyllid grant ychwanegol a oedd yn cymryd lle'r cyllid gwreiddiol.

	Amcangyfrif Gwreiddiol 2022/23 £'000	Amcangyfrif Diwygiedig 2022/23 £'000
Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf		
GCC – Cronfa'r Cyngor	107,867	106,957
GCC – CRT	43,646	39,897
Cyfanswm GCC	151,513	146,854
Symudiad Net yn y GCC	10,567¹	9,050²

Rhagolwg GCC Gwreiddiol	151,513
Gostyngiad yn y DRI yn y rhagolwg diwygiedig ar gyfer Cyfalaf yn Ch2 2022/23 o gymharu â rhagolygon y TMSS ar gyfer 2022/23	150
Tanwariant mewn Benthyca Digefnogaeth ar gyfer y CRT yn 2022/23	-3,750
Gwahaniaeth mewn benthyciadau (gwahaniaeth rhwng rhagolwg TMSS 2022/23 a'r rhagolwg diwygiedig ar gyfer Cyfalaf yn Ch2) – derbyniwyd benthyciad Salix ychwanegol nad oedd yn hysbys pan luniwyd y TMSS ar gyfer 2022/23	400
Gorwariant ar Fenthyca Digefnogaeth yn 2021/22 a thanwariant yn 2022/23 oherwydd cafwyd gwariant Band B yn 2021/22, na chafodd ei ragweld wrth lunio'r TMSS, a thanwariant yn 2022/23 oherwydd gostyngiad mewn gwariant ar Fand A a Band B, o gymharu â'r ffigurau oedd ar gael pan luniwyd y TMSS.	-911
Tanwariant mewn Benthyca â Chefnogaeth yn 2021/22 oherwydd bod grant ychwanegol wedi'i dderbyn yn 2021/22 fel cyllid amgen a oedd yn golygu bod angen llai o Fenthyca â Chefnogaeth.	-549
Rhagolwg GCC Diwygiedig	146,854

¹ Symudiad rhwng amcangyfrif 2021/11 ac amcangyfrif 2022/23 yn y TMSS 2022/23

² Symudiad rhwng ffigurau gwirioneddol 2021/22 (yn unol â'r Datganiad o'r Cyfrifon 2021/22) ac amcangyfrif diwygiedig 2022/23

7.5 Cyfyngiadau ar Weithgareddau Benthycyca

7.5.1 Y rheolaeth allweddol gyntaf dros weithgareddau trysorlys yw dangosydd darbodus i sicrhau, dros y tymor canol, y bydd benthycyca net (benthyciadau llai buddsoddiadau) yn cael ei wneud at ddibenion cyfalaf yn unig. Ni ddylai benthycyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2022/23 a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn caniatáu peth hyblygrwydd ar gyfer lefel cyfyngedig o fenthycyca cynnar ar gyfer blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi ar gyfer benthycyca cyn yr angen, a glynir wrtho os gwelir bod hynny'n ddarbodus. Y sefyllfa fenthycyca gyfredol yw £124.155m, sy'n is na'r rhagolwg GCC ar gyfer eleni a'r ddwy flynedd ariannol nesaf (gweler y tabl isod), felly, cydymffurfiwyd â'r dangosydd hwn.

		2022/23 £'000	2023/24 £'000	2024/25 £'000
GCC (rhagolwg blwyddyn)	diwedd	146,854	161,468	167,556

	Amcangyfrif Gwreiddiol 2022/23 £'000	Sefyllfa Gyfredol ar 30 Medi 2022 £'000	Amcangyfrif Diwygiedig 2022/23 £'000
Benthycyca Allanol	144,333	124,155	122,677
Benthycyca Mewnol	7,180	22,699	24,177
Ynghyd â rhwymedigaethau tymor hir eraill	0	0	0
GCC (sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn)	151,513	146,854	146,854

7.5.2 Ni ragwelir y bydd unrhyw anawsterau yn y flwyddyn gyfredol o ran cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn.

7.5.3 Mae dangosydd darbodus arall yn rheoli lefel gyffredinol y benthycyca. Dyma'r Terfyn Awdurdodedig, sef y terfyn y gwaherddir benthycyca y tu hwnt iddo, ac mae angen i'r Aelodau ei osod a'i adolygu, sef £185m ar hyn o bryd. Mae'n adlewyrchu lefel y benthycyca y gellid ei fforddio yn y tymor byr, er nad yw'n lefel a ddymunir, ac ni fyddai'n gynaliadwy yn y tymor hirach. Dyma'r angen benthycyca uchaf a ddisgwylir gyda rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer symudiadau annisgwyl. Dyma'r terfyn statudol a bennir o dan Adran 3 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol	Dangosydd Gwreiddiol 2022/23 £'000	Sefyllfa Fenthycyca Gyfredol ar 30 Medi 2022 £'000	Amcangyfrif o'r Sefyllfa Fenthycyca ar 31 Mawrth 2022 £'000
Benthycyca	180,000	124,155	122,677
Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	0	0
Cyfanswm	185,000	124,155	122,677

8. Cydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus

- 8.1** Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i bennu a pharhau i adolygu'r terfynau benthyca fforddiadwy. Yn ystod yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2022, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodir yn Natganiad y Cyngor ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23. Ni ragwelir unrhyw anawsterau eleni nac yn y blynyddoedd i ddod o ran cydymffurfio â'r dangosyddion hyn.

Mae'r holl weithredoedd rheoli trysorlys hefyd wedi'u cynnal yn unol ag Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor.

**MARC JONES
CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)
A SWYDDOG ADRAN 151**

Diweddariad ar yr Economi hyd yma a'r rhagolygon / Economic Update & Forecasts

- The second quarter of 2022/23 saw:-
 - GDP revised upwards in Q1 2022/23 to +0.2% q/q from -0.1%, which means the UK economy has avoided recession for the time being;
 - Signs of economic activity losing momentum as production fell due to rising energy prices;
 - CPI inflation ease to 9.9% y/y in August, having been 9.0% in April, but domestic price pressures showing little sign of abating in the near-term;
 - The unemployment rate fell to a 48-year low of 3.6% due to a large shortfall in labour supply;
 - Bank Rate rise by 100bps over the quarter, taking Bank Rate to 2.25% with further rises to come;
 - Gilt yields surge and sterling fall following the “fiscal event” of the new Prime Minister and Chancellor on 23rd September.
- The UK economy grew by 0.2% q/q in Q1 2022/23, though revisions to historic data left it below pre-pandemic levels.
- There are signs of higher energy prices creating more persistent downward effects in economic activity. Both industrial production (-0.3% m/m) and construction output (-0.8% m/m) fell in July 2022 for a second month in a row. Although some of this was probably due to the heat wave at the time, manufacturing output fell in some of the most energy intensive sectors (e.g., chemicals), pointing to signs of higher energy prices weighing on production. With the drag on real activity from high inflation having grown in recent months, GDP is at risk of contracting through the autumn and winter months.
- The fall in the composite PMI from 49.6 in August to a 20-month low preliminary reading of 48.4 in September points to a fall in GDP of around 0.2% q/q in Q3 and consumer confidence is at a record low. Retail sales volumes fell by 1.6% m/m in August, which was the ninth fall in 10 months. That left sales volumes in August just 0.5% above their pre-Covid level and 3.3% below their level at the start of the year. There are also signs that households are spending their excess savings in response to high prices. Indeed, cash in households' bank accounts rose by £3.2bn in August, which was below the £3.9bn rise in July and much smaller than the 2019 average monthly rate of £4.6bn.
- The labour market remained exceptionally tight. Data for July and August provided further evidence that the weaker economy is leading to a cooling in labour demand. Labour Force Survey (LFS) employment rose by 40,000 in the three months to July (the smallest rise since February). But a renewed rise in inactivity of 154,000 over the same period meant that the unemployment rate fell from 3.8% in June to a new 48-year low of 3.6%. The single-month data showed that inactivity rose by 354,000 in July itself and there are now 904,000 more inactive people aged 16+ compared to before the pandemic in February 2020. The number of vacancies has started to level off from recent record highs but there have been few signs of a slowing in the upward momentum on wage growth. Indeed, in July, the 3my/y rate of average earnings growth rose from 5.2% in June to 5.5%.
- CPI inflation eased from 10.1% in July to 9.9% in August, though inflation has not peaked yet. The easing in August was mainly due to a decline in fuel prices reducing fuel inflation from 43.7% to 32.1%. And with the oil price now just below \$90pb, we would expect to see fuel prices fall further in the coming months.
- However, utility price inflation is expected to add 0.7% to CPI inflation in October when the Ofgem unit price cap increases to, typically, £2,500 per household (prior to any benefit payments). But, as the government has frozen utility prices at that level for two years, energy price inflation will fall sharply after October and have a big downward influence on CPI inflation.

- Nonetheless, the rise in services CPI inflation from 5.7% y/y in July to a 30-year high of 5.9% y/y in August suggests that domestic price pressures are showing little sign of abating. A lot of that is being driven by the tight labour market and strong wage growth. CPI inflation is expected to peak close to 10.4% in November and, with the supply of workers set to remain unusually low, the tight labour market will keep underlying inflationary pressures strong until early next year.
- During H1 2022, there has been a change of both Prime Minister and Chancellor. The new team (Liz Truss and Kwasi Kwarteng) have made a step change in government policy. The government's huge fiscal loosening from its proposed significant tax cuts will add to existing domestic inflationary pressures and will potentially leave a legacy of higher interest rates and public debt. Whilst the government's utility price freeze, which could cost up to £150bn (5.7% of GDP) over 2 years, will reduce peak inflation from 14.5% in January next year to 10.4% in November this year, the long list of tax measures announced at the "fiscal event" adds up to a loosening in fiscal policy relative to the previous government's plans of £44.8bn (1.8% of GDP) by 2026/27. These included the reversal of April's national insurance tax on 6th November, the cut in the basic rate of income tax from 20p to 19p in April 2023, the cancellation of next April's corporation tax rise, the cut to stamp duty and the removal of the 45p tax rate, although the 45p tax rate cut announcement has already been reversed.
- Fears that the government has no fiscal anchor on the back of these announcements has meant that the pound has weakened again, adding further upward pressure to interest rates. Whilst the pound fell to a record low of \$1.035 on the Monday following the government's "fiscal event", it has since recovered to around \$1.12. That is due to hopes that the Bank of England will deliver a very big rise in interest rates at the policy meeting on 3rd November and the government will lay out a credible medium-term plan in the near term. This was originally expected as part of the fiscal statement on 23rd November but has subsequently been moved forward to an expected release date in October. Nevertheless, with concerns over a global recession growing, there are downside risks to the pound.
- The MPC has now increased interest rates seven times in as many meetings in 2022 and has raised rates to their highest level since the Global Financial Crisis. Even so, coming after the Fed and ECB raised rates by 75 basis points (bps) in their most recent meetings, the Bank of England's latest 50 basis points hike looks relatively dovish. However, the UK's status as a large importer of commodities, which have jumped in price, means that households in the UK are now facing a much larger squeeze on their real incomes.
- Since the fiscal event on 23rd September, we now expect the Monetary Policy Committee (MPC) to increase interest rates further and faster, from 2.25% currently to a peak of 5.00% in February 2023. The combination of the government's fiscal loosening, the tight labour market and sticky inflation expectations means we expect the MPC to raise interest rates by 100bps at the policy meetings in November (to 3.25%) and 75 basis points in December (to 4%) followed by further 50 basis point hikes in February and March (to 5.00%). Market expectations for what the MPC will do are volatile. If Bank Rate climbs to these levels the housing market looks very vulnerable, which is one reason why the peak in our forecast is lower than the peak of 5.50% - 5.75% priced into the financial markets at present.
- Throughout 2022/23, gilt yields have been on an upward trend. They were initially caught up in the global surge in bond yields triggered by the surprisingly strong rise in CPI inflation in the US in May. The rises in two-year gilt yields (to a peak of 2.37% on 21st June) and 10-year yields (to a peak of 2.62%) took them to their highest level since 2008 and 2014 respectively. However, the upward trend was exceptionally sharply at the end of September as investors demanded a higher risk premium and expected faster and higher interest rate rises to offset the government's extraordinary fiscal stimulus plans. The 30-year gilt yield rose from 3.60% to 5.10% following the "fiscal event", which threatened financial stability by forcing pension funds to sell assets into a falling market to meet cash collateral requirements. In response, the Bank did two things. First, it postponed its plans to start selling some of its quantitative easing (QE) gilt holdings until 31st October. Second, it committed to buy up to £65bn of long-term gilts to "restore orderly market conditions" until 14th October. In other words, the Bank is restarting QE, although for financial stability reasons rather than monetary policy reasons.
- Since the Bank's announcement on 28th September, the 30-year gilt yield has fallen back from 5.10% to 3.83%. The 2-year gilt yield dropped from 4.70% to 4.30% and the 10-year yield fell back from 4.55% to 4.09%.

- There is a possibility that the Bank continues with QE at the long-end beyond 14th October or it decides to delay quantitative tightening beyond 31st October, even as it raises interest rates. So far at least, investors seem to have taken the Bank at its word that this is not a change in the direction of monetary policy nor a step towards monetary financing of the government's deficit. But instead, that it is a temporary intervention with financial stability in mind.
- After a shaky start to the year, the S&P 500 and FTSE 100 climbed in the first half of Q2 2022/23 before falling to their lowest levels since November 2020 and July 2021 respectively. The S&P 500 is 7.2% below its level at the start of the quarter, whilst the FTSE 100 is 5.2% below it as the fall in the pound has boosted the value of overseas earnings in the index. The decline has, in part, been driven by the rise in global real yields and the resulting downward pressure on equity valuations as well as concerns over economic growth leading to a deterioration in investor risk appetite.

Rhan o gyngor a dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Asset Services

**Sylwadau ar y rhagolygon diweddaraf ar raddfeydd llog /
Commentary on the latest interest rates forecasts**

- The Council has appointed Link Group as its treasury advisors and part of their service is to assist the Council to formulate a view on interest rates. The PWLB rate forecasts below are based on the Certainty Rate (the standard rate minus 20 bps) which has been accessible to most authorities since 1st November 2012.
- The latest forecast on 27th September sets out a view that both short and long-dated interest rates will be elevated for some little while, as the Bank of England seeks to squeeze inflation out of the economy, whilst the government is providing a package of fiscal loosening to try and protect households and businesses from the ravages of ultra-high wholesale gas and electricity prices.
- The increase in PWLB rates reflects a broad sell-off in sovereign bonds internationally but more so the disaffection investors have with the position of the UK public finances after September's "fiscal event". To that end, the MPC has tightened short-term interest rates with a view to trying to slow the economy sufficiently to keep the secondary effects of inflation – as measured by wage rises – under control, but its job is that much harder now.
- Our PWLB rate forecasts below are based on the Certainty Rate (the standard rate minus 20 bps, calculated as gilts plus 80bps) which has been accessible to most authorities since 1st November 2012.

Rhan o gyngor a dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Asset Services

Crynodeb Benthycyca a Buddsoddi – Chwarteroedd 1 a 2 2022/23
Borrowing and Investment Summary – Quarters 1 and 2 2022/23

	30 Medi / Sept 2022		30 Mehefin / June 2022	
	£'m	% (talwyd ar fenthycyca a dderbyniwyd ar fuddsoddi) / % (paid on borrowing and received on investment)	£'m	% (talwyd ar fenthycyca a dderbyniwyd ar fuddsoddi) / % (paid on borrowing and received on investment)
Benthycyca – graddfa sefydlog Borrowing – fixed rate				
BBGC / PWLB	120.9	4.58	121.9	4.58
Dim BBGC / Non-PWLB	3.3	0	3.3	0
Benthycyca – graddfa amrywiol Borrowing – variable rate	Dim / Nil	d/b / n/a	Dim / Nil	d/b / n/a
Adneuon – galw hyd at 30 diwrnod Deposits – Call to 30 days	22.7	0.30	30.1	0.08
Adneuon – Tymor sefydlog < 1 bl. Deposits – Fixed Term < 1 year	32.5	1.67	32.5	1.14
Adneuon – Tymor sefydlog 1 bl. + Deposits – Fixed Term 1 year +	Dim / Nil	d/b / n/a	Dim / Nil	d/b / n/a
Cyfanswm Adneuon Total Deposits	55.2	1.11	63.2	0.62
Adneuon Uchaf yn y Chwarter Highest Deposits in the Quarter	63.2	d/b / n/a	64.7	d/b / n/a
Adneuon Isaf yn y Chwarter Lowest Deposits in the Quarter	55.2	d/b / n/a	46.1	d/b / n/a
Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter Average Deposits in the Quarter	58.5	0.88	60.8	0.51

Graddfeydd Credyd Gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuoedd a ddelir gyda phob un ar 30 Medi 2022*
Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 30 September 2022*

Grŵp Bancio/ Banking Group	Sefydliad/ Institution	Adneuoedd / Deposit £'000	Hyd (Galw / tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**)	Cyfnod (O / I) / Period (From / To)	Graddfa Enillion / Rate of Return %	Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating	Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating	Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's Short Term Rating	Lliw Sector / Hyd Awgrymiedig / Sector Colour / Suggested Duration
Lloyds Banking Group plc	Bank of Scotland plc	0.000	Galw/ Call	d/b / n/a	0.01	A+	F1	A1	P-1	A+	A-1	Coch – 6 mis / Red - 6 months
Santander Group plc	Santander UK plc	0.000	Galw/ Call	d/b / n/a	0.41	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Coch – 6 mis / Red - 6 months
The Royal Bank of Scotland Group plc	The Royal Bank of Scotland plc (Rhan / Gwladoli / Part / Nationalised)	0.002	Galw/ Call	d/b / n/a	0.10	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Glas - 12 mis / Blue – 12 months
The Royal Bank of Scotland Group plc	National Westminster Bank Deposit	22.722	Galw/ Call	d/b / n/a	0.30	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Glas - 12 mis / Blue – 12 months
The Royal Bank of Scotland Group plc	National Westminster Bank	10.000	Sefydlog/ Fixed	11/4/22 – 11/10/22	1.30	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Glas - 12 mis / Blue – 12 months
Santander Group plc	Santander UK plc	7.5000	Sefydlog/ Fixed	10/5/22 – 10/11/22	1.47	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Coch – 6 mis / Red - 6 months
Goldman Sachs	Goldman Sachs	7.5000	Sefydlog/ Fixed	22/7/22 – 22/12/22	2.18	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Coch – 6 mis / Red - 6 months
Nationwide Building Society	Nationwide Building Society	7.5000	Sefydlog/ Fixed	17/8/22 – 17/11/22	1.87	A	F1	A1	P-1	A+	A-1	Coch – 6 mis / Red - 6 months

* Ceir y Rhestr Benthycia Cymeradwy yn Atodiad 8 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23 / Strategaeth Buddsoddi Blynyddol / The Approved Lending List can be found at Appendix 8 of the 2022/23 Treasury Management Strategy Statement / Annual Investment Strategy

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi / Being term at the point of investment.

Gwledydd cymeradwy ar gyfer buddsoddi
Approved countries for investments

Yn seiliedig ar y gyfradd credyd sofran isaf sydd ar gael
Based upon lowest available sovereign credit rating

AAA

- Awstralia / Australia
- Denmarc / Denmark
- Yr Almaen / Germany
- Lwcsembwrg / Luxembourg
- Yr Iseldiroedd / Netherlands
- Norwy / Norway
- Singapôr / Singapore
- Sweden
- Y Swistir / Switzerland

AA+

- Canada
- Y Ffindir / Finland
- U.D.A. / U.S.A.

AA

- Abu Dhabi (UAE)
- Ffrainc / France


AA-

- Gwlad Belg / Belgium
- Hong Kong
- Qatar
- D.U. / U.K.


Graffiau Ychwanegol / Additional Graphs

Cymhariaeth o baramedrau benthyca gyda benthyca allanol gwirioneddol / Comparison of borrowing parameters to actual external borrowing

PWLB Certainty Rate Variations 1.4.22 to 30.9.22



Bank Rate vs term SONIA rates % 1.4.22 - 30.9.22



CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	2 MAWRTH 2023
Pwnc / Testun:	DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2023/24
Deilydd(ion) Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS, DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	JEMMA ROBINSON
Ffôn:	01248 752675
E-bost:	JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau

- Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn rhoi arferion gorau ar waith yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer materion Rheoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymhell y dylai'r Aelodau graffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynnyddol, y Datganiad ar y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) blynnyddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys Blynnyddol a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys) cyn i'r cyfryw Ddatganiad gael ei gyflwyno i'w fabwysiadu. Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon.
- Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymhell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei ARhT a'r atodlenni cysylltiedig, ac mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgriftini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Mae'r Awdurdod hwn wedi cynhyrchu ARhT ysgrifenedig â awdurdodwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Chwefror 2020.
- O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, diwygiwyd y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) yn dilyn y Datganiad ar gyfer 2022/23.
- O dan y Côd Ymarfer, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Strategaeth Gyfalaf, sy'n cymryd golwg tymor hwy ar y buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol a sut y bydd y buddsoddiad hwnnw'n cael ei gyllido. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth hon, ynghyd â phenderfyniadau eraill ar y gyllideb. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys hon yn eistedd o dan y Strategaeth Gyfalaf, ac yn ystyried effaith y strategaeth honno ar fenthycia a buddsoddiadau'r Cyngor. Mae'n nodi sut bydd y ddwy strategaeth yn cael eu gweithredu mewn dull a reolir, sy'n unol â lefel addas o risg y mae'r Cyngor yn dymuno ei chymryd, a chan gymryd i ystyriaeth yr arweiniad a nodir yng Nghôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys. O dan y Côd diwygiedig ym mis Rhagfyr 2021, bydd yr aelodau'n cael eu diweddarau ar y modd y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ein dull presennol a bydd rhaid i unrhyw newidiadau gael eu mabwysiadu'n ffurfiol yn yr adroddiad Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys yma.

1. Argymhellion

- Ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023/24 a gwneud argymhellion neu nodi sylwadau i'w hystyried gan y Cyngor llawn.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Am ba reswm mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

- Mae'n un o swyddogaethau dynodedig y Pwyllgor Gwaith. Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, craffodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr adroddiad hwn ar 7 Chwefror 2023. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn unwaith y bydd wedi'i dderbygan y Pwyllgor hwn.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

DD – Aseu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:-	
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:-	
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantaes economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?**Beth oedd eu sylwadau?**

1	Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	
10	Arall	Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:- I dderbyn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2023/24, ac i'w argymhell i'r Pwyllgor Gwaith heb sylw.

F - Atodiadau:

1. Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys
2. Egwyddorion Allweddol Rheoli Trysorlys
3. Cefndir economaidd
4. Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog
5. Proffil aeddfedwydd benthyciadau
6. Datganiad Polisi DRI (MRP)
7. Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol
8. Meini Prawf Gwrthbartïon
9. Gwledydd sy'n cael eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau
10. Cynllun dirprwyo rheoli trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151
11. Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
12. Eglurhad ar y Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
13. Geirfa a gwybodaeth ynghylch dangosyddion Darbodus a Thrysorlys

FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

- Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022;
- Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys 2021/22, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 26 Ionawr 2023;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2021/22, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 28 Mehefin 2022;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf Chwarter 2 2022/23, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 29 Tachwedd 2022; ac
- Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2022/23, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 8 Rhagfyr 2022.

DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, DATGANIAD AR Y POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW A DATGANIAD AR Y POLISI RHEOLI TRYSORLYS 2023/24

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Cyhoeddodd CIPFA ei godau diwygiedig ar 20 Rhagfyr 2021 ac mae wedi datgan nad oes rhaid eu mabwysiadu'n ffurfiol nes blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y codau Ymarfer hyn wrth baratoi'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, ynghyd ag unrhyw adroddiadau perthnasol yn ystod y flwyddyn sy'n cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn.
- 1.2. Mae'r Côd Rheoli Trysorlys diwygiedig yn nodi bod rhaid priodoli pob buddsoddiad ac incwm buddsoddi i un o'r tri diben canlynol – Rheoli Trysorlys, Cyflenwi Gwasanaeth ac enillion Masnachol. Gan fod y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yma'n delio â buddsoddiadau rheoli trysorlys, ymdrinnir â'r categorïau cyflenwi gwasanaeth a buddsoddiadau masnachol fel rhan o'r adroddiad Strategaeth Cyfalaf.
- 1.3. Mae'r Côd Rheoli Trysorlys diwygiedig yn nodi bod rhaid i'r Cyngor roi'r canlynol ar waith:
- Mabwysiadu dangosydd trysorlys ar gyfer meincnodi rhwymedigaethau i gynorthwyo i reoli risgiau ariannu'r gofyniad cyllid cyfalaf;
 - Rhaid dynodi buddsoddiadau trysorlys tymor hir, (gan gynnwys cronfeydd cyfun), fel buddsoddiadau masnachol oni bai bod achos busnes llif arian i'w cyfiawnhau;
 - Rhaid cynnwys cronfeydd cyfun yn y dangosydd ar gyfer y prif symiau sy'n aeddfedu mewn blynyddoedd tu hwnt i'r flwyddyn gyllideb wreiddiol;
 - Diwygio'r gofrestr wybodaeth a sgiliau ar gyfer swyddogion ac aelodau sydd ynghlwm â'r swyddogaeth rheoli trysorlys – dylai fod yn gymesur â maint a chymhlethdod y gwaith rheoli trysorlys a gyflawnir gan bob awdurdod;
 - Rhaid adrodd i aelodau bob chwarter. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Swyddog Adran 151 sefydlu prosesau i fonitro ac adrodd ar berfformiad yn erbyn yr holl ddangosyddion darbodus sy'n edrych at y dyfodol bob chwarter o leiaf;
 - Materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu fydd yn derbyn sylw ym mholisiau ac arferion rheoli trysorlys yr awdurdod (TMP1).

2. CEFNDIR

- 2.1. Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:-

“Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny.”

Mae'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio polisiau ac amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys (gweler **Atodiad 1**).

- 2.2. Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n gyffredinol y bydd yr incwm a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â gwariant. Rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan fo angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrthbartion neu offerynnau risg isel sy'n gydnaws ag archwaeth risg isel y Cyngor, gan roi blaenoriaeth i hylifedd digonol yn y lle cyntaf cyn yr elw o'r buddsoddiadau.
- 2.3. Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu arweiniad ynghylch anghenion benthycar'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hwy. O bryd i'w gilydd, pan fo'n ddarbodus ac yn economaidd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd ag amcanion cost neu risg y Cyngor.

- 2.4. Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig oherwydd bod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymïadau gwariant pan fo angen, naill ai ar gyfer refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd y gweithgareddau trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuron ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod fel rheol yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli'r symiau gwreiddiol a fuddsoddiwyd arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

3. CÔD YMARFER CIPFA AR REOLI TRYSORLYS

- 3.1. Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo'r dogfennau isod:-

- Datganiad ar y Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi trosolwg lefel uchel, tymor hir o wariant a chyllido cyfalaf, ynghyd â manylion am unrhyw risgiau cysylltiedig â'r modd y byddant yn cael eu rheoli, yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Nod y strategaeth gyfalaf hon yw sicrhau bod pob Aelod etholedig ar y Cyngor llawn yn deall yn llawn yr amcanion polisi tymor hir cyffredinol a'r gofynion strategaeth gyfalaf dilynol, y gweithdrefnau llywodraethu a'r archwaeth risg sy'n deillio o hynny.
- Strategaeth Rheoli Trysorlys sy'n amlinellu strategaeth y Cyngor o ran benthyciadau a buddsoddiadau sy'n dilyn ymlaen o'r Strategaeth Gyfalaf, sy'n nodi'r cyfyngiadau ar fenthycia, yn pennu cyfres o ddangosyddion darbodus ac yn penderfynu archwaeth risg a strategaeth y Cyngor mewn perthynas â buddsoddiadau. Yn y bôn mae'n delio â dau faes: materion cyfalaf a materion rheoli trysorlys. Mae'r elfennau hyn yn ateb gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Canllawiau Buddsoddi a Chanllawiau Darpariaeth Isafswm Refeniw Llywodraeth Cymru, Côd Darbodus CIPFA a Chôd CIPFA ar Reoli Trysorlys.

- 3.2. Nodir prif egwyddorion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn **Atodiad 2**.

4. CYD-DESTUN ALLANOL

- 4.1. Ni fedrir llunio Strategaeth Rheoli Trysorlys heb ystyried y sefyllfa economaidd hefyd, a hynny oherwydd bod cyflwr yr economi'n cael effaith ar gyfraddau llog a geir o fuddsoddiadau, costau benthycia a chadernid ariannol y gwrthbartion. Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn **Atodiad 3**, ond dyma'r prif bwyntiau y mae angen eu hystyried:-

- Disgwylir i Gyfradd y Banc gyrraedd ei lefel uchaf, sef 4.5%, erbyn mis Mai 2023.
- Mae disgwyl felly y bydd buddsoddi yn 2023/24 yn digwydd mewn amgylchedd lle mae cyfraddau llog yn codi yn y lle cyntaf, ond hefyd - o bosib - mewn amgylchedd lle mae cyfraddau llog yn gostwng yn rhan olaf y flwyddyn ariannol, gan ddibynnu ar ba mor gyflym y mae chwyddiant yn gostwng a'r perfformiad o ran twf.

- 4.2. Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael a'r cyngor gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, mae'r tabl isod yn nodi barn y Cyngor ynghylch lefelau cyfraddau llog am y tair blynedd nesaf:-

Tabl 1

Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog hyd at Ragfyr 2025

Cyfartaledd Blynyddol	Cyfradd Banc (%)	Cyfraddau Benthycia BBGC (yn cynnwys addasiad cyfradd sicrwydd)		
		5 mlynedd	25 mlynedd	50 mlynedd
Rhagfyr 2022	3.50	4.20	4.60	4.30
Mawrth 2023	4.25	4.20	4.60	4.30
Mehefin 2023	4.50	4.20	4.60	4.30
Medi 2023	4.50	4.10	4.50	4.20
Rhagfyr 2023	4.50	4.00	4.40	4.10
Mawrth 2024	4.00	3.90	4.20	3.90
Mehefin 2024	3.75	3.80	4.10	3.80
In the upcoming months, our forecasts will be guided not only by economic data releases and clarifications from the MPC over its monetary policies and the Government over its fiscal policies, but the on-going conflict between Russia and Ukraine. (More recently, the heightened tensions between China/Taiwan/US also have the potential to have a wider and negative economic impact.)

On the positive side, consumers are still estimated to be sitting on over £160bn of excess savings left over from the pandemic so that will cushion some of the impact of the above challenges. However, most of those are held by more affluent people whereas lower income families already spend nearly all their income on essentials such as food, energy and rent/mortgage payments.

PWLB RATES

- The yield curve movements have become less volatile of late and PWLB 5 to 50 years Certainty Rates are, generally, in the range of 4.10% to 4.80%.
- We view the markets as having built in, already, nearly all the effects on gilt yields of the likely increases in Bank Rate and the elevated inflation outlook.

The balance of risks to the UK economy: -

- The overall balance of risks to economic growth in the UK is to the downside.

Downside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates include: -

- **Labour and supply shortages** prove more enduring and disruptive and depress economic activity (accepting that in the near-term this is also an upside risk to inflation and, thus, rising gilt yields).
- **The Bank of England** acts too quickly, or too far, over the next year to raise Bank Rate and causes UK economic growth, and increases in inflation, to be weaker than we currently anticipate.
- **UK / EU trade arrangements** – if there was a major impact on trade flows and financial services due to complications or lack of co-operation in sorting out significant remaining issues.
- **Geopolitical risks**, for example in Ukraine/Russia, China/Taiwan/US, Iran, North Korea and Middle Eastern countries, which could lead to increasing safe-haven flows.

Upside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates: -

- The **Bank of England is too slow** in its pace and strength of increases in Bank Rate and, therefore, allows inflationary pressures to build up too strongly and for a longer period within the UK economy, which then necessitates Bank Rate staying higher for longer than we currently project or even necessitates a further series of increases in Bank Rate.
- **The Government** acts too quickly to cut taxes and/or increases expenditure in light of the cost-of-living squeeze.
- **The pound weakens** because of a lack of confidence in the UK Government's fiscal policies, resulting in investors pricing in a risk premium for holding UK sovereign debt.
- Longer term **US treasury yields** rise strongly and pull gilt yields up higher than currently forecast.
- Projected **gilt issuance, inclusive of natural maturities and QT**, could be too much for the markets to comfortably digest without higher yields consequently.

Borrowing advice: Our long-term (beyond 10 years) forecast for Bank Rate stands at 2.5%. As all PWLB certainty rates are currently above this level, borrowing strategies will need to be reviewed in that context. Better value can generally be obtained at the shorter end of the curve and short-dated fixed LA to LA monies should be considered. Temporary borrowing rates are likely, however, to remain near Bank Rate and may also prove attractive whilst the market waits for inflation, and therein gilt yields, to drop back later in 2023.

DADANSODDIAD BENTHYCIADAU PWLB YN AEDDFEDU 2023/24 YMLAEN / PWLB LOANS MATURITY ANALYSIS 2023/24 ONWARDS						
	Aeddfedu PWLB Maturity	Blwydd-dal PWLB EIP/ Annuity	Benthyciadau Marchnad/ Market Loans	Amrywiol/ PWLB Variable	Cyfanswm yn Aeddfedu/ Total Maturing	%Yn Aeddfedu o'r Cyfran yn sefyll/ Maturing of Total Outstanding %
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
2023/24	1,854	16	0	0	1,870	1.6
2024/25	0	18	0	0	18	0.0
2025/26	0	20	0	0	20	0.0
2026/27	1,381	21	0	0	1,402	1.2
2027/28	2,165	24	0	0	2,189	1.8
2028/29	262	26	0	0	288	0.2
2029/30	1,539	21	0	0	1,560	1.3
2030/31	451	15	0	0	466	0.4
2031/32	1,941	9	0	0	1,950	1.6
2032/33	315	8	0	0	323	0.3
2033/34	637	0	0	0	637	0.5
2034/35	624	0	0	0	624	0.5
2035/36	611	0	0	0	611	0.5
2036/37	599	0	0	0	599	0.5
2037/38	587	0	0	0	587	0.5
2038/39	225	0	0	0	225	0.2
2039/40	5,000	0	0	0	5,000	4.2
2040/41	3,500	0	0	0	3,500	2.9
2042/43	1,000	0	0	0	1,000	0.8
2043/44	1,020	0	0	0	1,020	0.9
2044/45	1,010	0	0	0	1,010	0.8
2045/46	11,464	0	0	0	11,464	9.6
2050/51	2,000	0	0	0	2,000	1.7
2052/53	28,238	0	0	0	28,238	23.6
2054/55	3,000	0	0	0	3,000	2.5
2055/56	3,500	0	0	0	3,500	2.9
2056/57	5,000	0	0	0	5,000	4.2
2057/58	8,513	0	0	0	8,513	7.1
2059/60	1,763	0	0	0	1,763	1.5
2064/65	10,000	0	0	0	10,000	8.4
2066/67	6,200	0	0	0	6,200	5.2
2068/69	15,000	0	0	0	15,000	12.5
	119,400	178	0	0	119,578	100.0
Cyfartaledd bywyd (blynyddoedd)/ Average life (years)	30.82	4.06	0.00	0.00	30.78	
Cyfartaledd graddfa (%)/ Average rate (%)	4.53	9.42	0.00	0.00	4.54	

**PROFFIL AD-DALU BENTHYCIADAU ERAILL 2023/24 YMLAEN /
OTHER LOANS REPAYMENT PROFILE 2023/24 ONWARDS**

	Benthyciad Salix Loan 1	Benthyciad Salix Loan 2	Benthyciad Salix Loan 3	Benthyciad Salix Loan	Benthyciad Salix Loan 5	Benthyciad Salix Loan 6	Cyfanswm / Total
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
2023/24	16	46	64	26	220	0	372
2024/25	8	45	64	26	220	264	628
2025/26	0	45	64	26	220	264	619
2026/27	0	0	64	27	220	264	575
2027/28	0	0	63	27	220	264	574
2028/29	0	0	63	27	221	264	575
2029/30	0	0	0	13	221	265	499
2030/31	0	0	0	0	221	265	486
2031/32	0	0	0	0	221	265	486
2032/33						265	265
2033/24						265	265
2034/35						265	265
2035/36						265	265
Cyfanswm / Total	24	137	382	172	1,984	3,175 ¹	5,874

¹ Total amount to be repaid differs from the total amount outstanding in Table 5.1.1 due to only having received £400k to date, however £3,175k will be received.

Datganiad Polisi ar y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw Isaf (MRP) ar gyfer 2022/23

Rhaid i'r Cyngor dalu elfen o wariant cyfalaf y Cyngor a'r CRT sydd wedi cronni bob blwyddyn (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf - CFR) drwy dâl refeniw (y ddarpariaeth refeniw isaf) (MRP), er y caniateir iddo hefyd wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol os oes angen (darpariaeth refeniw wirfoddol VRP).

Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad MRP cyn pob blwyddyn. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi "os cynigir amrywio telerau'r datganiad gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny". Rhoddir nifer o opsiynau i gynghorau, ar yr amod bod darpariaeth ddarbodus. Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad MRP isod:-

O 1 Ebrill 2022, ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sydd wedi ei gyllido drwy fenthycy â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth (CFR), codir MRP drwy ddefnyddio'r dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Mae'n bosib na fydd taliadau MRP sy'n seiliedig ar ddull blwydd-dal oes ased yn dod i rym tan y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol. Gall y Swyddog Adran 151 ohirio'r tâl MRP tan y flwyddyn gyllidol sy'n dilyn y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol. Bydd amcangyfrif o oes yr ased cael ei benderfynu yn y flwyddyn y bydd y MRP yn dechrau ac ni fydd yn newid dros oes yr ased. Y Swyddog Adran 151 fydd yn amcangyfrifo oes yr ased, yn seiliedig ar gyngor a dderbynnir gan y swyddogion perthnasol, gan ystyried y gofynion Statudol a chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r MRP ac oes asedau. Pan fo tir yn cael ei brynu, bydd oed yr ased yn seiliedig ar oes yr ased a roddir ar y tir, sef 50 mlynedd yn rhan fwyaf o achosion, a hynny'n unol â hyd oes adeiladau fel asedau.

Oherwydd nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor yn rhai y gellir eu cysylltu ag ased unigol, bydd oes ased yn cael ei hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol am ba hyd y rhagwelir y ceir budd o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd ond yn cael ei rannu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes economaidd ddefnyddiol sylweddol wahanol i'w gilydd.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol i leihau dyled os ystyrir ei bod yn ddoeth gwneud hynny.

Bydd yr MRP a godir ar y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am ei gyfran o'r benthyca â chefnogaeth a digefnogaeth, hefyd yn seiliedig ar y dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Bydd unrhyw ad-daliadau sydd wedi eu cynnwys yn y PFI blynyddol neu brydlesau cyllid yn cael eu gweithredu fel MRP ac yn gyson â'r sail blwydd-dal oes ased dros oes y brydles neu'r cynllun PFI.

Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010) yn rhoi diffiniad o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol.

Mae paragraff 5.1 y Canllawiau yn dweud bod buddsoddiad yn un penodol os yw'n cwrdd â phob un o'r isod:-

- (a) bod y buddsoddiad yn cael ei wneud mewn sterling ac mae unrhyw daliadau neu ad-daliadau mewn perthynas â'r buddsoddiad yn daladwy mewn sterling yn unig; a
- (b) nid yw'r buddsoddiad yn un tymor hir (*); a
- (c) nad yw gwneud y buddsoddiad yn cael ei ddiffinio'n wariant cyfalaf yn rhinwedd rheoliad 20 (1) (d) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 [OS 3239 fel y'i diwygiwyd]; a
- (d) gwneir y buddsoddiad gyda chorff neu mewn cynllun buddsoddi o ansawdd credyd uchel (**); neu gydag un o'r cyrff sector cyhoeddus canlynol:
 - (i) Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
 - (ii) awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y diffinnir yn adran 23 o Ddeddf 2003) neu gorff tebyg yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
 - (iii) cyngor plwyf neu gymuned.

Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodol.

Yn ystod 2023/24 nid yw'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi mewn arian gwledydd tramor, na chyda chyrrff ansawdd credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfranddaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodol felly yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuo'n gyda banciwr y Cyngor i ddibenion gwneud trafodion os yw'n methu a chwrdd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 8 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol gategoriâu o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2023/24 ac sydd, felly, yn sail ar gyfer y rhestr fenthycyca a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i gategoriâu o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol a ddefnyddir ac/neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi.

* Mae Adran 2.4 y Canllawiau'n diffinio buddsoddiad tymor hir fel "Unrhyw fuddsoddiad heblaw (a) un y mae disgwyl iddo gael ei ad-dalu cyn pen 12 mis i'r dyddiad y gwnaed y buddsoddiad neu (b) un y gallai'r awdurdod lleol fynnu ei fod yn cael ei ad-dalu o fewn y cyfnod hwnnw."

** I ddibenion ansawdd credyd uchel dywed y Canllawiau "At ddibenion paragraff 5.1 (d), mae gweinidogion Cymru yn argymhell y dylai'r Strategaeth ddiffinio ansawdd credyd uchel (a lle mae'r diffiniad hwn yn cyfeirio at statws credyd, mae paragraff 6.1 (***) yn berthnasol)."

*** Mae paragraff 6.1 y Canllawiau'n argymhell "Dylai'r Strategaeth nodi dull yr awdurdod o asesu'r risg o golli buddsoddiadau, gan egluro'n benodol :

- (a) i ba raddau, os o gwbl, mae asesiad risg yn seiliedig ar statws credyd a gyhoeddwyd gan un neu fwy o asiantaethau statws credyd;
- (b) pan ddefnyddir statws credyd, pa mor aml y mae statws credyd yn cael ei fonitro a pha gamau sydd i'w cymryd pan fydd graddfeydd yn newid; a
- (c) pa ffynonellau gwybodaeth eraill ar risg credyd a ddefnyddir, yn ychwanegol at neu yn lle statws credyd."

Mae'r tabl yn Atodiad 8 y strategaeth hon yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor hwn yn ei ddiffinio fel ansawdd credyd uchel a'r meini prawf a'r terfynau buddsoddi cysylltiedig ac mae adran 7.3 o'r strategaeth hon yn nodi dull teilyngdod credyd y Cyngor.

Meini Prawf Gwrthbartion

Categori	Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's)	Terfyn Arian	Terfyn Amser
Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol)	F1+	P-1	A-1+	AAA	Aaa	AAA	£10m	5 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA	Aa2	AA	£10m	3 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA-	Aa3	AA-	£10m	364 diwrnod
	F1	P-1	A-1	A	A2	A	£7.5m	6 mis
Banciau'r Deyrnas Unedig sydd wedi eu Gwladoli / eu Gwladoli'n Rhannol	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m	364 diwrnod
Banc y NatWest (wedi ei Wladoli'n Rhannol)	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£30m	364 diwrnod
Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Unedig (waeth beth fo'r raddfa credyd)	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	Dim uchafswm	Dim uchafswm
Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig **	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m	364 diwrnod
Cronfeydd Marchnad Arian	d/b	d/b	d/b	AAA	AAA	AAA	£5m	6 mis

*fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003

Nodiadau ac Eglurhad**(1) Terfyn Arian Parod**

- (i) Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo. (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc) mae'r terfyn buddsoddi yn berthnasol i'r banciau hynny'n unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);
- (ii) Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuo'n dros 364 o ddyddiau yw £15m.

(2) Terfyn Amser

- (i) I fyny at, a chan gynnwys y cyfnod a nodwyd.

(3) Arian Gwledydd Tramor

- (i) Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AA- (Fitch) neu gyfatebol (o'r asiantaethau y cyfeiriwyd atynt yn adran 4.3 o'r strategaeth hon) - (yn seiliedig ar y cyfenwador lleiaf) a hyd at uchafswm o £10 miliwn fesul gwlad dramor.
- (ii) Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd nad yw'r raddfa sofran isaf yn AA- neu'n uwch. Ni fydd cyfyngiad gwlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y Deyrnas Unedig waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.
- (iii) Bydd is-gwmnïau o grwpiau banciau tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y rhiant-sefydliad. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Banco Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y Deyrnas Unedig oherwydd ei fasnachfreintiau sylweddol yn y Deyrnas Unedig a natur hyd braich y berthynas rhwng y rhiant gwmni a'r is-gwmni.
- (iv) Ni fydd meini prawf graddfa credyd sofran a chyfyngiadau gwledydd tramor yn berthnasol i fuddsoddiadau mewn banciau datblygu amlochrog (e.e. Banc Buddsoddi Ewrop a Banc y Byd) na sefydliadau rhyngwladol eraill (e.e. yr Undeb Ewropeaidd).

(4) Graddfa Credyd yn Gostwng

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw, gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol cyn gynted ag y gellir.

Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [yn gywir fel ar 19 Rhagfyr 2022]

Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar y gwledydd hynny sydd â graddfa sofran o AA- neu uwch (rydym yn dangos y raddfa isaf gan Fitch, Moody's a S&P) a hefyd, (ac eithrio - ar adeg ysgrifennu - ar gyfer Hong Kong a Lwcsembwrg) a chanddynt fanciau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sterling sydd â statws credyd gwyrdd neu uwch yng ngwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.

Yn seiliedig ar y raddfa isaf sydd ar gael

AAA

- Awstralia
- Denmarc
- Yr Almaen
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

AA+

- Canada
- Y Ffindir
- U.D.A

AA

- Abu Dhabi (Yr Emiraethau Arabaidd Unedig)
- Ffrainc

AA-

- Gwlad Belg
- Qatar
- **Y Deyrnas Unedig**

Cynllun Dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys**(i) Cyngor Sir**

- Cymeradwyo'r Gyllideb;
- Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR), Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a diwygiadau iddynt;
- Cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys; a
- Gweithredu ar argymhelliad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a/neu'r Pwyllgor Gwaith.

(ii) Pwyllgor Gwaith

- Ystyried y gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu cyfrifoldebau;
- Cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar delerau penodi;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel sy'n briodol; a
- Gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(iii) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Craffu ar faterion Rheoli Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:-
 - Craffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
 - Craffu ar gynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys ac i'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
 - Derbyn a chraffu ar unrhyw gynigion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir; a
 - Derbyn a chraffu ar adroddiadau monitro ar bolisiau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

Rôl Rheoli Trysorlys y Swyddog Adran 151**Mae rôl y Swyddog Adran 151 (y swyddog cyfrifol) yn****cynnwys:**

- argymhell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y polisi rheoli trysorlys;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r gyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth reoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;

- sicrhau digonolrwydd y gwaith archwilio mewnol, a chydgysylltu ag archwilwyr allanol;
- argymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol;
- mae cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthycu, buddsoddi ac ariannu, wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys;
- paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli trysorlys o fewn amserlen tymor hir;
- sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir a'i bod yn darparu gwerth am arian;
- sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag archwaeth risg yr Awdurdod;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar asedau anariannol a'u cyllido;
- sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r Awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr Awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol;
- sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir;
- rhoi i Aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol;
- sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r Awdurdod yn agored iddynt;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod yr arbenigedd digonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod;
- creu Arferion Rheoli Trysorlys sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-
 - Rheoli risg (ARhT1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddi sylweddol nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys;
 - Mesur a rheoli perfformiad (ARhT2 a'r atodlenni), gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;
 - Gwneud penderfyniadau, llywodraethu a threfniadaeth (ARhT5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad ar ofynion llywodraethiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;
 - Gwybodaeth reoli ac adrodd (ARhT6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;
 - Hyfforddiant a chymwysterau (ARhT10 a'r atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

**DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS
GOSOD CYLLIDEB 2023/24**

ATODIAD 11

Rhif Dangosydd

Fforddiadwyedd	Alldro 2021/22	Amcangyfrif 2022/23	Cynnig 2023/24	Cynnig 2024/25	Cynnig 2025/26
1,2 Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd referniw net:					
Cronfa'r Cyngor	4.50%	2.81%	2.23%	2.95%	3.10%
Cyfrif Refeniw Tai (yn cynnwys y setliad)	9.12%	18.41%	21.14%	26.12%	29.36%
Cyfanswm	5.04%	4.56%	4.25%	5.46%	6.06%

Bod yn Ddarbodus

3 Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)	✓	✓	✓	✓	✓
<i>Ydy dyled allanol gros yn llai na'r GCC am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?</i>			✓	✓	✓

Gwariant Cyfalaf


	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
4,5 Amcangyfrif o [neu wir] wariant cyfalaf					
Cronfa'r Cyngor	23,734	34,068	15,110	8,450	4,959
Cyfrif Refeniw Tai	9,723	12,085	31,847	34,351	27,659
Cyfanswm	33,457	46,153	46,957	42,801	32,618
6,7 Amcangyfrif o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf, neu'r gwir Ofyniad Cyllido Cyfalaf					
Cronfa'r Cyngor	99,387	108,871	116,576	120,181	120,673
Cyfrif Refeniw Tai	38,415	40,536	60,101	85,261	104,114
Cyfanswm	137,802	149,407	176,677	205,442	224,787

Dyled Allanol

	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
8 Terfyn Awdurdodedig					
: Benthycu Cyffredinol	175,000	175,000	205,000	235,000	255,000
: Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000
: Cyfanswm	180,000	180,000	210,000	240,000	260,000

9	Terfyn Gweithredol					
	: Benthycu cyffredinol	170,000	170,000	200,000	230,000	250,000
	: Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000
	: Cyfanswm	175,000	175,000	205,000	235,000	255,000
10	Gwir Ddyled Allanol	125,348				
Rheoli Trysorlys		Alldro 2021/22	Amcangyfrif 2022/23	Cynnig 2023/24	Cynnig 2024/25	Cynnig 2025/26
11	Y terfyn ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau o fwy na 364 diwrnod <i>(bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn y terfyn ar gyfer pob blwyddyn)</i>	15,000	15,000	15,000	15,000	15,000
				Terfyn uchaf 2023/24	Terfyn isaf 2023/24	
12	Y terfynau uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedrwydd benthyciadau ar gyfraddau sefydlog					
	• dan 12 mis			20%	0%	
	• 12 mis ac o fewn 24 mis			20%	0%	
	• 24 mis ac o fewn 5 mlynedd			50%	0%	
	• 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd			75%	0%	
	• 10 mlynedd a mwy			100%	0%	
				Dim newid	Dim newid	
13	Meincnod Rhwymedigaethau (gweler y siart isod)					

Meincnod Rhwymedigaethau



- PWLB Loans
- Existing Loan Debt Outstanding
- Loans CFR
- Salix Loans
- Net Loans Requirement (forecast net loan debt)
- Liability Benchmark (Gross Loans Requirement)

Gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Rheoli Trysorlys

DANGOSYDDION DARBODUS

A) Fforddiadwyedd

1 & 2 Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd referniw net

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau rhwymedigaethau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd referniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyllido yn cynnwys ymrwymadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

B) Bod yn ddarbodus

3 Dyled Gros a'r GCC

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2023/24 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn rhoi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau na fyddir yn benthyca i ddibenion referniw.

C) Gwariant Cyfalaf

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw'r gyrwyr allweddol o ran gweithgareddau rheoli trysorlys. Adlewyrchir allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf yn y dangosyddion darbodus, sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo aelodau i gael trosolwg o'r sefyllfa gyfalaf a chadarnhau cynlluniau gwariant cyfalaf.

Mae'n darparu crynodeb o wariant cyfalaf y Cyngor. Mae'n adlewyrchu materion y cytunwyd arnynt eisoes a chynlluniau arfaethedig ar gyfer cyfnodau ariannol yn y dyfodol.

Bydd lefel ariannu gwariant o'r fath yn dylanwadu ar y newid yn y dangosydd ar gyfer Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor.

4 & 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcenerir o 2022/23 hyd at 2025/26 ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

6 & 7 Anghenion benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau referniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi talu amdano ar unwaith o ffynhonnell referniw neu gyfalaf, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth isafswm referniw (DIR) yn dâl referniw blyneddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased ac felly mae'n dâl ar y defnydd economaidd o asedau cyfalaf wrth iddynt gael eu defnyddio.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlasau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac o'r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthycu, mae'r mathau hyn o gynlluniau'n cynnwys cyfleuster benthycu ac o'r herwydd, nid oes raid i'r Cyngor fenthycu ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau o'r fath yn y GCC.

CH) Dyled Allanol

- 8. Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol.** Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn rheoli'r uchafswm benthycu. Gwaherddir dyledion allanol y tu hwnt i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o gynlluniau'r holl Gynghorau, neu gynlluniau Cyngor penodol, er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

Dywed y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

- 9. Y ffin weithredol.** Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i GCC ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthycu trwy ddefnyddio adnoddau arian parod eraill.
- 10. Gwir ddyled allanol.** Mae'n rhaid i'r Cyngor ddatgelu'r balans cau ar gyfer gwir fenthycu gros mewn perthynas â'r cyfnod ariannol sydd newydd ddod i ben, ynghyd â lefel ymrwymadau tymor hir eraill, ac felly, gwir lefel cyfanredol dyledion allanol ar ddyddiad y Fantolen.

DANGOSYDDION TRYSORLYS

- 11. Terfynau ar gyfer Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Tymor Hir.** Mae'r Dangosydd hwn yn ceisio cynorthwyo i reoli risg hylifedd. Dylid gosod y terfynau gyda golwg ar anghenion hylifedd y Cyngor a hefyd lleihau'r angen posib i orfod gadael y buddsoddiad yn gynnar er mwyn adennill arian. Mae'r dangosydd yn ymwneud â buddsoddiadau'r Cyngor i ddibenion rheoli trysorlys yn unig.
- 12. Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor osod terfynau gros ar aeddfedrwydd ar gyfer y cyfnodau a ddangosir ac mae'n ymwneud â benthyciadau ar gyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy. Y rheswm yw ceisio rheoli'r posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu symiau mawr sydd angen eu hailgyllido.
- 13. Meincnod Rhwymedigaethau.** Y dangosydd darbodus newydd ar gyfer 2023/24 yw'r Meincnod Rhwymedigaethau. Mae'n rhaid i'r Cyngor amcangyfrif a mesur y meincnod rhwymedigaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'r ddwy flynedd ddilynol.

Mae'r Meincnod Rhwymedigaethau'n cynnwys pedwar rhan:-

- 1. Dyledion benthyciadau cyfredol sy'n ddyledus:** benthyciadau cyfredol y Cyngor sydd yn parhau i fod yn ddyledus yn y dyfodol.

2. **GCC Benthyciadau:** mae hwn yn cael ei gyfrifo yn unol â'r diffiniad o GCC benthyciadau yn y Côt Darbodus ac mae amcangyfrifon i'r dyfodol yn seiliedig ar fenthycia darbodus a gymeradwywyd a DIR a gynlluniwyd.
3. **Gofyniad benthycia net:** Bydd hyn yn dangos dyledion benthyciadau gros y Cyngor wedi tynnu buddsoddiadau rheoli trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'i amcangyfrif i'r dyfodol ac yn seiliedig ar y benthycia darbodus a gymeradwywyd, DIR a gynlluniwyd ac unrhyw lif arian sylweddol arall a ragwelir.
4. **Meincnod Rhwymedigaethau** (neu ofyniad benthycia gros): mae hwn yn gyfartal i'r gofyniad benthycia net ynghyd â'r lwfans hylifedd tymor byr.

Geirfa**GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol nad yw'n gyfredol, yn hytrach na dim ond cynnal gwerth yr ased. Mae enghreifftiau'n cynnwys: adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, gwaith adnewyddu sylweddol ar gartref gofal.

CYLLIDO CYFALAF

Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthycu, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF

Y cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sydd heb ei dalu'n barod naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n adlewyrchiad o angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu.

RHAGLEN GYFALAF

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu dros gyfnod penodol o amser.

DERBYNIADAU CYFALAF

Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol. Gellir defnyddio cyfran o'r derbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

CIPFA

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â darpariaeth tai y Cyngor.

LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR

Defnyddir y dull cyfradd llog gwirioneddol i fesur beth yw gwerth ased ariannol neu rwymedigaeth a fesurir yn ôl y gost llai amorteiddiad cronedig, ac i neilltuo incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog wirioneddol yw honno sy'n rhoddi disgownt cysâct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yr amcangyfrifir y'u derbynnir yn y dyfodol dros oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd llog wirioneddol yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhwymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog gwirioneddol yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronus.

DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW (DIR)

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

DYLED NET

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS (BBGC)

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthycu arnynt ei hun.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)

Gwariant y gellir ei ohirio'n briodol (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran ei natur) ond nad yw'n arwain at ased diriaethol, na'n parhau i fod yn gysylltiedig â hi. Mae enghreifftiau o daliadau gohiriedig yn cynnwys grantiau o natur gyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GRANT CYNNAL REFENIW

Grant a delir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau, ac sy'n cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

BENTHYCA GYDA CHYMORTH

Mae'r Cyngor yn benthycu arian i ariannu rhan o'i raglen gyfalaf. Cydnabyddir y benthyciad gan Lywodraeth Ganolog wrth gyfrifo ei fformiwla gyllido ar gyfer y Cyngor.

BENTHYCA DROS DRO

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

BENTHYCA DIGYMORTH

Gall y Cyngor fenthycu arian ychwanegol i'r benthycu a gefnogir gan y Llywodraeth, a hynny er mwyn ariannu ei wariant cyfalaf cyn belled â'i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer hwn gan Gôd Darbodus CIPFA, sef Côt y mae'r Cyngor yn llwyr gydymffurfio ag ef.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Y Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	2 Mawrth 2023
Pwnc:	Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP)
Aelod(au) Portffolio:	Robin W. Williams – Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer
Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:	Marc Jones – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151
Awdur yr Adroddiad: Ffon: E-bost:	Claire Klimaszewski – Rheolwr Cyllid
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymhell i'r Cyngor llawn fod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau canlynol i'r MRP ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, 2022/2023 a thu hwnt:-

1. Nodi'r adroddiad yn Atodiad 1 ac Adroddiad Grŵp Link Asset sydd wedi'i atodi yn Atodiad 2 yr opsiynau Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP).
2. Newid tâl MRP y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar fenthyciadau gyda chefnogaeth gofyniad cyllido cyfalaf (CFR) o 2% o CFR y CRT i ddull Oes Ased – Blwydd-dal ar gyfer 60 mlynedd ar gyfradd llog gyfartaleddig y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau (Opsiw 1ch yn Nhabl 2 Atodiad 1) o 1 Ebrill 2022.
3. Newid MRP y CRT ar fenthyciadau digefnogaeth CFR o 2% CFR y CRT i ddull Oes Ased – Blwydd-dal ar gyfer 60 mlynedd ar gyfradd llog gyfartaleddig y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau (Opsiw 2ch yn Nhabl 2 Atodiad 1) o 1 Ebrill 2022.
4. Newid MRP Cronfa'r Cyngor ar fenthyciadau gyda chefnogaeth CFR o ddull Oes Ased – Rhandaliad Cyfartal i ddull Oes Ased – Blwydd-dal ar gyfer 46 mlynedd ar gyfradd llog arferol y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau (Opsiw 3ch yn Nhabl 2 Atodiad 1) o 1 Ebrill 2022.
5. Newid MRP Cronfa'r Cyngor ar fenthyciadau digefnogaeth CFR o ddull Oes Ased – Rhandaliad Cyfartal i ddull Oes Ased – Blwydd-dal ar gyfer 27.5 mlynedd ar gyfradd llog gyfartaleddig y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau o 1 Ebrill 2022.
6. Cymeradwyo'r Datganiad Polisi MRP diwygiedig ar gyfer 2022/23 a thu hwnt yn Atodiad 2, sy'n seiliedig ar yr opsiynau uchod yn argymelliadau 2 i 5.

Gwybodaeth Gefndirol

Dan Reoliad 21 yn Rheoliadau (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) Awdurdodau Lleol, 2003, mae'n rhaid i awdurdodau lleol godi tâl ar y cyfrif refeniw ar gyfer bob blwyddyn ariannol, sef y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) fydd yn gyfrifol am y gost ar gyfer eu dyled yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae Rheoliad 22 yn Rheoliadau 2003 yn gofyn i'r gost ar gyfer yr MRP fod yn ddarbodus. Bwriad y ddarpariaeth ddarbodus yw sicrhau bod cost y ddyled yn cael ei gymryd o'r cyfrif refeniw yn ystod cyfnod sy'n cyd-fynd â'r amser y bydd y gwariant cyfalaf yn darparu buddion ac yn fforddiadwy.

Mae'n rhaid i fenthycia'r Cyngor fod yn ddarbodus, er nad yw hyn yn cael ei ddiffinio'n gyfreithiol nac mewn canllawiau. Mae Link (2021) yn nodi "Mae'n gyfrifoldeb ar bob Awdurdod i reoli hyn yn briodol, a phennu ad-daliadau darbodus yn seiliedig ar ei amgylchiadau unigol, gan roi ystyriaeth i gynlluniau ariannol tymor canolig / hir, pwysau cyllidebol presennol, cynlluniau gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig yr Awdurdod ac anghenion cyllido ac unrhyw gynlluniau trawsnewidiol tymor hir". Yn syml, gall y Cyngor fenthycia cyn belled a bod ad-daliadau'n fforddiadwy.

Mae'r dulliau sydd ar gael i bennu darpariaeth ddarbodus wedi'u nodi yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Refeniw Isaf, a ddiwygiwyd olaf yn 2018. Mae'r canllawiau yn cyffwrdd ar 4 dull gwahanol:-

- Y Dull Rheoleiddio;
- Y Dull CFR;
- Y Dull Oes Ased;
- Y Dull Dibrisio.

Mae gan y Dull Oes Ased ddau ddull amgen:-

- Y dull rhandaliad cyfartal;
- Y dull blwydd-dal.

Mae'r canllawiau'n rhoi'r gallu i awdurdod lleol newid y dull y bydd yn ei ddefnyddio i gyfrifo'i holl MRP, neu ran ohoni, ar unrhyw adeg.

Yn 2018, diwygiodd y Cyngor ei bolisi MRP, a mabwysiadwyd y dull Oes Ased - Rhandaliad Cyfartal i gyfrifo ei daliad MRP ar gyfer benthyciadau gyda chefnogaeth a benthyciadau digefnogaeth.

Ym mis Chwefror 2021, gofynnodd y Cyngor i'w ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys (Link Group) gynnal adolygiad o'i bolisi MRP a phennu a oedd y polisi hwnnw, a fabwysiadwyd yn 2018, yn parhau'n addas ar gyfer cynlluniau gwario presennol a chynlluniau arfaethedig. Fodd bynnag, yn sgil y materion eraill roedd y Cyngor yn delio â nhw ar yr adeg, ni ystyriwyd canlyniadau'r adolygiad ymhellach ar y pryd.

O ystyried y newid sylweddol yn y sefyllfa economaidd bresennol, credir mai dyma'r adeg fwyaf addas i ystyried canlyniadau adolygiad Link. Wrth fynd i'r afael â'r adolygiad, mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wrth sicrhau bod y newid yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae adroddiad Link wedi'i ymgorffori mewn papurau cefndirol isod. Mae'r adroddiad hwn yn argymhell defnyddio dull Oes Ased – Blwydd-dal i gyfrifo taliadau MRP o 2022/23 ymlaen, ar y sail ei fod yn ddarbodus a chynaliadwy. Darperir rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad yn Atodiad A.

Argymhellir bod y blwydd-dal ar gyfer taliadau MRP y CRT yn seiliedig ar 60 mlynedd oherwydd mai dyma'r tro cyntaf y byddai'r CRT yn codi tâl MRP ar sail Oes Ased. Yn flaenorol, roedd yn orfodol dan ganllawiau statudol i'r Cyfrif Refeniw Tai godi tâl ar yr MRP o 2% o'r CFR. Cafodd hyn ei lacio yn 2015/16 er mwyn galluogi'r CRT i godi tâl MRP ar un o'r pedwar opsiwn a ganiatwyd ar gyfer taliadau MRP Cronfa'r Cyngor. Mae tai'n debygol o gael bywydau economaidd ddefnyddiol (UEL) hir, sy'n egluro pam y dewisir 60 mlynedd. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi, unwaith y bydd bywydau economaidd defnyddio asedau wedi'u gosod gan ddefnyddio sail oes ased, ni ellir eu newid. Argymhellir gosod blwydd-dal benthyciadau gyda chefnogaeth ar gyfer Cronfa'r Cyngor yn 46 blynedd oherwydd bod UEL ar gyfer taliadau MRP ar yr Oes Ased ac, er y dynodwyd bod Rhandaliadau Cyfartal ar sail 50 mlynedd, newidiodd y taliadau MRP i'r drefn hon 4 blynedd yn ôl. Yn olaf, mae'r taliadau MRP ar gyfer benthyciadau digefnogaeth yng Nghronfa'r Cyngor yn seiliedig ar 27.5 mlynedd oherwydd mae prosiectau a gyllidir gan fenthyciadau digefnogaeth eisoes wedi'u cyfrifo ar yr Oes Ased er sail y Rhandaliad Cyfartal, a dyma'r cyfartaledd pwysol ar gyfer yr holl UEL sy'n weddill ar yr asedau hyn wrth fynd ymlaen ar sail Oes Ased – Blwydd-dal. Bob blwyddyn, bydd angen ail-gyfrifo cyfartaledd oes ased er mwyn cynnwys asedau newydd wrth iddynt gael eu cwblhau a'u gweithredu.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae cynnal y polisi presennol yn opsiwn, ond credir y bydd symud i'r dull blwydd-dal yn ddull darbodus. Archwiliwyd opsiynau gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod amser a chyfraddau llog ar gyfer y dull blwydd-dal, a dewiswyd y rhai mwyaf darbodus a fforddiadwy.

C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r polisi MRP yn ffurfio rhan o Ddatganiadau Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol y Cyngor (TMSS). Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am adolygu a herio cynnwys y TMSS ac argymhell ei gymeradwyo i'r Cyngor llawn.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Bydd y polisi MRP yn ffurfio rhan o'r TMSS, sy'n cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydy

DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys	Mae'n newid y ffordd y bydd benthyciadau presennol a benthyciadau yn y dyfodol yn cael eu cyllido, ac er, yn nhermau arian y bydd y tâl MRP blynyddol yn uwch yn y blynyddoedd nesaf, pan fydd costau arfaethedig yn cael eu disgowntio er mwyn ystyried chwyddiant, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen i ad-dalu benthyciadau sy'n bodoli.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-	Pan fydd costau y dyfodol yn cael eu disgowntio i ystyried chwyddiant, bydd yn arwain at gostau llai ar gyfer y Cyngor.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Mae dinasyddion Ynys Môn wedi mynegi'r farn y dylai'r Cyngor geisio bod yn fwy effeithlon o ran darparu gwasanaethau. Bydd y newid hwn yn rhyddhau adnoddau yn y blynyddoedd cynnar a ellir eu hail-gyfeirio i ddarparu gwasanaethau.
5	Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg	Dim
6	Os mai penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwnnw ei gael ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Dim
7	Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg.	Dim

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?

1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Trafodwyd y newid mewn polisi a'i gymeradwyo fel rhan o drafodaeth gyffredinol ar strategaeth y gyllid a rheoli'r trysorlys.
---	---	--

2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Awdur yr adroddiad.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Rhan o'r TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	Amherthnasol
7	Sgriwtini	Mae'r TMSS yn cael eu sgriwteiddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a thrafodwyd yr eitem yn ei gyfarfod a gynhaliwyd 7 Chwefror 2023.
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
<p>Atodiad 1 – Adrodd Opsiynau Amlinellol ar gyfer Taliadau Darpariaeth Isafswm Refeniw Isaf Darbodus Diwygiedig ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a Chronfa'r Cyngor</p> <p>Atodiad 2 – Polisi MRP Diwygiedig ar gyfer 2022/23</p> <p>Atodiad 3 – Adroddiad Link Group ar yr opsiynau MRP ar gyfer yr Awdurdod</p>		
FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda):		

Adrodd Opsiynau Amlinellol ar gyfer Taliadau Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) Darbodus Diwygiedig ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a Chronfa'r Cyngor.

1 Cyflwyniad

- 1.1** Ym mis Chwefror 2021, cwblhaodd ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, Link Group, adolygiad ar Bolisi MRP cyfredol y Cyngor, sydd wedi bod ar waith ers 2018/19. Bu i Link hefyd ddadansoddi tâl MRP sy'n berthnasol i'r CRT yn ogystal â pholisi MRP Cronfa'r Cyngor. Os bydd y Cyngor yn benthycu, gellir gwneud hynny dim ond i gyllido gwariant cyfalaf, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn penderfynu cyfalafu gwariant refeniw penodol, ond dim ond ar gyfer amgylchiadau eithriadol y caniateir hyn. Mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn gofynion Deddf Awdurdodau Lleol 2003, rheoliadau Llywodraeth Cymru, canllawiau statudol a phenderfyniadau mewn perthynas â'i bolisi MRP a sut mae'n cyfrifo MRP. Ers i CIPFA gyflwyno ei seiliau benthycu darbodus ym mis Ebrill 2004, nid oes unrhyw swm wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru fel cyfyngiad ar fenthycu Cronfa'r Cyngor ac, yn fwy diweddar, mae'r cyfyngiad ar ddyled ar gyfer y CRT wedi'i diddymu. Yn lle hyn, mae'n rhaid i'r hyn a fenthycir gan y Cyngor fod yn ddarbodus, er nad yw hyn yn cael ei ddiffinio'n gyfreithiol nac mewn canllawiau. Mae Link (2021) yn nodi "*Mae'n gyfrifoldeb ar bob Awdurdod i reoli hyn yn briodol, a phennu ad-daliadau darbodus yn seiliedig ar ei amgylchiadau unigol, gan roi ystyriaeth i gynlluniau ariannol tymor canolig / hir, pwysau cyllidebol presennol, cynlluniau gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig yr Awdurdod ac anghenion cyllido, ac unrhyw gynlluniau trawsnewidiol tymor hir*". Yn syml, gall y Cyngor fenthycu, cyn belled a bod ad-daliadau'n fforddiadwy.
- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;
- Cytuno y byddir yn gallu tynnu cyllid o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol yn sgil unrhyw bwysau, na chawsant eu rhagweld, ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol;
- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os yw'r gyllideb wrth gefn gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o'r gronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem dros £50k heb ganiatâd o flaen llaw y Pwyllgor Gwaith;
- Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn cynyddu i 75%, ac yn aros ar 100% ar gyfer cartrefi gwag.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn cyhoeddi cynigion cychwynnol y gyllideb. Mae cynigion terfynol y gyllideb yn ystyried y setliad terfynol i lywodraeth leol, safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori a barn y Pwyllgor Sgriwtini.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gyllideb arfaethedig derfynol cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb referniw 2023/24 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod 9 Mawrth 2023.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol)

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys	Wrth lunio'r gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:-	Mae manylion unrhyw gynigion am arbedion wedi'u nodi yn yr adroddiad.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-	Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwysu ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Ymgynghorwyd ar y gyllideb arfaethedig ac mae'r manylion i'w gweld yn yr adroddiad. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyn cytuno ar y gyllideb arfaethedig derfynol.

5	Nodwch unrhyw effaith bosib y câi'r penderfyniad yma ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd unrhyw gynigion sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb derfynol 2023/24 yn cadw mewn cof yr effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir.
6	Os penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl y câi'r penderfyniad yma ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.	Yn sgil y gyllideb, bydd trethdalwyr Ynys Môn yn talu mwy o Dreth Gyngor. Bydd y rhai dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys am gymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Ni ddylai'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol weld unrhyw / fawr ddim effaith ariannol.
7	Nodwch unrhyw effaith bosib y câi'r penderfyniad yma ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	Ni welwyd unrhyw
E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (mandadol)	Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o broses gosod y gyllideb o'r cychwyn cyntaf, ac maent yn cytuno â'r adroddiad ac yn ategu'r cynnig ynghylch y gyllideb derfynol.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r TA ac, fel y cyfryw, ystyriwyd sylwadau'r Swyddog.
4	Adnoddau Dynol (AD)	-
5	Eiddo	-
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	-
7	Sgriwtini	Cafodd y gyllideb arfaethedig derfynol eu hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod 28 Chwefror 2023. Rhoddir canlyniad y cyfarfod ar lafar i'r Pwyllgor Gwaith.
8	Aelodau Lleol	Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i bob Aelod a chynhaliwyd ymgynghoriad trwy gydol proses gosod y gyllideb.
9	Unrhyw gyrff allanol eraill	Gweler Adran 2 yr adroddiad.
F - Atodiadau:		
<ul style="list-style-type: none"> • Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar Gynigion y Gyllideb • Atodiad 2 – Crynodeb o Gyllideb Refeniw Arfaethedig 2023/24 fesul Gwasanaeth 		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):		
<ul style="list-style-type: none"> • Y Gyllideb Arfaethedig Gychwynnol am 2023/24 – Pwyllgor Gwaith – 24 Ionawr 2023 • Y Gyllideb Arfaethedig Gychwynnol am 2022/23 – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 19 Ionawr 2023 • Cynllun Ariannol Tymor Canol am 2023/24 i 2024/25 – Pwyllgor Gwaith – 27 Medi 2022 		

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

- 1.1. Yn yr adroddiad a ganlyn nodir cyllideb refeniw arfaethedig 2023/24, ac mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac yn sicrhau y caiff cyllid y Cyngor ei neilltuo i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth Gyfalaf y Cyngor, Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a Ffioedd a Thaliadau.
- 1.2. Mae'r gyllideb refeniw a'r angen parhaus i nodi arbedion refeniw wedi'u llywio gan y Cynllun Ariannol Tymor Canol, fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2022, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:-

Tabl 1
Cynllun Ariannol Tymor Canol 2023/24 to 2024/25

	2023/24 £'m	2024/25 £'m
Cyllideb Refeniw Net - Dygir ymlaen	158.367	164.682
Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant	18.147	8.003
Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig	176.514	172.685
Cyllid Allanol Cyfun (AEF) (gan ragdybio cynnydd o 3.6% yn 2023/24 a chynnydd o 2.4% o yn 2024/25)	118.675	121.523
Treth y Cyngor (gan ragdybio cynnydd o 5% yn 2023/24 a 2024/25)	46.007	48.307
Cyfanswm Cyllid	164.682	169.830
Cyllid Ychwanegol sydd ei Angen / Arbedion sydd eu Hangen	11.832	2.855
Prif Ragdybiaethau		
Dyfarniadau Cyflog – i rai nad ydynt yn athrawon	7.8%	3.0%
Dyfarniadau Cyflog – i athrawon	5.2%	3.2%
Chwyddiant cyffredinol	16.4%	1.8%
Noder - Gyda ffigurau 2023/24, bu cywiriad i'r gyllideb sail oherwydd tanddarpariaeth ar gyfer chwyddiant yng nghyswllt cyflog a phrisiau yng nghyllideb 2022/23.		

- 1.3. O gofio bod y gyfradd chwyddiant yn sylweddol uwch na'r arfer, nid oedd prisiau ynni wedi'u derbyn am y flwyddyn i ddod ac nad oedd codiadau cyflog am 2022/23 wedi'u pennu pan luniwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC), roedd risg sylweddol y gallai'r bwch cyllido fod wedi bod hyd yn oed yn uwch na'r ffigurau a ddangosir yn y CATC.
- 1.4. Wrth lunio'r gyllideb arfaethedig gychwynnol, roedd dyfarniad cyflog 2022/23 wedi'i setlo, roedd chwyddiant wedi dechrau dangos arwyddion ei fod wedi cyrraedd ei anterth ac roedd y prisiau ynni newydd ar gyfer y flwyddyn Hydref 2022 i Fedi 2023 wedi'u derbyn. Roedd mwy o sicrwydd ynghylch y gyllideb sylfaenol oherwydd hyn.
- 1.5. Roedd ffigurau setliad drafft Llywodraeth Cymru hefyd yn well na'r hyn a ragwelwyd, gyda'r Cyngor yn gweld cynnydd o 7.9%, o'i gymharu â'r 3.6% oedd wedi'i gynnwys yn y CATC.
- 1.6. Fodd bynnag, er gwaethaf y newidiadau hyn a bod y bwch cyllido yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y CATC, mae'n dal i fod yn sefyllfa ariannol heriol am 2023/24 a 2024/25, a bydd disgwyl i gostau barhau i godi oherwydd chwyddiant a galw cynyddol. Yn anffodus, does fawr ddim gobaith y bydd y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn ddigon i dalu am y cynnydd hwn mewn costau.

2. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG GYCHWYNNOL

- 2.1** Yn ei gyfarfod 24 Ionawr 2023, trafododd y Pwyllgor Gwaith y gyllideb arfaethedig wreiddiol a'r setliad dros dro yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi 14 Rhagfyr 2022.
- 2.2** Roedd y setliad dros dro yn well na'r disgwyl, a byddai'n rhoi £123.555m i'r Cyngor, sef cynnydd o £9.004m (7.86%) mewn termau arian parod ond, ar ôl ystyried trosglwyddo grantiau i mewn i'r setliad ac effaith y newid yn sylfaen dreth y Cyngor, £9.065m (7.92%) oedd y cynnydd wedi'i addasu.
- 2.3** Cynigiodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb o £172.438m am 2023/24 ac, o ystyried yr AEF dros dro o £123.555m, byddai'n rhaid codi y Dreth Gyngor 5.00% a defnyddio £1.758m o falansau cyffredinol y Cyngor i gael cyllideb gytbwys.
- 2.4** Wrth osod y gyllideb arfaethedig, cydnabu'r Pwyllgor Gwaith bod angen diogelu gwasanaethau rheng flaen a chyllidebau cynyddol er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol am wasanaethau Oedolion a Phlant ac atal digartrefedd.
- 2.5** Roedd y gyllideb arfaethedig yn gwrthdroi £700k o fuddsoddiad mewn Addysg, oedd wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2022/23, ac yn capio'r cynnydd yn y chwyddiant yng nghyllideb ddatganoledig Ysgolion 1% (£471k). Roedd y newidiadau hyn, ynghyd â chynnydd o £169k yng nghyllideb incwm Priffyrdd, yn ddigon i greu cyllideb oedd yn peri i'r gwariant net gyfateb i gyllid oedd ar gael.
- 2.6** Er na fwriadwyd i Asesiad o Wariant Safonol (AWS) fod yn fesur o'r hyn y dylai cyllideb refeniw net y Cyngor fod, mae'n rhoi rhyw syniad ynghylch a yw cyllideb y Cyngor ar lefel resymol i'r Cyngor. £169.406m yw'r AWS am 2023/24 ac, felly, 101.8% o'r AWS yw'r gyllideb arfaethedig.

3 PWYLLGOR SGRIWTINI

- 3.1.** Oherwydd yr oedi cyn cael y setliad dros dro a therfynol, bu'n rhaid crynhoi amserlen y gyllideb am 2023/24 er mwyn sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa i osod y Dreth Gyngor o fewn yr amserlen a nodir yn Neddff Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Adran 30(6)). Bu'r Panel Sgriwtini hefyd yn archwilio'n fanwl y cynigion buddsoddi mewn gwasanaethau yn ei gyfarfod 12 Ionawr 2023, a rhoddwyd gwybod i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 19 Ionawr 2023 am sylwadau'r Panel.
- 3.2.** Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y gyllideb arfaethedig gychwynnol 2023/24 yn ei gyfarfod 19 Ionawr 2023. Penderfynodd y Pwyllgor gefnogi cynnig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb arfaethedig gychwynnol.
- 3.3.** Rhoddodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ragor o ystyriaeth i'r gyllideb arfaethedig derfynol yn ei gyfarfod 28 Chwefror 2023, a bydd adroddiad llafar ar drafodaethau'r Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yng nghyfarfod y Pwyllgor.

4. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL

- 4.1** Wrth lunio'r gyllideb arfaethedig gychwynnol, roedd y Cyngor yn aros am benderfyniad ar gyfer y gyllideb derfynol mewn perthynas â chyrrff ardoll a sefydliadau eraill sy'n derbyn cyfraniad gan y Cyngor. Dangosir yn Nhabl 2 isod effaith yr addasiadau sy'n deillio o gwblhau'r penderfyniadau ar gyllideb y Cyngor.
- 4.2** Yn ogystal, mae un newid wedi'i wneud i'r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru, o'i gymharu â'r setliad drafft. Mae grant i gynorthwyo Awdurdod Tân Gogledd Cymru i gwrdd â chostau uwch pensiwn wedi'i drosglwyddo i'r setliad. Mae cynnydd yr Awdurdod Tân yn ei ardoll yn debyg ac, o'r herwydd, nid oes dim effaith net ar gyllideb y Cyngor.

Tabl 2

Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig y Cyngor

	£m	£m
Cyllideb Refeniw Net Arfaethedig Gychwynnol 2023/24		172.438
Addasiadau		
Gostyngiad o 13.4% i 9.9% yn y cynnydd arfaethedig yn ardoll yr Awdurdod Tân	(0.131)	
Cynnydd yn ardoll yr Awdurdod Tân i adlewyrchu'r grant a drosglwyddwyd i'r setliad terfynol	0.108	
Cynnydd yn ardoll y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i adlewyrchu penderfyniad terfynol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol	0.012	
Cynnydd yn ardoll Tywyn Trewan	0.010	
Cynnydd yn y cyfraniad i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i adlewyrchu'r gyllideb derfynol	0.011	
Gostyngiad yn y cyfraniad i GwE i adlewyrchu'r gyllideb derfynol	(0.061)	
Gostyngiad yn y cyfraniad i Dîm Cynllunio mewn Argyfwng Gogledd Cymru i adlewyrchu'r gyllideb derfynol	(0.021)	
Mân Addasiadau Eraill	(0.015)	(0.087)
Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig 2023/24		172.351
Cyllidir gan		
Cyllid Allanol Cyfun (AEF)	123.665	
Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm Ail Gartrefi a Thai Gwag)	47.124	
Cronfeydd Wrth Gefn	1.759	
Cyllid Diwygiedig 2023/24		172.548
Cyllid sy'n weddill heb fod yn y Gyllideb Refeniw Net		0.197

4.3 Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith dri opsiwn fel bod modd sicrhau fod y cyllid diwygiedig yn cyfateb i'r gyllideb refeniw net:-

- Lleihau'r defnydd a wneir o gronfeydd wrth gefn gan £197k i £1.562m;
- Gostwng y cynnydd yn y Dreth Gyngor i 4.56%. Byddai hyn yn newid yr hyn a godir yn y Dreth Gyngor Band D i £1,429.83, sydd £6.03 yn is na'r gyllideb arfaethedig gychwynnol;
- Cynyddu'r gyllideb refeniw net gan £190k, drwy ddarparu adnoddau ychwanegol i gwrdd â'r blaenoriaethau brys a nodwyd ers cytuno ar y gyllideb arfaethedig gychwynnol.

4.4 Cyn cwblhau'r gyllideb yn derfynol, cynhaliwyd adolygiad i nodi unrhyw feysydd blaenoriaeth yr oedd angen cyllid ychwanegol arnynt i'r hyn a gynigiwyd yn y gyllideb arfaethedig gychwynnol. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i gynnwys y cyllidebau ychwanegol a ganlyn yn y gyllideb arfaethedig derfynol.

- Mae'r Gwasanaeth Addysg wedi caffael system rheoli gwybodaeth ysgolion newydd, mewn proses gaffael ar y cyd gyda'r pum awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Mae ffi'r drwydded flynyddol am y system newydd tua £30k yn llai na chost y system bresennol. Fodd bynnag, am 2023/24 bydd angen rhedeg y ddwy system yn gyfochrog ac, o'r herwydd, mae angen ychwanegu £44k arall at gyllideb y feddalwedd.
- Mae Deddf Etholiadau 2022 newydd yn gosod nifer o ddyletswyddau ychwanegol ar y Cyngor y bydd angen rhagor o staff arnynt i wneud y gwaith. O'r herwydd, bydd un swydd ychwanegol yn cael ei hychwanegu at strwythur staffio'r Tîm Etholiadau ar gost ychwanegol o £34k, sy'n net o gyllid grant a dderbynnir gan Lywodraeth y DU.

- Bu pryder ers peth amser nad yw lefel y gefnogaeth weinyddol i Aelodau Etholedig yn ddigon iddynt allu cyflawni eu holl ddyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Tîm bychan iawn yw'r Tîm Cefnogi Aelodau a chyfyd anawsterau pan fo staff yn absennol oherwydd gwyliau neu salwch. Y cynnig yw cael un swydd ychwanegol er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth a gwella gwytnwch y Tîm. £42k yw cost ychwanegol y swydd.
- Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi mwy o fewnbwn i gynlluniau megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Codi'r Gwastad, oherwydd newidiadau i'r drefn cyllido grantiau. Mae'r newidiadau hefyd wedi creu cyfle i ddenu mwy o gyllid grant i Ynys Môn ac oherwydd hyn, ynghyd â chyfleoedd datblygu economaidd eraill e.e. datblygu porthladd rhydd, bydd gofyn am ragor o staff datblygu economaidd i sicrhau gwireddu'r budd mwyaf. Y cynnig, felly, yw cynyddu'r tîm datblygu economaidd ar gost o £69k.
- Roedd contractwr arlwyo prydau ysgol y Cyngor wedi gobeithio peidio â chodi prisiau tan fis Medi 2023 ond, oherwydd y cynnydd diweddar mewn bwyd, ynni a chyflogau staff, mae'r gost y cytunwyd arni fesul pryd wedi codi dros 10%, sy'n golygu bod cost pryd o fwyd mewn ysgol uwchradd wedi codi o £2.60 i £2.88. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i beidio â throsglwyddo'r cynnydd i ddisgyblion ac i gael rhagor o drafodaethau gyda'r contractwr arlwyo cyn penderfynu ar y pris a godir o fis Medi 2023 ymlaen. Bydd y gost ychwanegol wedyn yn disgyn ar y Gwasanaeth ac, o'r herwydd, mae angen cynnydd o £29k i gwrdd â'r gost ychwanegol hon.

4.5 Effaith net y cynigion hyn yw cynyddu'r gyllideb refeniw net gan £218k, sydd £21k yn uwch na'r cyllid sydd ar gael. Byddai'r gost ychwanegol yn cael ei gyllido drwy gynyddu'r defnydd o falansau cyffredinol o £1,759k i £1,780k.

4.6 Ar 24 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Cyflogwyr gynnig cyflog cychwynnol i'r Undebau mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog i rai nad ydynt yn athrawon. Mae'r cynnig yn gynydd cyfradd unffurf o £1,925 i'r holl weithwyr, gyda chynnydd o 3.88% ar gyfer yr holl weithwyr sydd ar bwynt cyflog (SCP) 43 ac uwch, gyda chynnydd o 3.5% i Uwch Swyddogion a'r Prif Weithredwr. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cynyddu costau tua 7% o gymharu â'r 3.5% y caniatwyd ar ei gyfer yn y cynnig cyllideb cychwynnol. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol o £2m ar y gyllideb.

4.7 Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cysidro sut i gyllido'r gost ychwanegol ac yn cynnig defnyddio arian wrth gefn y Cyngor i gyfarfod y gost ychwanegol yn 2023/24.

5 CADERNID AMCANGYFRIFON

5.1 Mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid roi gwybod am gadernid amcangyfrifon y gyllideb ac a oes digon yn y cronfeydd ariannol wrth gefn arfaethedig.

5.2 Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar ragdybiaethau o wariant ac incwm yn y dyfodol ac maent yn cynnwys elfen o risg rhagdybiaeth. Gellir lliniaru effaith y risg hon trwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.

5.3 Nid mater o gyfrifo'n gywir yn unig yw cadernid amcangyfrifon cyllideb. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau'n seiliedig ar amcangyfrifon neu ragolygon, a gall fod elfen o risg o ran a fydd cynlluniau'n cael eu cyflwyno neu dargedau eu cyflawni. Caiff risgiau gwahanol i'r gyllideb eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant** – Pan fo lefelau chwyddiant yn isel a'r symudiad cyffredinol yn y gyfradd chwyddiant yn fach, yna mae'r risg chwyddiant yn isel, fel sydd wedi digwydd ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd ynghylch chwyddiant cyflogau a phrisiau yn 2023/24, ac mae hyn yn cynyddu'r risg yn sylweddol. Cyrhaeddodd mesur cyffredinol chwyddiant (CPI) ei anterth ym mis Rhagfyr 2022, ac mae wedi dechrau gostwng yn ystod chwarter cyntaf 2023, ond mae llawer o ansicrwydd ynghylch pa mor gyflym y bydd yn gostwng, gyda'r rhagolwg optimistaidd yn dangos y bydd yn gostwng i tua 2% erbyn diwedd 2023. Ar y llaw arall, dengys y rhagolygon mwy pesimistaidd y bydd tua 8% erbyn diwedd 2023. Yn ogystal, gall chwyddiant i rai mathau o wariant aros yn uwch na hyn (bwyd, ynni, deunyddiau adeiladu) a gall y chwyddiant gwirioneddol a wynebir gan y Cyngor fod yn wahanol iawn i ffigur y CPI. I ryw raddau, mae'r Cyngor wedi'i warchod rhag y risg hon oherwydd bod y mwyafrif o'n cytundebau mwy (prydau ysgol, cynnal a chadw priffyrdd, casglu sbwriel ayb.) yn defnyddio mynegeion chwyddiant o fis Medi, Hydref neu Dachwedd 2022 i bennu'r chwyddiant am 2023/24. O gofio bod y ffigurau hyn yn hysbys, maent wedi'u cynnwys yn y gyllideb arfaethedig am 2023/24.
- **Chwyddiant Cyflog** - Cyflogau yw cost fwyaf y Cyngor, ac nid oes cytundeb wedi bod eto ar godiad cyflog am 2023/24 i staff nad ydynt yn athrawon. Mae'r Undebau wedi cyflwyno hawliad cyflog o RPI + 2% (sy'n cyfateb i tua 15%). Mae cynnig y Cyflogwr wedi ei fanylu yn paragraff 4.6 uchod ac wedi ei gyllido yn y cyllideb. Byddai'n rhaid i unrhyw ddyfarniad uwchlaw'r ffigurau hyn gael ei gyllido o gronfeydd wrth gefn y Cyngor, gyda phob cynnydd o 1% yn ychwanegu tua £600k at fil cyflog y Cyngor. Mae dyfarniad cyflog yr athrawon hyd at fis Medi 2023 wedi'i osod a'i dalu (5%), ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnig arall sy'n mynd â'r dyfarniad cyflog i 6.5%. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi codiad cyflog dangosol o 3.5% i athrawon o fis Medi 2023 ac mae lle i hwn yn y gyllideb er, unwaith eto, mae perygl na fydd yr undebau athrawon yn derbyn hyn.
- **Risg Cyfraddau Llog** - Mae cyfraddau llog yn cael effaith ar gyllideb refeniw un blwyddyn drwy'r llog a enillir - h.y. mae cynnydd yn y gyfradd llog yn fuddiol. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i fuddsoddiadau gael eu gwneud ar sail sicrwydd a hylifedd y buddsoddiad fel yr ystyriaeth gyntaf, gydag enillion ar fuddsoddiadau yn flaenoriaeth is, felly, nid yw'r gyllideb yn ddibynnol ar enillion buddsoddiad uchel. Mae cyfraddau llog wedi codi'n sylweddol yn y 12 mis diwethaf, gyda'r Cyngor, bellach, yn cael dros 3% ar ei fuddsoddiadau. Wrth osod y gyllideb, mae amcangyfrif o'r llog a geir wedi'i gynnwys yn y gyllideb, ond mae perygl na fydd y gyllideb yn cael ei chyflawni os bydd cyfraddau llog yn dechrau disgyn yn gyflym neu os bydd y cyllid sydd ar gael i'w fuddsoddi yn is na'r hyn a ragwelwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r llog a delir gan y Cyngor yn ymwneud â benthyciadau cyfradd sefydlog na fyddant yn newid pe bai'r gyfradd llog yn codi. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel ac, fel yn y blynyddoedd a fu, cydfantolir y risg ar gyfer risg chwyddiant, oherwydd os bydd un yn cynyddu, mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd.
- **Risg Grantiau** - Risgiau sy'n gysylltiedig â nifer fawr y grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, neu gan gyrrff eraill sy'n cefnogi cyfran dda o wariant y Cyngor yw'r rhain. Mae'r setliad terfynol yn nodi y bydd y rhan fwyaf o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu neu'n aros ar lefel 2022/23, sy'n lleihau risg y Cyngor yn sylweddol. Er mai'r ymateb uniongyrchol yw dweud, pan ddaw'r grant i ben, rhaid i'r gwariant cysylltiedig ddod i ben hefyd, mae perygl na fydd hyn bob amser yn bosibl. Efallai na fydd yn bosibl pan fo telerau contract yn golygu na ellir torri'r gwariant mor gyflym â'r incwm, neu ei fod yn ymwneud â chostau diswyddo heb eu cyllido. Efallai na fydd yn bosibl os yw'r gweithgaredd a gyllidir yn troi allan i fod mor bwysig wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, fel bod y Cyngor wedi penderfynu bod yn rhaid iddo barhau â'r gwariant. Mae ymdrechion i liniaru'r risg hon yn sicrhau bod gennym y wybodaeth orau sydd ar gael ar bob grant, ond ni ellir diystyru'n llwyr unrhyw newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn.

- **Risgiau Incwm** – Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio codiadau hyd at 3%. Os yw hyblygrwydd y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod y galw'n gostwng, ac na chyflawnir targedau incwm, gallai hynny achosi gorwariant ar gyllidebau net. Gall yr argyfwng costau byw gael effaith ar yr incwm a gynhyrchir o wasanaethau megis hamdden, meysydd parcio, cynllunio a rheoliadau adeiladu, lle gall defnyddwyr ddewis lleihau eu gwariant ar y gwasanaethau yma nad ydynt yn hanfodol. O'r herwydd, bydd gofyn monitro sefyllfa'r gyllideb net yn agos ac, os oes angen, torri'n ôl ar wariant i gyfateb i lai o incwm.
- **Risg Galw** – Gall nifer o wasanaethau brofi newid yn y galw am eu gwasanaethau. Gellir rhagweld rhai a'u hystyried wrth osod y gyllideb e.e. newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Mae eraill yn fwy anodd eu rhagweld a gall cynnydd bach mewn niferoedd gael effaith sylweddol ar gostau. Mae'r gyllideb yn caniatáu ar gyfer darparu'r gwasanaeth ar y lefelau presennol, gyda chynnydd yn y galw yn dod dan falansau cyffredinol y Cyngor neu, mewn rhai achosion, dan arian wrth gefn clustnodedig. Mae lwfans wedi'i wneud yng nghyllideb 2023/24 ar gyfer lefel bresennol y galw am wasanaethau ar gyfer gofal cymdeithasol ac atal digartrefedd, er bod perygl y bydd y cynnydd yn y galw yn parhau yn 2023/24 yn uwch na'r hyn a ganiateir yn y gyllideb. Byddai hyn yn arwain at orwariant yn y gwasanaethau hynny yr effeithir arnynt, a byddai'n rhaid ariannu'r gorwariant hwn o Gronfeydd wrth gefn a balansau cyffredinol y Cyngor.
- **Risg o fod rhy Optimistaidd** – Yn y blynyddoedd a fu, mae'n debyg mai'r risg fwyaf yn yr amgylchiadau presennol yw bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion wedi bod yn oroptimistaidd o ran yr arbedion a gyflawnir neu na fydd y galw am wasanaethau, yn enwedig gofal cymdeithasol, yn cynyddu'n sylweddol. Am 2023/24, ni chynigir unrhyw arbedion ac, fel y cyfryw, nid yw'r risg hon yn berthnasol i gyllideb 2023/24 ond mae'r risg galw yn dal yn berthnasol (gweler uchod).
- **Risg o fod yn rhy Ofalus** – Dyma'r gwrthwyneb i'r risg uchod: y perygl fod ein cyllidebau wedi eu llunio'n rhy ofalus ac, felly, yn fwy na'r hyn sydd ei angen. Byddai hyn yn arwain at osod y Dreth Gyngor yn uwch na'r hyn sy'n ofynnol - rhywbeth y mae'r Aelodau'n awyddus i'w osgoi. Mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon gyda'r broses gosod cyllideb a bod y gyllideb a osodwyd yn asesiad teg o'r adnoddau sydd eu hangen ar bob gwasanaeth, yn seiliedig ar y ffactorau perthnasol fel ag y maent ar hyn o bryd.
- **Premiwm y Dreth Gyngor** – Wrth osod sylfaen y dreth, derbynnir y gall nifer yr eiddo gwag ac ail gartrefi newid yn ystod y flwyddyn ac, o'r herwydd, dim ond 80% o eiddo cymwys sydd wedi'u cynnwys yn sylfaen y dreth. Mae hyn yn diogelu cyllideb y Cyngor pe bai gostyngiad sylweddol yn y niferoedd. Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer yr eiddo gwag a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo sylfaen y dreth wedi codi o 324 eiddo ym mis Hydref 2021 i 334 eiddo ym mis Hydref 2022, a chododd nifer yr ail gartrefi o 2,149 i 2,180 yn ystod yr un cyfnod, er i'r premiwm ail gartrefi godi o 35% i 50%. Mae'r newid yn lefel premiwm ail gartrefi o 50% i 75% yn risg sylweddol yn 2023/24. Gallai'r cynnydd annog perchnogion ail gartrefi i werthu neu osod eu heiddo h.y. un o'r dibenion a fwriedir o gynyddu'r premiwm, fodd bynnag, gallai annog mwy o achosion o beidio â thalu'r dreth neu osgoi ei thalu drwy drosglwyddo i drethi busnes neu drwy ddulliau osgoi eraill. Er mwyn lliniaru'r risg, bydd staff ychwanegol yn cael eu cyflogi i nodi achosion o osgoi talu'r dreth a lleihau swm y premiwm a gollir yn sgil hynny. Gan fod y Pwyllgor Gwaith wedi ymrwymo i ddefnyddio'r holl bremiwm ychwanegol i fynd i'r afael â'r materion a achosir gan niferoedd uchel o ail gartrefi ar Ynys Môn, byddai unrhyw ostyngiad sylweddol mewn incwm yn peri gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer y mentrau hyn yn y blynyddoedd i ddod.

- **Incwm y Dreth Gyngor** – Mae cyllideb incwm y Dreth Gyngor yn seiliedig ar gyfrifo sylfaen y dreth ym mis Tachwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae sylfaen y dreth yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn, wrth i eiddo newydd gael eu cynnwys ac wrth i eithriadau a disgowntiau person sengl gael eu caniatáu. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y debyd gwirioneddol a godwyd a'r gyllideb. Yn sgil y newidiadau yn y trothwyon i eiddo hunanarlwyo gofrestru ar gyfer y Dreth Gyngor, dechreuwyd gweld nifer o eiddo hunanddarpar yn trosglwyddo'n ôl i gofrestr y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, mae perygl y bydd y perchnogion yn cyrraedd y trothwyon uwch newydd yn ystod y flwyddyn i ddod, fydd yn fodd iddynt drosglwyddo yn ôl i'r gofrestr Trethi Busnes.

Gall yr argyfwng costau byw hefyd gael effaith ar gyfradd casglu'r Cyngor, wrth i fwy o aelwydydd frwydro'n ariannol gyda chostau cynyddol. Gall hyn arwain at golled ariannol yn 2023/24 neu mewn blynyddoedd i ddod, pan fydd dyledion na ellir eu casglu yn cael eu dileu yn y pen draw.

- 5.4** Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn bod y cyllidebau'n gadarn a bod modd eu cyflawni, a bod digon o gamau i liniaru yn erbyn y risgiau a nodwyd oherwydd bod sefyllfa'r Cyngor, o ran balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn a clustnodedig, yn iach.

6. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL

- 6.1** Mae'r gyllideb arfaethedig yn ymgorffori nifer o ragdybiaethau o ran lefelau tebygol o incwm a gwariant yn y dyfodol. Mae'n anochel, felly, fod nifer o risgiau ariannol yn rhan annatod o'r gyllideb arfaethedig. Nodir y rhain ym mharagraff 5 uchod.
- 6.2** O ran unrhyw arian wrth gefn a chronfeydd wrth gefn, mae angen i'r Swyddog Adran 151 adolygu'r rhain yn eu cyfanrwydd ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol ei hun a'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn ogystal, dylai'r adolygiad edrych ar y tymor canolig, lle bo angen, ac ystyried datblygiadau allweddol a allai gael effaith ar yr angen am adnoddau untro a'u defnyddio.
- 6.3** Cymerir safbwynt cadarn ar reoli risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu cyllid untro yn ddigonol i gyllido newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol, yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol ei hun.
- 6.4** Ystyriwyd yr angen i gadw'r gostyngiadau uniongyrchol mewn gwariant, a'r effaith yn sgil hynny ar wasanaethau, cyn ised â phosibl. Fodd bynnag, rhaid cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol tymor canolig a hir y Cyngor, ac i arbedion gael eu creu mewn ffordd raddol a strwythuredig dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, mae rhywfaint o risg bob amser y ceir gwariant nad yw wedi'i ragweld neu ryw orwario oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllideb gwasanaeth, a rhaid i gronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigon i gymryd y pwysau hwn.
- 6.5** Fel ar 31 Mawrth 2022, £12.278m oedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor, sy'n cyfateb i 8.35% o gyllideb refeniw net y Cyngor am 2021/22, neu 11.75% os na chaiff y gyllideb datganoledig ysgolion ei chynnwys. Yn ystod y flwyddyn, neilltuiwyd £0.5m i gyllido gwaith trwsio priffyrdd ac ychwanegwyd £1.073m at gyllideb ddatganoledig ysgolion i gyllido costau cyflog ychwanegol. Mae £4.139m wedi'i drosglwyddo o gronfeydd gwasanaeth a chronfeydd wrth gefn eraill clustnodedig. Felly, £14.844m yw lefel y rhagolygon diwygiedig ar hyn o bryd, er bod hyn yn rhagdybio na fydd gor na thanwariant yng nghyllideb 2022/23. Ar ôl caniatáu ar gyfer defnyddio £3.780m yn gyllid ar gyfer cyllideb refeniw 2023/24, byddai'r balans diwygiedig yn disgyn i £11.064m neu 6.33% o gyllideb refeniw net 2023/24.
- 6.6** Mae trosglwyddo'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i'r balansau cyffredinol, a defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn yn ystod y flwyddyn, wedi gostwng y balans o £24.46m ar ddechrau 2022/23 i lawr i lefel a ragwelwyd o £9.973m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

- 6.7** Dechreuodd balansau ysgolion ym mlwyddyn ariannol 2022/23 ar £7.83m, ond rhagwelir y byddant yn gostwng i £3.29m erbyn diwedd 2022/23, gyda £1.78m pellach yn cael ei ddefnyddio i fantoli cyllidebau ysgolion unigol yn 2023/24.
- 6.8** Mae lefel y balansau cyffredinol yn fater i'r Cyngor benderfynu arno yn seiliedig ar argymhelliad Swyddog Adran 151 y Cyngor ond, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb referniw net yn lefel dderbyniol. Mae'r cwestiwn a ddylai'r gyllideb referniw net eithrio'r gyllideb ddatganoledig ysgolion yn fater i'w drafod, gan fod ysgolion yn dal eu balansau eu hunain i dalu costau annisgwyl. Ar sail y sefyllfa ariannol bresennol, mae cryn hyder y bydd lefel y balansau cyffredinol yn fwy na 5% o'r gyllideb referniw net ddechrau blwyddyn ariannol 2022/23.
- 6.9** Wedi ystyried lefel balansau cyffredinol y Cyngor, balansau ysgolion, cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyllidebau wrth gefn, mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i wrthsefyll unrhyw anawsterau a all godi yn ystod 2023/24 os na fydd digon yn y gyllideb referniw arfaethedig i gwrdd â'r costau gwirioneddol a gafodd y Cyngor yn ystod 2022/23.

7. Y DRETH GYNGOR

- 7.1** £1,367.46 oedd yr hyn a godwyd am y Dreth Gyngor Band D am 2021/22, sef y 18fed o'r 22 Awdurdod yng Nghymru ac yn is na Chyfartaledd Cymru, sef £1,461. Yr hyn sy'n bwysicach i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r pum awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Cymhariaeth o Daliadau Band y Dreth Gyngor ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru

Awdurdod	Yr hyn a godir ym Mand D 2022/23 £	Y swm uwch / is nac Ynys Môn £	Canran uwch / is nac Ynys Môn %
Ynys Môn	1,367		
Gwynedd	1,527	+ 160	+ 11.7%
Conwy	1,438	+ 71	+ 5.2%
Sir Ddinbych	1,479	+ 112	+ 8.2%
Sir y Fflint	1,450	+ 83	+ 6.1%
Wrecsam	1,372	+ 5	+ 0.4%

- 7.2** £44.9m yw Cyllideb y Dreth Gyngor am 2023/24 (cyn cynnydd yn y Dreth Gyngor ond ar ôl addasu ar gyfer y newid yn sylfaen y dreth a phremiwm y Dreth Gyngor). Felly, mae pob cynnydd o 1% yn cynhyrchu £449k ychwanegol.
- 7.3** Ar ôl cymryd i ystyriaeth ffigwr y setliad terfynol a ragwelir o £123.665m, y gofyn cyllidebol diwygiedig o £174.569m (gweler Atodiad 2) a defnyddio £3.780m o gronfeydd wrth gefn, byddai angen £47.124m mewn cyllid y Dreth Gyngor. I gyllido'r gofyn cyllidebol diwygiedig, byddai'r cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor yn 5.00%, gan fynd â'r hyn a godir ym Mand D i £1,435.86, cynnydd o £68.40, neu £1.32 yr wythnos.

8. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

- 8.1** Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchodedig, a rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiadau o'r fath.
- 8.2** Ni fydd y gyllideb arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig a nodir yn y Rheoliadau ac, o'r herwydd, ni ystyrir bod angen unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

9. DIWEDDARU Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

- 9.1 Fel y nodwyd ym mharagraff 1, mae'r sefyllfa economaidd wedi newid yn sylweddol ers i'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol (SATC) ym mis Medi 2022. Yn ogystal, mae'r setliad dros dro i lywodraeth leol am 2023/24, sy'n uwch na'r disgwyl, hefyd yn newid y strategaeth yn sylweddol.
- 9.2 Y prif faes ansicrwydd o ran y SATC wrth symud ymlaen yw chwyddiant a'i effaith ar ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol. Mae'r argyfwng costau byw a'i effaith ar y galw am wasanaethau'r Cyngor hefyd yn ffactor mawr.
- 9.3 Mae'r CATC diwygiedig am 2024/25 a 2025/26, i'w weld yn Nhabl 4 isod:-

Tabl 4

Crynodeb o Gynllun Ariannol Tymor Canol 2024/25 a 2025/26

	2024/25 £'m	2025/26 £'m
Cyllideb Refeniw Net - Dygir ymlaen	174.569	176.856
Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant	8.876	5.168
Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig	183.445	182.024
Cyllid Allanol Cyfun (AEF) (gan ragdybio cynnydd o 3.0% yn 24/25 a chynnydd o 2.0% o yn 2025/26)	127.375	129.922
Y Dreth Gyngor (gan ragdybio cynnydd o 5% yn 2024/25 a 2025/26)	49.481	51.955
Cyfanswm Cyllid	176.856	181.877
Cyllid Ychwanegol sydd ei Angen / Arbedion sydd eu Hangen	6.589	0.149
Prif Ragdybiaethau		
Dyfarniadau Cyflog – i rai nad ydynt yn athrawon	3.5%	2.0%
Dyfarniadau Cyflog – i athrawon	4.8%	2.0%
Chwyddiant cyffredinol	2.0%	1.2%

- 9.4 Mae amcangyfrif y CATC uchod yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a all newid wrth i ni symud tuag at 2024/25, ond noda'r cynllun y bydd angen gwneud gostyngiadau sylweddol yn y gyllideb gwariant refeniw net yn 2024/25 (dros £4.6.5m). Gallai hyn, eto, gael ei wrthbwysu'n rhannol gan ddefnyddio mwy ar yr arian wrth gefn ond, unwaith eto, yr oll mae hyn yn ei wneud yw gohirio'r angen i wneud gostyngiadau yn y gyllideb tan 2025/26.
- 9.5 Mae'r sefyllfa'n gwella yn 2025/26, pan ragwelir dim ond diffyg bach iawn yn y cyllid ond mae hyn yn dibynnu ar y strategaeth barhaus i gynyddu'r Dreth Gyngor 5% y flwyddyn.
- 9.6 Cyflwynir SATC gyfredol i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2023.

10. CASGLIADAU

- 10.1 Mae'n bwysig bod y gyllideb a osodwyd yn gyraeddadwy ac yn adlewyrchu'r galwadau a wynebwr gan wasanaethau ar hyn o bryd, er y nodir y byddai parhad yr argyfwng costau byw neu ailgyflwyno cyfyngiadau Covid yn cael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor.
- 10.2 Mae'r setliad i lywodraeth leol yn well na'r disgwyl, ac yn fodd i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys yn 2023/24, gyda gostyngiadau bychain yn unig yng nghyllidebau gwasanaethau, defnydd cymedrol o gronfeydd wrth gefn gwasanaethau a chynnydd is na chwyddiant yn y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, mae hefyd yn mynd â'r Cyngor yn ôl i sefyllfa lle nad yw'n bosibl buddsoddi'n sylweddol yng ngwasanaethau'r Cyngor.

- 10.3** Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn dal yn weddol gryf er bod lefel y balansau a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig wedi lleihau yn ystod 2022/23 ac, er bod defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwysu cyllideb 2023/24 yn strategaeth weddol ddiogel, nid yw'n strategaeth y gellir ei defnyddio yn y tymor hir.
- 10.4** Mae'r sefyllfa yn 2024/25 yn ymddangos yn anos ac, oni bai fod cyllid Llywodraeth Cymru yn cynyddu mwy na chwyddiant a / neu y cyfyngir ar ddyfarniadau cyflog a lefel gyffredinol chwyddiant yn gostwng, yna bydd angen gostyngiadau sylweddol yn y gyllideb. Fel arall, bydd yn rhaid i'r Dreth Gyngor godi'n uwch na'r 5% a ganiateir yn y CATC.
- 10.5** Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, mae'r gyllideb referniw arfaethedig am 2023/24 yn cyflawni'r amcanion a ganlyn:-
- Sicrhau bod yr adnoddau ariannol a neilltuir i bob gwasanaeth yn ddigon i gwrdd â'r pwysau presennol ar y gyllideb a chyflawni'r galw am y swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu darparu.
 - Defnyddio cyfuniad o ostyngiadau yn y gyllideb, cronfeydd wrth gefn a chynnydd yn y Dreth Gyngor i osod cyllideb gytbwys.
 - Gosod lefel y Dreth Gyngor sy'n gymaradwy ag asesiad Llywodraeth Cymru o ble y dylai Dreth Gyngor Ynys Môn fod, ac sy'n unol â'r Dreth Gyngor a osodwyd gan awdurdodau eraill Cymru sydd o faint a math tebyg.

11. ARGYMHELLION

- 11.1** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo, i gyfarfod y Cyngor llawn 9 Mawrth 2023, gyllideb arfaethedig derfynol, fel y nodir ym Mharagraff 4,

Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL 2023/24 FESUL GWASANAETH

	Y Gyllideb Arfaethedig Derfynol 2023/24 £
Addysg a Diwylliant	63,319,619
Gwasanaethau Oedolion	34,973,049
Gwasanaethau Plant	12,965,415
Gwasanaethau Tai	1,590,036
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	19,755,398
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	5,754,153
Trawsnewid Corfforaethol	6,993,174
Adnoddau	3,723,134
Busnes y Cyngor	2,013,794
Rheolaeth Gorfforaethol	759,918
Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau	151,847,690
Costau Democrataidd a Chorfforaethol	3,244,158
Taliadau yr ailgodir amdanynt i'r CRT	(800,000)
Cymorth ar gyfer Cynlluniau Cymorth i Brynu Tai Lleol	1,501,907
Ardollau	4,503,685
Cyllido Cyfalaf	4,328,774
Budd-daliadau a Roddwyd	109,240
Rhyddhad Trehi Dewisol	105,000
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	6,751,765
Cyfanswm y Cyllidebau a Ddyranwyd	171,592,219
Cynlluniau Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill	2,976,987
Cyfanswm Cyllideb 2023/24	174,569,206
Cyllidir gan	
Grant Cymorth Refeniw	100,842,008
Trethi Annomestig	22,822,905
Y Dreth Gyngor (gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor)	47,124,293
Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor	3,780,000
Cyfanswm y Cyllid	174,569,206
Gwahaniaeth rhwng y Gyllideb a'r Cyllid	

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	2 MAWRTH 2023
Pwnc:	Y STRATEGAETH GYFALAF
Aelod(au) Portffolio:	CYNGHORYDD R WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU / SWYDDOG ADRAN 151)
Awdur yr Adroddiad:	MARC JONES
Ffôn:	01248 752601
E-bost:	rmjfi@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau	
<p>Dan Gôd Darbodus diwygiedig CIPFA (Medi 2017), mae'n ofynnol bellach fod pob awdurdod yn cynhyrchu strategaeth gyfalaf. Yn y strategaeth gyfalaf hon, rhaid amlinellu'r cyd-destun tymor hir i benderfyniadau am wariant cyfalaf a buddsoddi. Pwrpas y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ar gyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion gwasanaethau ac yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.</p> <p>Mae'r strategaeth gyfalaf yn gysylltiedig â nifer o gynlluniau a strategaethau eraill. Maent yn cynnwys:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun y Cyngor; • Y Strategaeth Rheoli Asedau Eiddo; • Y Strategaeth TG, yn cynnwys y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion; • Y Strategaeth Lleihau Carbon Sero Net; • Y Strategaeth Gwella Hamdden; • Y Strategaeth Moderneiddio Addysg; • Y Strategaeth Rheoli Trysorlys. <p>Nid yw nifer o'r strategaethau hyn, yn cynnwys Cynllun y Cyngor, wedi'u cymeradwyo eto ac, o ganlyniad, strategaeth dros dro yw'r strategaeth gyfalaf hon. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn ystod 2023/24 i gwblhau a chymeradwyo'r dogfennau ac yna asesu eu heffaith ar y strategaeth gyfalaf yn y tymor hwy, a bydd strategaeth gyfalaf ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith cyn dechrau blwyddyn ariannol 2024/25.</p>	
B –Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?	
Ni chafodd unrhyw opsiynau eraill eu hystyried gan fod hyn yn ofynnol o dan Gôd Darbodus CIPFA.	
C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
Yn unol â gofynion y Côt a Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y strategaeth ac argymhell ei bod yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn.	
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?	
Y Cyngor llawn fydd yn cymeradwyo'r strategaeth.	

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Bydd y strategaeth gyfalaf yn llywio'r gyllideb gyfalaf flynyddol a fydd yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023.

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys strategaeth tymor hir mewn perthynas â Chymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i gael gwelliannau tymor hir i ysgolion, buddsoddiad tymor hir yn Anheddau Cyngor y CRT a chymorth tymor hir i asedau presennol y Cyngor / offer TG newydd.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut?	Na
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cydnabod rôl bwysig gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â bid Twf Gogledd Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Fel rhan o'r broses ymgynghori ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022 – 2027, gofynnwyd nifer o gwestiynau yn ymwneud â gwariant cyfalaf a'u blaenoriaethau i ddinasyddion.
5	Nodwch unrhyw effaith bosib y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn helpu i sicrhau bod adeiladau'n hygyrch fel bod modd i bawb gael mynediad iddynt, ac mae'r strategaeth yn clustnodi cyllid ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i unigolion ag anableddau.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn cefnogi'r rhai dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol trwy wella cyfleusterau ysgol, cynyddu nifer y tai Cyngor a'u hadnewyddu, ymhlith prosiectau eraill.
7	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae'r prosiectau cyfalaf o fudd i'r Gymraeg, y Saesneg ac unigolion sy'n siarad ieithoedd eraill. Yn fwy uniongyrchol, bydd ysgolion newydd a'r rhai sydd wedi'u hadnewyddu o fudd i siaradwyr Cymraeg, gan fod y rhan fwyaf o ysgolion Ynys Môn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn addysgu iaith a llenyddiaeth Saesneg. Mae'r gofynion i gefnogi Môn-ddaliadau yn helpu i warchod diwylliant amaethyddol Ynys Môn, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, a siaredir gan lawer o denantiaid.

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae sylwadau'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) Adroddiad y Swyddog Adran 151.	Amherthnasol – dyma adroddiad y Swyddog Adran 151.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n Aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaeth wedi cael eu hystyried wrth drafod yr adroddiad hwn gyda'r TA.
4	Adnoddau Dynol (AD) Amherthnasol – dim goblygiadau staffio.	Mae unrhyw gynigion a fydd yn effeithio ar staff wedi cael eu nodi a'u trafod gyda'r Tîm AD.
5	Eiddo	Mae unrhyw gynigion a fydd yn effeithio ar eiddo'r Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm Eiddo.
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	Mae unrhyw gynigion sydd yn effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm TGCh.
7	Sgriwtini	I'w gadarnhau.
8	Aelodau Lleol	Mae'r cynigion yn berthnasol i bob Aelod.
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol.
F - Atodiadau:		
Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2023/24 Atodiad 2 – Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig Ddrafft 2023/24		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):		
Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24, y Pwyllgor Gwaith, 2 Mawrth 2023; Cynllun Ariannol Tymor Canol 2023/24 i 2024/25, y Pwyllgor Gwaith, 27 Medi 2022; Cyllideb Cyfalaf 2023/24, Cynigion Terfynol, y Pwyllgor Gwaith, 2 Mawrth 2023; Cyllideb Refeniw 2023/24, y Pwyllgor Gwaith, 2 Mawrth 2023; Cynllun y Cyngor 2023 i 2028.		



Cyngor Sir Ynys Môn

Strategaeth Gyfalaf 2023/24




Cyngor Sir Ynys Môn

Strategaeth Gyfalaf

2023/24

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn rhan allweddol o gynllunio strategol y Cyngor ar gyfer y tymor byr, canolig a hir. Cynllunio strategol yw'r broses y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i helpu i nodi beth ddylai ei flaenoriaethau a'i amcanion allweddol fod ar gyfer y flwyddyn nesaf ac i'r dyfodol. Mae hyn yn golygu gwaith ac ymgynghori sylweddol gan fod angen i'r Cyngor osod ei flaenoriaethau a thargedau ei gyllid at y gwasanaethau cywir i gwrdd ag anghenion dinasyddion Ynys Môn, a'r Ynys ei hun fel lle o arwyddocâd arbennig. Amlinellir amcanion allweddol y Cyngor yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn edrych ar ba asedau newydd, neu welliannau i asedau megis adeiladau'r Cyngor, ysgolion, tai, prosiectau adfywio, cyfleusterau gofal cymdeithasol, cyfleusterau hamdden, sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol, ynghyd â'i rwymedigaethau statudol niferus.
- 1.2 Dengys y diagram cynllunio strategol isod mai'r man cychwyn yw Cynllun y Cyngor, a bod hwn wrth wraidd gwaith y Cyngor. Ategir hyn gan gynlluniau strategol allweddol y Cyngor, a trafodir rhai ohonynt isod. Yr haen nesaf yw'r Strategaeth Gyfalaf, y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sydd wedi'u cysylltu'n agos iawn ac sydd oll yn rhyng-gysylltiedig. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys gwybodaeth a gofynion allweddol o'r holl gynlluniau hyn. Dengys y cylch hefyd ddwy haen allanol, rhaid i'r rhain fod yn gydnaws â'r holl ddogfennau strategol sydd ger eu bron.



- 1.3** Daeth Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 i ben ddiwedd mis Mawrth 2022 ac fe'i disodlwyd gan Gynllun Trosiannol ar gyfer 2022/23, cyn mabwysiadu Cynllun newydd y Cyngor ar gyfer cyfnod hyd at yr etholiad Cyngor nesaf ym mis Mai 2027.
- 1.4** Felly, mae'r Strategaeth Gyfalaf ymayn fyrrach o ran natur ac mae'n adlewyrchu'r gofynion cyllido cyfalaf i weithredu gweddill y Cynllun Trosiannol. Yn 2024/25, bydd y ddogfen hon yn cael ei disodli gan strategaeth gyfalaf mwy cynhwysfawr ar gyfer y tymor hir a fydd yn gysylltiedig â strategaethau a chynlluniau eraill sydd wrthi'n cael eu datblygu gan y Cyngor, yn cynnwys Strategaeth Rheoli Asedau, Strategaeth Addysg ayb.
- 1.5** Dyhead y Cyngor ar gyfer Strategaeth Gyfalaf Ynys Môn yw y bydd nid yn unig yn cynllunio ar gyfer y tymor byr a chanolig, ond ei fod yn bwriadu cynllunio ar gyfer y tymor hir - 20 mlynedd. Gall asedau'r Cyngor gostio symiau sylweddol o arian sydd, yn gyfnewid am y buddsoddiad, yn tueddu i bara blynyddoedd lawer. Mae canolbwyntio ar y tymor hir yn bwysig, nid yn unig oherwydd hirhoedledd asedau'r Cyngor, ond gall cynlluniau tymor hir anelu at newid mwy trawsnewidiol a sicrhau bod cynaliadwyedd yn ystyriaeth allweddol. Mae rhai amcanion sydd mor bwysig ac sy'n gofyn am newidiadau sylweddol, megis targedau Carbon Isel yn arwain at darged Di-Garbon net y sector cyhoeddus erbyn 2030, i gyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd. Bydd y newid hwn yn dechrau nawr gyda phrosiectau cyfalaf yn integreiddio dewisiadau amgen Carbon Isel a chydag asedau penodol, megis cerbydau trydan, ond mae'r targedau hefyd yn gofyn am newid trawsnewidiol parhaus, tymor hir. Mae Strategaeth Gyfalaf yma, 2023/24, wedi'i chyfyngu o ran ei hamcanion tymor hir tra bod y Cyngor yn ailgyfeirio ei hun ar ei daith allan o'r Pandemig. Bydd Strategaeth Gyfalaf 2023/24 yn rhoi golwg tymor hir mwy sylweddol gyda chymorth Cynllun newydd y Cyngor 2022/27 ac wrth i normal newydd Ynys Môn ddod i rym.
- 1.6** Mae gwaith llywodraethu'r strategaeth hon yn dilyn yr un broses â Phrosesau Pennu Cyllideb Refeniw a Chyfalaf a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, fydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn ei chymeradwyo.

2 Sut mae'r Strategaeth yn cydweddu â dogfennau eraill

2.1 Cynllun y Cyngor

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni yn y tymor canol, cyfnod o bum mlynedd fel arfer. Rhaid i bob strategaeth a chynllun arall fod yn gydnaws â Chynllun y Cyngor, fel y dangosir yn y cylch strategol yn 1.2. Mae Adran 1 uchod yn amlygu bod y cynllun pum mlynedd diweddaraf wedi dod i ben ym mis Mawrth 2022, a bod Cynllun Trosiannol ar gyfer 2023/24 wedi'i gyhoeddi wrth i'r Cyngor ddechrau symud ymlaen fel mae Covid-19 yn dod yn glefyd mwy endemig. Y tri amcan strategol, allweddol yn y Cynllun Trosiannol ar gyfer 2023/24 yw:-

- A.** Ailfywiogi'r economi leol a sefydlu newid economaidd cadarnhaol.
- B.** Sicrhau bod y sector ymwelwyr a lletygarwch yn gallu manteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys, tra'n gwarchod ein hasedau a'n cymunedau.
- C.** Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol hanfodol, megis Gofal ac Addysg ar draws yr Ynys.

<https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Democratiaeth/Mesur-ein-perfformiad/Cynllun-Trosiannol/Cynllun-Trosiannol-Ynys-Mon.pdf>

Un o amcanion allweddol y Strategaeth Gyfalaf hon yw sicrhau bod y cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn cael ei wario ar brosiectau sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, gan gynnwys cynnal a chadw, newid a / neu uwchraddio asedau presennol. Mae nifer o ddogfennau strategol allweddol eraill yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor. Mae'r rhain yn pennu sut bydd yr Awdurdod yn gweithio ar agweddau penodol sy'n cael effaith ar y Cyngor.

Mae Cynllun Trosiannol 2022/23 yn amlygu rôl bwysig y Strategaeth Gyfalaf a phrosiectau cyfalaf wrth gyflawni tri amcan strategol y Cyngor. At ei gilydd, mae pedwar ar hugain o dasgau wedi'u rhestru ar draws y tri amcan. Mae hanner y rhain yn brosiectau cyfalaf, gyda'r rhan fwyaf yn helpu i gyflawni amcanion A a C. Mae'r tabl isod yn dangos y prosiectau cyfalaf a grybwyllir yn benodol yn y Cynllun Trosiannol ar draws y tri amcan ac mae'n nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r gwaith sydd ei angen er mwyn cwblhau pob tasg:-

Amcan y Cynllun Trosiannol	Tasg	Cynnydd hyd yma
Ailfywiogi'r economi lleol a sefydlu newid economaidd cadarnhaol	Adeiladu chwe uned fusnes newydd ar Barc Busnes Bryn Cefni, Llangefni a pharatoi chwe plot i'w gwerthu.	Ar darged i gyflawni'r gwaith erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24.
	Adeiladu saith uned fusnes newydd ym Mhenrhos, Caergybi mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.	Ar darged i gyflawni'r gwaith erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24.
	Cryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel "Porth" rhyngwladol allweddol trwy weithio gyda phartneriaid i: atgyweirio'r Morglawdd yn sylweddol; datblygiad y Porthladd, gan gynnwys adennill tir; Hwb Hydrogen Caergybi; gwelliannau i'r orsaf.	Gwaith yn parhau a phrosiectau'n dal i gael eu datblygu.
	Cyflawni prosiectau gydag unrhyw elfennau cyfalaf a nodir yng Nghynllun Gweithredu Adfywio Economi Gogledd Ynys Môn, er enghraifft, unedau busnes newydd posibl.	
	Gweithredu prosiectau cyfalaf a fyddai'n cefnogi cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru (prosbectws Adfer Covid) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu ein heconomi i adfer yn y tymor byr.	Gwaith wedi cychwyn i gyflawni prosiectau ond mae hwn yn brosiect tymor hir.
	Targedu cyllid cyfalaf i fynd i'r afael ag adeiladau gwag a phroblemus a chyflawni unrhyw brosiectau gwyrdd cyfalaf i barhau i gyflawni fel adferiad gwyrdd, cynaliadwy ac i wella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.	
	Gweithredu prosiectau cyfalaf sy'n helpu i symud y Rhaglen Ynys Ynni yn ei blaen, megis y rhai sy'n cyd-fynd ag ymrwymadau newid hinsawdd ac ynni'r Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru.	
Sicrhau bod y sector ymwelwyr a lletygarwch yn gallu manteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys tra'n gwarchod ein hasedau	Buddsoddi i wella ansawdd a mwynhad ym Mharc Gwledig y Morglawdd, Nant y Pandy a'r isadeiledd morwrol er budd trigolion lleol ac ymwelwyr.	Ar darged i gyflawni'r gwaith ym Mharc Gwledig y Morglawdd a Nant y Pandy erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24. Gwaith wedi cychwyn ar yr isadeiledd morwrol.
Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol hollbwysig, megis Gofal ac Addysg ar draws yr Ynys	Dod o hyd i gartrefi parhaol i unigolion sy'n byw mewn llety dros dro.	Mae nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro wedi cynyddu'n sylweddol yn 2021 – 2023, ac mae hyn wedi ein hatal rhag gweithredu'r dasg yn llawn.
	Adeiladu 83 o gartrefi ynni effeithlon newydd gyda pherfformiad ynni A, yn unol â Strategaeth Carbon Isel y Cyngor, a chynyddu anheddau'r Cyngor a chartrefi fforddiadwy i ddiwallu anghenion tai unigolion.	Mae gan y Cyngor brosiectau ar y gweill i adeiladu 110 eiddo newydd ledled yr Ynys.
	Codi rhagor o Gartrefi Clyd ar Ynys Môn yn Rhos-y-bol, Caergybi a Llangristiolus i gynnig gwasanaethau seibiant a dydd i blant ag anableddau.	Eiddo wedi cael eu prynu ac wrthi'n cael eu huwchraddio.

Dyma'r prosiectau sydd wedi'u henwi'n uniongyrchol yn y Cynllun Trosiannol. Fodd bynnag, mae prosiectau cyfalaf wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2023/24 nad ydynt wedi'u henwi yn y Cynllun Trosiannol ond sy'n bwysig ac yn cyfrannu at yr amcanion hyn, megis a'r gwaith lliniaru llifogydd fydd yn helpu i gyflawni amcan B i helpu i gefnogi poblogrwydd cynyddol yr Ynys. Mae yna, hefyd, brosiectau cyfalaf wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf Ddrafft sy'n helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth Gyfalaf, gan gynnwys y rhai a amlygwyd mewn cynlluniau strategol eraill, megis y gofyn i fuddsoddi yn asedau'r Cyngor bob blwyddyn.

2.2 Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT)

Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Strategaeth Gyfalaf hon a'r DSRhT a chaiff y ddau eu hadolygu'n flynyddol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn diffinio sut mae'r Cyngor yn gwario ei gyllid cyfalaf ac mae'r DSRhT yn nodi sut y caiff hyn ei gyllido a'i effaith ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor. Mae benthyca'n rhan allweddol o'r strategaeth gyllido. Mae'r manylion ynghylch sut yr eir ati i fenthyca ac yna ei reoli hefyd wedi'i nodi yn y DSRhT.

2.3 Y Cynllun Ariannol Tymor Canol

Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) yw'r rhan sylfaenol o gynllunio ariannol sy'n amcangyfrif gofynion refeniw'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf, a sut bydd hyn yn cael ei gydbwysu â'r cyllid sydd ar gael. Bydd gwariant cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw drwy'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf a'r llog sy'n daladwy ar fenthyca. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn helpu i lywio'r CATC.

Mae monitro cyllideb ac adolygu'r CATC yn rheolaidd yn helpu i fonitro effaith perfformiad a materion ariannol ar gyflawni Cynllun y Cyngor. Yn gysylltiedig â'r monitro ariannol mae monitro perfformiad a risgiau corfforaethol a gwasanaeth. Nodir rhai o'r rhain yn risgiau ariannol. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad a Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor yn llywodraethu sut y caiff perfformiad a risg eu rheoli.

2.4 Cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau statudol gweithredol, penodol i wasanaethau

Er mai Cynllun y Cyngor yw'r ddogfen strategol allweddol, ategir hyn gan nifer o gynlluniau gweithredol, manylach, allweddol, y mae llawer ohonynt yn amlygu bod gwariant cyfalaf yn allweddol i gyflawni amcanion y cynllun priodol. Mae pob un o'r cynlluniau hyn yn seiliedig ar waith ymchwil, nodi'r sefyllfa bresennol, dadansoddiad i nodi anghenion a chynlluniau o'r modd y mae'r gwasanaeth yn anelu at ddiwallu'r anghenion ac ymgynghori â chydranddeiliaid.

Cynllun Tuag at Sero Net 2022/25

Mae'r Cynllun Tuag at Sero Net yn un o brif gynlluniau strategol y Cyngor. Pwrpas y strategaeth yw datblygu gwaith y Cyngor er mwyn iddo gyrraedd ei darged sero net erbyn 2030. Cafodd y targed ei gosod gan y Cyngor wedi iddo gyhoeddi argyfwng hinsawdd yn 2020. Y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gyfan yw sero net erbyn 2050, a sefydliadau'r sector gyhoeddus erbyn 2030.

Mae gan y cynllun dri chwmpas, ac mae'r ddau gyntaf yn haws gan eu bod yn ymwneud â dewisiadau glanach o ran cyfleusterau a reolir gan y Cyngor, megis swyddfeydd, ysgolion, cerbydau ac ati. Rhwystr mawr i'r ddau gwmpas hyn fydd dod o hyd i ddigon o gyllid i gyrraedd y targed. Mae Cwmpas 3 yn fwy heriol gan ei fod yn ymwneud â dewisiadau y mae eraill yn eu gwneud, megis gweithwyr cyflogedig wrth iddynt gynnal busnes y Cyngor ac a yw tenantiaid tai Cyngor neu eiddo buddsoddi yn dilyn canllawiau byw'n lân.

Mae gan y strategaeth gyfalaf hon, felly, amcan allweddol bod yn rhaid i brosiectau cyfalaf ystyried sut maent yn cyfrannu (positif neu negatif) tuag at targed sero net y Cyngor. Bydd llawer o'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r targedau sero net yn ymwneud â gwariant cyfalaf, ac mae'r prosiectau yma yn debygol o fod yn rhan o raglenni cyfalaf y dyfodol. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn

chwarae rhan bwysig o'r agenda hollbwysig hwn.

Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol

Mae Crynodeb Gweithredol y cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft ar gyfer Tir ac Adeiladau 2021 i 2026 yn nodi fel enghraifft "mae angen cyllidebau cyfalaf a refeniw sylweddol i gynnal a chadw adeiladau i'w cadw'n ddiogel ac yn y cyflwr gorau posibl ... mae gofyn cael oddeutu £27m o gyfalaf cynnal a chadw, yn seiliedig ar arolygon cyflwr a gwblhawyd yn 2019/20... Mae asedau'r Cyngor yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni blaenoriaethau a gwasanaethau'r Cyngor yn effeithiol... Mae'r ymdrech i ddod yn Gyngor sero net ..yn unol â disgwyliadau'r Llywodraeth, yn golygu bod yn rhaid i ni fuddsoddi i wella ein hasedau presennol a chodi adeiladau carbon niwtral newydd... ". Er mai fersiwn ddrafft yw'r cynllun strategol hwn, mae'n amlygu cyflwr asedau'r Cyngor yn sgil arolygon yn 2019/20. Felly, un o amcanion allweddol y Strategaeth Gyfalaf yw bod cyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu bob blwyddyn ar gyfer gwelliannau i adeiladau'r Cyngor.

Polisi Rheoli Asedau Stadau Mân-ddaliadau drafft y Cyngor 2021/30

Mae mân-ddaliadau'r Cyngor yn cynnwys tua 5,800 erw, yn amrywio o 2 erw i 170 erw wedi'u parseli i 92 o denantiaethau. Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y polisi gyda chydranddeiliaid, gan gynnwys tenantiaid. "Prif nod y polisi yw cynnal a chreu buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol tymor byr a hir i gyfrannu at ddiogelu llesiant a chynladwyedd cymunedau gwledig Ynys Môn". Mae'r mân-ddaliadau yn helpu i gyflawni Cynllun Rheoli Cyrchfan y Cyngor a Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru. Mae amaethyddiaeth wedi ei wreiddio yn hanes a diwylliant Môn ac, felly hefyd, yr Iaith Gymraeg a siaredir gan nifer o denantiaid y Stad. Mae amcan masnachol i sicrhau bod y stad yn parhau i sicrhau enillion ariannol cynaliadwy. Fodd bynnag, oherwydd ei amcanion ehangach, nid yw'r mân-ddaliadau yn cael eu dosbarthu fel eiddo buddsoddi, sy'n ymwneud ag eiddo a ddelir ar gyfer casglu incwm a chynyddu gwerth yr eiddo'n unig. Er mwyn cefnogi amcanion y mân-ddaliadau a'u cyfraniad i Gynllun y Cyngor, mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cydnabod bod angen buddsoddiad cyfalaf yn y mân-ddaliadau ar gyfer gwaith adnewyddu. Mae'r strategaeth uchod yn amcangyfrif bod angen £2.9m o gyllid cyfalaf dros y cyfnod 2021-30. Mae £1.9m o hwn ar gyfer systemau gwresogi, adnewyddadwy, carbon isel ac effeithlonrwydd ynni drwy insiwleiddio mwy ar eiddo. Argymhellir bod unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir o werthu unrhyw Stad Mân-ddaliadau yn cael eu clustnodi i'w hail-fuddsoddi yn y Stad. Caiff y tîm mân-ddaliadau ei annog i wneud cais am gyllid allanol, yn enwedig gan Lywodraeth Cymru, mewn perthynas â systemau gwresogi, adnewyddadwy, carbon isel a phrosiectau effeithlonrwydd ynni.

Strategaeth Ysgolion Digidol 2022-2024

Cyflwynwyd Strategaeth Ddigidol gyntaf yr Awdurdod ar gyfer Ysgolion i'r Pwyllgor Gwaith a'i chymeradwyo ar 13 Rhagfyr 2021. Mae hyn yn allweddol i gefnogi blaenoriaethau addysgol y Cyngor ac i fodloni'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r strategaeth yn amlygu nod cyffredinol y Cyngor i greu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus, lle gall teuluoedd ffynnu, sy'n cynnwys sicrhau bod pobl Ynys Môn yn cyflawni eu potensial tymor hir. Mae cymhwysedd digidol yn allweddol i hyn ac mae wedi'i gynnwys fel sgil trawsgwricwlaidd gorfodol. Mae gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y mae ei rhaglen gwerth miliynau o bunnoedd wedi cyllido'r rhan fwyaf o'r isadeiledd a Chromebooks i ddisgyblion, a llwyfan digidol Hwb ar gyfer addysgu a dysgu yng Nghymru, wedi bod yn allweddol ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y Strategaeth Ysgolion Digidol.

Blaenoriaethau allweddol y strategaeth yw: bydd y Cyngor yn symud yn llwyr i HWB ac yn gwneud defnydd ohono, bydd digon o isadeiledd rhwydwaith ar gyfer pob ysgol a bydd y Cyngor yn darparu'r caledwedd sydd ei angen ar ysgolion ac ystafelloedd dosbarth fel bod modd defnyddio technolegau arloesol fydd yn cefnogi dysgwyr. Cyflwynwyd £0.343m o grant gan Lywodraeth Cymru a chyllidwyd caledwedd, a gostiodd £1.536m, gan Lywodraeth Cymru, rhwng 2019/20 a 2021/22. Heb y cyllid hwn ac isadeiledd, meddalwedd ac offer HWB, ni fyddai'r ysgolion wedi gallu

sicrhau y gallai'r disgyblion ddysgu o gartref pan oedd yr ysgolion ar gau i'r rhan fwyaf o ddisgyblion oherwydd Covid-19.

Mae yna ganlyniadau refeniw i'r Strategaeth Ysgolion Digidol i gefnogi ysgolion ond hefyd ofynion cyfalaf yn y dyfodol. Yn gyfnewid am y cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru am dair blynedd gyntaf y prosiect, roedd hyn yn amodol ar y Cyngor yn cyllido caledwedd newydd ar ddiwedd oes defnyddiadwy presennol Chromebooks, caledwedd ac isadeiledd TGCh. Mae hyn yn amrywio, yn dibynnu ar oes ddefnyddiol y caledwedd, er enghraifft, costiodd y rhwydwaith ar gyfer yr ysgolion £890k yn 2019, a bydd angen ei newid ymhenn 10 mlynedd, felly, disgwylir bid am gyllid cyn 2029. Mae'n debygol y bydd effaith am dymor hyd yn oed yn hwy gan y bydd angen newid y Chromebooks neu dechnoleg gyfatebol bob chwe blynedd.

Strategaeth Rheoli Asedau Tai Cyngor (Cyfrif Refeniw Tai) 2018-2023 a Chynllun Busnes y CRT 2022

1 i 2052

Rheolir Tai Cyngor gan y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), sy'n rhan sylweddol o'r gwasanaeth Tai. Mae'r CRT yn endid hunangyllido, ond mae'n rhan hanfodol o'r Cyngor sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni nifer o amcanion Cynllun y Cyngor mewn perthynas â thai. Adroddir ar bob agwedd o gyllid ar wahân i weddill cyllid y Cyngor (Cronfa'r Cyngor) i sicrhau bod y CRT (Cronfa CRT) yn cyllido ei wariant a bod incwm dros ben yn cael ei ail-fuddsoddi yn y stoc tai. Gweledigaeth y strategaeth hon yw darparu "Cartrefi o Ansawdd: cymunedau cynaliadwy".

Mae'r chwe blaenoriaeth y cynllun 30 mlynedd presennol yn cyfrannu at amcanion allweddol y Cyngor. Y blaenoriaethau sy'n ymwneud â'r Strategaeth Gyfalaf, ac a gyflawnir yn rhan o'r rhaglen gyfalaf ac a fydd yn arwain at raglen tymor hir o'r gwaith isod, yw:-

- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy ar draws Ynys Môn – mae'r CRT yn parhau i gynyddu ei stoc dai trwy dargedau bob blwyddyn i godi tai newydd a phrynu tai Cyngor yn ôl. Nid yw'r Cyngor bellach yn gwerthu Tai Cyngor ers diddymu'r cynllun Hawl i Brynu.
- Rhwng 2015/16 a 2021/22 cafwyd cynnydd o 188 yn stoc dai'r Cyngor (prynwyd 82 yn ôl a chodwyd 106 eiddo newydd). Yn 2023/24, mae'r gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu 125 uned pellach (prynu 15 yn ôl a chodi 110 eiddo newydd).
- Annog adfywiad ystadau, cynyddu cyfranogiad tenantiaid a diogelwch cymunedol – yn ogystal â chynyddu nifer y Tai Cyngor, mae'r CRT yn gwneud gwaith adnewyddu bob blwyddyn, megis darparu ceginau newydd, toi a gwaith gwella angenrheidiol i ymestyn oes y tai. Mae hyn yn arwain at adfywio stadau'r Cyngor. Mae'r CRT yn gweithio gyda thenantiaid i sicrhau bod tenantiaid yn cymryd rhan i ddylanwadu ar y gwaith ar y stad.
- Mae'r CRT hefyd yn anelu at roi llety i unigolion ag anghenion penodol, megis pobl â phroblemau iechyd meddwl, symud pobl ymlaen o lety brys i dai cymdeithasol a phobl hŷn, megis llety Llawr y Dref. Mae'r CRT hefyd yn bwriadu datblygu cyfleuster tai gofal ychwanegol yn Ne'r Ynys, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu 55 uned.
- Gellir datblygu nod y CRT o fynd i'r afael ag effeithlonrwydd, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a thlodi tanwydd drwy ei adeiladau newydd a'u hadnewyddu.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) – Cynllun Busnes Cynllun Twf Gogledd Cymru 2020/23

Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig i'r Cyngor. Wrth weithio gyda'n gilydd ar nodau cyffredin gellir cyflawni mwy ac arwain at arbedion effeithlonrwydd, gan y gellir lleihau dyblygu gwaith. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn bartneriaeth rhwng y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria a phartneriaid masnachol eraill a bydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol fel bod pobl

Ynys Môn a Gogledd Cymru yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir.

Mae tair egwyddor allweddol y Cynllun Twf fel a ganlyn:-

- Gogledd Cymru ddoeth – yn canolbwyntio ar arloesi a sectorau economaidd gwerth uchel i hybu perfformiad economaidd;
- Gogledd Cymru gydnerth – yn canolbwyntio ar gadw pobl ifanc, cynyddu lefelau cyflogaeth a sgiliau i gyflawni twf diwydiannol;
- Gogledd Cymru gysylltiedig – yn canolbwyntio ar wella trafndiaeth ac isadeiledd digidol i wella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac oddi fewn iddi.

Mae'r bartneriaeth wedi sicrhau £240m i gyllido'r Cynllun Twf gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog a bydd yn dod i law dros gyfnod o 15 mlynedd. Nod y Cynllun Twf yw ceisio lleihau'r bwlch cynhyrchiol parhaus rhwng Gogledd Cymru a'r DU, er mwyn adeiladu economi fywiog, gynaliadwy a chynhwysol ar gyfer Gogledd Cymru.

Bydd bwlch cyllido tymor canolig (llif arian negyddol) a reolir gan yr awdurdod arweiniol, ond gyda chyfraniadau blynyddol cyfatebol gan bartneriaid. Amcangyfrifir y bydd yr hyn y mae Ynys Môn yn ei fenthycu tuag at y bwlch cyllido rhwng £0.700m i £1.00m. Byddai hyn yn arwain at dâl DRI blynyddol o rhwng £0.047m a £0.067m bob blwyddyn am y 15 mlynedd. Yn ogystal, bydd gofyn i Ynys Môn gyfrannu tuag at gyllideb graidd ac atodol y Bwrdd bob blwyddyn.

Cyfanswm y proffil cyllid cyfalaf fesul rhaglen yw:-

Tabl 1 : Crynodeb Ariannol Cynllun Twf Gogledd Cymru				
Maes Rhaglen	Cyfraniad Llywodraeth (£m)	Cyfraniad Cyhoeddus (£m)	Cyfraniad Preifat (£m)	Cyfanswm Costau'r Rhaglen (£m)
Arloesi Mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	13.0	26.5	0.0	39.5
Cysylltedd Digidol	37.0	3.1	1.6	41.7
Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	24.5	12.4	4.4	41.3
Tir ac Eiddo	79.1	1.9	274.4	355.4
Ynni Carbon Isel	86.4	140.4	441.7	668.5
Cyfanswm	240.0	184.3	722.1	1,146.4

Mae 14 o brosiectau cyfalaf trawsnewidiol, ac mae pob un ohonynt o fudd i Ogledd Cymru gyfan.

Y prosiectau sydd â chysylltiad mwy uniongyrchol ag Ynys Môn yw:-

- Safleoedd ac Adeiladau – bydd rhaglen y Cynllun Twf yn mynd i'r afael â phrinder safleoedd ac adeiladau yng Ngogledd Cymru a buddsoddiad i alluogi twf Porthladd Caergybi;
- mae cynllun Porth Caergybi yn gyfres o fuddsoddiadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag asedau sydd wedi dod i ben ac sy'n hanfodol i weithrediad y porthladd ac i gynyddu'r capasiti ar gyfer symudiadau cerbydau a llongau ar gyfer traffig teithwyr a nwyddau;
- bydd y prosiect cysylltedd digidol yn cynyddu band eang cyflym a chysylltedd symudol ar draws Gogledd Cymru. Bydd hyn o fudd i'r rhanbarth cyfan a, chan fod y pedair sir Gogledd-Orllewin Gogledd Cymru ymhlith y 25% isaf o ardaloedd y DU o ran derbyn band eang cyflym iawn, bydd hyn yn teimlo fel gwelliant mwy sylweddol i Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych;

- prosiect Morlais – adeiladu'r isadeiledd sy'n cysylltu parth Morlais â'r system grid trydan a pharatoi'r safle ar gyfer datblygiadau sector preifat gan fuddsoddi i brydlesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau llanw.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Bwrdd <https://uchelgaisgogledd.cymru/>

2.4 Gofynion Statudol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, ynghyd â'r holl gyrff cyhoeddus eraill, gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn deddfu ar gyfer llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ar gyfer pobl a'n planed. Bydd hyn yn sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol o leiaf yr un ansawdd bywyd â'r cenedlaethau presennol. Mae'r Ddeddf yn annog cydweithio i gyflawni nodau'r Ddeddf. Mae Cynllun Trosiannol y Cyngor yn amlygu bod tri amcan y cynllun yn cydblethu â Nodau Llesiant Cenedlaethol a'r Cyngor, gyda datganiad cenhadaeth y Cyngor ar gyfer llesiant yn nodi "gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall teuluoedd ffynnu".

Bydd y Strategaeth Gyfalaf hon yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r nod pwysig hwn trwy gyfeirio cyllid at gynlluniau sy'n cydymffurfio â Chynllun y Cyngor yn ogystal â chyfrannu'n uniongyrchol at les cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae buddsoddi mewn adeiladau, gwelliannau i ysgolion, prynu cerbydau trydan, buddsoddi mewn dewisiadau carbon isel fel generaduron pŷmpiau gwres, codi Tai Cyngor newydd gyda gwres carbon isel ac ati, oll yn cyfrannu at les, nawr ac ymhell i'r dyfodol.

Mae deddfwriaeth a chanllawiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd yn torri ar draws holl wasanaethau a gwaith y Cyngor. Gyda'r Strategaeth Gyfalaf, mae modd i fwy o bobl gael mynediad trwy wneud gwaith addasu penodol mewn ysgolion, adeiladau eraill y Cyngor a darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd gofyn i adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu ac adeiladau newydd gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Yn ogystal, mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cydnabod bod angen buddsoddiad cyfalaf i helpu'r Cyngor i redeg gwasanaethau statudol i sicrhau bod yr asedau a ddefnyddir i redeg gwasanaethau statudol megis Gofal Cymdeithasol, Ysgolion, Tai ac ati, yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol.

Yn y diagram isod, crynhoir sut mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gysylltiedig â strategaethau allweddol a'r broses o bennu'r gyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol:-

Cynllun y Cyngor a Chynlluniau Gweithredol allweddol

Mae'r strategaethau a chynlluniau allweddol isod yn bwysig ac wedi'u cysylltu â'i gilydd i helpu i bennu lefel fforddiadwy o adnoddau refeniw a chyfalaf sydd ei hangen i gyflawni blaenoriaethau allweddol Cynllun y Cyngor a chynlluniau gweithredol allweddol. Mae'r rhain, hefyd, yn cyflwyno fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau'r Cyngor yn ariannol gadarn.

Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC)

Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd i helpu i nodi'r adnoddau tebygol y bydd eu hangen am y tair blynedd nesaf a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwysu'r gofyn am yr adnoddau. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

Y Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r blaenoriaethau allweddol o ran sut dylid gwario cyfalaf i helpu i gyflawni Cynllun Trosiannol 2022/23 a Chynllun y Cyngor 2023/27. Mae'n cydnabod bod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau cyllido cyfalaf refeniw, a bod rhaid cadw'r rhain yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cael effaith ar y CATC, Y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol ac, yn eu tro, mae'r rhain yn cael effaith ar y Strategaeth Gyfalaf.

Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (SRhT)

Mae hwn yn gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf a Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys am y flwyddyn. Mae'r rhain yn darparu'r fframwaith a'r rheolaethau sydd eu hangen i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr am gostau refeniw a chyfalaf, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a'i fod yn hygyrch ac nad yw benthyca i gyllido gwariant cyfalaf yn mynd tu hwnt i lefel fforddiadwy.

Mae'r Gyllideb Refeniw Flynyddol

yn cael ei chefnogi gan y CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r SRhT
Bob blwyddyn, caiff y costau cyllideb cyfalaf refeniw eu hadolygu a'u diwygio fel rhan o'r gwaith o osod y gyllideb refeniw. Weithiau caiff cyfraniadau refeniw eu defnyddio i gyllido costau cyfalaf.

Y Rhaglen Gyfalaf flynyddol

– Mae lefel y gwariant a benthyca cyfalaf yn cael effaith ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus, megis cynnal a chadw.

3 Amcanion y Strategaeth Gyfalaf

Mae Cynllun Trosiannol 2022/23 y Cyngor, y cynlluniau gweithredol / statudol allweddol a grybwyllwyd uchod a gofynion statudol yn rhoi cyfeiriad clir ar yr hyn y dylai blaenoriaethau'r Strategaeth Gyfalaf fod er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau. Amcanion y Strategaeth Gyfalaf, felly, yw:-

Rhaid i brosiectau cyfalaf ymwneud ag asedau sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol a amlinellir yng Nghynllun y Cyngor a strategaethau gweithredol allweddol.

Bob blwyddyn, wrth adolygu'r strategaeth hon a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf flynyddol, rhaid i'r Cyngor ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaladwyedd a fforddiadwyedd.

Bob blwyddyn, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddyranu i sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol i'w diogelu i'r dyfodol.

Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf allanol lle bynnag y bo'n bosibl ac yn fforddiadwy.

Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid allanol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn llawn. Mae hon yn rhaglen sylweddol a fydd yn arwain at welliannau cyfalaf i ysgolion Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu neu adeiladau newydd yn y tymor hir.

Rhaid i brosiectau cyfalaf ystyried y targedau carbon sero net a defnyddio dulliau amgen glân lle, yn draddodiadol, y defnyddiwyd offer / cyfleusterau / asedau creu carbon.

Bob blwyddyn, bydd derbyniadau cyfalaf a dderbynnir o werthu Mân-ddaliadau'r Cyngor yn cael eu clustnodi ar gyfer adnewyddu mân-ddaliadau y mae'r Cyngor yn eu cadw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr eiddo'n addas ar gyfer y tymor hir.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid strategol ac mae wedi ymrwymo i weithio fel rhan o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflawni prosiectau cyfalaf ar draws Gogledd Cymru.

Mae angen ymgynghori'n flynyddol â chydranddeiliaid a dinasyddion Ynys Môn i gael eu barn ar unrhyw brosiectau cyfalaf newydd arfaethedig.

3. Egwyddorion sy'n helpu i gynorthwyo gwaith cyflawni'r amcanion allweddol uchod:-

- 3.1** Bod y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cael ei hystyried ar wahân i weddill rhaglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor. Mae'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn ymrwymiad sylweddol tymor hir i godi a / neu adnewyddu ysgolion fel bod ysgolion Ynys Môn yn addas i bara ac yn bodloni'r gofynion tymor hwy. Mae'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn helpu'r agenda moderneiddio ysgolion ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir. Mae'r egwyddor hon, hefyd, yn bodloni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i sicrhau bod lleoliadau addysgol yn addas yn y tymor hir. Bydd elfen o'r gwariant ar y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cael ei gyllido o'r derbyniadau cyfalaf o werthu ysgolion gwag, gyda'r gweddill yn cael ei gyllido o fenthycia digefnogaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y grant cyffredinol cyfalaf a'r benthycia â chefnogaeth ar gael i gyllido buddsoddiad mewn asedau cyfredol a newydd sydd eu hangen i gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor a sicrhau bod asedau cyfredol y Cyngor yn cael eu cynnal.
- 3.2** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i gyllido'r gwaith gwella mawr i offer TG, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor neu gael rhai newydd yn eu lle.
- 3.3** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf i gwrdd â gofyniad statudol y Cyngor i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae hyn yn helpu i gyflawni cyfrifoldebau statudol ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i gefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.
- 3.4** Bod rhyw gymaint o waith gwella ffyrdd yn cael ei gyllido o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrannir yn dibynnu ar y cyllid sydd ei angen i gyflawni unrhyw warantau isafswm gwerth contract, faint o gyllid sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod. Bydd gwelliannau i'r ffyrdd yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae hefyd yn sail i holl flaenoriaethau allweddol y Cyngor oherwydd natur wledig Ynys Môn a phwysigrwydd y rhwydwaith priffyrdd i sawl agwedd o waith y Cyngor.
- 3.5** Bydd prosiectau sydd angen rhyw gymaint o gyllid cyfatebol er mwyn gallu defnyddio cyllid grant, yn cael eu hasesu fesul achos gan y Swyddog Adran 151 a'r Tîm Arweinyddiaeth, gydag argymhelliad yn cael ei wneud i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad a ddylid ymrwymo cyllid yn dibynnu ar y prosiect, sut y mae'n ffitio i mewn i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refereniw parhaus a'r gymhareb rhwng cyllid y Cyngor a chyllid grant.
- 3.6** Er mwyn lleihau effaith refereniw'r rhaglen gyfalaf h.y. costau cyllido cyfalaf o'r llog taladwy a'r Ddarpariaeth Refereniw Isaf (DRI) sy'n creu cyllid i helpu i ad-dalu benthyciadau, ni fyddir yn defnyddio benthyciadau digefnogaeth oni bai bod:-
- y prosiect wedi'i gymeradwyo yn un Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu;
 - y prosiect yn brosiect buddsoddi i arbed, fydd yn talu'r costau cyllido cyfalaf h.y. llog taladwy a Ddarpariaeth Refereniw Isaf (DRI);
 - y prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol o 75%, o leiaf, a bydd yn helpu i gyflawni o leiaf un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor.
- 3.7** Lle bo balansau arian parod yn caniatáu, bydd benthycia gwirioneddol yn cael ei ohirio a bydd balansau arian parod yn cael eu defnyddio i oedi a chynilo llog taladwy a thaliadau DRI i refereniw. Gelwir hyn yn fenthycia mewdol. Pan fydd angen ailgyflenwi balansau arian parod, bydd y benthyciad yn cael ei gymryd allan a bydd y benthycia mewdol yn cael ei allanoli. Lle bydd llog yn debygol o godi'n sylweddol, dylid allanoli benthycia mewdol i leihau risg, ond nid cyn y bydd ei angen.

3.8 Yn y pen draw, bydd cyllid cyfalaf, ac eithrio grantiau a ddyfarnwyd ar gyfer prosiectau penodol, yn cael ei ddyrannu i leihau costau cyllido cyfalaf ac i sicrhau bod gan y rhaglen gyfalaf yr hyblygrwydd i wneud y mwyaf o gyllid. Mae hyn yn arfer cyffredin mewn awdurdodau lleol. Gallai'r cyllid gwirioneddol a ddyrennir ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol fod yn wahanol i'r hyn a adroddwyd fel rhan o'r gyllideb gyfalaf. Bydd grant cyffredinol yn cael ei ddyrannu yn gyntaf i sicrhau y caiff hwn ei wario'n llawn ar ddiwedd y flwyddyn, oni bai bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cario'r grant ymlaen. Mae hyblygrwydd gyda chyllid yn hanfodol i sicrhau bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido, megis rheoli grantiau penodol a ddyfarnwyd yn chwarter olaf y flwyddyn, sy'n caniatáu defnyddio'r grant penodol ar wariant cyfalaf arall a bennir yn lleol yn ystod y flwyddyn os na ellir ei wario ar amodau grant penodol erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn ar y sail bod y Cyngor yn dyrannu cyllid o raglen y flwyddyn nesaf i gyllido'r prosiectau penodol y dyfarnwyd y cyllid gwreiddiol ar eu cyfer.

4. Y Strategaeth Gorfforaethol a Phroses y Rhaglen Gyfalaf

4.1 Datblygu'r Strategaeth Gyfalaf

Caiff y Strategaeth Gyfalaf ei hadolygu bob blwyddyn gan gymryd i ystyriaeth Gynllun diweddaraf y Cyngor, y Cynllun Ariannol Tymor Canol, y pwysau cyllidebol a ddisgwylir, Cynllun Rheoli'r Trysorlys a'r Cynlluniau Gweithredol a drafodir uchod. Mae hefyd yn ystyried rhaglen gyfalaf y flwyddyn flaenorol a lefel y cronfeydd wrth gefn a'r gyllideb refeniw. Mae'r strategaeth gyfalaf wedyn yn amlinellu'r amcanion a'r egwyddorion allweddol sydd wedyn yn helpu i ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf flynyddol bob blwyddyn. Gwariant cyfalaf yw gwariant i gaffael neu greu asedau newydd neu i adnewyddu asedau presennol lle mae oes yr ased yn fwy nag un flwyddyn ariannol. Gall yr asedau fod yn ddiriaethol (adeiladau, cerbydau ac isadeiledd) neu'n anniriaethol (trwyddedau meddalwedd). Bydd asedau anghyfredol o £10k neu fwy yn cael eu hystyried yn wariant cyfalaf. £10k yw lefel de minimis a argymhellir gan y Cyngor i fod yn gymwys fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Bydd asedau anghyfredol llai na £10k yn cael eu codi ar refeniw yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ildio'r de minimis os yw'n briodol.

4.2 Datblygu'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol

4.2.1 Y Broses Bidio a Sgorio

Wrth benderfynu pa brosiectau i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf, rhaid i'r bidiau fod, nid yn unig yn fforddiadwy, ond bod o gymorth hefyd i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor a chwrdd ag amcanion ac egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf. Bob blwyddyn, gofynnir i'r Gwasanaethau gyflwyno arfarniadau / bidiau cyfalaf newydd a diweddarau gwybodaeth am brosiectau sy'n parhau. Dylai'r arfarniadau ddangos sut mae pob prosiect yn bodloni'r meini prawf (a nodir isod) a byddant yn cynnwys yr holl oblygiadau refeniw parhaus a fydd yn codi o'r prosiect e.e. costau cynnal a chadw. Drwy sgorio arfarniadau / bidiau cyfalaf newydd, ceir elfen o wrthrychedd a sicheir bod y prosiectau'n berthnasol i'r amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor a'r Strategaeth hon. Y maen prawf pwysicaf yw pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at gyflawni Cynllun y Cyngor, felly, mae mwy o bwysau wedi'i roi i'r maen prawf hwn. Y Gwasanaeth Cyfrifeg sy'n gwneud y sgorio cychwynnol. Wedyn bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ac yn cadarnhau'r sgorau wrth ddrafftio'r rhaglen gyfalaf flynyddol.


Meini Prawf	Sgôr
Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau Cynllun y Cyngor a chynlluniau gweithredol allweddol	20
Bydd y prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol	10
Bydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw	10
Bydd y prosiect yn helpu i liniaru Risg Gorfforaethol	10
Cyfanswm y sgôr uchaf	50

Mae'r strategaeth hefyd yn dyrannu cyllid at gynnal a chadw ac uwchraddio asedau presennol. Mae Rheolwyr Asedau yn penderfynu beth yw eu hangen am gyllid a chaiff hyn ei gydbwysu yn erbyn y cyllid sydd ar gael er mwyn dyrannu cyllid i bob prif grŵp asedau (adeiladau, cerbydau, TG, ffyrdd).

4.2.2 Amserlen

Mae'r broses o gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf yn dilyn yr amserlen ar gyfer gosod y gyllideb referniw a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r amserlen ar gyfer datblygu'r Rhaglen Gyfalaf wedi'i chrynhoi isod:-

hnnC



4.2.3 Awdurdodi

Y Cyngor llawn sy'n gyfrifol am gadarnhau'r Rhaglen Gyfalaf bob blwyddyn, a hynny'n seiliedig ar yr argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mewn achosion eithriadol, bydd prosiectau cyfalaf newydd sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried gan Aelodau yn rhan o'r adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith. Mae prosiectau sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn debygol o gael eu cymeradwyo os ydynt yn cael eu cyllido'n sylweddol o grantiau neu gyfraniadau allanol, neu os ydynt yn ymateb i argyfwng e.e. tirlithriad, neu os bydd prosiect a gymeradwywyd yn y rhaglen yn cael ei ganslo a bod cyllid ar gael. Mae gofyn cael arfarniad cyfalaf ar gyfer prosiectau sy'n codi yn ystod y flwyddyn a bydd angen i'r prosiectau fod yn rhai sy'n helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion allweddol.

4.2.4 Monitro'r Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf

Bob chwarter, caiff adroddiad Monitro Cyfalaf ei gynhyrchu a'i gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn ystyried gwariant hyd yma, gwariant a ragwelir hyd at ddiwedd y flwyddyn a naratif i egluro cynnydd neu ddiffyg cynnydd cynlluniau.

5. Edrych yn Ôl – Cyflawniadau'r Strategaeth a'r Rhaglenni Cyfalaf 2017/18 i 2021/22

Mae'r Cyngor wedi gwario bron i £160m ar brosiectau cyfalaf dros y cyfnod pum mlynedd uchod. Cyllidwyd £79m o grantiau cyfalaf, sef 49.36% o gyfanswm y gwariant cyfalaf. Mae hyn yn dangos gwerth cynnwys cyllid grant sylweddol yn un o amcanion y Strategaeth Gyfalaf. Mae'r gwasanaethau â'r gwariant mwyaf yn dangos bod prosiectau cyfalaf yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2017/2022. Tai, gan gynnwys tai i bobl fregus, Dysgu Gydol Oes i ddarparu asedau i helpu rhoi gwasanaethau i helpu unigolion i gyflawni eu potensial, a'r gofyniad cyfreithiol i adnewyddu priffyrdd a'r flaenoriaeth i wella'r Ynys. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

Gwasanaeth	2017/18 £'000	2018/19 £'000	2019/20 £'000	2020/21 £'000	2021/22 £'000	Cyfanswm £'000
Cronfa Gyffredinol Tai	1,224	1,108	1,252	1,212	1,019	5,815
CRT Tai	9,291	9,028	11,812	12,622	9,723	52,476
Dysgu Gydol Oes	6,318	7,233	2,982	3,878	8,833	29,244
Economaidd ac Adfywio	788	4,017	2,993	2,714	2,081	12,593
Priffyrdd	6,004	6,055	7,176	5,382	5,290	29,907
Rheoli Gwastraff	66	84	180	3,213	2,270	5,813
Eiddo	786	697	990	2,405	2,140	7,018
Trawsnewid	587	448	1,297	771	794	3,897
Cyflog Cyfartal - Cyfarwyddeb Cyfalafu	2,566	-	-	-	-	2,566
Cynllunio	1,031	1,839	755	52	384	4,061
Gwasanaethau Oedolion	694	168	577	880	923	3,242
Cyfanswm Gwariant	29,355	30,677	30,014	33,129	33,457	156,632
Grantiau Cyfalaf	11,801	16,629	18,156	18,948	22,486	88,020
Canran y costau cyfalaf a gyllidir gan Grantiau	40.20%	54.21%	60.49%	57.19%	67.21%	56.20%

6. Y Cyd-destun Ariannol Cyfredol a Chyllido

6.1 Cyfyngiadau Refeniw

- 6.1.1** Cyflwynwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canol cychwynnol (CATC) ar gyfer 2023/24 i 2024/25 i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Medi 2022. Roedd hyn yn cydnabod yr anhawster gyda chynllunio ariannol y tu hwnt i un flwyddyn oherwydd diffyg rhagolygon cyllideb tair blynedd o'r Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru. Mae economi fregus y DU, diffyg twf, y posibilrwydd o ddirwasgiad a dyledion cyhoeddus uwch o lawer yn golygu bod llai o gyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ac o ganlyniad bydd rhaid defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau fel cyllid refeniw yn y tymor byr a gwneud arbedion refeniw yn y tymor hwy.
- 6.1.2** Er mwyn ceisio rheoli chwyddiant, mae Banc Lloegr wedi cynyddu cyfradd sylfaenol y banc yn raddol o 0.25% ar ddechrau 2022, i'w lefel bresennol, sef 4.0% (Chwefror 2023). Rhagwelir y bydd y gyfradd yn parhau i gynyddu yn gynnar yn 2023, nes cyrraedd 4.5% cyn dechrau gostwng yn raddol yn hwyrach yn 2023 ac yn gynnar yn 2024. Mae mwyafrif benthyciadau'r Cyngor yn fenthyciadau cyfradd sefydlog ac, o ganlyniad, nid yw unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog yn effeithio ar y gyllideb refeniw, ond bydd unrhyw fenthyciadau newydd ar gyfradd llog uwch. Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog wedi cael effaith gadarnhaol ar y gyllideb refeniw drwy gynyddu enillion y Cyngor ar ei fuddsoddiadau. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gynyddu'r llog y mae'n disgwyl ei dderbyn o £50k yn 2023/24 i £1m yn 2023/24.
- 6.1.3** Mae'r setliad refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 yn golygu cynnydd o 7.9% yn y cyllid sydd ar gael i Ynys Môn, sydd yn well na'r disgwyl, ond sydd yn annigonol yng ngoleuni'r pwysau chwyddiant a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau y bydd y Cyngor yn ei wynebu yn 2023/24. Bydd rhaid defnyddio £1.8m o falansau cyffredinol i sicrhau cyllideb refeniw gytbwys.
- 6.1.4** Nid yw'r CATC diwygedig yn awgrymu y bydd y sefyllfa o ran y gyllideb refeniw yn gwella yn 2024/25 ac felly bydd rhaid mynd i'r afael â bwllch cyllido ychwanegol o £3m ynghyd â'r £1.8m a gyllidwyd drwy gronfeydd wrth gefn yn 2023/24. Mae'r pwysau parhaus ar y gyllideb refeniw yn cyfyngu gallu'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf ychwanegol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn neu fenthycia ychwanegol, gan y bydd ei gronfeydd wrth gefn yn lleihau wrth gefnogi'r gyllideb refeniw a bydd benthyca ychwanegol yn cynyddu'r taliadau llog a'r ddarpariaeth refeniw isaf sydd ei angen.

6.2. Cyfyngiadau Cyllido Cyfalaf

- 6.2.1** Mae'r setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys manylion y cyllid cyfalaf a ddarparwyd i'r Cyngor ar gyfer 2023/24. Bydd y Cyngor yn derbyn grant cyfalaf dros dro gwerth £2.217m a £2.159m o fenthycia â chefnogaeth, sy'n dod i gyfanswm o £4.376m. Er mwyn cadw costau cyllido cyfalaf yn fforddiadwy ar gyfer y gyllideb refeniw, yn enwedig gyda'r ansicrwydd ynghylch lefelau cyllido refeniw yn y dyfodol, un o brif egwyddorion y strategaeth hon yw na ddylai rhaglenni cyfalaf fod werth mwy na'r cyllid yma sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac eithrio benthyca digefnogaeth ar gyfer cyllido Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor.
- 6.2.2** Cynyddu oes hen asedau'r Cyngor â dal i fyny â'r datblygiadau technolegol diweddaraf fydd y flaenoriaeth gyda'r cyllid hwn. Bydd hyn, felly, yn golygu na fydd cyllid sylweddol ar gael ar gyfer prosiectau newydd. O dan y strategaeth hon, dylid ystyried prosiectau newydd dim ond os oes cyllid grant sylweddol ar gael ar gyfer y prosiect, neu os oes modd ei gyllido drwy fenthycia digefnogaeth os ydi'r prosiect yn bodloni gofynion y cod Darbodus o ran gallu cyllido'r costau cyfalaf drwy incwm ychwanegol neu arbedion gwariant / osgoi costau. Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf, ond nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy a dylid ystyried hyn dim ond pan fo'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn uwch na'r isafswm a argymhellir. Gellid ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn dros ben i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau a gyllidir drwy grantiau.

6.2.3 Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd cyllido'r rhaglen gyfalaf yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb refeniw, a rhoddir ystyriaeth i fforddiadwyedd wrth lunio'r Strategaeth Gyfalaf, ac mae'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn sicrhau bod y Cyngor yn lleihau ei gostau benthyca drwy wneud y defnydd gorau o'i falensau arian parod er mwyn cyllido gwariant cyfalaf.

6.3 Cyllido Gwaith Moderneiddio Ysgolion

6.3.1 Mae'r Cyngor, ar hyn o bryd, ran o'r ffordd trwy raglen uchelgeisiol i foderneiddio ysgolion trwy'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif gynt), gyda phrosiectau blaenorol Band A yn dod i ben ym mis Ebrill 2023 a Band B yn rhedeg tan 2027.

6.3.2 Roedd pedwar cam i'r rhaglen yn flaenorol, a nodwyd yn Fandiau A, B, C a CH. Fodd bynnag, mae Bandiau C a Band CH wedi'u diddymu mewn enw. Bydd y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ddiwygiedig yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer gwelliannau i ysgolion yn y tymor hir, a bydd gofyn i'r Cyngor gyflwyno cynllun naw mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y bydd Cyngorau'n symud i'r cynllun naw mlynedd unwaith y bydd 60% o'u rhaglenni Band B awdurdodedig cyrraedd y cyfnod llunio cytundebau (er mae'n bosib y bydd eithriadau i'r cynllun hwn yn achos awdurdodau unigol).

6.3.3 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno model cyd-fuddsoddi (MIM) ar gyfer prosiectau gwerth mwy na £15m. Mae cost cyfalaf y prosiect yn cael ei gyllido gan y sector preifat ac mae'r Cyngor wedyn yn talu ffi rhent i'r buddsoddwr am gyfnod penodedig (25 mlynedd yw'r disgwyl). Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad tuag at y ffi rhent bob blwyddyn (81%). Ni fydd y prosiect MIM yn rhan o raglen gyfalaf y Cyngor a bydd yn dod yn gost i'r Cyngor dim ond ar ôl iddo ddechrau talu ffi rhent.

6.3.4 Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor un prosiect Band B sydd wedi cael ei gymeradwyo ac sydd wedi cychwyn, sef yr estyniad i Ysgol y Graig, sydd i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2024.

6.3.5 Tybir y byddai'r holl fenthycia digefnogaeth ac â chefnogaeth yn cael ei wneud trwy fenthyciadau newydd PWLB dros gyfnod o amser sy'n cyfateb i oes ddisgwyliedig yr ased (50 mlynedd).

6.3.6 Bydd unrhyw fenthycia ychwanegol (â chefnogaeth a digefnogaeth) yn cynyddu Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CRF) y Cyngor. Bydd hynny, yn ei dro, yn cynyddu'r tâl DRI blynyddol a godir ar y cyfrif refeniw, gan arwain at daliadau llog blynyddol ychwanegol.

6.3.7 Dylid nodi y byddai cyflawni'r ysgolion newydd yn cael gwared ar yr angen i wneud gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni yn y gwahanol ysgolion sy'n cael eu disodli neu eu cau o ganlyniad i'r buddsoddiad cyfalaf. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Rheoli Asedau.

6.4 Ffynonellau Cyllido – mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei chyllido o'r ffynonellau a ganlyn:-

- **Grant Cyfalaf Cyffredinol** – Mae hwn yn swm o arian sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'r setliad blynyddol. Mae'r Cyngor yn rhydd i ddefnyddio'r grant cyfalaf ar unrhyw brosiect cyfalaf y mae'n dymuno. Rhaid i'r grant hwn gael ei wario erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.
- **Benthyca â Chefnogaeth** – Bydd y Cyngor yn benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i gyllido'r gwariant. Mae'r costau refeniw sy'n codi o'r benthyciadau (Costau Llog a'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf) yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad refeniw blynyddol, sy'n egluro'r term "Benthyca â Chefnogaeth".
- **Benthyca Digefnogaeth** – Yma eto, mae'r Cyngor yn benthyca'r arian gan y (PWLB) neu o ffynhonnell arall, ond mae gofyn iddo gyllido'r costau refeniw o'i adnoddau ei hun. Ar y cyfan, mae prosiectau a gyllidir drwy fenthycia digefnogaeth yn brosiectau sy'n sicrhau arbedion

refeniw, a'r arbedion hyn sy'n cael eu defnyddio i gwrdd â'r costau refeniw ychwanegol sy'n codi o'r benthyciad.

- **Grantiau Cyfalaf Penodol** – Bydd y Cyngor yn derbyn grantiau cyfalaf sy'n cyllido cost prosiect yn llawn neu'n rhannol. Fel arfer, bydd cyfyngiadau ar grantiau cyfalaf o ran y gwariant y gellir ei gyllido ac erbyn pa bryd y mae'n rhaid ysgwyddo'r gwariant.
- **Cyfraniad Refeniw** – Gall gwasanaethau gyfrannu o'u cyllidebau refeniw i gyllido prosiectau. Gan amlaf, bydd y cyfraniadau hyn ar ffurf cyllid cyfatebol ar gyfer prosiect sy'n cael ei gyllido'n bennaf o grant cyfalaf penodol.
- **Derbyniadau Cyfalaf** – Gellir defnyddio'r cyllid a gynhyrchir drwy werthu asedau i gyfrannu at gyllido'r rhaglen gyfalaf. Fel arfer, bydd derbyniadau o'r fath yn codi o werthu asedau dros ben (tir neu adeiladau gan amlaf).
- **Cronfeydd Wrth Gefn** – Gellir defnyddio cyllid sy'n cael ei ddal mewn cronfa wrth gefn, e.e. derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio, i gefnogi'r rhaglen gyfalaf.

6.5 Effaith gwahanol ffynonellau cyllid cyfalaf

- 6.5.1** Nid yw cyllid a dderbynnir ar ffurf grantiau (cyffredinol neu benodol) yn cael unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol tymor hir y Cyngor, gan fod pob grant a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwariant cyfalaf. Gellir cael gwahaniaethau o ran amseriad sy'n golygu na fydd grantiau'n cael eu defnyddio mewn un flwyddyn ac y byddant yn cael eu cario o un flwyddyn i'r nesaf drwy fantolen y Cyngor.
- 6.5.2** Yn sgil derbyniadau cyfalaf, trosir asedau dros ben yn arian parod sydd, yn eu tro, yn arwain at greu ased newydd. Yma eto, ychydig iawn o effaith tymor hir a gaiff y math hwn o gyllido ar sefyllfa ariannol y Cyngor, ond fe ddaw adeg pan fydd yr holl asedau dros ben wedi'u gwerthu ac y bydd lefel y cyllid sydd ar gael drwy dderbyniadau cyfalaf yn gostwng.
- 6.5.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn defnyddio'r cyllid dros ben ar y CRT (yr hyn sy'n weddill o incwm rhent ar ôl gwariant) i gyllido gwariant cyfalaf. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y CRT ac nid yw'n cael effaith ar Gronfa'r Cyngor.
- 6.5.4** Bydd defnyddio cyllid refeniw yn lleihau gwerth y cyllid sy'n cael ei ddal yn y cronfeydd wrth gefn neu'r swm sy'n cael ei drosglwyddo i falansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, h.y. mae'n trosi arian parod dros ben i wneud ased newydd.
- 6.5.5** Mae benthycia â chefnogaeth a benthycia digefnogaeth yn cael effaith ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) y Cyngor ac mae goblygiadau o hynny, yn ei dro, i'r gyllideb Refeniw gan y bydd y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) a'r taliadau llog blynyddol yn fwy.
- 6.5.6** Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar wahân i Gronfa'r Cyngor, nid yw'r Cyngor yn benthycia ar wahân ar gyfer gwariant o Gronfa'r Cyngor a'r CRT. Mae'r holl fenthycia yn cael ei gyfuno a chaiff y costau eu neilltuo i'r ddwy gronfa ar sail lefel y gwariant a gyllidwyd o fenthyciadau ar gyfer y ddwy gronfa. Adolygir y dull neilltuo drwy'r amser i sicrhau mai hwnnw yw'r dull mwyaf teg.

6.6 Egwyddorion Cyllido

- 6.6.1** Mae'r cyd-destun ariannol ansicr y mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ynddo yn cael ei drafod uchod, ac mae'n amlygu bod yna gyfyngiadau ar sut mae'r Cyngor yn cyllido gwariant cyfalaf. Un o'r prif flaenoriaethau i'r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn cael cyllideb gytbwys, gan hefyd leihau'r gostyngiad i gyllidebau gwasanaethau cymaint ag sy'n bosib. Mae'n rhesymol i'r Cyngor geisio cadw'r cynnydd sydd ei angen i'r gyllideb cyllido cyfalaf gyn ised â phosib. Bydd rhaid darparu cyllid cyfalaf ychwanegol, ond dylid cadw hyn ar lefel sy'n cael ei gyllido trwy'r setliad (grant cyfalaf cyffredinol a benthycia â chefnogaeth) fel bod y cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn cael ei gyllido trwy dderbyniadau cyfalaf ac unrhyw grantiau penodol sydd ar gael.

- 6.6.2** Ni ddylid ystyried benthycu digefnogaeth (y tu allan i'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu) oni bai y gellir lleihau'r gyllideb gwasanaeth perthnasol gan swm sy'n fwy na'r DRI a chostau llog neu i gyllido cyfran y Cyngor o gynllun a gyllidir yn bennaf o grant allanol.
- 6.6.3** Fel landlord stoc tai, bydd y Cyngor hefyd yn derbyn lwfans atgyweirio sylweddol ar ôl cyflwyno'r cynllun busnes 30 mlynedd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a chael cymeradwyaeth iddo. Caiff gwariant cyfalaf ar y CRT ei ategu gan ddefnyddio arian wrth gefn y CRT a thrwy gyfrwng y pwerau benthycu y gall y CRT eu defnyddio.
- 6.6.4** Bydd grantiau penodol sydd wedi'u cymeradwyo, sy'n debygol o gael eu cymeradwyo neu sy'n deillio o fidiau llwyddiannus, hefyd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf. Mewn rhai achosion, efallai y bydd rhaid i'r Cyngor gyfrannu swm o'i gyllid cyfalaf ei hun fel cyllid cyfatebol fel y gall sicrhau'r cyllid grant.
- 6.6.5** Fel y nodwyd yn flaenorol, rhaid i unrhyw fenthycu digefnogaeth gynhyrchu incwm ychwanegol / arbedion gwariant refeniw i gyllido'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol (DRI a thaliadau llog) a gaiff eu codi ar y cyfrif refeniw. Bydd unrhyw gynlluniau arfaethedig a gyllidir gan fenthycu digefnogaeth yn cael eu hasesu fesul cynllun.
- 6.6.6** Yn ychwanegol at y ffynonellau cyllid a nodir uchod, mae'r Cyngor yn dal cronfa cyllido cyfalaf wrth gefn, sy'n cynnwys cyfraniadau refeniw ar gyfer prosiectau penodol nad ydynt wedi'u defnyddio eto. Defnyddir y cyllid hwn yn ôl yr angen er mwyn caniatáu i brosiectau blaenoriaeth symud yn eu blaen neu i gyllido prosiectau penodol pan fydd y prosiectau hynny'n symud yn eu blaen. Gellir defnyddio'r cyllid i ddarparu cyllid cyfatebol yn ogystal, os bydd cyfle i dderbyn cyllid grant ychwanegol, a bod y cyllid grant hwnnw'n debygol o gael ei golli heb gyllid cyfatebol.
- 6.6.7** Mae derbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu'n cael eu dal mewn cronfa wrth gefn. Mae balans y gronfa wrth gefn hon wedi lleihau dros amser wrth i nifer yr asedau dros ben leihau. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn ffynhonnell cyllido werthfawr ac fe'i defnyddir yn ôl y galw i gyllido prosiectau blaenoriaeth. Dylid nodi y bydd y derbyniadau cyfalaf a fydd yn cael eu cynhyrchu o ganlyniad i werthu ysgolion gwag yn cael eu clustnodi fel cyllid ar gyfer ysgolion newydd os ydi hynny wedi'i nodi yn yr achos busnes, fel arall bydd y derbyniad cyfalaf yn cael ei drin yn yr un modd â derbyniadau cyfalaf cyffredinol ac yn cael ei ddyrannu i brosiectau yn unol â hynny.
- 6.6.8** Yn gryno, dylai'r cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd sy'n gysylltiedig â'r gronfa gyffredinol fod wedi'i gyfyngu i lefel y grant cyfalaf cyffredinol, benthycu â chefnogaeth ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu neu gronfeydd wrth gefn cyfalaf sydd eu hangen i gyllido'r rhaglen gyfalaf awdurdodedig yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag unrhyw grantiau penodol a dderbynnir. Bydd prosiectau sy'n ymwneud â Chymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu hychwanegu i'r rhaglen gyfalaf yn ôl y galw.
- 6.6.9** Bydd yr egwyddor hon yn cael ei defnyddio yn y tymor canol a'r tymor hwy i sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy, yn enwedig yng nghyd-destun toriadau cyllid sy'n parhau.

6.7 Proffil Cyllido Amcangyfrifedig 2023/24 i 2025/26

- 6.7.1** Mae'r cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru (gan eithrio Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu) am y cyfnod 2023/24 i 2025/26 i'w weld yn y tabl isod. Dylid nodi y bydd y Cyngor hefyd yn derbyn nifer o fân grantiau cyfalaf.

Amcangyfrif o'r Cyllid Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru 2023/24 – 2025/26

	2023/24 £'m	2024/25 £'m	2025/26 £'m
Grant Cyfalaf Cyffredinol	2,217	2,217	2,217
Benthyca â Chefnogaeth	2,159	2,159	2,159
Lwfans Gwaith Trwsio Mawr	2,660	2,660	2,660
Grant dadgarboneiddio	450	450	450
Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru	7,486	7,486	7,486

7. Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2023/24

7.1 Bydd y rhaglen gyfalaf ddrafft am 2023/24 yn cael ei chyflwyno ochr yn ochr â'r strategaeth gyfalaf hon i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2023 ac i'r Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhaglen gyfalaf arfaethedig, gan gynnwys ffynonellau cyllido. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 2.

Crynodeb o Raglen Gyfalaf Ddrafft 2023/24

	£'000
Cynlluniau 2023/24 a Ddygwyd Ymlaen	12,373
Adnewyddu / Newid Asedau	5,682
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd	386
Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif	5,964
Cyfrif Refeniw Tai	13,557
Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf 2023/24 a Argymhellir	37,962
Cyllidir gan:	
Grant Cyfalaf Cyffredinol	3,410
Benthyca â Chefnogaeth - Cyffredinol	2,158
Benthyca â Chefnogaeth - Ysgolion yr 21ain Ganrif	919
Benthyca Digefnogaeth - Ysgolion yr 21ain Ganrif	2,797
Arian Wrth Gefn CRT a Gwarged Mewn Blwyddyn	9,221
Benthyca Digefnogaeth - CRT	0
Derbyniadau Cyfalaf	500
Grantiau Allanol	6,584
Cyllid 2023/24 a Ddygwyd Ymlaen	12,373
Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2023/24	37,962

7.2 Cynlluniau Gwariant Cyfalaf Tymor Hwyl

7.2.1 Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn cael ei gweld fel dogfen dros dro ond bydd gwaith yn cychwyn, unwaith y bydd cynllun corfforaethol y Cyngor wedi cael ei gwblhau a'i gymeradwyo, i baratoi neu ddiweddarau'r strategaethau a fydd yn cyflawni'r amcanion yng Nghynllun y Cyngor. Yna, bydd y strategaethau amrywiol hyn yn dylanwadu ar strategaeth gyfalaf tymor hwyl y Cyngor a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn Strategaeth Gyfalaf 2024/25.

8 Strategaeth Buddsoddi nad yw'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys

- 8.1** Mae'r Strategaeth Buddsoddi Rheoli'r Trysorlys wedi'i chynnwys yn y DSRhT a drafodir isod. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn dal nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai rheoli'r trysorlys. Dyma'r eiddo buddsoddi y mae'r Cyngor yn ennill incwm rhent ohonynt. Mae'r rhain yn helpu i ddarparu ffrwd refeniw tymor hir i'r Cyngor. Roedd tua 70 eiddo yn y portffolio eiddo buddsoddi ar 31 Mawrth 2022, oedd yn werth £6.2m. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo manwerthu, unedau swyddfa ac unedau masnachol. Yn 2023/24, casglwyd £344k o incwm rhent o eiddo buddsoddi. Gwariwyd £185k ar gynnal a chadw ac ati, a arweiniodd at incwm gweithredol net o £164k o incwm rhent ac incwm arall. O ran cynlluniau ar gyfer yr eiddo buddsoddi yn y dyfodol, bydd yr adeiladau'n parhau i gael eu cynnal i safonau cyfreithiol. Yn ogystal, adeiladwyd cyfaddilad unedau diwydiannol newydd yn ddiweddar ac mae'n weithredol yn Llangefni. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar godi Unedau Diwydiannol ym Mhenrhos, Caergybi. Mae'r prosiect hwn wedi'i ymestyn i godi unedau ychwanegol yng Nghaergybi a'r cynllun newydd ar gyfer unedau ychwanegol yn Llangefni, fel y nodir yn y Cynllun Trosiannol.
- 8.2** Mae gan Awdurdodau Lleol y grym i brynu neu ddatblygu eiddo fel buddsoddiadau er mwyn gwella gweithgaredd economaidd o fewn ardal y Cyngor neu fel modd o gynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau hyn yn ehangach nag ar y cynlluniau a nodir uchod, ond mae defnyddio'r pwerau hyn yn parhau i fod yn opsiwn ac mae'r Strategaeth yn caniatáu i'r Cyngor wario ar eiddo buddsoddi er mwyn cyflawni amcanion allweddol y Cyngor neu i fanteisio ar unrhyw gyllid allanol sylweddol a allai ddod ar gael.

9 Benthycia a Rheoli'r Trysorlys

- 9.1** Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) ac Arferion Rheoli'r Trysorlys yn rhoi'r fframwaith i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr, sicrhau bod unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a bod benthycia i gyllido rhaglen gyfalaf 2023/24 yn fforddiadwy. Bydd y DSRhT yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023.
- 9.2** Mae Atodiad 11 DSRhT 2024/25 yn cyflwyno'r dangosyddion darbodus a thrysorlys am y cyfnodau 2021/22 i 2025/26, sy'n helpu i benderfynu a yw cynlluniau benthycia yn fforddiadwy.
- 9.3** Mae cymhareb costau cyllido i ffrydiau refeniw net yn fesur o fforddiadwyedd. Mae'r gymhareb amcangyfrifedig o gostau cyllido i ffrydiau refeniw net fel a ganlyn:-

	Cronfa'r Cyngor	CRT	Cyfanswm
2021/22 (Gwirioneddol)	4.50%	9.12%	5.04%
2023/24 (Rhagamcanol)	2.81%	18.41%	4.56%
2023/24 (Rhagamcanol)	2.23%	21.14%	4.25%
2024/25 (Rhagamcanol)	2.95%	26.12%	5.46%
2025/26 (Rhagamcanol)	3.10%	29.36%	6.06%

Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn parhau i fod yn fforddiadwy o ran y goblygiadau refeniw.

- 9.4** Yn 2018/19, adolygodd y Cyngor ei bolisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) a llwyddodd i ôl-ddyddio'r newidiadau. Cynlluniwyd yr adolygiad o'r polisi i sicrhau bod darpariaeth ddarbodus yn cael ei chodi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn. Fodd bynnag, canlyniad y newid hwn oedd iddo nodi gorddarpariaeth mewn blynyddoedd blaenorol a gellir defnyddio'r orddarpariaeth hon yn y blynyddoedd i ddod i sicrhau bod y costau cyllido blynyddol yn parhau i fod yn fforddiadwy. Cynigir newid pellach i'r Polisi DRI i symud i ddull blwydd-dal ar gyfer cyfrifo'r DRI blynyddol a godir.

9.5 Nod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yw defnyddio balansau arian parod mewnol y Cyngor, lle bynnag y bo modd, yn lle benthyca allanol. Wrth bennu lefel y benthyca mewnol, rhaid cynnal digon o falansau arian parod i ddiwallu anghenion arian parod dyddiol y Cyngor h.y. talu staff, cyflenwyr ac ati.

9.6 Buddsoddiadau Rheoli'r Trysorlys, 3 Chwefror 2023

Banc	Swm a Fuddsoddwyd	Cyfradd Llog
Santander	£7,500,000	3.24%
Nationwide	£7,500,000	3.03%
NatWest	£21,634,826	0.80% - 2.70%
Goldman Sachs	£7,500,000	3.83%
Awdurdodau Lleol	£10,000,000	3.06% - 3.80%
Cyfanswm	£54,134,826	

Caiff buddsoddiadau eu hadolygu wrth iddynt aeddfedu a bydd y Tîm Rheoli'r Trysorlys yn penderfynu p'un ai a ddylid parhau i fuddsoddi â'r un sefydliad am gyfnod penodol pellach, buddsoddi â gwahanol sefydliad sydd wedi'i nodi yn y DSRHT neu ddychwelyd yr arian yn ôl i gyfrif banc cyffredinol y Cyngor. Mae'r penderfyniad yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, yn cynnwys y cyfraddau llog a ragwelir ac anghenion arian parod y Cyngor, ac mae lefel ac amseriad y gwariant cyfalaf yn dylanwadu'n sylweddol ar hyn. Mae hyn yn cadarnhau'r cyswllt rhwng y strategaeth gyfalaf, y rhaglen gyfalaf blyneddol, y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a phenderfyniadau buddsoddi unigol.

10. Risgiau Posib a Gyfyd o'r Strategaeth Gyfalaf

10.1 Yr her a'r risg fwyaf yw'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer refeniw a chyfalaf. Mae'r Cyngor wedi tanwario'n sylweddol yn 2021/22, ac mae'n debygol o danwario yn 2023/24 sy'n helpu i roi rhwyd ddiogelwch a ddangosir gan y buddsoddiadau iach mewn banciau a ddangosir uchod. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn costau yn y diwydiant adeiladu dros y 12 mis diwethaf yn golygu bod prosiectau cynlluniedig yn llai fforddiadwy ac mae hyn yn rhoi straen ychwanegol ar y cyllid prin sydd ar gael.

10.2 Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar lefel dybiedig o gyllid gan Lywodraeth Cymru a thrwy grantiau allanol. O ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch cyllidebau a cholli cyllid grant sylweddol a dderbynnir ar hyn o bryd gan yr Undeb Ewropeaidd, mae perygl na fydd y lefel dybiedig hon o gyllid grant yn dod i law fel y nodir yn y strategaeth. Er hyn, dylid nodi bod y Cyngor wedi cyflwyno cynigion llwyddiannus am gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Codi'r Gwastad, sydd wedi disodli'r cyllid Ewropeaidd. Bydd rhaid ailasesu'r strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf flynyddol os bydd unrhyw newid yn y cyllid.

10.3 Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynnal asedau presennol y Cyngor. Mae risg nad yw'r rhaglen adnewyddu yn ddigonol a bod safon yr asedau yn disgyn i'r fath raddau fel bod angen mwy o fuddsoddiad er mwyn cynnal gwasanaethau. Efallai na fydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn fforddiadwy, neu efallai bydd angen tynnu prosiectau newydd eraill oddi ar y rhaglen.

10.4 Mae'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn rhaglen mor uchelgeisiol a sylweddol fel bod risg na fydd y Cyngor yn gallu fforddio'r rhaglenni ar ôl Band B, er y bydd y cynnydd yn y cronfeydd arian parod defnyddiadwy wrth gefn yn helpu gyda buddsoddi mewn ysgolion.

10.5 Mae benthyca allanol yn arwain at gost llog sylweddol bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o fenthyciadau'r Cyngor yn rhai sefydlog ac nid yw unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog yn cael effaith arnynt. Fodd bynnag, gallai unrhyw gynnydd sydyn mewn cyfraddau llog gael effaith ar fforddiadwyedd prosiectau yn y dyfodol a gyllidir drwy fenthyciadau. Amlinellir camau yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys sy'n lliniaru'r risg hon i ryw raddau. Bydd y codiadau graddedig bach presennol yn y Gyfradd Sylfaenol yn cynyddu cyfraddau benthyca y PWLB er, ar hyn o bryd, mae'r rhain i gyd ymhell islaw llawer o'r cyfraddau sefydlog ar fenthyciadau cyfredol.

11. Gwybodaeth a Sgiliau

- 11.1 Mae gan dîm cyfrifo Adnoddau bedwar cyfrifydd cymwys, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, sy'n gofalu am y rhaglen gyfalaf a swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys. Mae yna hefyd dechnegydd cyfrifo cymwys sydd â phrofiad sylweddol mewn cyfalaf a rheoli'r trysorlys. Mae'r tîm yn mynd ar gyrsiau CIPFA ar gyfalaf a rheoli'r trysorlys ac mae ganddynt wybodaeth gadarn o'r maes cyfrifyddu arbenigol hwn. Mae yna hefyd dîm o weithwyr proffesiynol o fewn gwasanaethau megis penseiri, rheolwyr prosiect, peirianwyr, sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu cyngor arbenigol gan Link Asset Services. Mae'r gwasanaeth hwn yn mynd i aildendr ar hyn o bryd yn unol â rheolau caffael. Mae penderfynwyr y Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gyfalaf a rheoli'r trysorlys a chynigir hyfforddiant rheoli'r trysorlys i'r Aelodau. Amlinellir y trefniadau llywodraethu yn y Cyfansoddiad a'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2023/24

Cynllun	Cyllideb £'000	Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chefnogaeth £'000	Benthyca Digefnogaeth £'000	Arian Wrth Gefn CRT £'000	Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000
2023/24 Cynlluniau ymrwymiedig dygwyd ymlaen							
Partneriaeth Tirwedd Caergybi	50	50	0	0	0	0	0
Adfywio Caergybi (Rhan II y Fenter Treflun Treftadaeth)	687	687	0	0	0	0	0
Penrhos Rhan III	2,400	2,400	0	0	0	0	0
Cyllid Codi'r Gwastad (amryw o brosiectau)	9,236	9,236	0	0	0	0	0
Cyfanswm Cynlluniau ymrwymiedig 2023/24	12,373	12,373	0	0	0	0	0
Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol							
Grant Cyfleusterau i'r Anabl	750	0	750	0	0	0	0
Adnewyddu Ysgolion	1,000	0	0	1,000	0	0	0
Adnewyddu Adeiladau Heblaw Ysgolion	600	0	0	600	0	0	0
Ati-wynebu Priffyrdd	2,500	0	1,942	558	0	0	0
Cerbydau	540	0	332	0	0	0	208
Asedau TG	292	0	0	0	0	0	292
Cyfanswm Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol	5,682	0	3,024	2,158	0	0	500
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd							
Cynlluniau Atal Llifogydd	286	0	286	0	0	0	0
Datblygu Economaidd – Cyllid Cyfatebol	100	0	100	0	0	0	0
Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd	386	0	386	0	0	0	0
Ysgolion yr 21ain Ganrif							
Ysgol y Graig	5,964	2,248	0	919	2,797	0	0
Cyfanswm Ysgolion yr 21ain Ganrif	5,964	2,248	0	919	2,797	0	0
CYFANSWM GRONFA CYFFREDINOL	24,405	14,621	3,410	3,077	2,797	0	500
Cyfrif Refeniw Tai							

Cynllun	Cyllideb £'000	Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chefnogaeth £'000	Benthyca Digefnogaeth £'000	Arian Wrth Gefn CRT £'000	Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000
Rhaglen Cynnal a Chadw Cynlluniedig SATC	5,350	3,586	0	0	0	1,764	0
Datblygiadau Newydd ac Ail-Brynu Eiddo Hawl i Brynu	8,207	750	0	0	0	7,457	0
CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI	13,557	4,336	0	0	0	9,221	0
CYFANSWM RHAGLEN CYFALAF 2023/24	37,962	18,957	3,410	3,077	2,797	9,221	500

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH	
Dyddiad:	2 MAWRTH 2023	
Pwnc:	CYLLIDEB CYFALAF 2023/24	
Aelod(au) Portffolio:	CYNGHORYDD R WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER	
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151	
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151 01248 752601 rmjfi@ynysmon.llyw.cymru	
Aelodau Lleol:	Amherthnasol	
A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau		
1. DIBEN YR ADRODDIAD		
Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb cyfalaf ar gyfer 2023/24, fydd yn cael ei gyflwyno am gymeradwyaeth gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2023.		
2. ARGYMHELLION		
Argymell y rhaglen gyfalaf canlynol i'r Cyngor llawn ar gyfer 2023/24:-		
	Ref	£'000
Cynlluniau 2022/23 a Ddygwyd Ymlaen	Para 5.1 & Tabl 2	12,373
Adnewyddu / Amnewid Asedau	Para 5.2	5,682
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd	Para 6.2 & Tabl 3	386
Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif	Para 7	5,964
Cyfrif Refeniw Tai	Para 8	13,557
Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2023/24		37,962
Cyllidir gan:		
Grant Cyfalaf Cyffredinol		3,410
Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol		2,158
Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif		919
Benthyca Digefnogaeth Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif		2,797
Arian Wrth Gefn CRT a'r Gwarged yn ystod y flwyddyn		9,221
Benthyca Digefnogaeth CRT		0
Derbyniadau Cyfalaf		500
Grantiau Allanol		6,584
Cyllid 2022/23 a Ddygwyd Ymlaen		12,373
2023/24 Cyfanswm Cyllid Cyfalaf		37,962

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyrir nifer o gynlluniau ychwanegol yn y rhaglen gyfalaf, a'r prif ffactor o ran cyllid fydd fforddiadwyedd a chynyddu cyllid grant allanol.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn cynnig y gyllideb cyfalaf.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r gyllideb cyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau'r Cyngor, ac mae'n ffurfio rhan o'r strategaeth i fodloni'r amcanion sydd wedi'u nodi yng nghynllun corfforaethol y Cyngor.
2	A rhagwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Bydd parhau i gynnal a chadw asedau'r Cyngor yn atal costau mwy i'r Cyngor yn y dyfodol.
3	A ydyn ni wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn dod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy	Mae prosiectau cyfalaf, ynglŷn ag Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai, wedi'u alinio â blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth lunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheiny y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt yn uniongyrchol? Eglurwch sut.	Fel rhan o broses ymgynghori Cynllun Corfforaethol y Cyngor, 2022-2027, gofynnwyd nifer o gwestiynau i ddinasyddion yn ymwneud â gwariant cyfalaf a'u blaenoriaethau.
5	Nodwch unrhyw effaith a all y penderfyniad ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Mae'r gyllideb cyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau'r Cyngor, ac mae'n ffurfio rhan o'r strategaeth i fodloni'r amcanion sydd wedi'u nodi yng nghynllun corfforaethol y Cyngor.
6	Os mai penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad ei gael ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Heb adnabod unrhyw effaith.
7	Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg.	Heb adnabod unrhyw effaith.

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae sylwadau gan y TA wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gofynnol)	Mae'r Swyddog Monitro yn Aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi'u hystyried mewn trafodaeth ar yr adroddiad hwn o fewn y TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Bydd unrhyw gynigion fydd yn effeithio ar staff wedi'u hadnabod a'u trafod gyda'r Tîm AD.
5	Eiddo	Bydd unrhyw gynnig sy'n effeithio ar eiddo a chyllidebau cysylltiedig y Cyngor wedi'u trafod gyda'r Tîm Eiddo.
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Bydd unrhyw gynnig sy'n effeithio ar system technoleg gwybodaeth y Cyngor, a chyllidebau cysylltiedig wedi'i trafod gyda'r Tîm TGCh.
7	Sgriwtini	I'w gadarnhau
8	Aelodau Lleol	Mae cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau.
9	Cyrff allanol / eraill	
F - Atodiadau:		
Atodiad 1 – Adroddiad ar y Gyllideb Cyfalaf 2023/24 Atodiad 2 – Cyllideb Cyfalaf Arfaethedig Terfynol 2023/24		
FF – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Adroddiad Strategaeth Cyfalaf – Cyngor llawn 10 Mawrth 2022 Cyllideb Cyfalaf 2022/23 – Cyngor llawn 10 Mawrth 2022 Adroddiadau Monitro Cyfalaf Chwarterol 2022/23 – Pwyllgor Gwaith 27 Medi 2022, 29 Tachwedd 2022, 2 Mawrth 2023		

1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r Gyllideb Cyfalaf ar gyfer 2023/24, sydd wedi'i chynnwys isod, yn ystyried yr egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Cyfalaf, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2022. Mae'r Strategaeth Cyfalaf wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r gyllideb cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2023/24, ond nid yw egwyddorion y strategaeth wedi newid.

2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH CYFALAF

2.1 Cymeradwywyd y Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2022/23 gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn, a bydd yn cael ei ddiweddarau ar gyfer 2023/24 i adlewyrchu'r lefelau cyllido newydd, unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac unrhyw newidiadau a osodwyd yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2023/24, fydd yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2023.

2.2 Mae'r Strategaeth Cyfalaf cyfredol yn gosod yr egwyddorion canlynol ar gyfer y Cyngor wrth lunio ei raglen gyfalaf:-

- Bob blwyddyn, bydd y cyllid cyfalaf yn cael ei ddsbarthu er mwyn sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol i'w diogelu nhw ar gyfer y dyfodol.
- Bydd y Cyngor yn defnyddio cyllid cyfalaf allanol pryd bynnag y bo'n bosibl a fforddiadwy.
- Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer asedau fydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.
- Mae'r Cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo i Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, a bydd yn parhau i ddefnyddio'n llawn cyllid allanol Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

2.3 Yna, fe aeth y strategaeth ymlaen i ddarparu ychydig mwy o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu darparu, a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:-

- Ystyrir y rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ar wahân i weddill y rhaglen gyfalaf gyffredinol.
- Mae disodli asedau presennol a darfodedig yn fuddiol o ran lleihau costau refeniw, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dosbarthu cyllid er mwyn gwella offer TG presennol, cerbydau ac adeiladu'r Cyngor, neu gael rhai newydd.
- Mae'n ofyniad statudol i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dosbarthu cyllid yn flynyddol er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.
- Bydd swm penodol yn cael ei ddsbarthu'n flynyddol er mwyn cyllido gwaith gwella ffyrdd. Bydd y swm yn ddibynnol ar yr arian sydd ei angen i gyflawni isafswm gwerthoedd contract, y lefel o gyllid allanol a mewnol sydd ar gael ac asesiad ar gyflwr adfer ffyrdd yr Awdurdod.
- Bydd prosiectau sydd angen cyllid cyfatebol yn cael eu hasesu ar sail achos fesul achos, a bydd unrhyw benderfyniad i ddsbarthu cyllid yn seiliedig ar sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a chymhareb cyllid y Cyngor â chyllid allanol.
- Cwblheir prosiectau sy'n cael eu cyllido gan fenthycyca digefnogaeth dim ond os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw, neu mae'r incwm ychwanegol a gynhyrchir, yn ddigon i fodloni unrhyw gostau cyllido cyfalaf ychwanegol.

2.4 Mae'r Strategaeth Cyfalaf hefyd yn egluro sut y dylid asesu unrhyw gynnig newydd, sef:-

- Faint fydd y prosiect yn ei gyfrannu at flaenoriaethau'r cynllun corfforaethol;
- A yw'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol;
- A fydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw;
- A fydd y prosiect yn helpu i liniaru risg corfforaethol.

3. CYLLIDO'R RHAGLEN GYFALAF 2023/24

3.1 Dangosir y cyllid sydd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn Nhabl 1 isod. Dylid nodi fod y ffigwr ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthycia gyda chefnogaeth yn seiliedig ar ffigyrau setliad dros dro'r Llywodraeth Leol. Ni wyddys y ffigyrau terfynol nes bod ffigyrau'r setliad terfynol wedi'u cyhoeddi ar 28 Chwefror 2023. Mae'r lefel o gyllid dan y ddau bennawd wedi aros yn eithaf cyson dros nifer o flynyddoedd, ac ni ddisgwylir y bydd yn newid yn sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol.

Tabl 1
Cyllid Cyfalaf a Ragwelir a fydd ar gael ar gyfer 2023/24

Ffynhonnell y Cyllid	£'m	£'m
Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol		
Cynlluniau / Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2022/23	12,373	
Grant Cyfalaf Cyffredinol 2023/24	2,216	
Grant Cyfalaf Cyffredinol nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen o 2022/23	1,701	
Benthycia â Chefnogaeth	2,158	
Derbyniadau Cyfalaf	500	
Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol (Cronfa'r Cyngor)		18,948
Ysgolion yr 21ain Garrif		
Benthycia â Chefnogaeth	919	
Benthycia Digefnogaeth	2,797	
Grant Llywodraeth Cymru	2,248	
Cyllid ar gyfer Ysgolion yr 21ain Garrif		5,964
Cyfrif Refeniw Tai (CRT)		
Arian CRT wrth gefn	8,646	
CRT - Gwarged yn y flwyddyn	575	
Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru a grantiau allanol arall	4,336	
Benthycia Digefnogaeth	0	
Cyllid ar gyfer CRT		13,557
Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2023/24		38,469

3.2 Mae'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 yn cyrraedd £4.374m (o gymharu â £3.643m yn 2022/23), sy'n gynydd o £0.731m, sydd ond yn yw'n adfer y lefel o gyllid yn ôl i'r lefelau a welwyd yn y 10 mlynedd diwethaf. Er y croesawir y cynnydd, mae gwerth y cyllid wedi'i niweidio'n sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf oherwydd chwyddiant sylweddol yn y diwydiant adeiladu. Bellach, dim ond darparu cyllid digonol i'r Cyngor allu cynnal ei asedau presennol a wneir cyllid hwn.

3.3 Mae'r posibilrwydd ar gyfer unrhyw gyllid sylweddol ar ffurf derbyniadau cyfalaf yn gyfyngedig tu hwnt, a bydd unrhyw asedau nas gwerthwyd yn cael eu clustnodi ar gyfer cynlluniau presennol (moderneiddio ysgolion a gwelliannau hamdden).

- 3.4** Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor wedi darparu cyllid mewn arian wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido prosiectau penodol, darparu ffynhonnell o gyllid cyfatebol pan fydd grantiau allanol ar gael, neu i gyllido gwaith cyfalaf brys pe byddai angen hynny. Mae'r cyfyngiad ar gyllideb referniw'r Cyngor wedi arwain at adolygiad ar arian wrth gefn clustnodedig, ac efallai y bydd angen defnyddio'r arian wrth gefn hwn i helpu i gydbwyso'r gyllideb referniw yn 2024/25 a thu hwnt. Mae hyn eto'n cyfyngu'r cyllid a all y Cyngor ei ddsbarthu o'i arian wrth gefn ei hun tuag at brosiectau cyfalaf.
- 3.5** Mae cyllid y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau'r cyfrif hwnnw, ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Rhagwelir y bydd gweddill arian wrth gefn y CRT oddeutu £8.5m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae Cynllun Busnes y CRT yn gosod targed o £1.5m fel isafswm balans arian wrth gefn y CRT, sy'n golygu y gellir defnyddio'r gweddill i gyllido gwariant cyfalaf.

4. PROSES YMGYNGHORI

- 4.1** Fel rhan o ymgynghoriad y Cyngor ar Gynllun y Cyngor a blaenoriaethau'r dyfodol, gofynnwyd i ymatebwyr pa feysydd yr hoffent i'r Cyngor eu blaenoriaethu o ran buddsoddiadau cyfalaf, a pha feysydd yr hoffent i'r Cyngor fuddsoddi llai ynddynt. Canlyniad y broses ymgynghori oedd fod mwyafrif yr ymatebwyr eisiau gweld y Cyngor yn buddsoddi mewn adeiladu tai cymdeithasol ac eiddo a all pobl leol eu rhentu neu brynu, ac yna buddsoddiadau mewn diweddarau adeiladau'r Cyngor, buddsoddi mewn cynnal a chadw a gwella ffyrdd a gwella amddiffyniadau llifogydd.
- 4.2** Roedd ymatebwyr eisiau gweld llai o fuddsoddi mewn gwella cyfleusterau hamdden a chaeau 4G, adeiladu mwy o unedau diwydiannol a busnes, ac mewn ynni gwyrdd a cherbydau trydan.

5. RHAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG

5.1 Cynlluniau 2022/23 sy'n Cael eu Cario Ymlaen

Rhagwelir y bydd tanwariant o £15.223m o fewn cynlluniau Rhaglen Gyfalaf bresennol 2022/23 (£4.891m y CRT a £10.332m y Gronfa Gyffredinol). Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar sefyllfa'r alldro a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 3 (Tabl 4 ac Atodiad B adroddiad monitro cyllideb cyfalaf chwarter 3 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn). Bydd sefyllfa gwirioneddol yr alldro erbyn diwedd chwarter 4 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn mewn adroddiad alldro cyfalaf ar wahân, a bydd unrhyw symiau llithriad a ofynnwyd iddynt gael eu cario ymlaen i 2023/24 yn destun cymeradwyaeth y Pwyllgor hwn ar yr adeg honno. Mae cynlluniau ymrwymedig a fydd yn cael eu rhedeg am nifer o flynyddoedd o'r flwyddyn bresennol a thu hwnt wedi'u cynnwys yn y rhaglen hon gan fod cyllidebau newydd eu hangen, ac maent wedi'u nodi isod:-

Tabl 2

Cynlluniau 2022/23 a Ddygwyd Ymlaen

Cynlluniau 2022/23 a Ddygwyd Ymlaen	2023/24 £'000
Partneriaeth Tirwedd Caergybi	50
Adfywio Caergybi (Rhan II y Fenter Treflun Treftadaeth)	687
Penrhos – Rhan III	2,400
Cyllid Codi'r Gwastad (amryw o brosiectau)	9,326
Cyfanswm y Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen	12,373

5.1 Adnewyddu / Disodli Asedau Presennol

Bob blwyddyn, mae'n rhaid buddsoddi yn asedau'r Cyngor er mwyn ymestyn eu hoes, a sicrhau eu bod yn addas at eu diben, neu i ddisodli asedau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Cynigir y canlynol:-

- **Adnewyddu Ysgolion** – mae'r gost o glirio'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ym 46 o ysgolion y Cyngor yn sylweddol, ac ni ellir ei gyllido'n llawn yn y tymor byr a chanolig. Efallai y bydd rhaglen foderneiddio ysgolion y Cyngor yn lleihau peth o'r gost hon, ond bydd nifer fawr o'r ysgolion presennol yn cael eu defnyddio yn y tymor hir. Bydd £1m yn cael ei ddsbarthu er mwyn gwneud y gwaith brys mae Tîm Eiddo'r Cyngor wedi'i adnabod a'i flaenoriaethu.
- **Adnewyddu Adeiladau nad ydynt yn Ysgolion** – Eto, mae ôl-groniad o waith wedi'i adnabod yn swyddfeydd y Cyngor, cartrefi preswyl, cyfleusterau gofal dydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, ac nid oes digon o gyllid i wneud y gwaith hwn mewn unrhyw un blwyddyn. Mae £600k wedi'i gynnig, a bydd y lefel hon o gyllid yn ddigon er mwyn talu costau'r rhan fwyaf o'r gwaith blaenoriaeth sydd angen ei gwblhau.
- **Ailwynebu Priffyrdd** – Mae'r Adroddiad Statws ac Opsiwn Blynyddol yn cadarnhau fod angen cyllideb flynyddol o £2m er mwyn cynnal amodau Sefydlogrwydd Eiddo (Ataliol) ar ein ffyrdd. Byddai cyllideb dan y swm gofynnol hwn yn arwain at lai o effeithlonrwydd a llai o werth am arian, gyda chostau ychwanegol ar gyfer yr Awdurdod Priffyrdd gyda mwy o arian yn cael ei wario ar waith brys, a'r risg o gynnydd mawn hawliadau trydydd parti yn cael eu gwneud yn erbyn yr Awdurdod. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod pwysigrwydd y buddsoddiad parhaus yn rhwydwaith ffyrdd y Cyngor, ac yn cynnig cyllid o £2.5m ar gyfer 2023/24, fydd yn caniatáu peth welliannau yng nghyflwr cyffredinol y rhwydwaith ffyrdd.
- **Cerbydau** – Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030 ac, er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, mae'n rhaid i'r Cyngor leihau nifer y cerbydau petrol a disel a ddefnyddir. Bydd £390k yn cael ei ddyrannu er mwyn prynu cerbydau newydd, a hynny'n gerbydau trydan lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd £150k ychwanegol yn cael ei ddsbarthu i gyllido'r gwaith parhaus o ddisodli fflyd o raenwyr (gritters) y Cyngor.
- **Asedau TG** – Mae angen buddsoddiad parhaus er mwyn cynnal isadeiledd craidd y Cyngor a disodli dyfeisiadau a ddefnyddir gan staff i gael mynediad at systemau. Nodwyd mai £171k sydd ei angen er mwyn cynnal yr isadeiledd craidd a bydd angen £121k ar gyfer dyfeisiau bwrdd gwaith.

5.2 Grantiau Cyfleusterau Anabl

Er nad yw'n cael ei ystyried yn fuddsoddiad yn asedau'r Cyngor ei hun, mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i gyllido grantiau ar gyfer perchnogion cartrefi preifat i wneud gwaith addasu fydd yn galluogi preswylwyr anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae £750k wedi'i ddyrannu i fodloni'r gofyniad hwn.

6 CYNIGION ERAILL AR GYFER CYLLID YCHWANEGOL UNTRO

- 6.1 Gofynnwyd i wasanaethau gyflwyno cynigion ar gyfer cyllid cyfalaf. Aseswyd y cynigion hyn gan y Tîm Cyllid, ac yna cawsant eu blaenoriaethu gan y Tîm Arweinyddiaeth. Ac eithrio'r rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai, roedd y cyllid craidd cyffredinol a oedd ar gael, gan gynnwys arian wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol ar gyfer 2023/24, yn cyrraedd £6.575m, ac mae angen £5.682m ar gyfer yr uchod, sy'n gadael £0.893m ar gyfer gyllido unrhyw brosiectau untro newydd.

- 6.2 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r cynigion a dderbyniwyd, ac argymhellir cynnwys y prosiectau canlynol yn rhaglen gyfalaf 2023/24:-

Tabl 3

Prosiectau Cyfalaf Untro a Argymhellir eu Cyllido yn 2023/24

Teitl y Prosiect	Disgrifiad	Swm a Argymhellir £'000
Prosiectau Llesiant Amgylcheddol a Datblygu Economaidd	Cyllid cyfatebol i'w ddefnyddio pan fydd cyllid grant ar gael.	100
Cynlluniau Atal Llifogydd	Darparu cyllid cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau ar raddfa fach a hefyd darparu cyllid cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau mawr wedi'u blaenoriaethu er mwyn denu cyllid grant Llywodraeth Cymru (LIC). Felly, byddai grant LIC yn dod i gyfanswm o £1.621m.	286
CYFANSWM BIDIAU NEWYDD AM GYLLID CYFALAF YN 2023/24		386

- 6.3 Gwrthodwyd yr holl geisiadau eraill oherwydd credwyd bod angen penderfyniad pellach ynghylch darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol cyn gwneud buddsoddiad cyfalaf, neu bod angen strategaeth ehangach cyn ymgymryd â'r buddsoddiad cyfalaf. Byddai'r £0.507m a oedd yn weddill yn cael ei gadw fel arian wrth gefn, a'i ddefnyddio i gyllido rhaglen gyfalaf 2024/25.

7. MODERNEIDDIO YSGOLION

- 7.1 Yn sgil y cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru y bydd y cynlluniau'n ei ddenu, a'r angen i foderneiddio'r ystâd ysgolion bresennol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido'r cynlluniau hyn drwy ddefnyddio benthyciadau digefnogaeth a'r derbyniadau cyfalaf o werthu hen safleoedd ysgol. Mae Rhaglen Gyfalaf 2023/24 yn galluogi'r gwaith i gwblhau Estyniad Ysgol y Graig.
- 7.2 Y gost sydd wedi'i amcangyfrif ar gyfer y rhaglen yn 2023/24 yw £5.964m, fydd yn cael ei gyllido gan grant gwerth £2.248m gan Lywodraeth Cymru, £0.919m o fenthycia gyda chefnogaeth a £2.797m o fenthycia digefnogaeth.

8. CYFRIF REFENIW TAI

- 8.1 Mae'r CRT yn gyfrif sydd wedi'i glustnodi o ran gwariant refeniw a chyfalaf. Yn ystod rhaglen 2023/24, gwneir buddsoddiad parhaus yn y stoc presennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth parhaus gyda Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC), gyda buddsoddiad o £5.350m. Bydd £8.207m pellach yn cael ei wario ar ddatblygu eiddo newydd ac ail-brynu eiddo blaenorol hawl i brynu.
- 8.2 Bydd y rhaglen yn cael ei gyllido drwy: Arian Wrth Gefn y CRT (£8.646m), gwarged refeniw a gynhyrchir yn 2023/24 (£0.575m) a grantiau Llywodraeth Cymru (£4.336m).

8.3 Bydd y rhaglen fuddsoddi tymor hir, yn ogystal â'r ffordd y bydd yn cael ei gyllido dros y 30 mlynedd nesaf, yn cael ei nodi yng nghynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai, fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn fuan.

9. RHAGLEN GYFALAF ARGYMELLEDIG CRYNO 2023/24

9.1 Mae'r rhaglen gyfalaf argymhelledig ar gyfer 2023/24 wedi'i chrynhof yn Nhabl 4 isod, ac wedi'i ddadansoddi mewn mwy o fanylder yn Atodiad 2:-

Tabl 4
Crynodeb o'r Rhaglen Cyfalaf a Argymhellir 2023/24

	Cyf	£'000
Cynlluniau 2022/23 a Ddygwyd Ymlaen	Para 5.1 & Tabl 2	12,373
Adnewyddu / Amnewid Asedau	Para 5.2.	5,682
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd	Para 6.2 & Tabl 3	386
Ysgolion y 21 ^{ain} Ganrif	Para 7	5,964
Cyfrif Refeniw Tai	Para 8	13,557
Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2023/24		37,962
Cyllidir drwy:		
Grant Cyfalaf Cyffredinol		3,410
Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol		2,158
Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif		919
Benthyca Digefnogaeth Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif		2,797
Arian Wrth Gefn CRT a'r Gwarged yn ystod y flwyddyn		9,221
Benthyca Digefnogaeth CRT		0
Derbyniadau Cyfalaf		500
Grantiau Allanol		6,584
Cyllid 2022/23 a Ddygwyd Ymlaen		12,373
2023/24 Cyfanswm Cyllid Cyfalaf		37,962

CYLLIDEB CYFALAF ARFAETHEDIG TERFYNOL 2023/24

Cynllun	Cyllideb £'000	Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chefnogaeth £'000	Benthyca Digefnogaeth £'000	Arian Wrth Gefn CRT £'000	Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000
2022/23 Cynlluniau ymrwymedig dygwyd ymlaen							
Partneriaeth Tirwedd Caergybi	50	50	0	0	0	0	0
Adfywio Caergybi (Rhan II y Fenter Treflun Treftadaeth)	687	687	0	0	0	0	0
Penrhos Rhan III	2,400	2,400	0	0	0	0	0
Cyllid Codi'r Gwastad (amryw o brosiectau)	9,236	9,236	0	0	0	0	0
Cyfanswm Cynlluniau ymrwymedig 2022/23	12,373	12,373	0	0	0	0	0
Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol							
Grant Cyfleusterau i'r Anabl	750	0	750	0	0	0	0
Adnewyddu Ysgolion	1,000	0	0	1,000	0	0	0
Adnewyddu Adeiladau Heblaw Ysgolion	600	0	0	600	0	0	0
Ail-wynebu Priffyrdd	2,500	0	1,942	558	0	0	0
Cerbydau	540	0	332	0	0	0	208
Asedau TG	292	0	0	0	0	0	292
Cyfanswm Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol	5,682	0	3,024	2,158	0	0	500
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd							
Cynlluniau Atal Llifogydd	286	0	286	0	0	0	0
Datblygu Economaidd – Cyllid Cyfatebol	100	0	100	0	0	0	0
Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd	386	0	386	0	0	0	0
Ysgolion yr 21ain Ganrif							
Ysgol y Graig	5,964	2,248	0	919	2,797	0	0
Cyfanswm Ysgolion yr 21ain Ganrif	5,964	2,248	0	919	2,797	0	0

Cynllun	Cyllideb £'000	Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthycâ Chefnogaeth £'000	Benthycâ Digefnogaeth £'000	Arian Wrth Gefn CRT £'000	Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000
CYFANSWM GRONFA CYFFREDINOL	24,405	14,621	3,410	3,077	2,797	0	500
Cyfrif Refeniw Tai							
Rhaglen Cynnal a Chadw Cynlluniedig SATC	5,350	3,586	0	0	0	1,764	0
Datblygiadau Newydd ac Ail-Brynu Eiddo Hawl i Brynu	8,207	750	0	0	0	7,457	0
CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI	13,557	4,336	0	0	0	9,221	0
CYFANSWM RHAGLEN CYFALAF 2023/24	37,962	18,957	3,410	3,077	2,797	9,221	500

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	2 Mawrth 2023
Pwnc / Testun:	Cynllun y Cyngor 2023-28
Deilydd(ion) Portffolio:	Y Cyngorydd Robin Williams
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Carys Edwards
Awdur yr Adroddiad:	Gethin Morgan
Tel:	01248 752111
E-bost:	GethinMorgan@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

- 1.1 Mae'r adroddiad cysylltiedig yn benllanw 12 mis o baratoi.
- 1.2 Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym wedi casglu dealltwriaeth o'r hyn yr oedd staff, cynghorwyr, a thrigolion Ynys Môn yn gobeithio'i weld y Cyngor yn canolbwyntio arno yn ystod Cynllun y Cyngor ar gyfer y cyfnod o 5 mlynedd sydd i ddod.
- 1.3 Dylunwyd y broses ymgynghori i geisio ennyn diddordeb ac ysgogi cymaint o ymatebion â phosibl. I'r perwyl hwnnw, lluniwyd deunydd a oedd amlygu'r materion dan sylw mewn modd hawdd ei ddarllen.
- 1.4 Fel a nodir yn 1.2, ymgynghorwyd â staff ynghylch y chwe amcan strategol a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig. Yng ngolau ymatebion aelodau staff, gwnaed gwelliannau a rhoddwyd rhagor o ystyriaeth i'w barnau cyn cynnal ymgynghoriad 'cyhoeddus'.
- 1.5 Cafodd yr amserlen wreiddiol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ei hymestyn i 8 wythnos yn dilyn trafodaeth ac arweiniad gan Gyngorau Tref a Chymuned yn eu cyfarfod ar Fedi'r 8fed. Agorodd y cyfnod ymgynghori yn dilyn cyfnod o alaru o ganlyniad i farwolaeth Ei Mawrhydi, y Frenhines.
Cychwynnodd ar 20^{fed} Medi hyd at y 14^{eg} Tachwedd.
- 1.6 Ceisiodd y Cyngor mewn cyd-weithrediad ag eraill i wneud yr ymgynghoriad mor hygyrch â phosibl. Gwelir tystiolaeth o hyn o safbwynt yr ymdrech ar y cyd i dargedu pob ward ar yr ynys mewn rhyw fodd neu'i gilydd.
- 1.7 Cafodd copïau caled o'r arolwg, fersiynau arferol a rhai 'hawdd i'w darllen', yn ogystal â phosteri a thafleuni gyda dolenni uniongyrchol i'r ymgynghoriad ar-lein, eu dosbarthu i -
 - ganolfannau hamdden yr ynys
 - llyfrgelloedd
 - Oriel Môn
 - Swyddfeydd y Cyngor

1.8 Fe'u dosbarthwyd hefyd i hybiau cymunedol lle cynhaliwyd sesiynau a fforymau ymgysylltu penodol wyneb yn wyneb. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys panel o swyddogion a oedd yn bresennol i gyfarfod y cyhoedd a thrafod y pwysau cysylltiedig â'r ffrydiau gwaith a oedd yn berthnasol i'r amcanion strategol.

Cynhaliwyd sesiynau wyneb yn wyneb yn:

- Neuadd y Dref, Llangefni
- Gwelfor, Caergybi
- Neuadd Llaingoch
- Yr Iorwerth Arms, Bryngwran
- Neuadd Llanfairpwll
- Canolfan Biwmares
- Caffi Mechell, Llanfechell

1.9 Defnyddiwyd y llyfrgell symudol i ddosbarthu copïau caled 'hawdd i'w darllen' o'r ymgynghoriad i'r rheiny nad oeddent yn gallu gadael eu cartrefi.

1.10 Targedwyd plant oedran ysgol (3-18) ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan trwy'r cynghorau ysgol.

1.11 Trwy'r holl dargedu yma, cafwyd yr ymatebion canlynol –

- Roedd 538 o aelodau staff wedi ymateb cyn yr ymgynghoriad
- safbwynt ymatebion ar-lein – roedd 1620 wedi rhyngweithio â'r arolwg a 1098 wedi ymateb naill ai'n llawn neu'n rhannol
- Derbyniwyd 61% o'r ymatebion gan bobl o oedran gweithio
- Derbyniwyd 79 o ymatebion ar ffurf copïau caled
- safbwynt pobl ifanc – roedd 27 o gynghorau ysgol wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn ddemocrataidd, gan gynrychioli tua 3,500 - 4000 o blant o ysgolion cynradd ac uwchradd
- Roedd 91% o'r ymatebwyr wedi ymateb trwy gyfrwng y Saesneg, tra bo 9% wedi ymateb trwy gyfrwng y Gymraeg

1.12 Cafodd canlyniad y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori hynny ei gyfarch yn adroddiad 'Datblygu blaenoriaethau strategol y Cyngor 2023-28' a gafodd ystyriaeth gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar y 24ain o fis Ionawr.

1.13 Roedd canfyddiadau'r ymgysylltu a'r ymgynghoriad ar y chwe blaenoriaeth strategol a grybwyllwyd uchod yn galonogol. Mae'r data uchod yn ein hysbysu bod y Cyngor wedi derbyn dros 2,500 o ymatebion ar gyfer pob math o weithgaredd.

1.14 O ganlyniad i'r gwaith a'r ystyriaethau blaenorol, cyflwynir Cynllun 'drafft' y Cyngor presennol 2023 - 28 ar gyfer sylw'r pwyllgor fel *Atodiad A*. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys amcanion llesiant y gorfforaeth, ynghyd ag amcanion strategol a ffrydiau gwaith cysylltiedig.

1.15 Gofynnir i'r Pwyllgor:

A1 Cymeradwyo Cynllun y Cyngor Drafft 2023-2028 arfaethedig ar gyfer ei fabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn ar 9 Mawrth 2023.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Aseu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae Cynllun y Cyngor yn nodi Amcanion Strategol y Cyngor ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mawrth 2028.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Mae Cynllun drafft y Cyngor ar gyfer 2023 – 28 yn cydnabod 6 blaenoriaeth strategol y bydd y Cyngor am eu cyflawni yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae ffrydiau gwaith cysylltiedig wedi cael eu cydnabod er mwyn galluogi'r Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Cydnabyddir bod nifer o'r ffrydiau gwaith hynny yn rhai ataliol eu natur rhag – a. Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref b. Blaenoriaethu'r agenda digarboneiddio ar draws y Cyngor
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Ymgymrir ag elfennau o'r gwaith sy'n Gwahoddwyd sefydliadau partneriaethol yn ogystal â chynghorau tref a chymuned lleol i ymateb i'r ymgynghoriad cyn datblygiad y Cynllun
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Derbyniwyd dros 2,500 o ymatebion ynglŷn â'r gwaith ymgynghori cyhoeddus syn datblygiad y Cynllun.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Oherwydd cymhlethdod a chynnwys amrywiol Cynllun drafft y Cyngor 2023 - 28, argymhellir a chynghori bod y gwahanol ffrydiau gwaith a phrosiectau cysylltiedig sy'n gysylltiedig â'r Cynllun drafft, yn cynnal Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb unigol ar wahân er mwyn aseu effeithiau'r gwaith cysylltiedig.

		6.2 Cynigir bod yr asesiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r naill ai, neu gyfuniad o'r – <ul style="list-style-type: none"> • Tîm Arweinyddol • Byrddau rhaglenni corfforaethol • Pwyllgorau Craffu / Gwaith (yn ddibynnol ar gynnwys) cyn dilyniant y gwaith cysylltedig.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Fel yr uchod
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Fel yr uchod

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddol ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Sylwadau wedi ymglyffori yn yr adroddiad
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Sylwadau wedi ymglyffori yn yr adroddiad
4	Adnoddau Dynol (AD)	Sylwadau wedi ymglyffori yn yr adroddiad
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 28/2. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn.
9	Aelodau Lleol	

F - Atodiadau:
Atodiad A - Cynllun y Cyngor Drafft (2023-2028)

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):
<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Trosiannol Ynys Môn 2022-23 • Adroddiad Ymgysylltu ac Ymgynghori: Cynllun y Cyngor Drafft (2023-2028)



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cynllun y Cyngor Drafft 2023 - 2028

Chwefror 2023

Statws yr adroddiad - Swyddogol

Paratowyd gan:

Y Tîm Trawsnewid o fewn y Gwasanaeth AD a Thrawsnewid

RHAGAIR – Arweinydd / Prif Weithredwr

Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2023 – 2028.

I ddilyn

DRAFT

Arwyddwyd –

Llinos Medi
Arweinydd y Cyngor

Dylan Williams
Prif-weithredwr

Cyflwyniad

Gweledigaeth y Cyngor Sir yw **creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.**

Mae cydweithio yn allweddol i wireddu ein gweledigaeth. Byddwn yn Gyngor parchus sy'n ystyriol o eraill, yn cydweithio mewn modd gonest ac yn ymrwymedig i safonau uchel o ymddygiad ac uniondeb er mwyn creu'r argraff orau bosib o'r Ynys a'i chymunedau.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, bydd angen i ni barhau gyda'n rhaglen moderneiddio a thrawsnewid ein gwasanaethau a'r ffordd yr ydym yn gweithio. Rhan hanfodol o foderneiddio fydd gwrando ar yr hyn y mae trigolion, defnyddwyr ein gwasanaethau a busnesau yn ei feddwl – a bod yn barod i weithredu.

Er mwyn llunio'r Cynllun hwn, aethom ati i gynnal y gwaith ymgynghori mwyaf pellgyrhaeddol yr ydym erioed wedi'i gyflawni fel Cyngor. Yn ystod yr ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliom yn 2022, gofynnem i drigolion am eu barn ynglŷn â'u blaenoriaethau pwysicaf. Bu'r ymateb yn ran creiddiol o'r broses o lunio'n amcanion strategol.

Ar draws yr holl grwpiau oed, a'r mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghori gwahanol a ddefnyddiom yr amcanion strategol cyson oedd:

- Gofal Cymdeithasol a Llesiant – rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir
- Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol
- Tai – sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref
- Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys
- Newid Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030
- Yr Iaith Gymraeg - cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith

Dyma'r amcanion mae'r Cynllun hwn yn canolbwyntio arnynt.

Fel pob Cyngor arall, bydd pwysau ariannol mawr arnom a bydd rhaid dod o hyd i fwy o arbedion. Bydd gofyn inni reoli'r cynnydd mewn costau wrth lunio cyllidebau, ac ymateb i'r galw cynyddol oherwydd newidiadau demograffig a chymdeithasol.

Er mwyn gweithio o fewn y cyfnod heriol a newidiol hwn, rydym yn mabwysiadu ymagwedd strategol tuag at reoli ein adnoddau. Mae'r rhagolygon ariannol tymor canol yn nodi pwysau. Yn seiliedig ar y rhagolygon o ran chwyddiant, costau byw a phwysau twf, a gyda chynnydd o 5% yn y dreth cyngor flynyddol, rydym yn rhagweld cyfnod heriol i o'n blaenau.

Mae'r cynllun hwn felly yn un uchelgeisiol. Gan y bydd darparu gwasanaethau'n heriol, bydd profiadau ac adborth ein trigolion yn fesur pwysig o lwyddiant. Byddwn yn llunio dogfen cyflawni flynyddol ac yn adrodd yn ffurfiol ar gynnydd, llwyddiant a chanlyniadau.

Erbyn 2028, bydd newid mawr o ran y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, bydd llwyddiant yn cael ei ddathlu a byddwn wedi symud ar y daith o greu Ynys Môn sydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.

Gweledigaeth y Cyngor

“Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.”

Amcanion Strategol

- Gofal Cymdeithasol a Llesiant – rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir
- Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol
- Tai – sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref
- Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys
- Newid Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at bod yn sefydliad sero net erbyn 2030
- Yr Iaith Gymraeg - cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith

Gwerthoedd ag Egwyddorion Cyffredinol

Ein gwerthoedd sy'n diffinio pwy ydym ni a lle rydym am fynd fel sefydliad.

Byddwn yn defnyddio'r gwerthoedd a isod i ddatblygu ac arwain ein gweledigaeth, ein cynlluniau strategol a'n gwasanaethau i'r dyfodol:

Gwerthoedd			
Parch	Cydweithio	Gonestrwydd	Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.	Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.	Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.	Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.


Dyma'r chwe egwyddor cyffredinol y byddwn yn ddefnyddio i'n helpu i gyflawni ein hamcanion:

Egwyddorion Cyffredinol		
Datblygu Cynaliadwy	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Atal a Diogelu
Mae'n rhaid i gynaliadwyedd fod yn gonglfaen cyfeiriad strategol a gweithredol y Cyngor. Bydd yn ganolog i ddatblygu polisiau, darparu gwasanaethau, gwaith partneriaeth a'r ffordd y mae'r sefydliad yn cael ei redeg.	Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gydraddoldeb sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau byddwn yn gweithio i ddileu gwahaniaethu annheg ac anghyfreithlon fel rhan o'n holl bolisiau, gweithdrefnau ac arferion.	Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Mae cyfrifoldeb ar bob gwasanaeth a gweithiwr yn y Cyngor i ddiogelu pobl, beth bynnag yw eu rôl neu eu teitl. Mae'r Cyngor yn credu bod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed.

Ymrwymiad ac Atebolrwydd	Cyfathrebu	Moderneiddio
<p>Mae'r Cyngor a'i weithwyr yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau trwy amcanion corfforaethol, amcanion gwasanaethol ac amcanion unigol, o fewn yr adnoddau sydd gennym. Mae'r broses hon yn dangos ein hymrwymiad i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol am gyflawni Cynllun y Cyngor.</p>	<p>Proses ddwyffordd yw cyfathrebu. Dull y Cyngor yw bod yn gynhwysol, gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli i gyrraedd cymaint o drigolion a rhanddeiliaid â phosibl. Trwy sicrhau cyfathrebu effeithiol (yn fewnol ac yn allanol) gallwn sicrhau ein bod yn rhyngweithio a meithrin perthynas gryfach ag eraill ac yn cael sgysiau mwy cynhyrchiol.</p>	<p>Trwy gyfrwng rhaglen foderneiddio, bydd y Cyngor yn ceisio gwneud gwell defnydd o'r data sydd ar gael i lywio gwasanaethau newydd a sicrhau bod anghenion y cwsmer yn medru cael eu diwallu drwy gyfrwng digidol lle bo'n addas.</p>

DRAFT

Y Cylch Strategol



Mae'r cylch strategol uchod yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion. Mae'n adnabod beth sydd angen ei gyflawni, sut rydym am gyflawni a pham.

Mae'r Cynllun hwn a'r cynlluniau strategol cysylltiedig yn datgan:

- Gweledigaeth y Cyngor
- Gwerthoedd a themâu trawsbynciol
- Amcanion strategol a
- Gweithredoedd allweddol i'w cyflawni a'i gwireddu.

**** FFEITHLUNIAU DATA ****

DATA'R CYNGOR

Cyllideb refeniw net y Cyngor - £174m

Staff y Cyngor – dros 2500

Nifer adeiladau'r Cyngor Sir (ag eithrio ysgolion) - 68

Nifer yr Ysgolion - 46

Hyd y ffyrdd a wasanaethir – 1,187km / 738 milltir

Maint yr Ynys (arwynebedd)– 712km sgwâr / 275 milltir sgwâr

125milltir / 201km o lwybr yr arfordir

Nifer o Dai cymdeithasol – 3,948

Nifer o gynghorwyr – 35 (8 dynes / 27 dyn)

Wardiau aml aelod – 14

DATA ONS / NOMIS

Poblogaeth – 68,900 Cyfrifiad 2021 – 33,700 (gwryw) / 35,200 (benyw)

Dadansoddiad poblogaeth Môn yn ôl gwlad genedigol – 67% Cymru / 29% Lloegr / 1% Yr Alban / 3.5% Gwledydd Eraill

56.5% oedran gweithio / 26.5% yn hŷn (65+) / 20.1% <18

92% yn fodlon ar ble maent yn byw

55.8% yn gallu siarad Cymraeg

14% yn teimlo'n unig - y gyfradd isaf yng Nghymru

Cyfartaledd Oedran – 48 Môn / 42 Cymru

76% o bobl oedran gweithio yn economaidd weithgar

74% o bobl oedran gweithio mewn gwaith

Cyflog gros cyfartalog ar gyfer pobl sy'n gweithio'n llawn amser - £589 yr wythnos / Cyfartaledd Cymru, £603

21,500 hectar wedi ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

1. Gofal Cymdeithasol a Llesiant – rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir

Mae iechyd, llesiant a diogelwch trigolion yn hanfodol er mwyn creu ansawdd bywyd gwell a hybu annibyniaeth ar Ynys Môn. Felly, mae parhau i sicrhau cymunedau iachach, mwy diogel a thecach trwy gynig amrywiaeth o wasanaethau ataliol, gwella a chefnogol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill o'r un anian, yn gonglfeini ein nod.

Gan adeiladu ar yr arfer dda o gyd-weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn ceisio sicrhau bod y trigolion mwyaf bregus yn cael eu hamddiffyn a'u bod yn derbyn gwasanaethau cyd-gysylltiedig gan gyrrff iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn flaenoriaeth bwysig, a bydd angen parhau i gydweithio ar draws pob sector a maes yn y gymuned.

- **Amddiffyn a chefnogi pobl fregus**
 - i. Cryfhau'r ddarpariaeth cyfleoedd dydd ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu trwy wella ac annog mynediad i adnoddau cymunedol
 - ii. Lleihau'r effeithiau a brofir gan bobl mewn tlodi a defnyddio mesurau lliniaru Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn ymateb i gostau byw cynyddol
 - iii. Sicrhau fod y rhaglen ymyrraeth gynnar ac ataliol yn gwella ansawdd bywyd
 - iv. Sicrhau fod hybiau cymunedol yn darparu gwasanaethau er mwyn caniatáu annibyniaeth, lleihau unigrwydd a gwella iechyd a llesiant pobl
 - v. Gweithio gyda chymunedau, partneriaid a sefydliadau trydydd sector i wella cyfleoedd cymdeithasol a phontio'r cenedlaethau lle bo hynny'n briodol
 - vi. Buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden er mwyn cynyddu mwynhad, presenoldeb a lefelau cyfranogi i wella iechyd ein cymunedau
 - vii. Moderneiddio'r ddarpariaeth tai â chymorth ar gyfer unigolion
 - viii. Parhau i weithio gyda phreswylwyr a chymunedau trwy'r rhaglen cynllunio lle i gefnogi a gwella cadernid cymunedol
 - ix. Moderneiddio Gwasanaeth Ieuencid y Cyngor a gweithio gyda phartneriaid i'w wneud yn addas ar gyfer y dyfodol
 - x. Cynnig cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal nodi beth sy'n bwysig iddynt a dylanwadu ar eu gofal eu hunain
 - xi. Parhau gyda'n datblygiad o fwy o Gartrefi Clyd
 - xii. Addysgu partneriaid a chymunedau am effaith trawma

Rydym yn ymrwymo i:

- gefnogi pobl i aros mor annibynnol â phosibl yn y gymuned
- cydweithio gyda defnyddwyr a phartneriaid gan ganolbwyntio ar “beth sy’n bwysig”
- gwarchod safon gwasanaethau a theilwra ymateb yn unol â disgwyliadau
- gwrandao ar bobl sy’n derbyn gwasanaethau a sicrhau cyfle i fynegi barn
- symleiddio a gwella trefniadau gweithredol er mwyn ymateb yn briodol a chyson

Erbyn 2028 byddwn wedi:

- Adolygu a moderneiddio'r dull o ddarparu gofal a chefnogaeth
- Gwella ac ehangu'r ddarpariaeth tai a chymorth
- Ehangu'r cyfleoedd i bobl allu derbyn gofal yn agosach at eu cymunedau lleol
- Datblygu mwy o ddarpariaeth mewnol ar gyfer plant mewn gofal, Cartrefi Clyd a gofalwyr maeth

2. Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

Ein nod yw gwireddu ein strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r laith Gymraeg trwy fuddsoddi yn arweinwyr, staff, adeiladau a chyfleusterau sy'n addas ar gyfer cenedlaeth heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Trwy ddal ati i weithio gyda rhanddeiliaid, gwella cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol plant a phobol ifanc, wrth gefnogi eu lles ynghyd â sicrhau cyfleoedd ehangach er mwyn dysgu a ffynnu.

Byddwn yn sicrhau bod treftadaeth leol yn ffynnu, mewn cymuned sy'n gynyddol amlddiwylliannol ac amlieithog, a bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Gymraeg.

- **Codi cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol**
 - i. Sicrhau'r addysg gorau posib ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc trwy fuddsoddi yn ein gweithlu, datblygu cymunedau dysgu o safon a thrwy roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith
 - ii. Cynorthwyo plant a phobl ifanc i reoli eu hiechyd meddwl a gwella eu llesiant
 - iii. Parhau i gefnogi plant a phobol ifanc wrth ddatblygu eu medrau allweddol a'u sgiliau digidol
 - iii. Cyd-weithio gyda Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i gynnig cymorth ac arweiniad i ieuencid Ynys Môn mewn ffordd gynhwysol ac arloesol
 - iv. Darparu cyfleoedd 'dysgu ail gyfle', fel bod trigolion Ynys Môn yn gallu parhau i ddatblygu'n bersonol trwy gydol eu bywyd.
- **Darparu cymunedau dysgu cynaliadwy**
 - i. Rhoi rhaglen moderneiddio cymunedau dysgu ddiwygiedig ar waith fel bod ysgolion yn addas i bwrpas ac yn gweithio tuag at statws carbon niwtral
 - ii. Parhau gyda'n buddsoddiad yn y gweithlu er mwyn datblygu arweinyddiaeth ac addysgu ar draws yr Ynys.
 - iii. Cynorthwyo plant a'u teuluoedd i gael mynediad at weithgareddau addysgol a gweithgareddau yn y gymuned tu allan i oriau ysgol traddodiadol
 - iv. Gweithio tuag at fod yn Ynys Sy'n Wybodus o Drawma drwy ddull cymunedol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ein plant, phobol ifanc a'r gymuned ehangach
 - v. Hyrwyddo a chydweithio i sicrhau cyfleoedd hyfforddi ar gyfer pobl ifanc trwy waith
 - vi. Cyfrannu i wella cyfranogiad plant a phobl ifanc i chwarae rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau

- vii. Mabwysiadu a gwireddu strategaeth newydd ar gyfer Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg
- viii. Moderneiddio a datblygu darpariaeth a chyfleoedd hyfforddi dysgu ôl-16
- ix. Parhau i gynnig llyfrgelloedd o safon, archifdai effeithiol ac Oriel gelf ac amgueddfa arloesol, sydd yn gwbl hygyrch ac yn cyfrannu at fywyd trigolion yr Ynys.

Rydym yn ymrwmo i:

- gefnogi plant a phobol ifanc i fod yn:
 - ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
 - cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
 - trigolion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd
 - unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas
- sicrhau bod plant a phobol ifanc yn gallu cyflawni eu llawn potensial
- cefnogi lles emosiynol a meddyliol plant a phobol ifanc yr Ynys
- cefnogi cymunedau dysgu i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu gyda'r gallu i hunan-wella
- darparu gwasanaeth llyfrgelloedd, archifau a'r Oriel o ansawdd sy'n ysbrydoli ac yn cwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid, amcanion corfforaethol a safonau cysylltiedig.

Erbyn 2028 byddwn wedi:

- sicrhau bod y strategaeth moderneiddio cymunedau dysgu yn creu ysgolion effeithiol gyda arweinyddiaeth gref gydag amgylchfyd addysgu pwrpasol
- datblygu'r Gymraeg ar draws pob lleoliad addysgol trwy wireddu nodau, amcanion a deilliannau a osodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg
- sicrhau profiadau a chynnydd gorau phosib i blant a phobol ifanc trwy wireddu'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob gymuned dysgu ar draws yr Ynys
- cynyddu cyfleoedd addysgol ar gyfer oedolion er mwyn i drigolion Ynys Môn ddatblygu'n bersonol trwy gydol eu bywyd
- sicrhau fod y gwasanaethau archifau, oriel a llyfrgelloedd o'r safon uchaf ag yn ychwanegu'r gwerth gorau am arian trwy gyfrannu'n effeithiol tuag at dysgu

3. Tai – sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref

Mae ethos cymunedol cryf mewn ardaloedd gwledig, pentrefi a threfi, ac mae cyfraddau unigrwydd ymysg yr isaf yng Nghymru. Gwerthfawrogir fod Ynys Môn yn le diogel, a bod y mwyafrif o drigolion yn teimlo'n saff ac yn fodlon iawn â lle mae nhw'n byw.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid fel cymdeithasau tai cofrestredig i ymateb i'r heriau tai lleol. Byddwn yn cyd-weithio i adnabod anghenion tai'r Ynys er mwyn gwireddu'r angen cydnabyddedig am dai yn unol â'r tenantiaethau sydd eu hangen.

○ **Cartrefi o safon, fforddiadwy a hygyrch**

- i. Cydweithio gyda phartneriaid allweddol i gynnal ansawdd ac ystod yr opsiynau cartrefi sydd ar gael yn y sector gofal
- ii. Datblygu cyfleuster gofal ychwanegol pellach ym Mhorthaethwy
- iii. Cynyddu gwasanaeth seibiant a gofal dydd ar gyfer plant ag anableddau
- iv. Adeiladu cartrefi newydd effeithlon o ran ynni sydd â pherfformiad ynni gradd 'A' er mwyn lleihau'n ôl troed carbon
- v. Parhau i fuddsoddi yn ein stoc tai drwy ail-fodelu eiddo sydd bellach ddim yn addas a gweithio tuag at wireddu Safonau Ansawdd Tai Cymru II
- vi. Parhau i fuddsoddi mewn technoleg newydd i wella mynediad at wasanaethau i'n tenantiaid a chwsmeriaid mewn modd digidol
- vii. Lleihau'r gofyn am unedau llety argyfwng trwy gynyddu'r nifer o gartrefi parhaol sy'n cael eu datblygu
- viii. Defnyddio premiwm y dreth gyngor a godir i roi cymorth ariannol i brynwyr tro cyntaf sy'n methu fforddio prynu cartref ar y farchnad agored
- ix. Parhau i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd ledled yr Ynys
- x. Gweithio mewn partneriaeth i helpu i gefnogi unrhyw ffoaduriaid sy'n dod i fyw ar yr Ynys

Rydym yn ymrwymo i:

- ganolbwyntio ar anghenion ein cwsmeriaid a bod yn atebol iddynt
- cefnogi ein cwsmeriaid, tenantiaid, cydweithwyr a phartneriaid allweddol er mwyn gallu cynnal ein cymunedau
- arloesi er mwyn gwella ein darpariaeth tai drwy fanteisio mewn newidiadau deddfwriaethol ac ymgeisio i leihau gwastraff cysylltiedig a'r broses ddatblygu
- arloesi er mwyn gwella gwasanaethau ac i sicrhau gwerth am arian i'n tenantiaid a thrigolion

Erbyn 2028 byddwn wedi:

- Mynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd gan weithio tuag at wireddu Safonau Ansawdd Tai Cymru II
- Agor trydydd cynllun Tai Gofal Ychwanegol a gyda cynlluniau am y pedwerydd
- Cynyddu'r dewis a'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion yr Ynys gan hefyd gynorthwyo aelwydydd i allu prynu eu cartrefi cyntaf
- Cynnal asesiad anghenion marchnad tai gyda phrosbectws tai blynyddol er mwyn adrodd ar gynnydd mewn cyflenwad o dai fforddiadwy
- Cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid a dyrannu adnoddau er mwyn cynnwys llais ein tenantiaid o fewn ein gwasanaethau

4. Economi – sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys

Mae hanner poblogaeth Ynys Môn o oedran gweithio ac rydym yn cydnabod yr angen i wella cyfleoedd gwaith ar yr Ynys. Mae trigolion yn awyddus i weld mwy o gyfleoedd yn y sectorau cyfrifiadureg a thechnoleg, ynni, gweithgynhyrchu, twristiaeth ac iechyd.

Ein nod parhaus yw cefnogi busnesau presennol, denu buddsoddiad newydd addas, cynyddu nifer y busnesau newydd a sicrhau fod yr Ynys yn parhau i fod ag un o'r cyfraddau isaf yng Nghymru o ran cau busnesau.

○ **Adfywio a Datblygu Economaidd -**

- i. Archwilio cyfleoedd i adeiladu unedau busnes newydd ledled yr Ynys er mwyn caniatáu i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes dyfu
- ii. Cyd-weithio gyda pherchnogion tir i ailddatblygu safleoedd diwydiannol hanesyddol
- iii. Parhau i wireddu adferiad gwyrdd, cynaliadwy a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi
- iv. Sicrhau'r cyfleoedd gorau i gwmnïau lleol elwa ar gontractau a chyfleoedd sector cyhoeddus
- v. Cydweithio i wireddu Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn
- vi. Cydweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i gryfhau rôl Caergybi a'r porthladd fel 'Porth' rhyngwladol allweddol
- vii. Parhau i weithio mewn partneriaeth trwy Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i greu cyfleoedd lleol a rhanbarthol newydd
- viii. Parhau i fanteisio ar gyfleoedd cyllido allanol i sicrhau fod anghenion economaidd yr Ynys yn cael sylw.
- ix. Cynnal, cadw a datblygu ein hisadeiledd allweddol

○ **Yr Economi Ymwelwyr -**

- i. Rhoi cynlluniau Rheoli Cyrchfan ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) newydd ar waith
- ii. Parhau i fuddsoddi mewn isadeiledd craidd i ddarparu profiadau diogel a chynaliadwy er mwyn i drigolion ac ymwelwyr fwynhau arfordir a chefn gwlad yr Ynys
- iii. Cefnogi a chroesawu ymweliadau gan longau mordaith i Ynys Môn a Gogledd Cymru
- iv. Dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr a sicrhau fod pawb yn gwerthfawrogi rinweddau'r Ynys

Rydym yn ymrwymo i:

- Ysgogi adfywiad economaidd a chymdeithasol
- Cefnogi'r economi a busnesau lleol i dyfu a ffynnu
- Cynyddu ac annog datblygiad prosiectau carbon isel
- Cydweithio gyda'r sector twristiaeth i fanteisio ar boblogrwydd yr Ynys fel cyrchfan

Erbyn 2028 byddwn wedi:

- Cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni carbon isel
- Cydweithio i wireddu amcanion economi cylchol.
- Datblygu unedau busnes newydd i gynorthwyo tyfiant a datblygiad busnesau lleol
- Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol er budd yr economi yn lleol
- Cynyddu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn modd parchus a chynaliadwy er mwyn sicrhau buddion i'n cymunedau ac ymwelwyr
- Ail ddatblygu safleoedd diwydiannol a thiroedd llwyd hanesyddol

5. Newid Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at bod yn sefydliad sero net erbyn 2030

Mae'n amser dwysau a gweithredu'n bendant ar yr argyfwng hinsawdd a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn 2020. Mae hyn yn fater pwysig i blant a phobl ifanc ar yr Ynys. Ni fu'r angen i weithredu er lles yr hinsawdd a'n hamgylchedd erioed yn fwy hanfodol.

Trwy weithio mewn partneriaeth yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol ein nod yw ymateb i'r heriau a'r cyfleon yma mewn modd bositif, dewr ac arloesol fel y gallwn barhau ar y daith i fod yn Gyngor ac yn wlad sero net erbyn 2030.

- **Isadeiledd Allweddol, a Chynllunio Newid Hinsawdd**
 - i. Parhau ar y daith o leihau allyriadau carbon o dir ag asedau'r Cyngor a newid sut rydym yn gweithredu a darparu gwasanaethau
 - ii. Sefydlu cyfradd ailgylchu domestig o 70% a datblygu'r economi gylchol
 - iii. Datblygu a chyflawni cynlluniau trafndiaeth gynaliadwy fel datgarboneiddio trafndiaeth, teithio llesol, llwybrau beicio
 - iv. Annog datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol
 - v. Parhau i reoli ein safleoedd cefn gwlad yn effeithlon i gefnogi adferiad natur a datgarboneiddio
 - vi. Ystyried effaith newid hinsawdd a bioamrywiaeth o fewn penderfyniadau ar bob lefel o'r Cyngor
 - vii. Datblygu a chyflawni cynlluniau plannu coed a chloi carbon
 - viii. Parhau i leihau risg llifogydd mewn ardaloedd sy'n achosi pryder
 - ix. Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd
- **Rhaglen Ynys Ynni -**
 - i. Parhau i ddylanwadu ar ddatblygiadau ynni mawr i sicrhau cefnogaeth a buddiannau lleol a chymunedol hirdymor, a lleihau effeithiau negyddol posib
 - ii. Cefnogi a hwyluso datblygiadau ynni carbon isel posib e.e. gwynt, llanw, solar, hydrogen a niwclear, yn ogystal ag isadeiledd grid cysylltiedig addas.

Rydym yn ymrwymo i:

- weithio tuag at gyrraedd statws carbon sero net;
- cefnogi cymunedau i leihau allyriadau carbon a'u heffraith ar yr amgylchedd;
- rheoli ein tiroedd yn effeithlon i gefnogi adferiad natur, bioamrywiaeth a chloi carbon ble'n bosib;
- ymateb i hinsawdd sy'n cynhesu a newid a chefnogi cymdeithas i addasu sut mae'n gweithio, byw a defnyddio tir
- cydweithio gyda holl rhanddeiliaid allweddol i ddylanwadu ar ddatblygiadau ynni newydd a manteisio ar gyfleoedd buddsoddi mewn ynni carbon isel
- cefnogi cyfleoedd cynaliadwy a gwyrdd o fewn ein cymunedau

Erbyn 2028 byddwn wedi:

- Lleihau ein hallyriadau carbon uniongyrchol er mwyn sicrhau bod y targed net sero erbyn 2030 o fewn cyrraedd
- Cynyddu cyfraddau ail-gylchu
- sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth fel materion elfennol wrth gyrraedd penderfyniadau.
- creu opsiynau teithio carbon isel eang i drigolion ac ymwelwyr â'r Ynys.

6. Yr Iaith Gymraeg – cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n hunaniaeth, ein diwylliant a'n treftadaeth ac mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau ei bod yn parhau i ddatblygu a ffynnu. Mae'r iaith yn cael ei siarad yn eang yn ein cymunedau ac mae'r ganran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg ar Ynys Môn yr ail uchaf yng Nghymru. Rydym am weld cynnydd yn y nifer sy'n gallu siarad yr iaith ar yr Ynys a hefyd cynnydd yn y nifer sy'n ei defnyddio bob dydd.

Ein nod yw sicrhau bod ein ymdrechion ni yn lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gyflawni gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwr erbyn 2050.

Mae iaith a chyfathrebu hefyd yn rhan hanfodol o ddarparu llawer o'n gwasanaethau fel addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gallu defnyddio'r Gymraeg yn effeithio ar les ein trigolion ac yn aml mae'n fater o angen nid yn unig o ddewis.

○ **Diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu**

- i. Cynyddu'r nifer o blant a phobl ifanc sy'n astudio yn Gymraeg drwy weithredu cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg (CSGA)
- ii. Sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn deall gwerth a manteision y Gymraeg drwy gydweithio gyda Phartneriaeth Cymraeg i Blant a Theuluoedd Môn
- iii. Parhau i gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, drwy gydweithio gyda phartneriaid yn lleol
- iv. Codi statws y Gymraeg yn y gweithle drwy gynnig cyfleoedd datblygu, codi hyder a chymorth ymarferol
- v. Darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel a chadw at ofynion statudol
- vi. Sicrhau bod cyfleoedd i drigolion ddysgu a datblygu sgiliau yn y Gymraeg yn eu cymunedau drwy gydweithio gyda darparwyr dysgu a hyfforddi
- vii. Datblygu'r economi i gefnogi'r Gymraeg drwy fanteisio ar raglenni grant a chydweithio gyda busnesau lleol

Rydym yn ymrwymo i:

- Gynnig gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel
- Gweithredu ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg
- Cydweithio gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
- Cefnogi ein staff a'n cynghorwyr i gynyddu eu hyder a defnyddio mwy o Gymraeg yn eu gwaith

Erbyn 2028 byddwn wedi:




- Sicrhau bod ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn addas er mwyn ymateb i ganlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf pan ddaw'n amser i'w hadolygu yn 2026
- Diweddarau ein polisi iaith Gymraeg a datblygu polisi newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Defnyddio rhaglenni grant i ddatblygu'r Gymraeg yn yr economi a gyda busnesau
- Ehangu ein cynnig o hyfforddiant er mwyn creu mwy o gyfleoedd i'n staff, a'n cynghorwyr, partneriaid a thrigolion yr ynys ddatblygu eu sgiliau Cymraeg

Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae'r amcanion strategol uchod oll wedi'i llunio er er mwyn cefnogi'r Cyngor yn ei ddyletswydd i gwrdd â'n hamcanion llesiant er budd cenedlaethau'r presennol a hefyd chenedlaethau'r dyfodol. Ein hamcanion llesiant:

- Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir
- Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein hamcanion llesiant yn cyd-fynd ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru:

Cysylltiadau ag Amcanion Llesiant y Cyngor a Nodau Llesiant Cenedlaethol		Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cyfrifol ar lefel byd-eang
	Amcan Llesiant 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial hirdymor	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	Amcan Llesiant 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl		✓	✓	✓	✓	✓	
	Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

- Cymru Lewyrchus - Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd);
- Cymru Gydnerth – Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
- Cymru Iachach – cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosib a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
- Cymru sy'n fwy cyfartal – cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).
- Cymru o gymunedau cydlynus – Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

DRAFFET

Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol

Mae'r gwasanaethau cefnogi corfforaethol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn yn hanfodol ar gyfer llwyddiant gwasanaethau rheng flaen. Mae adnoddau, pobl a thechnoleg yn hanfodol wrth i'r Cyngor ymdrechu i foderneiddio a gwella perfformiad. Gan ein bod yn sefydliad sector cyhoeddus, mae yna hefyd brosesau deddfwriaethol y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw yn llawn. Mae rhai o gyfrifoldebau allweddol y gwasanaethau hyn yn cynnwys:


- Adnoddau Dynol: cyfrifoldeb am gydweithio â gwasanaethau rheng flaen er mwyn denu, cadw a datblygu gweithlu'r Cyngor.
- Perfformiad Corfforaethol: darparu barn annibynnol ar berfformiad, cynghori ar gyfleoedd i wella a hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus.
- Rhaglen Gorfforaethol a Rheoli Prosiect: sicrhau bod prosiectau'r Cyngor yn cael eu darparu mewn modd effeithiol ac effeithlon gan ddarparu gwerth am arian.
- TG: darparu systemau a gwasanaethau digidol dibynadwy a diogel er mwyn cefnogi gwaith y Cyngor.
- Adnoddau (Cyllid): darparu rheolaeth a chefnogaeth ariannol er mwyn sicrhau bod cyllid y Cyngor yn cael ei reoli mewn modd effeithiol.
- Cyfreithiol: darparu cyngor a chefnogaeth gyfreithiol i'r Cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol.
- Gwasanaethau Democraidaidd: rheoli prosesau democraidaidd y Cyngor, yn cynnwys cynnal etholiadau.
- Cwynion a Llywodraethiant Gwybodaeth: cyfrifoldeb am reoli a datrys cwynion, sicrhau bod y Cyngor yn dryloyw ac yn agored wrth iddo gydymffurfio â disgwyliadau rheoli data a phreifatrwydd.
- Caffael: cyfrifoldeb am gynghori a chefnogi'r gwaith o gaffael nwyddau a gwasanaethau gan sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn cyflawni'r gwerth gorau am arian.
- Archwilio Mewnol: darparu barn annibynnol ar systemau ariannol a gweithredol y Cyngor, adnabod risgiau a gwneud argymhellion am ffyrdd o wella.
- Cyfathrebiadau: cyfrifoldeb am gyfathrebu mewnol ac allanol, rhannu gwybodaeth a gweithgareddau ymgysylltu'r Cyngor.
- Iechyd a Diogelwch: cyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â rheoliadau iechyd a diogelwch, rheoli risg a hyrwyddo amgylchedd gwaith diogel.
- Polisi, cydraddoldeb, cyfieithu a'r Iaith Gymraeg: cyfrifoldeb am sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r deddfwriaethau a'r safonau perthnasol.
- Swyddfa'r Prif Weithredwr: Mae'r swyddfa'n cefnogi ac yn gyrru cyfeiriad strategol cyffredinol, cydlynad ac arweinyddiaeth sefydliadol y Cyngor.

Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad

Beth yw rheoli perfformiad?

Mae rheoli perfformiad yn broses lle mae'r Cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion y gwasanaethau ac amcanion unigol, o fewn adnoddau sydd gennym.

Mae'r ffigwr isod yn dangos y broses hon:



Ceir rhagor o wybodaeth yn atodiad 2.

Atodiad 1

STRATEGAETHAU / CYNLLUNIAU CEFNOGOL

- Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Blaengynllun Oriol Môn
- Strategaeth Sgiliau Gogledd Cymru
- Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad 2022
- Aseiad Anghenion o Boblogaeth 2022

Strategaeth Gyfalaf a Rheoli'r Trysorlys

- Cynllun Rheoli Cyrchfan
 - Cynllun Rheoli Toiledau Cyhoeddus
 - Cynllun Rheoli AHNE
 - Strategaeth Diogelwch Ynni'r DU
 - Codi'r Gwastad yn y Deyrnas Unedig
 - Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2016)
 - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
 - Polisi Cynllunio Cymru – rhifyn 11 Chwefror 2021
 - Strategaeth Genedlaethol ar Gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru
-
- Strategaeth Dai 2022-2027
 - Strategaeth Rhaglen Cefnogi Tai Ynys Môn 2022-2026
-
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
 - Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd
 - Tuag at Sero Net
 - Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan
 - Strategaeth / Cynllun Rheoli Asedau
 - Y Llwybr Newydd

Cynllun y Cyngor – Cyd-destun Strategol Cenedlaethol a Rhanbarthol

Strategaethau / Cynlluniau Cenedlaethol

- *Y Rhaglen Lywodraethu*
- *Y Cytundeb Cydweithio*
- *Strategaeth Effeithiolrwydd Ynni ar gyfer Cymru 2016-2026*
- *Strategaeth Dwf Gogledd Cymru (Rhagfyr 2020)*
- *Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru – Prosbectws Adfer Covid (Chwefror 2021)*
- *Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn*
- *Croeso i Gymru: blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025*
- *Ffyniant i Bawb – Cynllun Gweithredu ar yr Economi*
- *Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2*
- *Strategaeth Adeiladu Tai Cymdeithasol 2021*

Deddfwriaeth

- *Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*
- *Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant 2016*
- *Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2014*
- *Deddf yr Amgylchedd 2016*
- *Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Rhagfyr 2021)*
- *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*
- *Deddf Cydraddoldeb 2010*

Atodiad 2

Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad

Beth yw rheoli perfformiad?

Mae rheoli perfformiad yn broses lle mae'r Cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion y gwasanaethau ac amcanion unigol, o fewn adnoddau sydd gennym.

Cynllun y Cyngor

Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys ein nodau ac amcanion strategol ar gyfer y tymor etholiadol. Mae'n rhoi gwybod am y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor ac yn:

- gosod y fframwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a darparu ein gwasanaethau
- dylanwadu ar y modd y byddwn yn llunio ein cyllideb yn flynyddol, ac yn
- helpu i fonitro cynnydd ac asesu beth y byddwn yn ei gyflawni bob blwyddyn.

Sut a phryd y caiff ei fonitro?

Bydd y Cynllun yn cael ei gyflawni'r drwy wireddu'r dogfen cyflawni flynyddol (Ebrill – Mawrth). Bydd yn cael ei lunio ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac yn gosod cynlluniau penodol y Cyngor am 12 mis yn erbyn Cynllun y Cyngor. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, byddwn yn paratoi adroddiad perfformiad blynyddol i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y ddogfen cyflawni flynyddol dros y 12 mis diwethaf.

Caiff Cynllun y Cyngor ei fonitro drwy amrywiaeth o sianelau sy'n cynnwys:

- byrddau rhaglen trawsnewid chwarterol;
- adroddiad cerdyn sgorio corfforaethol chwarterol; ac
- adolygiadau gwasanaeth blynyddol

Yn dilyn hynny, bydd adroddiadau a gynhyrchir gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau hyn yn cael eu hystyried gan ein pwyllgor sgrwtini corfforaethol ac yna'r Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl aelodau yn ymwybodol o'r cynnydd yr ydym yn ei wneud yn erbyn ein blaenoriaethau.

Byrddau Rhaglen Trawsnewid

